Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Number: 07/2010

www.cymru.gov.uk

# Gwerthuso Cynllun Cymorth Pontio (TSS)

# Adroddiad Terfynol ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru

2010

**Gwerthuso Cynllun Cymorth Pontio (TSS)**

**Adroddiad Terfynol ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru**

**2010**

**Mike Maguire, Katy Holloway**
**(Prifysgol Morgannwg)**

**Mark Liddle, Fionn Gordon, Paul Gray, Alison Smith, Sam Wright**
**(ARCS Cyf)**

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rhannu'r farn honno o reidrwydd

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag: Robert Willis

Yr Is-adran Ymchwil Cymdeithasol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Ffôn: 01685 729138
Ffacs: 01685 729546
Ebost: robert.willis@cymru.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010
© Hawlfraint y Goron 2010

**Cynnwys**


Talfyriadau ....................................................................................................iv
Crynodeb Gweithredol……………………………………………………………………v
1 Cyflwyniad a Chefndir………………………………………………………………1
1.1 Nodau ac Amcanion.......................................................................................2
1.2 Methodoleg ....................................................................................................3
1.2.1 Cyfweliadau ................................................................................................3
1.2.2 Arsylwadau ..................................................................................................6
1.2.3 Data o gofnodion .........................................................................................6
1.2.4 Astudiaeth o ailgollfarnu………………………………………………………8
1.2.5 Materion Moesegol .......................................................................................9
1.3 Strwythur yr adroddiad ......................................................................................9
2 Trosolwg ar Gynllun Cymorth Pontio ................................................................ 10
2.1 Trosolwg cyffredinol ar TSS ............................................................................. 10
2.2 TSS yng Ngogledd Cymru ................................................................................ 10
2.2.1 Strwythur rheoli a staffio ................................................................................ 10
2.2.2 Cyfeirio, asesu a pharatoi ar gyfer rhyddhau carcharorion ................. 11
2.2.3 Cefnogaeth a chymorth ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau ........... 13
2.3 De Cymru, Gwent a Dyfed Powys.................................................................... 13
2.3.1 Rheolaeth a staffio ........................................................................................ 13
2.3.2 Cyfeirio, asesu a pharatoi carcharorion ar gyfer eu rhyddhau ............ 16
2.3.3 Cefnogaeth a chymorth ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau ........... 17
3 Gwerthuso’r broses: pa mor dda mae TSS yn gweithredu? .......................... 19
3.1 Recriwtio cleientiaid ........................................................................................ 19
3.1.1 Nifer o atgyfeiriadau a’u ffynonellau.............................................................. 19
3.1.2 Proffiliau carcharorion wedi’u cyfeirio at TSS................................................ 21
3.1.3 Troseddau a dedfrydau.................................................................................. 24
3.1.4 Problemau camddefnyddio sylweddau .......................................................... 25
3.2 Cynnal cysylltiad â chleientiaid ....................................................................... 27
3.2.1 Nifer yr achosion a gyfeirir a adawodd cyn gorffen ....................................... 28
3.2.2 Amlder a hyd y cysylltiad ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau ......... 33
3.2.3 Baich achosion .............................................................................................. 35
3.3 Ymglymiad â chleientiaid ................................................................................. 38
3.3.1 Ansawdd y Berthynas .................................................................................... 39
3.3.2 Ysgogiad, hunan-barch a hunangymorth ....................................................... 41
3.3.3 Help ymarferol a chyswllt gydag asiantaethau gwasanaethu.............. 43
3.4 Perthynas a chysylltiadau â Charchardai, Y Gwasanaeth Prawf a DIP ..... 52
3.4.1 Perthynas waith gyda charchardai ................................................................. 52
3.4.2 Perthynas gyda'r Gwasanaeth Prawf.............................................................. 57
3.4.3 Perthynas gyda DIP a gwasanaethau cyffuriau ac alcohol eraill......... 58
3.5 Perthynas gydag asiantaethau gwasanaeth eraill............................................ 64
3.6 Hyfforddi a Goruchwylio Mentoriaid ................................................................. 67
3.6.1 Hyfforddi ........................................................................................................ 67
3.6.2 Goruchwylio Mentoriaid, cymorth a rheoli risg .............................................. 68
3.7 Cadw Cofnod ................................................................................................... 69
3.7.1 Cofnodion gweinyddol ac ystadegol: manylion am gleientiaid a data cysylltu â nhw ......................................................................................... 70
3.7.2 Ffeiliau Achos ................................................................................................ 71

3.7.3 PalBase ..... 72
4 Arferion da ac awgrymiadau sut i wella ..... 75
4.1 Enghreifftiau o arferion da ..... 75
4.1.1 Gwaith mewngymorth ..... 75
4.1.2 Darparu i gasglu carcharorion tu allan i byrth y carcharh ..... 76
4.1.3 'Ymestyn allan pendant' ..... 77
4.1.4 Rhwydweithio lleol ..... 79
4.1.5 Cymorth 'trosiannol': gwella ymglymiad troseddwyr gyda gwasanaethau ..... 80
4.1.6 Ymgynghorwyr grŵp cymheiriaid ..... 80
4.1.7 Ffocws y Cynllun ar alcohol ..... 81
4.2 Gwelliannau a awgrymir ..... 81
4.2.1 Ymestyn ystod a gallu ..... 82
4.2.2 Atal cleientiaid 'rhag llithro drwy'r rhwyd' ..... 85
4.2.3 Comisiynu a chontractau ..... 86
4.2.4 Datblygu dulliau mwy strategol o ddelio â phartneriaeth ..... 88
4.2.5 Cadw cofnodion ..... 89
5 Effaith a chanlyniadau ..... 90
5.1 Parhad y gwasanaeth tu allan i'r carchar ..... 91
5.2 Ansawdd ymglymiad ôl-rhyddhau ..... 92
5.3 'Pontio' i wasanaethau eraill ..... 93
5.4 'Y pellter a deithiwyd' ..... 94
5.5 Aildroseddu ..... 96
5.6 Tystiolaeth ansoddol ..... 100
6 Crynodeb a chasgliadau ..... 102
6.1 Cyffredinol ..... 102
6.2 Materion yn ymwneud â'r broses ..... 103
6.2.1 Targedu ..... 103
6.2.2 Maint y maes ..... 103
6.2.3 Cadw cofnodion ..... 104
6.2.4 Hyfforddi mentoriaid, goruchwylio a rheoli risg ..... 105
6.3 Perthynas gydag asiantaethau eraill ac atgyfeiriadau atyn nhw ..... 106
6.3.1 Enghreifftiau o arferion da ac awgrymu gwelliannau ..... 107
6.4 Canlyniadau ..... 107
6.4.1 Parhad y gwasanaeth tu allan i'r carchar ..... 108
6.4.2 Ansawdd yr ymglymiad ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau ..... 108
6.4.3 'Pontio i wasanaethau eraill: cyfeiriadau a 'gwerth ychwanegol' ..... 109
6.4.4 'Y pellter a deithiwyd' - SSOM a ffeiliau achos ..... 109
6.4.5 Aildroseddu ..... 110
6.4.6 Tystiolaeth ansoddol arall ..... 110
6.5 Sylwadau wrth gloi: cwestiynau ar gyfer y dyfodol ..... 110
6.5.1 Cyfeiriadau a maint y maes: pa mor denau dylid taenu'r cymorth? ..... 110
6.5.2 Ehangu neu 'brif ffrydio' TSS? ..... 112
6.5.3 Athroniaeth, nodau ac arferion mentora ..... 113
LLYFRYDDIAETH ..... 117
ATODIAD A. TABL 1 ..... 119
ATODIAD B ASTUDIAETHAU ACHOS ..... 120

**Talfyriadau**

| | |
|---|---|
| CARAT | Gwasanaethau Cwnsela, Asesu, Cyfeirio (referral), Cynghori a Gofal dwy’r broses |
| CJIT | Timoedd Integredig Cyfiawnder Troseddol |
| DIP | Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau |
| DIR | Cofnod o Ymyriadau Cyffuriau |
| ECL | Trwydded Diwedd Cyfnod yn y Ddalfa (End of Custody Licence) |
| G4S | Group 4 Securicor |
| HMP | Carchar ei Mawrhydi |
| NOMS | Gwasanaeth Cenedlaethol ar Reoli Troseddwyr |
| OASys | System Asesu Troseddwyr |
| OGRS3 | Graddfa Ail-gollfarniadau'r Grŵp Troseddwyr (ddiwygiedig) |
| PGA | Ymgynghorydd Grŵp Cymheiriaid |
| SSOM | Mesur Canlyniad Gwasanaethau Cymorth |
| TSS | Cynllun Cymorth Pontio |
| LlCC/WAG | Llywodraeth Cynulliad Cymru |

**Crynodeb Gweithredol**

Cynllun Cymorth Pontio (TSS), prosiect Cymru gyfan a arianwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yw un o'r cynlluniau monitro mwyaf a'r un sydd wedi'i sefydlu hiraf ar gyfer cyn garcharorion yn y DU. Mae'n cynnig cymorth 'ochr arall y porth' i garcharorion byrdymor benywaidd a gwrywaidd sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Caiff y cynllun ei redeg gan Wasanaethau Cyfiawnder Group 4 Securicor (G4S), sy'n delio â Gwent, De Cymru a Dyfed Powys gydag wyth mentor, a CAIS/Nacro Cymru, sy'n delio â Gogledd Cymru gyda thri mentor ac yn cyflogi gweithiwr mewngymorth yn HMP Altcourse. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau gwerthusiad a gynhaliwyd yn 2008-09 i asesu TSS yn nhermau ansawdd ac effeithiolrwydd prosesau ac arferion ei sefydliad a'i effaith ar y grŵp cleientiaid. Y prif ganfyddiadau:

- Dros gyfnod o bum mlynedd, mae TSS wedi datblygu model arfer effeithiol iawn. Erbyn hyn mae ei rheolwyr a'r mwyafrif o'i fentoriaid yn bobl brofiadol, medrus iawn gyda chysylltiad cadarn gydag asiantaethau eraill. Roedd adborth budd-ddeiliaid allanol yn bositif iawn ar ansawdd ei waith. Ystyriwyd bod y Cynllun yn adeiladu ymddiriedaeth a pherthynas gefnogol gyda'i gleientiaid, yn llenwi bylchau pwysig mewn gwasanaethau ar gyfer cyn-droseddwyr (yn cynnwys darparu cymorth ar gyfer y grŵp sydd â phroblemau alcohol, grŵp sydd wedi'i esgeuluso i raddau) a chyflawni rôl 'pontio' drwy gynorthwyo ac annog troseddwyr i ymgysylltu ag asiantaethau eraill.

- Efallai mai cyfraniad pwysicaf TSS i adleoli carcharorion yw eu helpu i 'bontio' yn ystod y dyddiau cyntaf tyngedfennol ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau o sefyllfa ansefydlog i un lle gallan nhw ymglymu'n ystyrlon gydag asiantaethau a allai eu helpu i adeiladu ffordd o fyw mwy sefydlog a chychwyn symud oddi wrth y bywyd o droseddu a chamddefnyddio sylweddau.

- Mae TSS, nid yn unig wedi cwrdd â'i dargedau cyfeirio ond mae wedi cyflawni cyfraddau cyswllt uchel iawn ar ôl i garcharor gael ei ryddhau o'i gymharu â chynlluniau mentora gwerthuso (cwrdd â 56% o gleientiaid wyneb yn wyneb tu allan i'r carchar o leiaf unwaith, 39% ddwywaith neu fwy ac 18% o leiaf chwe gwaith). Mae ei fentoriaid hefyd yn parhau i weithio'n ddyfal gyda chyfran o gleientiaid am gyfnodau hyd at tri mis.

- Nodwyd nifer o feysydd lle gellir gwella, yn arbennig ehangu astudiaeth o garcharorion byr dymor yng Nghymru ar draws gwahanol sefydliadau, gwella systemau ac arferion cadw cofnodion ac adeiladu cysylltiadau strategol gydag asiantaethau eraill.

- Gan ddefnyddio data Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu, cymharwyd cyfraddau ail-gollfarnu dros ddwy flynedd holl gyfranogwyr TSS dros 21 oed a gafodd eu rhyddhau o amrywiaeth o garchardai yn ystod 2004-6 â chyfraddau sampl o garcharorion tebyg (h.y. carcharorion gwrywaidd byr dymor gyda phroblemau cyffuriau sylweddol) a oedd i mewn yn HMP Parc yn ystod yr un cyfnod ond heb gymryd rhan yng Nghynllun TSS. Amcangyfrifwyd cyfraddau ail-gollfarnu y ddau grŵp, gan ddefnyddio Graddfa ddiwygiedig Ail-gollfarnu Grŵp Troseddwyr (OGRS3), rhagfynegydd safonol aildroseddu a ddefnyddir

gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Gan fod OGRS3 yn seiliedig ar ffactorau risg statig ac felly ddim yn ystyried problemau cyffuriau, addaswyd y rhagfynegiadau hyn yn seiliedig ar ddata OASys, (System Asesu Troseddwyr cenedlaethol) y darparodd y Wweinyddiaeth Gyfiawnder ar ein cyfer.

- Ni chafwyd gwahaniaeth sylweddol mewn cyfraddau ail-gollfarnu rhwng cyfranogwyr TSS cyfan a'r sampl cymharu, cyfraddau'r ddau grŵp yn agos at y cyfraddau a ragwelwyd. Fodd bynnag, pan rannwyd y cyfranogwyr yn grwpiau llai, yn ôl faint o gyswllt wyneb yn wyneb roedden nhw wedi'i gael gyda mentoriaid ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau, daeth rhai gwahaniaethau eithaf pendant i'r amlwg. Yn benodol, ail-gollfarnwyd y rhai â 2-6 o gysylltiadau ar gyfradd is o lawer (71%) na'r grŵp cymharu (77%) nac ychwaith cyfranogwyr TSS nad oedd wedi cadw cysylltiad (83%) er gwaethaf bod y cyfraddau a ragwelwyd ar gyfer y tri grŵp yn debyg.

- Er nad yw hyn yn dystiolaeth derfynol bod mentora TSS yn cael effaith ar gyfraddau ail-gollfarnu (efallai, er enghraifft, bod fwy o gymhelliad gan y troseddwyr hynny a gadwodd gysylltiad i ymatal rhag troseddu na'r rhai a gollodd gysylltiad yn gynnar) , mae hyn yn debyg iawn i ganfyddiad Probation Resettlement Pathfinders (Clancy et al. 2006). Felly mae'n cefnogi'r ddadl ymhellach bod 'parhad perthynol tu hwnt i'r porth', sy'n cael ei gynnal am o leiaf ychydig o gyfarfodydd ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau, yn elfen bwysig o arferion adleoli effeithiol (Maguire & Raynor 2006; Lewis et al. 2007) .

- Casglwyd data ystadegol i fesur y 'pellter a deithiwyd' gan gyfranogwyr TSS o ran taclo anghenion criminogenig a fyddai'n cynhyrchu trosedd megis cyflogaeth, tai a chamddefnyddio sylweddau. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod cyfran gweddol fawr o gyfranogwyr TSS wedi gwneud cynnydd yn y meysydd hyn. Roedd hefyd dystiolaeth o ymglymiad uchel o gleientiaid a 'phontio' effeithiol i wasanaethau eraill.

Ystyriwyd nifer o faterion proses mwy effeithiol. Cafwyd bod:

- Sefydlu a pharhau i hyfforddi mentoriaid yn eang ac yn gyffredinol briodol

- Mentoriaid yn gyffredinol yn teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo'n dda yn eu rôl ac er gwaethaf y pellter mawr rhwng rhai mentoriaid a'u rheolwyr prosiect, roedd pob un yn hyderus bod y cymorth yn hygyrch pan oedd ei angen.

- Yr atgyfeiriadau yn gyffredinol briodol o ran y grŵp targed (merched a dynion byrdymor gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau). Mabwysiadodd dwy gangen y Cynllun wahanol bolisïau o ran carcharorion gyda phroblemau cyffuriau Dosbarth A tra bod tîm G4S yn gweithio o fewn y grŵp hwn, fe wnaeth Nacro/CAIS eu gadael i dîm DIP (a reolir hefyd gan Nacro) a chanolbwyntio ei ymdrechion ar y rhai â phroblemau alcohol neu broblemau cyffuriau sydd wedi ymwreiddio llai.

- Systemau cyfeirio yn HMP Parc ac Altcourse, lle mae gan dwy gangen y Cynllun gysylltiadau agos a phresenoldeb cyson yn gweithio'n dda ond roedd systemau dros y rhai wedi eu cyfeirio o garchardai eraill yn anghyson ac angen eu hatgoffa yn aml.

- Rhai problemau wrth geisio cael gwybodaeth am risg gan garchardai yn cyfeirio cleientiaid oedd yn golygu bod rheolwyr a staff yn 'mynd ar eu hôl'. Yn ddelfrydol cytunir ar lefel strategol gyda charchardai lle byddai gwybodaeth o'r fath yn cael ei throsglwyddo yn rheolaidd.

- Nifer o enghreifftiau gwych yn bodoli o gydweithio mewn partneriaeth a pherthynas dda rhwng mentoriaid a staff asiantaethau eraill, ond canfuwyd angen am berthynas mwy strategol gydag asiantaethau statudol yn arbennig, gan gynnwys cytundebau mwy ffurfiol ar, er enghraifft gweithdrefnau cyfeirio er mwyn sicrhau nad yw'r rhain yn dibynnu'n ormodol ar berthynas wresog rhwng unigolion.

Nodwyd y canlynol fel enghreifftiau clir o arferion da:

- Gwaith 'Mewngymorth'
- Darparu dull o'u casglu tu allan i'r pyrth
- 'Allgymorth pendant'
- Rhwydweithio lleol
- Gwella ymglymiad troseddwyr gyda gwasanaethau cymorth
- Ymglymiad Ymgynghorwyr Grŵp Cymheiriaid
- Ffocws y Cynllun ar alcohol

Yn olaf, cododd yr ymchwil nifer o 'gwestiynau ar gyfer y dyfodol':

- Pa mor denau dylid taenu'r cymorth? Yn gyntaf, a ddylid gwneud mwy o ymdrech i recriwtio cyfranogwyr o ystod ehangach o garchardai (a fyddai'n golygu ymdrech sylweddol i sicrhau nifer gymharol fechan o atgyfeiriadau) neu a ddylid canolbwyntio ymdrechion yn bennaf ar y carchardai sy'n dal y nifer fwyaf o garcharorion o Gymru? Ac yn ail a ddylid cyfyngu lefel y mentora i un cyfarfod yr wythnos, dweder, ac am uchafswm cyfnod o dri mis ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau? Neu a ddylai'r Cynllun gael ei arwain fwy gan y cleientiaid eu hunain fel y gall y troseddwyr sy'n dymuno derbyn cyfnodau mwy dwys o gymorth neu gyfnodau ymestynnol o gymorth gael mwy o sylw nag eraill a/neu barhau i gael eu mentora am gyfnodau hirach?

- A ddylid ehangu TSS a'i wneud/neu ei wneud yn wasanaeth brif– ffrwd? Roedd rhai a holwyd yn dadlau y dylid cynnig gwasanaethau TSS nid yn unig i fwy o garcharorion ond i gategorïau eraill o droseddwyr, gan gynnwys y rhai ar 'remand' neu ar orchymyn gwasanaeth cymuned. Roedd eraill yn teimlo y byddai cleientiaid yn elwa o weithgareddau mwy strwythuredig. Cododd hyn y posibilrwydd o TSS yn datblygu'n wasanaeth prif ffrwd, efallai'n cynnwys

integreiddio agosach a chyd gomisiynu gwasanaethau TSS gyda gwasanaethau asiantaethau eraill megis y DIP a'r Gwasanaeth Prawf. Er bod staff allweddol TSS yn awyddus i sicrhau sail ariannol cadarnach i'r gwasanaeth, roedden nhw'n wyliadwrus o ddatblygiadau fel hyn, yn ofni y gallai'r Cynllun golli ei gymeriad unigryw a chael ei 'lethu' gan sefydliadau mwy gydag agendau a blaenoriaethau gwahanol. Y farn gyffredinol oedd y dylid fod yn bwyllog wrth ymestyn, a'r flaenoriaeth gyntaf ddylai fod i gadarnhau'r ariannu a'r cytundebau partneriaeth presennol.

- A all y Cynllun ddefnyddio'i brofiad i helpu ddatblygu nod ac ymarferiad yr athroniaeth o fentora ym maes adfer troseddwyr? Er iddo gael ei grybwyll droeon mewn dogfennau strategol fel ffurf addawol o ymyrraeth, cyfyngwyd ar ei ddefnydd yn bennaf i brosiectau bach byr eu hoedl yn amrywio o athroniaethau a dulliau o weithio. Gall fod gan gynllun mor brofiadol â TSS y potensial i fynegi a rhannu dull clir o weithio (gyda 'model cydlynol ar gyfer newid' – gyda thystiolaeth sydd, gobeithio yn dangos, ei fod yn effeithiol) a fyddai'n dylanwadu ar arferion drwy'r wlad.

## 1 Cyflwyniad a Chefndir

Mae'r rhan fwyaf o oedolion o garcharorion yn rhai byr dymor (troseddwyr wedi'u dedfrydu i lai na 12 mis o garchar). Nhw hefyd sydd â chyfradd uwch o gael eu hail-gollfarnu a lefelau uwch o 'anghenion criminogenig' nag unrhyw grŵp arall o fewn poblogaeth carchar (Social Exclusion Unit 2002; Lewis et al. 2007; Hudson et al. 2007; Maguire 2007). Fodd bynnag, yn wahanol i garcharorion sydd yn y ddalfa am 12 mis neu fwy, does dim goruchwyliaeth statudol ar eu cyfer ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau. Dydy'r mwyafrif, felly, ddim yn derbyn nemor ddim cymorth gyda'u 'hadsefydlu' ac mae canran uchel ohonyn nhw'n gadael y ddalfa heb lety sefydlog a rhagolygon gwael a fawr ddim gobaith am waith cyflogedig. Eto, mae gan lawer broblemau camddefnyddio sylweddau, problemau nad ydyn nhw'n debygol o gael eu datrys ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau ac sy'n lleihau eu cyfle ymhellach o sicrhau llety sefydlog neu gyflogaeth ac o osgoi aildroseddu.

Cydnabuwyd bod y bwlch hwn yn y ddarpariaeth a ddwysawyd gan ddirywiad cyflym yn 'ôl ofal gwirfoddol' y gwasanaeth prawf yn ystod diwedd 1980au a dechrau'r 1990au (Maguire et al 2000), yn broblem ddifrifol mewn cyfres o adroddiadau annibynnol ac adroddiadau'r llywodraeth ar ddechrau'r ganrif hon (gweler, er enghraifft, Nacro 2000; HM Inspectorates of Prison and Probation 2001; Halliday 2001; Social Exclusion Unit 2002). Roedd Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn ymddangos ei fod wedi llenwi'r bwlch drwy gyflwyno dedfryd newydd sef 'Custody Plus' i ddisodli cyfnodau byr mewn carchar lle byddai troseddwyr ond yn treulio ychydig o wythnosau yn y ddalfa, ac yna nifer o fisoedd ar drwydded brawf. Fodd bynnag, gohiriwyd gweithredu'r cynlluniau yn 2005, yn rhannol oherwydd prinder adnoddau'r gwasanaeth prawf (Hough et al. 2006). Felly, mae adsefydlu carcharorion yn parhau'n broblem ddifrifol, problem sy'n cael ei datrys yn bennaf drwy gysylltiad ad hoc rhwng unedau adsefydlu'r carchardai eu hun ac amrywiaeth o asiantaethau allanol, neu wrth i sefydliadau preifat neu wirfoddol gynnal prosiectau.

Ymhlith yn prosiectau hynny mae nifer fawr o brosiectau'n seiliedig ar fentora, a'r mwyaf a'r un hynaf ohonyn nhw, y gwyddon ni amdano yn y DU yw Cynllun Cymorth Pontio (TSS). Sefydlwyd y Cynllun hwn ar sail Cymru gyfan gydag arian Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn benodol ar gyfer carcharorion byr dymor â phroblem camddefnyddio sylweddau. Roedd gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol bryd hynny yn arbennig o bryderus am y diffyg dilyniant rhwng y ddalfa a'r gymuned wrth ddarparu triniaeth ar gyfer cyffuriau ac alcohol a chefnogodd y syniad o wasanaetha yn seiliedig ar fentora a fyddai'n darparu cymorth i gyn-garcharorion 'tu allan i'r carchar' a'u helpu i sicrhau mynediad cynnar i driniaeth a gwasanaethau eraill yn y gymuned. Mae'r Cynllun yn derbyn mwyafrif o'i atgyfeiriadau o'r pedwar carchar yng Nghymru sy'n dal dynion yn y ddalfa am dymor byr (HMP Parc, Abertawe, Caerdydd a Prescoed) ac o HMP Altcourse yn Lloegr. Mae hefyd yn derbyn troseddwyr o ferched, yn bennaf o HMP Styal ac Eastwood Park. Dechreuodd y gwaith ar ddechrau Ionawr 2004 gyda'r lansiad swyddogol 11 Mawrth 2004. Cynhelir y Cynllun mewn partneriaeth gan ddau wahanol sefydliad, Gwasanaethau Cyfiawnder Group 4 Securicor (G4S) a CAIS/Nacro Cymru. Delir â charcharorion sy'n dychwelyd i Dde Cymru, Gwent neu Ddyfed Powys o swyddfeydd G4S ynghlwm wrth HMP Parc, Pen-y-bont ar Ogwr, tra delir â'r rhai sy'n dychwelyd i Ogledd Cymru gan bartneriaeth CAIS/Nacro Cymru wedi'u lleoli mewn gwahanol swyddfeydd ar draws chwe ardal awdurdod lleol. (Roedd yr olaf yn wreiddiol yn dal contract Dyfed-Powys, ond

trosglwyddwyd hyn i G4S ar ddiwedd 2007). Er mwyn bod yn gryno, cyfeirir weithiau at ganghennau CAIS/Nacro a G4S o'r Cynllun fel TSS yn 'y Gogledd' a'r 'Canolbarth/ De', yn eu tro.

Cynhaliwyd gwerthusiad interim o TSS ar ddiwedd 2004 (Clancy et al. 2005). Cafwyd bod y Cynllun yn gweithio'n dda o ran nifer yr atgyfeiriadau a chyfraddau cyswllt, ac fe'i hystyriwyd yn gynllun positif gan garcharorion ac asiantaethau eraill fel ei gilydd, ond roedd hi'n rhy gynnar i wneud datganiad cadarn am ei effaith ar y broblem cyffuriau neu droseddu. Ers hynny, mae'r hinsawdd ceryddol wedi newid yn sylweddol ers sefydlu NOMS, Gostwng nifer y Byrddau Partneriaethau Aildroseddu, grwpiau Pathway a dyfodiad comisiynu. Mae'n bwysig sefydlu ble mae TSS a'i ddull o ddefnyddio mentoriaid i ddelio ag adsefydlu yn ffitio i mewn i'r trefniadau newydd hyn, pa mor dda mae'n gweithio o ran proses a pha mor effeithlon yw ei gyfraniad i adsefydlu ac adfer cyn-garcharorion. I'r perwyl hwn, cynhaliwyd gwerthusiad newydd ar ddiwedd 2008 a dechrau 2009. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r canlyniadau. Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar y sefyllfa bresennol, ond mae hefyd yn defnyddio data hanesyddol i olrhain a rhoi sylwadau ar gynnydd a chanlyniadau'r prosiect dros y cyfnod yn y canol.

### 1.1 Nodau ac Amcanion

Prif nod yr ymchwil oedd gwerthuso effeithiolrwydd TSS o ran (a) ansawdd ac effeithiolrwydd y prosesau ar ymarferiadau a (b) yr effaith ar y grŵp cleientiaid.

Yn fwy penodol, yr amcanion oedd i werthuso sut roedd y Cynllun yn gweithredu'r canlynol:

- hysbysebu ei wasanaethau i asiantaethau statudol a gwirfoddol perthnasol;
- hyfforddi a rheoli mentoriaid;
- recriwtio y grŵp targed o droseddwyr;
- gwneud a chynnal cyswllt gyda throseddwyr cyn ac ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau;
- ansawdd y cymorth a ddarparwyd;
- atgyfeiriadau at asiantaethau eraill;
- cadw cofnod;
- trin gorgyffyrddiadau neu gystadleuaeth gyda chynlluniau tebyg;
- taclo unrhyw rwystr i droseddwyr rhag cael mynediad i'r Cynllun neu i wasanaethau ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau;
- cynnwys carcharorion â phroblemau alcohol yn ogystal â phroblemau camddefnyddio cyffuriau;

- ac i fesur unrhyw effaith ar y grŵp cleientiaid o ran:

- gostwng aildroseddu (i'r graddau ei fod yn ymarferol);
- gostwng lefelau a phatrymau niweidiol o gamddefnyddio sylweddau; a
- chynyddu mynediad i ymyriadau i adsefydlu ym meysydd llwybr NOMS megis tai, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Nod sylfaenol y gwerthusiad oedd asesu pa mor effeithiol yw TSS yn gyffredinol yn hytrach na'i gymharu â'i ddwy gangen (a gynhelir gan G4S a Nacro/CAIS). Fodd bynnag, ceir rhai gwahaniaethau pwysig yn y cyd-destun, yn y drefn a'r arfer a lle bo'n briodol, trafodir y ddau ar wahân.

## 1.2 Methodoleg

Mae'r gwerthusiad yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau data a dulliau dadansoddi, gan gynnwys cywain llenyddiaeth berthnasol, cynnal cyfweliadau gyda staff y prosiect, troseddwyr, cynrychiolwyr yr asiantaethau a budd-ddeiliaid eraill; arsylwi gweithgareddau'r Cynllun a dadansoddi cofnodion TSS. Yn ogystal, er mwyn cael amcan o ganlyniadau mentora TSS, cynhaliwyd astudiaeth fechan ar ail-gollfarnu, yn cymharu cyfraddau dwy flynedd ail-gollfarnu troseddwyr oedd wedi cymryd rhan yng Nghynllun TSS yn ystod 2004-06 gyda grŵp nad oedd wedi cymryd rhan oedd yng Ngharchar y Parc yn ystod yr un cyfnod. Dadansoddwyd ymhellach y 'pellter' a deithiwyd (e.e. o ran tai a chyflogaeth) yn ôl yr hyn a gofnodwyd gan y cynllun. Caiff yr ymarferion hyn eu disgrifio'n fanylach isod.

### *1.2.1 Cyfweliadau*

Ffynhonnell allweddol ar gyfer data ar gyfer gwerthuso'r broses a'r effaith oedd cyfweliadau lled strwythuredig gyda (1) staff TSS (uwch reolwyr, rheolwyr, goruchwylwyr a mentoriaid), (2) cleientiaid TSS cyn iddyn nhw gael eu rhyddhau, (3) cleientiaid TSS ar ôl eu rhyddhau (roedd rhai o'r rhain wedi cael eu cyfweld tra yn y ddalfa), a (4) staff asiantaethau eraill sy'n darparu gwasanaethau i droseddwyr ar ôl iddyn gael eu rhyddhau. Prif nod y cyfweliadau oedd casglu gwybodaeth am y gwaith ac effeithiolrwydd TSS mewn amryw o feysydd. Mae Tabl 1.1 yn rhoi crynodeb o'r nifer o gyfweliadau a gynhaliwyd ymhob categori a cheir rhagor o fanylion isod.

**Tabl 1.1 Cyfweliadau a gynhaliwyd**

| | De Cymru, Gwent Dyfed Powys | Gogledd Cymru | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **Cleientiaid cyn eu rhyddhau** | | | |
| - Dynion | 11 | 10 | 21 |
| - Merched | 0 | 3 | 3 |
| **Cleientiaid a gyfwelwyd ar ôl eu rhyddhau** | | | |
| - Dynion | 3 | 7 | 10 |
| - Merched | 0 | 0 | 0 |
| **Cleientiaid ar ôl eu rhyddhau yn unig** | | | |
| - Dynion | 8 | 2 | 10 |
| - Merched | 4 | 0 | 4 |
| **Staff TSS** | | | |
| - Mentoriaid | 7 | 3 | 10 |
| - Rheolwyr/Goruchwylwyr | 2 | 2 | 4 |
| - Uwch Reolwyr | 1 | 1 | 2 |
| **Cynrychiolwyr asiantaethau** | 5 | 13 | 18 |
| **Cyfanswm** | 41 | 41 | 82 |

Sylwer: Ni fu'n bosibl cyfweld unrhyw droseddwyr o ferched yn dychwelyd i ardaloedd De Cymru neu i Ddyfed Powys oherwydd anhawster cael mynediad at garcharorion yn HMP Eastwood Park.

Staff TSS (n=16)

Cynhaliwyd cyfweliadau gydag 16 aelod o staff TSS ar draws y pedwar rhanbarth. Yng Ngogledd Cymru cynhaliwyd cyfweliadau gyda'r canlynol: tri mentor, gweithiwr 'inreach' TSS wedi'i leoli yn HMP Altcourse, rheolwr y tîm a rheolwr y prosiect. Yn ardaloedd De Cymru, Gwent a Dyfed Powys, cynhaliwyd cyfweliadau gyda saith mentor[1], goruchwyliwr y tîm, rheolwr y prosiect a Phennaeth Rheoli Troseddwyr, Prosiectau Ymyrraeth a Chymunedol yn HMP/Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc. Cynhaliwyd y cyfweliadau hyn mewn preifat a recordiwyd bron y cyfan o'r

[1] Roedd yr wythfed mentor ar gyfnod mamolaeth yn ystod y cyfnod gwerthuso.

cyfweliadau'n ddigidol. Roedd hyd y cyfweliadau'n amrywio o 40 munud i bron i dair awr.

Cleientiaid TSS cyn eu rhyddhau (n=24)

Cynhaliwyd cyfweliadau gyda 24 o garcharorion ar ddedfrydau tymor byr oedd wedi cael eu cyfeirio at TSS ac ar fin cael eu rhyddhau. Cynhaliwyd y cyfweliadau yn HMP Altcourse, Styal a Parc.[2] Er nad oedd y dewis yn llwyr ar hap, doedd hi ddim yn debygol bod unrhyw duedd na ragfarn yn y dewis gan mai'r drefn arferol oedd cyfweld holl gyfranogwyr TSS ar fin cael eu rhyddhau yn y carchar penodol ar y diwrnod a ddewiswyd i ymweld. Cynhaliwyd y cyfweliadau cyn rhyddhau drwy ymweliadau cyfreithiol a recordiwyd pob un yn ddigidol. Ar gyfartaledd, roedd y cyfweliadau'n para rhwng 20 a 50 munud.

Mae'n bwysig nodi bod mwyafrif y rhai a gyfwelwyd cyn eu rhyddhau yn ddynion (n=23). Y rheswm pennaf bod diffyg menywod yn y sampl oedd yr anawsterau i gael mynediad i HMP Eastwood Park.

Cleientiaid TSS ar ôl eu rhyddhau (n=24)

Cynhaliwyd cyfweliadau gyda 24 o garcharorion ar ôl eu rhyddhau, carcharorion oedd wedi ymwneud â TSS am hyd at dri mis ar ôl eu rhyddhau. Trefnwyd y cyfweliadau gyda help mentoriaid TSS. Cynhaliwyd y cyfweliadau yn breifat (h.y. nid ym mhresenoldeb y mentor) mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys cartrefi'r troseddwyr a siopau coffi tawel. Roedd y mwyafrif yn gyfweliadau wyneb yn wyneb ac wedi'u recordio'n ddigidol. Mewn nifer fechan o achosion, cynhaliwyd cyfweliadau dros y ffôn a gwnaed nodiadau manwl.

Roedd y rhai a gyfwelwyd ar ôl eu rhyddhau yn cynnwys 10 cleient oedd wedi'u cyfweld gan yr ymchwilwyr cyn iddyn gael eu rhyddhau ac 14 nad oedd wedi'u cyfweld o'r blaen. Ceisiodd y tîm ymchwil gynnal cyfweliadau dilynol gyda chymaint â phosibl o'r rhai a gyfwelwyd cyn eu rhyddhau, ond bu'n anodd iawn cysylltu â dros hanner ohonyn nhw. Dydy hi ddim yn anarferol cael anhawster i olrhain cyn-garcharorion ar gyfer cyfweliadau dilynol a sonnir am hyn yn aml yn y llenyddiaeth. Mae'n bwysig pwysleisio bod y cyfweliadau a gynhaliwyd yn y gymuned, yn wahanol i'r rhai a gynhaliwyd yn y carchar, yn cynnwys tueddiad cynhenid yn y dewis; fel grŵp, roedd y troseddwyr y llwyddon ni i gysylltu â nhw yn fwy tebygol o fod wedi cael cysylltiad â mentor TSS ac mewn llety mwy sefydlog na'r rhai y methwyd cysylltu â nhw.

Cynrychiolwyr asiantaethau (n=18)

Cynhaliwyd cyfweliadau gydag 18 o gynrychiolwyr asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i droseddwyr ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau. Ymhlith y rhain roedd cynrychiolwyr o asiantaethau cyffuriau ac alcohol a chynlluniau tai yn ogystal â staff carchardai a'r gwasanaeth prawf. Cysylltwyd â chynrychiolwyr asiantaethau drwy reolwyr TSS a ddarparwyd rhestr o enwau a rhifau ffôn ar gyfer y tîm ymchwil i gysylltu â nhw. Cynhaliwyd y mwyafrif o gyfweliadau dros y ffôn ond cynhaliwyd

[2] Gwnaeth y tîm ymchwil drefniadau i gyfweld cleientiaid ar ddau achlysur yn HMP Caerdydd. Fodd bynnag, ni fu'n bosibl i gynnal y cyfweliadau y tro cyntaf oherwydd tywydd gwael ac ar yr ail achlysur gwrthododd y carcharorion gymryd rhan.

chwech wyneb yn wyneb. Recordiwyd y cyfweliadau naill ai'n ddigidol neu gymryd nodiadau manwl.

Trawsysgrifwyd y ffeiliau digidol o'r holl gyfweliadau a'u llwytho i mewn i NVivo i'w codio a'u dadansoddi. Defnyddiwyd ffrâm codio a ddatblygwyd gan y tîm ymchwil ar gyfer y broses godio. Seiliwyd y ffrâm godio ar y themâu a'r materion allweddol a fyddai'n ymddangos yn ystod y gwerthusiad. Darparodd data'r cyfweliadau wybodaeth ddefnyddiol am brosesau ac arferion gweithredol TSS yn ogystal â darpar gwybodaeth ansoddol am effaith TSS ar gleientiaid.

*1.2.2 Arsylwadau*

Yn ogystal â gofyn i staff a chleientiaid am eu barn a'u profiadau TSS, defnyddiwyd ymchwil arsylwadol hefyd i ystyried ei brosesai a'u arferion gweithredol. I'r perwyl hwn ymwelodd y tîm ymchwil yn gyson â swyddfeydd TSS, mynychu cyfarfodydd misol Ymgynghorwyr Grŵp Cymheiriaid yng Nghynllun G4S, ac arsylwi mentoriaid yn rhyngweithio â chleientiaid. Roedd yr arsylwadau hyn yn ddefnyddiol i ddatblygu trosolwg o TSS ac i fod yn sail i'r elfen o werthuso proses ar gyfer yr ymchwil.

*1.2.3 Data o gofnodion*

Elfen arall o'r gwerthusiad oedd archwilio'r cofnodion a gadwyd gan staff TSS. Roedd y data meintiol hyn yn ategu data ansoddol y cyfweliadau lled strwythuredig. Casglwyd y data meintiol o ddwy ffynhonnell: (1) cofnodion rheoli achos a (2) cronfeydd data electronig.

<u>(1) Cofnodion achosion unigol</u>

Er mwyn cael darlun cyfoethocach a mwy manwl a chywir o waith mentoriaid o ddydd i ddydd gyda'u cleientiaid, cynhalion ni ddadansoddiad o sampl o 84 o gofnodion achosion unigol a ddewiswyd ar hap - 35 yng Nghanolbarth/De Cymru a 49 yng Ngogledd Cymru. Dewiswyd y rhain o achosion a gaewyd yn ystod 2008-9, waeth pa mor hir roedden nhw wedi bod ar agor na chwaith a wnaed unrhyw waith gyda'r cleient. Yng Nghanolbarth/De Cymru roedd y cofnodion yn cynnwys ffeiliau papur oedd yn cael eu storio'n ganolog, yn cynnwys adroddiadau a gwblhawyd yn gyson gan fentoriaid o'u gweithgareddau gyda phob cleient (er, yn ddiweddar mae G4S wedi dechrau defnyddio PalBase i gofnodi deunydd tebyg yn electronig). Yng Ngogledd Cymru, mae mentoriaid yn cadw eu ffeiliau papur eu hunain yn cynnwys cofnodion achos manwl o'u gweithgareddau gyda'u cleientiaid, gan nad oedden nhw'n cael eu hannog i gofnodi gwybodaeth o'r fath (mae'n debyg am rhesymau cyfrinachedd a diogelu data). Felly, trafododd yr ymchwilwyr gyda phob un o'r mentoriaid a mynd drwy'r achosion, gan ofyn iddyn nhw adalw manylion o'r hyn roedden nhw wedi'i wneud gyda phob un. Ategwyd hyn mewn rhai achosion gydag adroddiadau o gofnodion PalBase roedden nhw cychwyn eu casglu. Er nad yw'r dull hwn yn llwyr foddhaol o ran cynhyrchu manylion cywir, mae o leiaf yn rhoi darlun eang i ni o'r hyn wnaed gyda phob cleient – roedd y mentoriaid, fel mae'n digwydd, yn cofio pob achos yn ardderchog. Nod yr ymarfer oedd archwilio (a) ansawdd cofnodion yr achosion, (b) lefel y cymorth a roddwyd, a (c) natur a nifer o atgyfeiriadau a wnaed i asiantaethau eraill. Roedd adolygiad ffeiliau achosion hefyd

yn ddefnyddiol i alluogi'r tîm ymchwil ganfod rhai astudiaethau achos diddorol (gweler Atodiad A).

(2). Cronfeydd Data

Darparodd rheolwyr TSS hefyd copïau cronfeydd data ar gyfer y tîm ymchwil yn cynnwys gwybodaeth am gleientiaid yn dyddio nôl i gychwyniad y Cynllun yn 2004. Cafodd y rhain eu dadansoddi (a) i gael proffil o gleientiaid oedd wedi bod yn ymwneud â'r Cynllun a (b) i ganfod manylion cleientiaid y gellir eu defnyddio fel sail i astudiaeth ail-gollfarnu.

Yng Ngogledd Cymru, roedd tîm TSS yn storio data mewn bas data perthynol (ar Weinyddwr SQL). Erbyn diwedd Rhagfyr 2008, roedd cofnodion ar 1,221 o droseddwyr yn cael eu cadw ar hwn. Roedd tua 20% o'r rhain wedi cael eu cyfeirio (neu wedi cyfeirio'u hunain) i'r Cynllun ar fwy nag un achlysur, felly mae'r 1,221 o atgyfeiriadau yn cyfeirio ar tua 1,000 o wahanol unigolion. Fel y trafodir yn nes ymlaen, mae amheuon ynglŷn â dibynadwyedd peth o ddata Nacro/ CAIS y blynyddoedd cynnar, yn bennaf oherwydd bod gorgyffwrdd yn bosibl rhwng gwaith mentoriaid TSS a'r gwaith y mae staff Nacro a CAIS sy'n cael eu cyflogi ar brosiectau eraill maen nhw'n cydweithio agos gyda nhw. (er enghraifft, tan Ebrill 2009, roedden nhw'n arfer rhannu swyddfeydd gyda gweithwyr DIP a gyflogwyd gan Nacro). Codwyd cwestiynau tebyg yn yr adroddiad interim (Clancy et al 2005) ac maen nhw wedi cael eu trafod gan y Bwrdd Prosiect droeon. Fodd bynnag, mae cyflwyno PalBase, system recordio gynhwysfawr ar gyfer cofnodi achosion ar gyfer TSS yn unig yn debygol o ddatrys materion o'r fath a gwella tryloywder y cofnodion yn fawr.

Yng Nghanolbarth/De Cymru, casglwyd data a'i storio mewn dau lyfr gwaith Excel. Roedd un yn cynnwys manylion o gyfranogwyr unigol a'r llall yn cynnwys manylion y cysylltiad rhwng cleientiaid a mentoriaid. Erbyn diwedd 2008, roedd data ar gael am 1,612 o gyfranogwyr TSS. Eto roedd rhai wedi cymryd rhan ar fwy nag un achlysur, ac mae'r cofnodion yn cyfeirio at tua 1,150 o unigolion gwahanol. Gan mai dim ond achosion TSS oedd yn cael eu cadw yn y bas data, gellir bod yn fwy hyderus am ddibynadwyedd y wybodaeth mae'n ei ddal. Fel y gwelir yn 1.2.4 isod, defnyddiwyd y bas data hwn i ddethol sampl o gyfranogwyr TSS rhwng 2004-06, y roedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ceisio cael gwybodaeth am ailgollfarnu.

Deilliodd dangosyddion arall o'r effaith o fas data pellach a gasglwyd gan G4S ers Ionawr 2008. Hwn yw'r 'SSOM' (Mesur Canlyniad Gwasanaethau Cymorth) sy'n darparu asesiad o'r 'pellter a deithiwyd' gan gleientiaid TSS o ran delio â'u problemau a'u hanghenion. Seilir yr SSOM ar chwe mesuriad allweddol: llety, camddefnyddio sylweddau, camddefnyddio alcohol, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, aildroseddu ac ymglymiad gydag asiantaethau camddefnyddio sylweddau. Defnyddir yr arf i sgorio cyfranogwyr ar ddechrau ac ar ddiwedd eu hymglymiad â TSS. Mae SSOM wedi bod yn esblygu ers iddo gychwyn cael ei ddefnyddio yn 2008 ac nid yw'n fesur gorffenedig eto, felly rhaid bod yn wyliadwrus wrth ei drin. Serch hynny, mae'n arf ag iddo addewid ac o'i ddefnyddio ar y cyd â data eraill gall fod o help i ddarparu darlun o anghenion y cleientiaid a'r cynnydd y maen nhw wedi'i wneud. Yn yr adroddiad hwn rydyn ni'n cynnwys dadansoddiad o ddata SSOM ar 374 o achosion a gwblhawyd erbyn diwedd Gorffennaf 2008.

*1.2.4 Astudiaeth o ailgollfarnu*

Mae rhan olaf y gwerthusiad yn cynnwys astudiaeth fechan o ail-gollfarnu. Yn gyntaf cafwyd manylion am holl droseddwyr a ymunodd â'r cynllun yn 2004-06 a'u rhyddhau cyn diwedd 2006 o fas data G4S. Er mwyn sicrhau grŵp cymharu, gofynnwyd i swyddog gweinyddol i fynd drwy hen gofnodion y carchar a dewis sampl ar hap ar ein cyfer o oedolion byr dymor oedd â phroblemau cyffuriau sylweddol a ryddhawyd o HMP Parc yn 2005 neu 2006 ond heb fod wedi bod yn rhan o gynllun TSS (ni chafodd troseddwyr a aseswyd â phroblemau alcohol yn hytrach na phroblemau cyffuriau, gan fod ffocws TSS yn y blynyddoedd cynnar ar y rhai â phroblemau gyda chyffuriau anghyfreithlon). Yna, rhoddwyd y ddwy set o droseddwyr drwy Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC) ar ein rhan gan staff y Weinyddiaeth Gyfiawnder er mwyn penderfynu pa ganrannau o bob set oedd wedi'u hail-gollfarnu o fewn dwy flynedd iddyn gael eu rhyddhau. Gan mai dim ond oedolion o garcharorion oedd yn y grŵp cymharu, ni ystyriwyd cyfranogwyr TSS o dan 21 oed. Ar ôl tynnu'r achosion hyn, ynghyd â throseddwyr na chafwyd 'match' iddyn nhw ar y PNC roedd 'grŵp ymyrrol' o 339 yn weddill a 'grŵp cymharu' o 154.[3] Yn ogystal â'u gwir gyfraddau ailgollfarnu, amcangyfrifwyd cyfraddau ailgollfarnu a *ddisgwyliwyd* gan y ddau grŵp gan ddefnyddio Graddfa ddiwygiedig Ail-gollfarnu Grŵp Troseddwyr (OGRS3), rhagfynegydd safonol aildroseddu y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ei ddefnyddio (Howard et al. 2009). Fodd bynnag, gan fod OGRS3 yn seiliedig ar ffactorau risg statig (oed, rhyw, a chollfarnau blaenorol) ac felly, ddim yn ystyried problemau cyffuriau, addaswyd y rhagfynegiadau hyn gan eu seilio ar ddata cenedlaethol ar ailgollfarnu dynion byr dymor gyda phroblemau cyffuriau (yn ôl diffiniad OASys - System Asesu Troseddwyr Cenedlaethol) a ddarparwyd ar ein cyfer gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Rhaid cydnabod nad yw'r grŵp TSS yn cynnwys sampl ar hap o boblogaeth berthnasol carchar (h.y. carcharorion tymor byr gyda phroblemau cyffuriau sylweddol), gan mai gwirfoddoli i ddod ar raglen y cynllun y mae carcharorion ac felly, rhaid bod yn wyliadwrus wrth drin y canfyddiadau. Mae hon yn broblem gyffredin gydag astudiaethau ôl-weithredol o'r math hwn, pan fydd y canfyddiadau yn anochel, yn llai dibynadwy na chanfyddiadau darpar brawf hap gyda grŵp rheoledig – yn amlwg fyddai hyn ddim yn bosibl yn yr achos hwn. Fodd bynnag, roedd hi'n dda gweld bod y cyfraddau ail-gollfarnu a ddisgwyliwyd ar gyfer y ddau grŵp (yn ôl mesur OGRS3) yn debyg, sy'n awgrymu nad oedd fawr o wahaniaeth o ran eu cyfansoddiad.[4]

[3] Ar y cychwyn, rhoddwyd manylion o 449 o gyfranogwyr TSS a 164 nad oedd yn gyfranogwyr TSS drwy'r PNC. Cafwyd paru ar gyfer 93% o'r rhai a gyflwynwyd (413 o'r grŵp TSS a 158 o'r grŵp cymharu). Ar ôl tynnu troseddwyr o dan 21 oed ynghyd â nifer fechan o achosion dyblyg, roedd cyfanswm o 493 o achosion yn weddill ar gyfer eu dadansoddi (339 yn y grŵp TSS, 154 yn y grŵp cymharu).

[4] Hefyd rhaid nodi, fod offeryn yr OGRS3 yn seiliedig ar ffactorau risg statig yn unig, na wyddon ni ddim am lefelau symbyliad perthynol y ddau grŵp. Fodd bynnag, sicrhawyd ni gan staff TSS mai cyfran cymharol fechan o garcharorion wrthododd â chymryd rhan yn y Cynllun ar gyfer y cyfnod dan sylw (2004-06) pan dynnwyd eu sylw ato: y prif rhesymau dros fethu â chymryd rhan yn y cynllun oedd peidio â bod yn ymwybodol o'i fodolaeth, neu brinder amser, adnoddau staff neu gyfyngiadau ymarferol eraill. Felly, mae cael gwahaniaethau mawr rhwng lefel symbyliad y ddau grŵp yn annhebygol.

### *1.2.5 Materion Moesegol*

Yn unol â Chod Moeseg Cymdeithas Droseddeg Prydain a Rheoliadau Prifysgol Morgannwg, cymerwyd gofal i sicrhau lles pob cyfranogwr. Rhoddwyd gwybodaeth glir i bob un a gyfwelwyd (naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig) am yr ymchwil cyn cynnal y cyfweliad. Darparwyd gwybodaeth ar lafar neu'n ysgrifenedig i holl gleientiaid TSS am natur gyfrinachol ac anhysbysrwydd yr ymchwil a'i amcanion yn ogystal â'r defnydd o ffurflen ganiatâd a defnyddio. Hefyd, cymerwyd gofal i gadw cleientiaid, yr oedd eu manylion yn cael ei storio ar fasau data electronig, yn anhysbys. Gwnaed hyn drwy dynnu unrhyw fanylion a allai eu henwi a trwy ddefnyddio cyfrineiriau i storio'r cronfeydd data'n ddiogel.

## 1.3 Strwythur yr adroddiad

Mae Adran 2 yn rhoi disgrifiad cyffredinol o weithredu TSS yng Ngogledd a Chanolbarth/De Cymru. Mae Adran 3 yn darparu 'gwerthusiad o brosesau' TSS, gan ystyried materion gweithredu a chyfundrefnol sy'n effeithio ar sut mae'n cyflenwi ei wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys recriwtio cyfranogwyr, eu hymglymiad a'u symbyliad, cymorth ymarferol a chysylltiad ag asiantaethau eraill, perthynas gyda phartneriaid allweddol megis carchardai, y gwasanaeth prawf a Rhaglenni Ymyriadau Cyffuriau, hyfforddi a goruchwylio mentoriaid a gwirfoddolwyr ac arferion cadw cofnodion. Mae Adran 4 yn nodi enghreifftiau o arferion da a meysydd posib ar gyfer gwella. Ceir crynodeb yn Adran 5 o'r hyn rydyn ni wedi gallu dysgu am ganlyniadau gweithgaredd TSS. Yn olaf, mae Adran 6 yn cyflwyno trafodaeth eang ar y canfyddiadau a dod i gasgliadau.

## 2 Trosolwg ar Gynllun Cymorth Pontio

Yn yr adran hon ceir disgrifiad o'r ddau gynllun sy'n gweithredu dan ymbarél TSS, gan ystyried yn fyr, strwythur eu rheolaeth, staffio, prosesau cyfeirio a mecanweithiau safonol ar gyfer cyflenwi. Ceir sylwadau am y strwythurau a'r prosesau hyn yn seiliedig ar gyfweliadau gyda staff, budd-ddeiliaid a chleientiaid yn nes ymlaen yn yr adroddiad. Er mwyn eglurder, rhennir y trosolwg yn ddwy ran. Mae'r rhan gyntaf yn canolbwyntio ar TSS yng Ngogledd Cymru, lle darperir y gwasanaeth gan Nacro Cymru a CAIS. Mae'r ail ran yn ystyried TSS yn Ne Cymru, Gwent a Dyfed Powys lle ceir G4S Gwasanaethau Cyfiawnder fel darparwr. Dilynir hyn gan broffiliau o nodweddion ac anghenion cleientiaid sy'n cymryd rhan yn y Cynllun.

### 2.1 Trosolwg cyffredinol ar TSS

Cyn ystyried dwy 'gangen' TSS, dylid nodi mai Bwrdd Prosiect sy'n goruchwylio'r Cynllun cyfan, Bwrdd sy'n cynnwys uwch aelodau o Lywodraeth Cynulliad Cymru, y Gwasanaeth Prawf, a'r Gwasanaeth Carchardai a'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau (DIP). Mae'r Bwrdd yn monitro cyflenwad TSS gan y ddau ddarparwr ac yn cwrdd yn ffurfiol yn chwarterol i adolygu adroddiadau'r darparwyr ac i ystyried cynnydd i gyflenwi'r targedau. Mae'r adroddiadau chwarterol yn darparu gwybodaeth am y nifer a ffynonellau'r atgyfeiriadau, yr oriau cyswllt gyda chleientiaid, atgyfeiriadau at asiantaethau eraill ac (i ryw raddau) y cynnydd a wnaed gan y cleientiaid. Mae'r darparwyr hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd Prosiect o dro i dro i wneud cyflwyniadau ac i ateb cwestiynau.

### 2.2 TSS yng Ngogledd Cymru

#### *2.2.1 Strwythur rheoli a staffio*


Rheolir cangen Gogledd Cymru o TSS mewn partneriaeth â Nacro Cymru a CAIS. Mae Nacro, a sefydlwyd yn 1966 yn cynnal dros 200 o brosiectau a draws Lloegr a Chymru yn darpar gwasanaethau i gyn-droseddwyr, pobl eraill dan anfantais a chymunedau difreintiedig, llawer ohonyn nhw'n canolbwyntio ar adsefydlu carcharorion. Sefydlwyd CAIS, darparwr gwasanaethau cyffuriau ac alcohol yng Nghymru, y sector gwirfoddol sy'n arbenigo mewn gwaith symbylu a mentora, yn 1976 o dan yr enw Cyngor Clwyd a Gwynedd ar Alcoholiaeth. Ei brif nod yw darpar ystod o wasanaethau ar gyfer pobl sy'n camddefnyddio cyffuriau neu alcohol ac i weithio gyda chymunedau ac asiantaethau eraill i atal niwed yn sgil camddefnyddio alcohol a chyffuriau.

Mae CAIS a Nacro yn aelodau o bartneriaeth eang DAWN, sydd ynddo'i hunan mewn bodolaeth ers 10 mlynedd gyda'r nod o ddarparu gwasanaethau integredig ar gyfer pobl sy'n camddefnyddio sylweddau yng Ngogledd Cymru. Ymhlith ei aelodau eraill mae SOVA, Ymddiriedolaeth y Tywysog (Prince's Trust), Ymyriadau Cyfiawnder Cymunedol Cymru, Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru, Shelter Cymru, Pennaf, HMP Altcourse a Working Links.

O fewn TSS, Nacro sydd bennaf gyfrifol am oruchwylio a rheoli mentoriaid yn y gymuned, tra bod CAIS yn gyfrifol am rheoli contractau, cadw cofnod a goruchwylio gweithiwr 'inreach' yn HMP Altcourse (Gweler Ffigwr 1). Mae Rheolwr Prosiect Nacro sydd wedi'i leoli yn Wrecsam, yn rheolwr llinell i arweinydd tîm a thri mentor sy'n cael eu talu (dau ddyn ac un ferch) ac wedi eu lleoli mewn tri gwahanol leoliad mewn gwahanol rannau o Ogledd Cymru (Sir Ddinbych a Chonwy, Wrecsam a Sir Fflint a Sir Fôn a Gwynedd). Rheolwr contract CAIS sydd wedi'i leoli yn Llandudno yw rheolwr llinell y gweithiwr 'inreach' (sy'n ddwyieithog). Mae'r holl staff yn mynychu cyfarfodydd goruchwylio gyda'u rheolwyr o leiaf bob chwe wythnos.

Mae holl staff TSS yng Ngogledd Cymru wedi derbyn hyfforddiant mewn mentora, technegau cyfweliad symbylu, therapi ymddygiad gwybyddol, materion yn ymwneud â chyffuriau ac alcohol, asesu risg a chymorth cyntaf. Ar ben hyn, pan ymunodd pob mentor â'r Cynllun, treulion nhw gyfnod yn cysgodi staff mwy profiadol cyn cael caniatâd i weld cleientiaid ar eu pen eu hunain.

Ffigwr 1: Strwythur staffio TSS Gogledd Cymru




*2.2.2 Cyfeirio, asesu a pharatoi ar gyfer rhyddhau carcharorion*

Targed presennol blynyddol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i gosod ar gyfer TSS yng Ngogledd Cymru yw 240 o gyfranogwyr (h.y. 20 y mis). Mae'r cynllun

ar gael i garcharorion, yn ddynion a merched sydd â phroblem camddefnyddio sylweddau, wedi'u dedfrydu i lai na 12 mis o garchar gan lys yng Ngogledd Cymru. Gallai carcharorion ar 'remand' hefyd gael eu recriwtio - nid yw'r ffaith eu bod wedi cymryd rhan o'r blaen yn eu gwahardd rhag cael eu cyfeirio eto. Gellir gwneud atgyfeiriadau o unrhyw garchar er yn ymarferol mae'r rhan fwyaf o gyfranogwyr gwrywaidd yn cael eu recriwtio yn HMP Altcourse lle lleolir y gweithiwr mewngymorth tra cyfeirir cleientiaid benywaidd yn bennaf o HMP Styal. Dydy'r Cynllun ddim yn gweithio fel arfer gyda throseddwyr sy'n defnyddio cyffuriau Dosbarth A, gan mai tîm DIP (yn gweithio gyda CARAT carchar – gwasanaethau Cwnsela, Asesu, Cyfeirio, Cynghori a Gofal drwy'r broses sy'n delio â'r rhain).

Yn HMP Altcourse tasg y gweithiwr mewngymorth yw mynd i weld pob carcharor sy'n gymwys yn ôl meini prawf a chynnig cymorth iddyn nhw. Os cytunan nhw i gymryd rhan yn y Cynllun, mae'r gweithiwr mewngymorth yn cwblhau Ffurflen Cyfeirio Gwasanaethau Gogledd Cymru ac yna'n ffacsio'r ffurflen orffenedig i swyddfa TSS ym Mae Colwyn. Yno, mae pob carcharor yn cael rhif DIP arbennig, wedi'i logio i mewn i fas data TSS, ac yna ffacsio copi o'r ffurflen i'r mentor priodol ar gyfer eu cofnodion personol eu hunain. Mae'r tri mentor yn mynychu syrjyris yn y carchar bob Dydd Llun yn eu tro i weld eu cleientiaid perthnasol, yn gleientiaid sydd eisoes yn bodoli a chleientiaid sydd newydd gael eu cyfeirio.

Yn HMP Altcourse mae'r gweithiwr mewngymorth yn peilota rhaglen feddalwedd o'r enw ComMIT, y mae cyfranogwyr TSS (ynghyd â charcharorion eraill) yn cael eu hannog i fynychu. Datblygwyd ac ariannwyd ComMIT gan CAIS mewn partneriaeth â nifer o unigolion sy'n meddu ar wybodaeth arbenigol. Mae'n defnyddio dull gwella symbyliad o fynd ati i ddelio â'r defnydd o gyffuriau ac alcohol. Mae'n debyg nad yw'r dull hwn o fynd ati wedi cael ei ddefnyddio o'r blaen mewn carchardai. Yn gyfredol, mae'r rhaglen yn cael ei gwerthuso gan fyfyriwr PhD o Brifysgol Bangor.

Yn gyffredinol, yn HMP Styal, tîm adsefydlu y carchar sy'n gyfrifol am y cyfeirio. Mae un o'r mentoriaid hefyd yn mynychu syrjeri adsefydlu y carchar bob Dydd Mercher.

Yr arfer safonol a argymhellir yw i'r mentor priodol (a ddyrennir yn ôl yr ardal y mae'r carcharor yn bwriadu byw ynddi) weld pob cleient o leiaf ddwywaith cyn iddyn nhw gael eu rhyddhau. Yn ystod y cyfarfod cyntaf, asesir anghenion y cleient gan ddefnyddio dull yn seiliedig ar Gofnod Ymyriadau Cyffuriau (DIR). Wedi'i gyflwyno yn 2005 gyda'r nod o sicrhau mwy o gysondeb a rhannu gwybodaeth yn well rhwng asiantaethau, defnyddir dull DIR yn rheolaidd gan Dimoedd Integredig Cyfiawnder Troseddol (CJITau), Rhaglenni Ymyriadau Cyffuriau a Gwasanaethau CARAT. Mae'n cynnwys gwybodaeth nid yn unig ar y defnydd o gyffuriau ac alcohol ond ar ystod o anghenion eraill megis llety a chyflogaeth. Fodd bynnag, dydy asesiad TSS ddim mor ddwys â'r DIR llawn.

Prif bwrpas yr ail gyfarfod yw i'r mentor allu trafod cynlluniau pendant gyda'r charcharor ar gyfer ei ryddhau/ei rhyddhau, gan gynnwys cynlluniau i'w gasglu/chasglu tu allan i'r pyrth ac unrhyw .drefniadau sydd gan y mentor efallai ar gyfer ei gyfeirio/chyfeirio at ddarparwyr gwasanaeth.

### *2.2.3 Cefnogaeth a chymorth ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau*

Ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau, mae'r mentoriaid wedi'u contractio i weithio gyda'r cleientiaid am gyfnod hyd at 12 wythnos, pa mor aml neu ba mor ddwys yn dibynnu ar anghenion y cleient. Wrth wneud hyn, gallan nhw ddefnyddio gwasanaeth mudiadau partneriaeth agos megis y DIP a phrosiectau eraill CAIS, Nacro a DAWN yn ogystal ag atgyfeirio i asiantaethau megis Shelter, Progress to Work a Working Links. Os yw'n briodol (h.y. os oes pryderon a fydd y carcharor yn mynychu) anogir mentoriaid TSS i drefnu apwyntiadau ar ran cleientiaid a/neu fynd gyda nhw i'w cyfarfod cyntaf o leiaf gyda sefydliadau neu asiantaeth newydd. Hefyd, hysbysir cleientiaid y gallan nhw gysylltu â'r mentor (fel arfer ar ffôn symudol) unrhyw bryd os oes ganddyn nhw broblemau dybryd sydd angen delio â nhw.

## 2.3 De Cymru, Gwent a Dyfed Powys

Mae Gwasanaethau Cyfiawnder G4S wedi'u contractio i gyflenwi gwasanaethau TSS ar draws De Cymru. Mae'r contract yn rhedeg am dair blynedd o fis Tachwedd 2007 tan fis Tachwedd 2010. Adran o Group 4 Securicor Plc yw Gwasanaethau Cyfiawnder G4S a ffurfiwyd yn 2004 ar ôl cyfuno Securicor Plc a busnes diogelwch Group 4 Falck A/S. Mae Group 4 Securicor Plc yn gweithredu mewn dros 110 o wledydd ac yn cyflogi dros 570,000 o weithwyr yn fyd eang. Hwn yw'r cwmni gwasanaethau diogelwch mwyaf yn y DU yn cyflogi tua 40,000 i bobl. Mae'r cwmni'n darparu ystod eang o wasanaethau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, gan gynnwys cludo arian papur, monitro electronig, clirio ffrwydrynnau, gwasanaethau plant a gwasanaethau cyfiawnder. Mae wedi gweithio yn y sector cyfiawnder troseddol er 1992 pan enillodd Securicor y contract i weithredu HMP Wolds, y contract cyntaf o'i fath a ddyfarnwyd i'r sector preifat.

Yn 2004,contractwyd Gwasanaethau Cyfiawnder G4S i gyflenwi gwasanaeth TSS yn Ne Cymru a Gwent. Adnewyddwyd y contract hwn yn 2007 a'i ymestyn i gynnwys cyflenwi TSS yn Nyfed Powys. Nifer darged ar gyfer atgyfeiriadau a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2008 oedd 323 ar gyfer De Cymru, 145 ar gyfer Gwent ac 110 ar gyfer Dyfed Powys. Bydd y targed ar gyfer Dyfed Powys yn codi i 121 yn 2009.

Lleolir tîm TSS-G4S mewn swyddfeydd tu allan i HMS Parc, ger Pen-y-bont ar Ogwr. Carchar lleol categori B yw HMP Parc, sy'n cael ei redeg yn breifat gan G4S. Mae'n dal tua 1,200 o droseddwyr gwrywaidd a throseddwyr ifanc ac yn cyflogi mwy na 580 aelodau staff.

### *2.3.1 Rheolaeth a staffio*


Mae TSS- G4S yn cael ei oruchwylio'n fewnol gan dîm rheoli yn cynnwys:

- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Rheoli Troseddwyr, G4S
- Pennaeth Prosiectau Rheoli Troseddwyr, Ymyriadau a Chymunedol (Cymru), HMP/Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc.
- Rheolwr TSS, De Cymru, Gwent a Dyfed Powys

Mae tîm TSS-G4S ei hun yn cynnwys rheolwr prosiect, goruchwylydd tîm, wyth mentor llawn amser (un ohonyn nhw'n ddwyieithog) a gweinyddydd llawn amser (gweler ffigwr 2). Mae hefyd yn gwneud defnydd o goruchwylydd gweinyddol rhan amser sy'n gweithredu fel dolen gyswllt rhwng TSS a Rheolaeth Troseddol Carchar Parc. Hefyd, ceir nifer amrywiol o gynorthwywyr gwirfoddol sy'n darparu cymorth gweinyddol a mentora fel bo'n briodol. Mae'r rhain yn cynnwys Ymgynghorwyr Grŵp Cymheiriaid (cleientiaid blaenorol TSS) yn ogystal â myfyrwyr Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd ac ymgeiswyr o Newlink Cymru.

Penodwyd rheolwraig y prosiect ym mis Awst 2003 pan enillodd Gwasanaethau Cyfiawnder G4S y contract i gyflenwi TSS yn Ne Cymru a Gwent. Ar hyn o bryd, mae'r rheolwraig prosiect yn treulio 90% o'i hamser yn rheoli TSS a 10% o'i amser yn cynorthwyo i reoli contract y Tîm Integredig Cyfiawnder Troseddol ar gyfer y DIP yn Ne Cymru, Rhanbarth y Gorllewin. Mae ei rôl yn cynnwys gweithdrefnau cyfundrefnol, rheoli cyllid, rheoli staff, gwneud gwerthusiadau (blynyddol), recriwtio staff a monitro gwirfoddolwyr. Mae'n gweithredu polisi drws agored lle gall staff gwrdd a thrafod unrhyw fater neu bryderon ar unrhyw adeg. Gallai'r ffaith nad oes fawr o fynd a dod ymhlith y staff a bod lefel absenoldebau oherwydd salwch yn isel, adlewyrchu'n rhannol y berthynas waith agos y mae'r rheolwraig, y goruchwylydd a mentoriaid yn cytuno sy'n bodoli.

Ffigwr 2: Strwythur staffio TSS Canolbarth/De Cymru




Roedd saith o wyth mentor TSS-G4S wedi bod yn eu swydd am fwy na 12 mis (yn amrywio o flwyddyn i 3 blynedd) ar ddiwedd 2008. Roedden nhw'n dod o wahanol gefndiroedd yn cynnwys y Ganolfan Waith, Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau a phrosiect digartrefedd. Roedd tri wedi cychwyn ar sail gwirfoddol tra'n astudio'n y Brifysgol ac roedd un yn gyn-droseddwr. O'r wyth, mae chwech yn ferched.

Penodir mentoriaid G4S[5] i'r Cynllun yn dilyn cyfweliad gyda phanel yn cynnwys rheolwraig y prosiect, y goruchwylydd a chyn gleient TSS. Ar ôl iddyn nhw gael eu penodi, dangosir DVD i'r mentoriaid yn dangos proses TSS o gyfnod yr atgyfeirio i ymglymiad yn y gymuned. Maen nhw'n treulio nifer o wythnosau yn 'cysgodi' cydweithwyr mwy profiadol a mynychu cyrsiau hyfforddi. Mae'r mentoriaid yn adrodd eu bod wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o raglenni hyfforddi, gan gynnwys cyrsiau cymorth cyntaf, ymwybyddiaeth o gyffuriau ac alcohol, cyfweld symbylol, technegau 'breakaway' a iechyd meddwl. Mae'r hyfforddiant yn barhaus a gofynnir yn gyson i'r mentoriaid (weithiau dymunir iddyn nhw) fynychu cyrsiau sy'n berthnasol

[5] Mae deunydd cyhoeddusrwydd TSS yn dangos bod mentoriaid yn cael eu recriwtio 'gan ystyried yn benodol eu priodweddau personol a'u goddefgarwch proffesiynol'.

i'w rôl. Mae mentoriaid newydd yn cael cyfnod prawf o chwe mis yn yr un modd ag unrhyw gyflogai newydd G4S.

Seilir TSS-G4S yn llwyr ar waith estyn allan sy'n golygu bod y mentoriaid yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser 'yn y maes': yn wir yn ystod 2008, dywedon nhw iddyn deithio, rhyngddyn nhw, fwy na 115,000 o filltiroedd. Darperir car, gliniadur, ffôn symudol, cit cymorth cyntaf a larwm personol ar gyfer pob mentor llawn amser. Cân nhw eu hannog i ddod i mewn i'r swyddfa ym Mhen-y-bont ar Ogwr o leiaf unwaith yr wythnos i drosglwyddo'u gwaith papur, cysylltu â mentoriaid eraill a chwrdd gyda'u goruchwylydd. Rhaid iddyn nhw hefyd fynychu cyfarfod misol Grŵp Ymgynghorol Cymheiriaid a gynhelir yn swyddfeydd Pen-y-bont ar Ogwr lle mae cyn-gleientiaid sydd wedi'u penodi fel Ymgynghorwyr y Grŵp Cymheiriaid yn cwrdd â mentoriaid, goruchwylydd y tîm a'r rheolwraig.

Mae Ymgynghorwyr Grŵp Cymheiriaid (PGA) yn ffurfio rhan bwysig o dîm TSS-G4S. Cyn-gleientiaid TSS ydyn nhw sydd wedi cwblhau eu hymglymiad 'ffurfiol' â TSS ac sydd ddim bellach yn troseddu nac yn camddefnyddio sylweddau. Mae'r PGA'au yn darparu safbwynt mewnol o'r anawsterau y mae cleientiaid yn eu cael ac felly'n gallu roi cyngor i gleientiaid TSS yn seiliedig ar brofiad personol. Yn eu tro, mae'r PGA'au hwythau yn teimlo eu bod yn cyflawni rhywbeth ac yn cael gwefr o'u rôl fel ymgynghorwyr i eraill. Mae'r PGA'au yn rhan o TSS mewn ffyrdd eraill gan gynnwys mynychu cyfarfodydd misol PGA, yn arsylwi'r broses o recriwtio mentoriaid newydd, datblygu mesurau ar gyfer canlyniadau (h.y. y SSOM) a chynorthwyo mentoriaid mewn gwaith estyn allan. Caiff y PGA'au eu monitro'n ofalus gan reolwraig y prosiect er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i wneud cynnydd ac i ddarparu cymorth ar gyfer TSS.

Goruchwylydd y tîm yw rheolwr llinell y mentoriaid sy'n cysylltu'n dyddiol â hi ar y ffôn a thrwy e-bost. Dechreuodd goruchwylydd y tîm gychwyn gweithio i TSS yn 2004 pan gyflogwyd hi'n un o'r mentoriaid llawn amser. Dyrchafwyd hi'n oruchwylydd yn 2007 ac ymhlith ei dyletswyddau mae goruchwylio mentoriaid, recriwtio cleientiaid newydd a chysylltu ag asiantaethau allanol. Y goruchwylydd sydd hefyd yn gyfrifol am fonitro'r gwasanaeth tu allan i oriau sy'n gweithredu rhwng 5pm a 9pm ar gyfer cleientiaid TSS sydd angen cymorth brys. Rheolwraig y prosiect yw rheolwr llinell y goruchwylydd.

*2.3.2* Cyfeirio, asesu a pharatoi carcharorion ar gyfer eu rhyddhau

Mae TSS G4S ar gyfer pob carcharor sy'n (a) adsefydlu yn nalgylch De Cymru, Gwent neu Ddyfed Powys, (b) wedi'i ddedfrydu i lai na 12 mis o garchar a (c) sydd â phroblem camddefnyddio cyffuriau neu alcohol. Fel yng Ngogledd Cymru, gall troseddwyr sydd wedi gweithio gyda TSS o'r blaen, ailymuno â'r Cynllun os cân nhw eu dedfrydu i dymor newydd yn y carchar cyhyd â'u bod yn cwrdd â'r meini prawf uchod.

Fel arfer, cyfeirir carcharorion i TSS gan aelod o dîm CARAT, ond caiff atgyfeiriadau o unrhyw ffynhonnell eu hystyried (gan gynnwys hunan-gyfeiriadu) os yw'r meini prawf yn cael ei bodloni. Yn HMP Parc, gwneir nifer fawr o atgyfeiriadau drwy oruchwylydd TSS sy'n mynd i mewn i'r carchar yn rheolaidd i hyrwyddo'r Cynllun i

ddarpar gleientiaid. Mae staff TSS hefyd yn gwneud cyflwyniadau cyson i garcharorion yn ystod eu cyfnod sefydlu yn y carchar, ac mae'r uned adsefydlu yn llwybr arall ar gyfer atgyfeiriadau. Mewn carchardai eraill, gwneir ymdrechion i gynyddu atgyfeiriadau drwy fynychu 'ffeiriau adsefydlu' a thrwy gysylltu â gweithwyr carchar. Mae'r Cynllun hefyd yn derbyn nifer fechan o atgyfeiriadau cyn-garcharorion sydd eisoes yn y gymuned (wedi'u rhyddhau o fewn y tri mis diwethaf) fel arfer drwy'r Gwasanaeth Prawf.

Atgyfeirir dwy ffonio neu ysgrifennu i swyddfa TSS. Unwaith y derbynnir atgyfeiriad, bydd y rheolwraig neu'r goruchwylydd yn gwneud penderfyniad a yw'n gymwys. Os penderfynir bod y troseddwr yn gymwys, agorir ffeil achos arno/arni [6] a dyrennir mentor i'r carcharor. Yna bydd y mentor yn ceisio ymweld â'r carcharor o leiaf ddwywaith cyn iddo/iddi gael ei ryddhau /ei rhyddhau. Fel yng Ngogledd Cymru, yn ystod y cyfarfod cyntaf, bydd y mentor yn cwblhau asesiad manwl o'r carcharor gan ddefnyddio Cofnod Ymyriadau Cyffuriau. Bydd y mentor hefyd yn defnyddio'r cyfarfodydd cychwynnol cyn i'r carcharor gael ei ryddhau i sefydlu perthynas gyda'r carcharor, dechrau cysylltu â'r asiantaethau cymorth perthnasol a threfnu cwrdd â'r carcharor ar ôl iddo/iddi gael ei ryddhau/ei rhyddhau. Lle bo'n briodol – yn enwedig os yw cleientiaid yn gadael heb gyfeiriad i fynd iddo (NFA) – anogir mentoriaid i wneud trefniadau i gwrdd â nhw tu allan i'r pyrth ar ddiwrnod eu rhyddhau.

### *2.3.3 Cefnogaeth a chymorth ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau*

Seilir TSS-G4S ar y cysyniad o 'lwyr ymestyn allan': does dim canolfan i gleientiaid ei mynychu. Unwaith mae cleientiaid wedi cael eu rhyddhau o'r carchar, bydd y mentor yn cadw cysylltiad gyda nhw ar y ffôn a thrwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Mae dwyster a hyd y cyswllt yn hyblyg ac yn cael eu haddasu yn ôl anghenion a dymuniadau'r cleient, ond ceir rhai reolau cyffredinol a bydd mwyafrif y mentoriaid yn dilyn dull safonol o weithio y byddan nhw'n ei newid pan fo'n briodol.

Yn gyntaf, tri mis yw'r cyfnod safonol o oruchwylio ar ôl i garcharor gael ei ryddhau ac ar ôl hynny bydd yr achos fel arfer yn cael ei gau (gellir, wrth gwrs ei gau cyn hynny os nad yw'r cleient yn 'ymglymu', neu am resymau eraill). Fodd bynnag, mae'r Cynllun wedi datblygu polisi lle gellir cadw cleientiaid sydd wedi derbyn tri mis o fentora, ymlaen am gyfnod pellach os yw'r ddau barti yn credu y byddai o les. Mae polisi '3-2-1' yn golygu bod gan gleientiaid hawl i wneud cais am ddau fis ychwanegol o fentora, wyth wythnos ar ôl iddyn nhw gael eu 'cau lawr'. Yna mae ganddyn nhw hawl i fis yn ychwanegol o fentora, wyth wythnos ar ôl iddyn nhw gael eu 'cau lawr' am yr ail dro. Anogir cleientiaid hefyd i gadw mewn cysylltiad ac i gysylltu â TSS eto os bydd argyfwng yn codi.

O ran pa mor aml y dylid cysylltu, y cynllun mwyaf cyffredin yw cyfarfod wyneb yn wyneb yn wythnosol – yn aml mewn siop goffi neu gaffi – ar ôl ffonio i gadarnhau'r apwyntiad a, lle bo'n briodol, gwaith rhagbaratoadol gan y mentor i drefnu ymweld ag asiantaethau. Fel yng Ngogledd Cymru, rhoddir rhif ffonau symudol y mentoriaid i'r cleientiaid a'u sicrhau y gallan nhw gysylltu â nhw pryd bynnag fo angen. Rhoddir

[6] Er Ionawr 2009, crëwyd a storiwyd ffeiliau'n electroneg gan ddefnyddio system PalBase, er bod copïau o wybodaeth arbennig yn dal i gael ei cadw ar bapur.

rhif llinell tu allan i oriau iddyn nhw hefyd i gysylltu os ydyn nhw'n cael anawsterau ac yn cael trafferth cael gafael ar eu mentor. Mae gofyn i'r mentoriaid gadw log gofalus o bob cysylltiad (galwad ffôn, neges destun, cyfarfod wyneb yn wyneb) gyda'u cleientiaid. Caiff y wybodaeth hon ei storio ar ffeiliau achos ar bapur ac, ers dechrau 2009, ar PalBase.

Yn ystod y cyfnod o dri mis, bydd y mentor yn gweithio'n agos gyda'r cleient i'w cynorthwyo gyda'u hanghenion (e.e. tai., cyflogaeth, camddefnyddio sylweddau, materion ariannol a sgiliau sylfaenol byw). Pan fo'n briodol, bydd y mentor yn cyfeirio'r cleientiaid at asiantaethau priodol. Bydd y mentor yn helpu'r cleientiaid nid yn unig i drefnu cyfarfodydd gydag asiantaethau cyfeirio ond hefyd mynd gyda nhw i'r cyfarfodydd hynny os tybir ei bod yn angenrheidiol i'w helpu i ymgysylltu â'r gwasanaeth. Rhoddir sicrwydd i gleientiaid, fodd bynnag, er y gallai eu hachos gael ei gau lawr yn swyddogol, na fyddan nhw'n cael eu gadael yn ddiymgeledd a gallan nhw ddal i gadw cysylltiad â'r Cynllun.

## 3 Gwerthuso'r broses: pa mor dda mae TSS yn gweithredu?

Yn yr adran flaenorol disgrifiwyd strwythurau cyfundrefnol ac arferion gwaith sylfaenol TSS, ac yn yr adran hon byddwn yn cychwyn gwerthuso ei brosesau gweithredu allweddol. Yn arbennig, rydyn ni'n asesu pa mor effeithiol yw TSS wrth recriwtio, ymglymu a chynnal cysylltiad gyda'r grŵp cleient targed; cysylltu ag asiantaethau eraill i gaffael gwasanaethau ar gyfer ei gleientiaid; plethu ei waith gyda gwaith carchardai, y gwasanaeth prawf a DIP; hyfforddi a goruchwylio mentoriaid a chadw cofnod. I wneud hyn, rydyn ni wedi defnyddio dadansoddiad o ddogfennaeth y Cynllun, cofnodion achosion a chyfweliadau gyda staff TSS, troseddwyr sy'n cymryd rhan yn y Cynllun a chynrychiolwyr asiantaethau eraill.

Byddwn yn ailgyfeirio at rai o'r canfyddiadau a drafodir yma eto yn adran 5, lle ceisiwn restru 'canlyniadau' TSS. Mae'r rhain yn cynnwys canlyniadau canolradd yn gysylltiedig ag 'arafu' ac ymatal rhag troseddu hirdymor, megis tystiolaeth o waith llwyddiannus symbylol gyda throseddwyr, o'u helpu i ddod o hyd i lety neu gael triniaeth am gamddefnyddio sylweddau, ac am gynnyrch eraill y gwaith a ddisgrifir isod.

### 3.1 Recriwtio cleientiaid

Dechreuwn drwy ystyried y nifer o atgyfeiriadau at TSS a'u ffynonellau ac i ba raddau y mae'r rhai a gyfeiriwyd yn paru â grŵp targed y Cynllun.

#### *3.1.1 Nifer o atgyfeiriadau a'u ffynonellau*

Mae Tabl 3.1 yn dangos cyfanswm blynyddol yr atgyfeiriadau at TSS rhwng 2004 a 2008 yn ôl cronfeydd data Nacro/CAIS a G4S. Gwelir bod y cyfansymiau wedi treblu bron dros y cyfnod hwn a chynyddu 36% rhwng 2007 a 2008. Mae gan ddwy gangen TSS dargedau blynyddol ar gyfer y nifer o gyfranogwyr i'w recriwtio. Yn 2008, y targedau oedd 578 ar gyfer G4S a 240 ar gyfer Nacro Cymru/CAIS. Fel y gwelir o'r tabl, roedd y ddau wedi rhagori ar y targed[7].

Yn achos Nacro/CAIS, cynyddodd atgyfeiriadau bron traean yn 2008, er gwaethaf colli Dyfed Powys i G4S. Cynnydd mawr mewn atgyfeiriadau o HMP Altcourse oedd yn cyfrif ymron yn llwyr am hyn, lle mae'r Cynllun wedi cyflogi gweithiwr mewngymorth penodol ac a gyflenwodd 85% o holl atgyfeiriadau Gogledd Cymru yn 2008 (yn wir, dros holl gyfnod y prosiect mae wedi cyfrif am dros thri chwarter o holl atgyfeiriadau Nacro/CAIS). Roedd hefyd gynnydd mewn atgyfeiriadau o ferched o droseddwyr o HMP/Canolfan Troseddwyr Ifanc Styal (o 20 yn 2007 i 30 yn 2008).

Mae'r patrwm ychydig yn wahanol ar gyfer G4S, lle mae ei atgyfeiriadau wedi cynyddu'n gyson flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2004. Er bod 57% o'i atgyfeiriadau wedi dod o HMP Parc (y carchar sy'n cael ei redeg gan G4S a lle lleolir TSS) mae achosion gweddol eang o garchardai eraill, yn arbennig Abertawe a Chaerdydd, lle y cynyddodd eu hatgyfeiriadau nhw yn amlwg yn 2008. Mae atgyfeiriadau 'cymunedol' hefyd yn eithaf cyffredin, sef achosion yn bennaf lle mae cyn-droseddwyr wedi ceisio

[7] Er bod G4S ychydig yn fyr o'u targed yng Ngwent, fe wnaethon nhw iawn drwy ragori arno mewn ardaloedd eraill, yn arbennig yn Nyfed Powys, lle cawson nhw flwyddyn lwyddiannus iawn.

cael help gan asiantaethau eraill (gan gynnwys y Gwasanaeth Prawf) ar ôl cael eu rhyddhau ac wedi'u trosglwyddo i TSS.

Tabl 3.1 Cyfanswm y nifer o atgyfeiriadau dilys a dderbyniwyd, fesul darparwr a ffynhonnell carchar (2004-2008)

| | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nacro Cymru – CAIS** | | | | | | |
| HMP Altcourse | 138 | 197 | 209 | 147 | 238 | 929 |
| HMP Stoke Heath | 0 | 10 | 18 | 6 | 10 | 44 |
| HMP/YOC Styal [M] | 3 | 6 | 22 | 20 | 30 | 81 |
| HMP Abertawe | 15 | 12 | 19 | 17 | 0 | 63 |
| HMP Walton Lerpwl | 1 | 15 | 5 | 4 | 0 | 25 |
| HMP Kirkham | 14 | 2 | 4 | 2 | 1 | 23 |
| HMP Parc | 3 | 1 | 5 | 11 | 0 | 20 |
| Eraill | 10 | 2 | 16 | 6 | 2 | 35 |
| *Is-gyfanswm* | ***184*** | ***245*** | ***298*** | ***213*** | ***281*** | ***1221*** |
| **G4S** | | | | | | |
| HMP Parc | 38 | 87 | 164 | 329 | 298 | 910 |
| HMP Caerdydd | 25 | 17 | 16 | 19 | 98 | 169 |
| HMP Abertawe | 16 | 56 | 29 | 18 | 37 | 154 |
| HMP Prescoed | 25 | 14 | 20 | 9 | 18 | 84 |
| HMP Eastwood Park [M] | 20 | 10 | 28 | 15 | 29 | 100 |
| HMP Bryste | 0 | 1 | 0 | 5 | 2 | 8 |
| Dalfeydd eraill | 0 | 5 | 4 | 2 | 21 | 31 |
| Cymuned | 1 | 2 | 2 | 37 | 97 | 139 |
| *Is-gyfanswm* | ***125*** | ***192*** | ***263*** | ***434*** | ***598*** | ***1612*** |
| **Cyfanswm** | **309** | **437** | **461** | **647** | **879** | **2833** |

Nodiadau:
'M'= merched.
Mae'r ffigurau a ddangosir yn deillio o fasau data'r Cynllun yn hytrach na ffigyrau swyddogol atgyfeiriadau i'r Bwrdd. Mae'r ddau gyfanswm hyn yn debyg ond dydy'r cronfeydd data ddim yn cynnwys nifer fechan o atgyfeiriadau (megis atgyfeiriadau amhriodol o garcharorion yn y carchar am gyfnodau hirach) nad oedd yn dderbyniol i TSS.
Mae ffigyrau Nacro Cymru/CAIS yn cynnwys Dyfed Powys am y cyfnod 1 Ionawr 2004 tan 31 Rhagfyr 2008.
Ymhlith 'Dalfeydd eraill' mae HMP Drake Hall, Low Newton, The Dana, Ashfield, Dartmoor, Foston Hall, Ashfield, Ballington, Blakenhurst, Brynsford, Hewell Grange, Leyhill, Shrewsbury, Stafford, Usk(Brynbuga), Portland a Winson Green.
Gellir cyfeirio unigolion i TSS ar fwy nag un achlysur ac mae hyn yn digwydd yn aml pan fydd cyn-gyfranogwyr yn aildroseddu a derbyn dedfryd newydd o gyfnod byr yn

y carchar. Roedd cyfanswm nifer yr unigolion a gyfeiriwyd tua 80% o'r holl atgyfeiriadau.

Drwyddi draw, mae'r dystiolaeth yn dangos bod dau ddarparwr TSS nawr yn gweithredu ar y lefel a bennwyd neu'n uwch o ran nifer y carcharorion a recriwtiwyd i'r Cynllun. Ar yr un pryd, mae'n amlwg bod carcharorion yng Ngharchar Altcourse a Parc yn fwy tebygol o gymryd rhan yng Nghynllun TSS na charcharorion o garchardai eraill. Mae hyn yn ddealladwy, o gofio bod gweithwyr TSS yn cael mynediad hawdd a chyson i'r ddau garchar hyn ac i'w carcharorion, y berthynas y maen nhw wedi ei adeiladu gyda'r staff sy'n gweithio ynddyn nhw a'r systemau trefnus a ddatblygwyd i ganfod carcharorion cymwys a'u hysbysu am y Cynllun. Fodd bynnag, mae cwestiynau'n codi am sut i ddarparu cyfleoedd tebyg mewn sefydliadau eraill.

### *3.1.2 Proffiliau carcharorion wedi'u cyfeirio at TSS*

Yn yr isadran hon, rydyn ni'n ystyried prif nodweddion cyfranogwyr a gyfeirir at TSS ac i ba raddau y mae'r rhain yn adlewyrchu nodau'r Cynllun. Yn ogystal â chyflawni'r nifer darged y cytunwyd arni, mae darparwyr TSS wedi'u contractio i ddarparu gwasanaethau i gategorïau gwahanol o garcharorion – yn y bôn, merched a dynion o droseddwyr (gan gynnwys carcharorion ifanc sydd â phroblem camddefnyddio sylweddau ac wedi'u dedfrydu i lai na 12 mis yn y carchar. Yn ychwanegol, yn unol â pholisïau cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gamddefnyddio sylweddau, rhoddwyd pwyslais arbennig ar fwrdd TSS yn recriwtio carcharorion gyda phroblemau alcohol sydd wedi tueddu i ddod yn ail i ddefnyddwyr cyffuriau mewn gwasanaethau sy'n rhoi triniaeth yn Lloegr.

#### *3.1.2.1 Rhyw, oed ac ethnigrwydd*

Fel y dengys yn Nhabl 3.2, dim ond lleiafrif bychan (8%) o gleientiaid a gyfeiriwyd at TSS sydd wedi bod yn ferched. Fodd bynnag, mae hyn yn uwch o lawer na chanran merched ym mhoblogaeth carchardai yn gyffredinol sydd o gwmpas 5% (Gwasanaeth Carchar EM 2008)

Tabl 3.2 Rhyw cleientiaid a gyfeiriwyd, fesul blwyddyn yr atgyfeirio a'r darparwr

| | 2004 - 2006 | 2007 | 2008 | Y cyfan |
|---|---|---|---|---|
| **Nacro/CAIS** | | | | |
| Dynion | 95% | 89% | 89% | 92% |
| Merched | 5% | 11% | 11% | 8% |
| Cyfanswm nifer | 727 | 213 | 281 | 1221 |

**G4S**

| | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | Y cyfan |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dynion | 84% | 94% | 89% | 95% | 92% | 92% |
| Merched | 16% | 6% | 11% | 5% | 8% | 8% |
| Cyfanswm nifer | 125 | 192 | 263 | 434 | 598 | 1612 |

Dengys Tabl 3.3 broffil oed y cleientiaid a gyfeiriwyd at ddwy gangen y Cynllun. Mae'r ffigyrau'n dangos bod y cleientiaid a gyfeiriwyd at TSS G4S ychydig yn ifancach na'r rhai a gyfeiriwyd at Nacro Cymru/CAIS TSS. Yr oed cymedrig oedd 28.4 yng Nghanolbarth/De Cymru o'i gymharu â 31.1 oed yn y Gogledd.

Hefyd yr un mor bwysig, roedd y ddwy ran o'r Cynllun wedi recriwtio nifer sylweddol o garcharorion ifanc (y rhai o dan 21 oed), sy'n dueddol o fod mewn gwir berygl o aildroseddu a llawer yn ystyried y bydden nhw'n elwa o gael eu mentora drwy ddarparu model rôl yn ogystal â'u helpu i ddysgu byw'n annibynnol. Dros oes y Cynllun, ymhlith atgyfeiriadau at G4S mae canran uwch o garcharorion ifanc, ond yn 2008, roedd y canrannau'n debyg yng Nghanolbarth/De a Gogledd Cymru, yn 13% ac 11 % o'r holl atgyfeiriadau, yn eu tro.

Tabl 3.3 Oed cleientiaid adeg eu cyfeirio fesul blwyddyn a darparwr

**Nacro Cymru/CAIS**

| ***Oed adeg eu hatgy*** | **2004-6** | **2007** | **2008** | **Y cyfan** |
|---|---|---|---|---|
| 18-20 | 8% | 14% | 11% | 10% |
| 21-25 | 17% | 20% | 26% | 20% |
| 26-29 | 18% | 21% | 15% | 18% |
| 30-34 | 24% | 14% | 14% | 20% |
| 35-44 | 25% | 22% | 20% | 23% |
| 45 neu drosodd | 8% | 10% | 13% | 10% |
| *Cyfartaledd (cymedrig) oed* | 31.4 | 30.5 | 31.0 | 31.1 |
| Gwaelodlin Rhif | 727 | 213 | 281` | 1221 |

**G4S**

| **Oed adeg eu cyfeirio** | **2004** | **2005** | **2006** | **2007** | **2008** | **Y cyfan** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 18-20 | 5% | 9% | 19% | 21% | 13% | 18% |
| 21-25 | 39% | 23% | 25% | 24% | 26% | 25% |
| 26-29 | 16% | 26% | 21% | 20% | 25% | 20% |
| 30-34 | 20% | 16% | 18% | 15% | 18% | 17% |
| 35-44 | 14% | 20% | 12% | 16% | 13% | 15% |
| 45 neu drosodd | 2% | 4% | 3% | 4% | 5% | 4% |
| *Cyfartaledd (cymedrig) oed* | 28.4 | 29.8 | 27.8 | 28.1 | 28.5 | 28.4 |
| Gwaelodlin Rhif | 125 | 192 | 263 | 434 | 598 | 1612 |

Sylwer: Efallai nad yw’r colofnau’n crynhoi i fod yn 100% oherwydd y talgrynnu.

Yn olaf, nid oedd ffigyrau llawn a dibynadwy ar gael ar gyfansoddiad ethnig y bobl a gyfeiriwyd at TSS am ddau reswm: (1) doedd data ar grŵp ethnig ddim wedi’i gofnodi’n electronig gan G4S a (2) er bod data ar grŵp ethnig yn cael ei logio ar fas data Nacro/CAIS, roedd well gan 40% o’r cleientiaid a gyfeiriwyd ‘beidio â riportio’ eu grŵp ethnig (gweler Tabl 3.4). Er bod y data yn annibynadwy, mae’n awgrymu ar yr olwg gyntaf, mai ychydig iawn o droseddwyr o blith Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig sydd wedi cymryd rhan yng Nghynllun TSS. Hyd yn oed a derbyn bod poblogaeth weddol isel o Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru o’i

gymharu â Lloegr, mae hyn y fater o bryder a dylid ei archwilio ymhellach[8]. Mae'n werth nodi bod astudiaethau blaenorol ar adsefydlu wedi cael bod tan-gynrychiolaeth o garcharorion Duon a Lleiafrifoedd Ethnig (gweler Clancy et al. 2006).

Tabl 3.4 Grŵp ethnig cyfeiriadau at Nacro Cymru/CAIS TSS, fesul blwyddyn

| Grŵp ethnig | 2004 - 2006 | 2007 | 2008 | Y cyfan |
|---|---|---|---|---|
| Gwyn | 73% | 17% | 56 | 59% |
| Du | <1% | 0 | <1% | <1% |
| Hil gymysg | <1% | 0 | <1% | <1% |
| Asiaidd | <1% | 0 | 0 | <1% |
| Heb riportio | 26% | 83% | 43% | 40% |
| Gwaelodlin rhif | 727 | 213 | 281 | 1221 |

Sylwer: Efallai bod y colofnau'n crynhoi i fod yn uwch na 100 oherwydd y talgrynnu.

*3.1.3 Troseddau a dedfrydau*

Dim ond yng Ngogledd Cymru hefyd roedd manylion am droseddau a dedfrydau ar gael yn hawdd, lle roedd y manylion wedi'u cynnwys yng nghofnodion cyfrifiadurol y Cynllun.

Mae hyd dedfrydau cleientiaid a gyfeiriwyd at Nacro Cymru/TSS CAIS yn 2007 a 2009 yn cael eu cyflwyno yn Nhabl 3.5. Mae data eto ar goll ond mae'n ymddangos, ymhlith carcharorion, bod tua'r un faint yn y carchar am chwe mis ag sydd yn y carchar am lai na chwe mis. Y ddedfryd fwyaf cyffredin oedd tri mis hyd at lai na chwe mis a byddai hyn yn gostwng yn is oherwydd yr amser a dreuliwyd ar remand neu ryddhad cynnar ar Ddiwedd Trwydded Cyfnod y Ddalfa (ECL), mae hyn yn golygu mai dim ond amser cymharol fyr sydd gan fentoriaid yn y mwyafrif o achosion i weithio gyda throseddwyr tra yn carchar (yn wir, mewn o leiaf 12% o'r holl achosion – o'r rhai a ddedfrydwyd i lai na thri mis o garchar – mae uchafswm o chwe wythnos ar gael). Mae hefyd yn drawiadol bod 13% o atgyfeiriadau yn garcharorion ar 'remand', yn ôl pob tebyg y mwyafrif o'r rhain yn disgwyl cael eu carcharu am dymor byr ac wedi eu cyfeirio er mwyn hwyluso'r broses o ymuno â TSS.

Mae'n ddiddorol nodi mewn 4% o achosion yng Ngogledd Cymru, dedfrydwyd y carcharorion i 12 mis neu fwy o garchar, er nad yw hyn yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cynllun. Mae'n ymddangos o drafodaethau gyda staff Nacro nad oedd y rhai a gyfeiriwyd wedi'u derbyn ar y cynllun fel achosion 'byw', tra bod eraill yn droseddwyr oedd wedi dychwelyd i'r carchar am gyfnod byr am dorri amodau eu trwydded, ac felly'n eu gwneud yn gymwys ar gyfer TSS. Darganfuwyd un neu ddau o'r mathau olaf hyn o achosion yn ffeiliau papur TSS G4S.

Fel y gellir disgwyl, roedd cyfranogwyr TSS yn euog o droseddau amrywiol. Mae Tabl Atodiad 1 yn dangos bod y rhai a gyfeiriwyd at Nacro/CAIS yn ystod deg mis

[8] Mae grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig wedi'u gorgynrychioli ym mhoblogaeth carchardai yn gyffredinol a gellid tybio bod hyn yn wir am garcharorion yng Nghymru hefyd.

cyntaf 2008 wedi cyflawni 15 math gwahanol o brif droseddau. Efallai mai'r canfyddiad mwyaf trawiadol oedd bod 20% o'r atgyfeiriadau yn gleientiaid oedd wedi'u cael yn euog o droseddau treisgar (yn bennaf, ABH, GBH neu glwyfo). Mae hyn yn awgrymu efallai mai alcohol oedd y ffactor pwysicaf a fu'n gyfrifol am eu troseddau. Mae hefyd yn dangos bod mentoriaid yn cymryd pobl a allai eu rhoi nhw eu hunain mewn perygl corfforol ac yn tanlinellu pwysigrwydd o asesiad risg cywir.

Tabl 3.5 Hyd dedfryd cleientiaid a gyfeiriwyd at Nacro Cymru/CAIS TSS, fesul blwyddyn

| Hyd y ddedfryd | 2004 - 2006 | 2007 | 2008 | Y cyfan |
|---|---|---|---|---|
| Llai na 3 mis | 11% | 13% | 14% | 12% |
| 3 i < 6 mis | 28% | 12% | 22% | 24% |
| 6 i < 9 mis | 17% | 26% | 15% | 18% |
| 9 i< 12 mis | 11% | 13% | 15% | 11% |
| 12 mis neu fwy | 3% | 8% | 3% | 4% |
| Remand | 15% | 4% | 15% | 13% |
| Heb recordio | 14% | 25% | 15% | 16% |
| Gwaelodlin Rhif | 727 | 213 | 281 | 1221 |

Sylwer: Efallai nad yw'r colofnau'n crynhoi i fod yn 100 oherwydd y talgrynnu.

### *3.1.4 Problemau camddefnyddio sylweddau*

Un o brif feini prawf cymhwyster ar gyfer TSS yw bod gan y carcharor broblem camddefnyddio sylwedd ac fel y nodwyd yn gynharach, anogir y Cynllun i roi'r un faint o sylw i broblemau alcohol ag i broblemau cyffuriau. Mae Tabl 3.6 yn dangos bod Nacro Cymru/CAIS TSS yn gynyddol wedi cymryd mwy o garcharorion gyda phroblemau alcohol dros y blynyddoedd ac mai problemau alcohol sydd yn y mwyafrif. Yn 2008, roedd gan 43% o garcharorion a gyfeiriwyd broblem cyffuriau a 63% â phroblem alcohol (mae'r ffigyrau hyn yn cynnwys 6% lle riportiwyd bod ganddyn nhw'r ddau).

Tabl 3.6 Natur problem camddefnyddio sylweddau cleientiaid a gyfeiriwyd at Nacro Cymru/CIS TSS, fesul blwyddyn

| **Natur y broblem** | **2004 - 2006** | **2007** | **Ionawr - Hydref 2008** | **Y cyfan** |
|---|---|---|---|---|
| Alcohol | 24% | 32% | 57% | 33% |
| Cyffuriau | 51% | 40% | 37% | 46% |
| Alcohol a Chyffuriau | 25% | 28% | 6% | 21% |
| Gwaelodlin rhif | 727 | 213 | 281 | 1221 |

Sylwer: Efallai nad yw'r colofnau'n crynhoi i fod yn 100 oherwydd y talgrynnu.

Gellir cael mwy o fanylion am natur problemau camddefnyddio sylweddau cleientiaid o gofnodion achosion sydd gan G4S. Er bod y wybodaeth hon, hyd yn ddiweddar, ar ffurf papur, gan wneud cywain y data yn dasg feichus, mae peth o'r data wedi cael ei drosglwyddo gan fyfyrwyr i fas data electronig a ddefnyddir i gynhyrchu Mesur Canlyniad Gwasanaethau Cymorth (SSOM). Fel y nodwyd yn gynharach, bwriad hwn yw mesur maint problemau cleientiaid cyn ac ar ôl eu hymwneud â TSS ac felly, i asesu'r 'pellter a deithiwyd' ganddyn nhw yn ystod eu cyfnod mentora. Roedden ni'n gallu dadansoddi data SSOM 374 o gleientiaid yr oedd eu hachosion wedi cau yn ystod saith mis cyntaf 2008 (gweler Tabl 3.7). Mae'r ffigyrau am gamddefnyddio sylweddau yn dangos bod mwyafrif o'r cleientiaid (53%) a ymunodd â TSS wedi bod yn chwistrellu cyffuriau neu'n defnyddwyr caotig cyffuriau dosbarth A neu B cyn ymuno â'r Cynllun (yn anffodus, dydy'r canran sy'n chwistrellu ddim ar wahân, felly mae'r categori hwn yn cynnwys ystod eang o broblemau cyffuriau). Dosbarthwyd 17% pellach fel defnyddwyr mwy reoledig (neu ddiogelach) o gyffuriau Dosbarth A neu B. Roedd gan dros bumed rhan o'r cleientiaid gysylltiad ag asiantaeth arbenigol i gael help gyda'u problemau camddefnyddio cyffuriau neu wedi llwyrymwrthod â chyffuriau.

Tabl 3.7 Natur problem wreiddiol cleientiaid G4S yn 2008 o gamddefnyddio cyffuriau

| Math o gyffur a natur y camddefnyddio | Sgôr ar y cychwyn |
|---|---|
| Dosbarth A/B – caotig / chwistrellu ayb | 53% |
| Dosbarth A/B – ymwybodol o'r risg | 17% |
| Dosbarth C | 8% |
| Gydag asiantaeth arbenigol/ meddyginiaethau cyfnewid/llwyrymwrthod | 21% |
| Cyfanswm nifer | 374 |

Sylwer: Yn seiliedig ar achosion a gaewyd rhwng Ionawr a Gorffennaf 2008

Gellir hefyd ddefnyddio data SSOM i ddangos mynychder problemau alcohol ymhlith cleientiaid yn 2008. Mae Tabl 3.8 yn dangos bod 59% wedi'u dosbarthu'n ddefnyddwyr dyddiol o alcohol neu'n goryfed mewn pyliau (binge drinking) ar adeg eu cyfeirio. Mewn geiriau eraill, fel yng Ngogledd Cymru, mae TSS G4S yn cymryd canran uchel o gleientiaid â phroblemau alcohol.

Tabl 3.8 Natur problem wreiddiol cleientiaid G4S yn 2008 o gamddefnyddio alcohol

| Disgrifiad o'r math o gamddefnyddio alcohol | Sgôr ar y cychwyn |
|---|---|
| Camddefnyddio dyddiol/goryfed mewn pyliau – ymddygiad annerbyniol | 59% |
| Dyddiol/Mewn pyliau – ymwybodol o'r risg - rheoledig | 5% |
| Yfed ar brydiau – diogel | 16% |
| Yn gysylltiedig ag asiantaeth arbenigol/llwyrymwrthod | 20% |
| Cyfanswm nifer | 374 |

Sylwer: Yn seiliedig ar achosion a gaewyd rhwng Ionawr a Gorffennaf 2008.

## 3.2 Cynnal cysylltiad â chleientiaid

Wrth gwrs, megis y dechrau yw recriwtio cyfranogwyr, ac mae'r nifer o atgyfeiriadau yn gysyniad ansefydlog bob amser – ynddo'i hun yn fesur gwael o effeithiolrwydd y Cynllun. Y gwir brawf yw i ba raddau y mae troseddwyr yn wir ymglymu gyda'r prosiect a'i fentoriaid. Trafodir y dystiolaeth am ansawdd y berthynas a sefydlir a'r mathau o wasanaethau a gynigir yn y ddwy adran nesaf. Yma, rydyn ni'n darparu trosolwg ystadegol rhagarweiniol o hyd a maint y contractau rhwng mentoriaid a throseddwyr cyn ac ar ôl i'r troseddwyr gael eu rhyddhau o'r carchar yn ôl cofnodion y Cynllun. Fel y soniwyd eisoes, mae gennym amheuon am gywirdeb peth o ddata Gogledd Cymru: efallai nad oedd rhai o'r cysylltiadau a recordiwyd gyda mentoriaid ond gyda staff eraill Nacro (e.e. gweithwyr DIP) y mae mentoriaid yn aml yn cydweithio'n agos gyda nhw a rhai o'u gweithgareddau wedi'u cofnodi ar yr un bas data.

*3.2.1 Nifer yr achosion a gyfeirir a adawodd cyn gorffen*

Mae Ffigyrau 3a a 3b yn cyflwyno yn eu tro 'siartiau'r nifer a adawodd cyn gorffen (athreuliad)' ar gyfer canghennau G4S a Nacro Cymru/CAIS o TSS. Cynhyrchwyd y rhain drwy gyfuno dau fas data gwahanol (un yn seiliedig ar unigolion, y llall yn seiliedig ar gysylltiadau) y mae'r Cynllun wedi'u cynnal ers i TSS gael ei sefydlu. Yn achos G4S, maen nhw'n cynnwys yr holl achosion a gaewyd hyd at Gorffennaf 2008 ac ar gyfer Nacro/CAIS hyd at ddiwedd Rhagfyr 2008[9]. Yn cychwyn gyda'r nifer o atgyfeiriadau i'r ddwy gangen, mae'r siartiau'n dangos y nifer o droseddwyr a gofnodwyd oedd wedi cael eu gweld yn y carchar gan fentoriaid (a/neu yn Altcourse gan weithiwr 'mewngymorth') a faint aeth ymlaen i gael eu gweld yn bersonol ar ôl cael eu rhyddhau.

Yn ôl y cofnodion hyn, yn ardal G4S, roedd mentoriaid yn cwrdd â charcharorion tra roedden nhw yn y carchar mewn 52% yn unig o'r holl achosion a atgyfeiriwyd, tra bod mentoriaid neu weithwyr Nacro/CAIS yn cwrdd â 73%. Gan fod y mwyafrif o achosion lle na chofnodwyd cysylltiad, yn cynnwys data o'r asesiadau cychwynnol (gwybodaeth am gamddefnyddio sylweddau, anghenion tai ayb.), rydyn ni'n tybio nad yw'r cronfeydd data yn ystyried cyfarfodydd cychwynnol yn 'gysylltiadau' ac felly mae'r ffigyrau uchod yn tangynrychioli faint o gysylltiad fu yn y carchar. Ond, gallai'r gyfradd uwch o gysylltiad â charcharorion yn y carchar a gofnodwyd gan Nacro/CAIS adlewyrchu gwahaniaeth go wir rhwng dwy gangen y Cynllun, presenoldeb gweithiwr 'mewngymorth' llawn amser a gyflogir gan TSS yn HMP Altcourse yn rhannol egluro hyn, y gweithiwr hwnnw oedd yn gallu canfod ac ymweld â darpar gleientiaid TSS yn ystod cyfnod cynnar eu dedfryd (cynorthwywyd TSS yng Ngogledd Cymru hefyd yn ystod y blynyddoedd cynnar gan weithwyr 'mewngymorth' a gyflogwyd gan Nacro neu CAIS). Mae TSS G4S yn delio ag ystod ehangach o garchardai sydd ddim bob amser yn atgyfeirio mor brydlon â Parc, a dydy ei fentoriaid ddim yn ymweld yn rheolaidd â phawb, felly yn fwy tebygol o fethu carcharorion sydd, er enghraifft, yn cael eu rhyddhau ar ECL heb rybudd. Hefyd, mae G4S yn derbyn nifer fawr o atgyfeiriadau o'r gymuned (h.y. atgyfeirio carcharorion newydd eu rhyddhau gan y carcharorion eu hunain, gan y gwasanaeth prawf neu asiantaethau eraill) lle nad yw'n bosibl wrth gwrs ymweld â'r carchar. Roedd 97 o atgyfeiriadau fel hyn yn 2008 (gweler Tabl 3.1)[10].

Fel y gwelir o'r siartiau, yn y ddwy ardal, cysylltwyd â chyfran deg o'r rhai na welwyd mohonyn nhw yn y carchar (ar wahân i gyfarfod asesu cychwynnol o bosib) yn nes ymlaen ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau. Yn gyfan gwbl, ar draws yr holl Gynllun,


[9] Yn aml, ceir oedi rhwng cau achosion yn swyddogol a dangos hyn ar y basau data, felly at bwrpas y siart hwn, rydyn ni wedi barnu bod achos wedi'i gau 5 mis ar ôl y cyfeirio cychwynnol neu dri mis ar ôl y rhyddhau. Dadansoddwyd bas data G4S i ddechau yn ystod cyfnod cynnar y gwaith maes, felly dim ond hyd at Orffennaf 2008 roedd ffigyrau ar gael. Fodd bynnag, yn wreiddiol, rhoddodd Nacro/CAIS fas data anghyflawn i'r tîm ymchwil ac ni ddaeth yr amryfusedd i'r golwg tan Ebrill 2009. Cynhaliwyd ail ddadansoddiad cyflawn o ddata Gogledd Cymru bryd hynny. O ganlyniad, roedden ni'n gallu cynnwys achosion a atgyfeiriwyd hyd at ddiwedd 2008 yn y dadansoddiad.

[10] Cyn Mehefin, 2007, yn gyffredinol, cofnodwyd cyfeiriadau o'r fath fel rhai oedd yn tarddu'n wreiddiol o'r carchar yr oedd y cleient wedi cael ei gadw ddiwethaf. Ers hynny, maen nhw wedi cael eu cofnodi ar wahân fel 'cyfeiriadau o'r gymuned'.

dros y pum mlynedd a fonitrwyd, gwelwyd tua 80% o’r 2,248 o droseddwyr a gyfeiriwyd at TSS wyneb yn wyneb gan fentor ar ryw bwynt neu’i gilydd.

O ran cysylltiad wyneb yn wyneb ar ôl i garcharor gael ei ryddhau, mae cofnodion cyfrifiadurol yn dangos dros y bedair i bum mlynedd ers sefydlu TSS, bod tua 56% o’r holl garcharorion a gyfeiriwyd at y Cynllun wedi cael cyfarfod wyneb yn wyneb â mentor o leiaf unwaith ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau. Fel y trafodir yn adran 5, mae hon yn ganran eithriadol o uchel o’i gymharu â chynlluniau mentora eraill a werthuswyd. Mae’r ffigyrau’n awgrymu bod mentoriaid G4S wedi gweld canran ychydig yn uwch na’u cymheiriaid yn y gogledd tu allan i’r carchar a’u gweld yn amlach (19% o’r holl achosion yn cael eu gweld chwe gwaith neu fwy o’i gymharu â 16%). Mae sefyllfa cysylltiad yn y carchar i’r gwrthwyneb ac efallai’n adlewyrchu ymdrechion mwy systematig mentoriaid G4S i ‘fynd ar ôl’ troseddwyr sydd ddim yn cadw apwyntiadau neu ddim yn ymateb i negeseuon. Mae gan G4S system sydd wedi’i hen sefydlu o alwadau ffôn, llythyru ac ymweliadau diwahoddiad â throseddwyr sydd wedi methu â chadw cysylltiad, a chafwyd pedair enghraifft ymhlith sampl o 35 o’u ffeiliau achos fod hyn yn talu ar ei ganfed a pherthynas waith yn cael ei hailsefydlu.

Ffigwr 3a: Siart nifer a adawodd TSS G4S cyn gorffen: achosion a gwblhawyd, Ionawr 2004 – Gorffennaf 2008





Nodiadau:

1. Yn seiliedig ar gronfeydd data G4S. Rhwng Ionawr 2004 a Gorffennaf 2008, cyfeiriwyd 1378 o gleientiaid at y TSS G4S. O'r rhain, roedd 1123 yn 'gymwys' i'w cynnwys yn nadansoddiad o'r nifer a adawodd cyn gorffen. Seiliwyd cymhwysTer ar achosion oedd wedi'u cau'n swyddogol, lle roedd dyddiad rhyddhau o leiaf 3 mis cyn diwedd Gorffennaf 2008, neu lle roedd dyddiad y cyfeirio o leiaf 5 mis cyn diwedd Gorffennaf 2008.

2. Mae'r term 'wedi'u gweld' yn cyfeirio at gysylltiad wyneb yn wyneb gyda mentor TSS. Fodd bynnag, mae'n debygol bod nifer o'r rheiny a gofnodwyd yn bobl 'heb eu gweld yn y carchar' mewn gwirionedd wedi cael eu gweld gan fentor neu staff arall TSS am gyfweliad asesu cychwynnol.

Ffigwr 3b: Siart nifer a adawodd Nacro/CAIS cyn gorffen: achosion a gwblhawyd, Ionawr 2004 – Rhagfyr 2008





Nodiadau:

1. Yn seiliedig ar fasau data Nacro/CAIS. Rhwng Ionawr 2004 a Gorffennaf 2008, cyfeiriwyd 1221 o gleientiaid at TSS Nacro/CAIS. O'r rhain, roedd 1125 yn 'gymwys' i'w cynnwys yn nadansoddiad o'r nifer a adawodd cyn gorffen. Seiliwyd cymhwyster ar achosion oedd wedi'u cau'n swyddogol, lle roedd dyddiad rhyddhau o leiaf 3 mis cyn diwedd Gorffennaf 2008, neu lle roedd dyddiad y cyfeirio o leiaf 5 mis cyn diwedd Rhagfyr 2008.

2. Mae'r term 'wedi'u gweld' yn cyfeirio at gysylltiad wyneb yn wyneb gyda mentor TSS. Fodd bynnag, mae'n debygol bod nifer o'r rheiny a gofnodwyd yn bobl 'heb eu gweld yn y carchar' mewn gwirionedd wedi cael eu gweld gan fentor neu staff arall TSS am gyfweliad asesu cychwynnol.

Yn olaf, mae Ffigwr 3c isod yn dangos siart nifer a adawodd ar gyfer holl gyfeiriadau 2008 at TSS yng Ngogledd Cymru. Mae hwn wedi'i gynnwys oherwydd yr amheuon a fynegwyd yn gynharach am ddibynadwyedd y data o'r blynyddoedd cynt a hefyd am ei fod yn delio â'r cyfnod ers dyfarnu contractau newydd a'r cyfnod pan orffennodd Nacro/CAIS ddelio â Dyfed Powys. Gellir gweld bod y canrannau a gofnodwyd o garcharorion a gafodd eu gweld yn y carchar (67%) ac ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau (44%) ychydig yn is nag yn y siart llawn ar gyfer 2004-2008, ond serch hynny, yn dal yn gymharol uchel o'i gymharu â chynlluniau mentora eraill. (Does gennym ni ddim data cyfwerth am y cyfan o 2008 ar gyfer G4S ond mae eu ffigyrau o Ionawr i Orffennaf 2008 yn debyg iawn i rai'r blynyddoedd cynharach).

Ffigwr 3c: Siart nifer a adawodd, achosion Nacro/CAIS a gwblhawyd Ionawr–Rhagfyr 2008




Nodiadau:

1. Yn seiliedig ar fas data Nacro/CAIS, pob achos, 2008.

2. Mae'r term 'wedi'u gweld' yn cyfeirio at gysylltiad wyneb yn wyneb gyda mentor TSS. Fodd bynnag, mae'n debygol bod nifer o'r rheiny a gofnodwyd yn bobl 'heb eu gweld yn carchar' mewn gwirionedd wedi cael eu gweld gan fentor neu staff arall TSS am gyfweliad asesu cychwynnol.

*3.2.2 Amlder a hyd y cysylltiad ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau*

Rydyn ni nawr yn ystyried y wybodaeth sydd ar gael am gysylltiad staff TSS â'u cleientiaid yn fwy manwl. Byddwn yn ychwanegu at ddadansoddiad o ddata o gofnodion cyfrifiadurol y Cynllun gyda'n samplau bychain ein hunain o achosion achos o 2008. Fel y nodwyd yn yr adran ar fethodoleg, cafwyd bod y rhain wedi'u cwblhau'n gydwybodol a thrylwyr gan fentoriaid ardal G4S. Doedd hyn ddim yn wir yng Ngogledd Cymru, ond darparodd cyfuniad o gofnodion cynnar PalBase a 'siarad drwy' pob achos gyda'r mentor ddeunydd o'r ardal honno oedd yn cyfateb yn fras (er, rhaid cydnabod, ei fod yn llai manwl, cywir a dibynadwy).

Fel yn nhablau'r 'nifer a adawodd heb orffen' uchod, wrth drafod 'cysylltiad' byddwn yn canolbwyntio'n bennaf ar gysylltiad wyneb yn wyneb ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau o'r carchar. Mae hyn yn bennaf oherwydd mai'r agwedd bersonol hon o estyn allan, lle mae mentoriaid yn datblygu perthynas gyda chyn-droseddwyr a'i ddefnyddio i'w symbylu a'u cynorthwyo yn eu hymdrechion i adeiladu gwell bywyd sydd wrth wraidd athroniaeth ymarferiad TSS a'r hyn mae'n ceisio'i gyflawni. Dydy hyn ddim yn dibrisio mewn unrhyw fodd y gwaith a wneir cyn i droseddwr gael ei ryddhau sydd yn aml yn hollbwysig i ymglymu'r troseddwr yn y lle cyntaf, na chwaith y gwaith cysylltu dros y ffôn sydd hefyd, yn amlwg, yn fodd hanfodol o gynnal yr ymglymiad ac 'i hwyluso pethau' er mwyn sicrhau bod troseddwyr yn cadw apwyntiadau. Mae ffeiliau achosion G4S yn rhoi darlun byw i ni o'r ymdrechion dyfal sydd eu hangen yn aml i gadw cysylltiad â chleientiaid TSS: mae llawer o'r ffeiliau'n cynnwys cofnod o sawl ymdrech seithug i gysylltu dros y ffôn, gan gynnwys ffonau symudol yn cael eu diffodd, ffrindiau neu aelodau'r teulu'n cymryd y neges, gadael negeseuon ar beiriannau ateb ac yn y blaen. Gall galwadau ffôn hefyd fod yn werthfawr i rybuddio mentoriaid o ddarpar argyfyngau, atal hunan niweidio ac yn y blaen, yn ogystal, o dro i dro, â'u defnyddio i drafod problemau personol yn ddwys.

Mae Tabl 3.9 eto'n seiliedig ar gofnodion cyfrifiadurol y Cynllun ers 2004, yn dangos cyfanswm yr amser y treuliodd gweithwyr TSS ar gyfartaledd mewn cysylltiad â phob troseddwr tu mewn a thu allan i'r carchar. Mae'r achosion lle na chofnodwyd unrhyw gyswllt yn cael eu hanwybyddu. Dangosir cyfartaledd yr amser a dreuliwyd mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb a galwadau ffôn ar wahân.

Eto, ceir rhai gwahaniaethau ym mhatrwm dwy gangen TSS. Roedd cyfartaledd cyfanswm yr amser cyswllt fesul cleient tu mewn i'r carchar yn sylweddol uwch yn ardal Nacro/CAIS nag oedd yn ardal G4S ac ar ei uchaf yn 2008: mae hyn yn dystiolaeth bellach bod ffocws Gogledd Cymru ar HMP Altcourse a chyfraniad y gweithiwr 'mewngymorth' yno.[11] Mewn cyferbyniad, roedd yr amser cymedrig ar ôl rhyddhau (eto'n anwybyddu achosion lle nad oedd cyswllt) ychydig yn uwch nag ar gyfer cleientiaid G4S a gafodd ar gyfartaledd 8.4 awr o gysylltiad wyneb yn wyneb gyda mentoriaid ar ôl bod yn y carchar. Fel y nodwyd eisoes, mae amheuon a yw'r data a gofnodwyd yng Ngogledd Cymru yn cyfeirio at gysylltiad gyda mentoriaid yn unig neu'n cynnwys rhai gyda gweithwyr eraill Nacro/CAIS.

[11] Nid yw'n glir i ba raddau mae cofnodion o gyfarfodydd tu mewn i'r carchar yn cynnwys cyfweliadau asesu cychwynnol, felly rhaid bod yn wyliadwrus wrth drafod y ffigyrau hyn.

Tabl 3.9 Hyd y cyswllt fesul darparwr, math o gyswllt a blwyddyn y cyfeirio

| | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008* | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nacro Cymru/CAIS** | | | | | | |
| ***Cyfanswm hyd ymweliadau carchar*** | | | | | | |
| Amser cymedrig fesul achos | 2.28 | 2.75 | 3.26 | 3.53 | 4.04 | 2.86 |
| Nifer o achosion | 140 | 201 | 217 | 145 | 122 | 825 |
| Lleiafswm | 0.5 | 0.25 | 0.1 | 0.33 | 0.5 | 0.1 |
| Uchafswm | 15 | 13.92 | 19.3 | 28 | 27 | 28 |
| ***Cyfanswm hyd cyswllt wyneb yn wyneb yn y gymuned*** | | | | | | |
| Amser cymedrig fesul achos | 12.34 | 8.79 | 6.63 | 5.92 | 9.60 | 8.14 |
| Nifer o achosion | 89 | 149 | 180 | 106 | 94 | 618 |
| Lleiafswm | 1 | 1 | 1 | 1 | 0.5 | 0.5 |
| Uchafswm | 77.5 | 69.2 | 61.5 | 86.5 | 94.5 | 94.5 |
| ***Cyfanswm hyd galwadau ffôn*** | | | | | | |
| Amser cymedrig fesul achos | 2.41 | 1.65 | 1.03 | 1.12 | 1.4 | 1.52 |
| Nifer o achosion | 101 | 164 | 146 | 93 | 6 | 510 |
| Lleiafswm | 0.25 | 0.05 | 0.1 | 0.17 | 0.5 | 0.05 |
| Uchafswm | 11 | 11.68 | 7.59 | 6 | 3.5 | 11.68 |
| **G4S** | | | | | | |
| ***Cyfanswm hyd ymweliadau carchar*** | | | | | | |
| Amser cymedrig fesul achos | 2.0 | 1.3 | 1.0 | 1.1 | 1.5 | 1.3 |
| Nifer o achosion | 87 | 93 | 138 | 198 | 65 | 581 |
| Lleiafswm | 0.3 | 0.2 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 |
| Uchafswm | 8.8 | 5.7 | 7.7 | 26.4 | 12.0 | 26.4 |
| ***Cyfanswm hyd cyswllt wyneb yn wyneb yn y gymuned*** | | | | | | |
| Amser cymedrig fesul achos | 6.9 | 8.8 | 11.6 | 8.3 | 5.5 | 8.4 |
| Nifer o achosion | 81 | 107 | 120 | 239 | 93 | 640 |
| Lleiafswm | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 |
| Uchafswm | 34.1 | 59.8 | 72.2 | 109.5 | 24.6 | 109.5 |
| ***Cyfanswm hyd galwadau ffôn*** | | | | | | |
| Amser cymedrig fesul achos | 1.2 | 0.9 | 1.0 | 1.1 | 1.1 | 1.1 |
| Nifer o achosion | 69 | 120 | 126 | 202 | 92 | 609 |
| Lleiafswm | <0.1 | <0.1 | <0.1 | <0.1 | <0.1 | <0.1 |
| Uchafswm | 15.7 | 7.8 | 6.9 | 11.1 | 9.4 | 15.7 |

Nodiadau: =Caiff hyd amser ei fesur mewn oriau.

Mesurir y cymedrig wedi eithrio'r seros.
*Nacro/CAIS: pob achos a gwblhawyd hyd at Ragfyr 2008. G4S: pob achos a gwblhawyd hyd at Orffennaf 2008.
Efallai na fydd cofnodion carchar bob amser yn cynnwys cyfweliadau asesu cychwynnol.

Adlewyrchir agwedd arall o'r patrymau gwahanol yng nghyfartaledd y nifer o gysylltiadau fesul cleient. Fel y gwelir yn Nhabl 3.10, mai'r prif wahaniaeth yma yw'r galwadau ffôn: y nifer o alwadau ffôn a gofnodir fesul achos oedd tua 8 yn ardal G4S, o'i gymharu â thros 3 yng Ngogledd Cymru. Ar yr olwg gyntaf, mae hyn yn ymddangos ei fod yn gwrth-ddweud y canfyddiad (Tabl 3.9) bod amser cyswllt dros y ffôn ar gyfartaledd yn hirach yn y gogledd. Fodd bynnag, yr eglurhad, bron yn sicr yw – fel y gwelir yn nadansoddiad ffeiliau achos a chyfweliadau gyda staff – bod mentoriaid G4S yn dueddol o fod yn fwy dyfal yn eu hymdrechion na'u cymheiriaid i 'fynd ar ôl' cleientiaid sydd heb ymglymu'n llawn, gwneud nifer o alwadau ffôn byr yn gofyn iddyn nhw gadw cysylltiad, eu hatgoffa o gyfarfodydd ac yn y blaen.

Yn gyffredinol, er bod rhaid trafod rhai agweddau yn wyliadwrus, mae cofnodion TSS a gyflwynir yn yr adran hon yn rhoi darlun calonogol iawn o'r cyswllt rhwng mentor a chleient. Maen nhw'n dangos bod TSS yn gyson wedi cyflawni graddfa uchel o gysylltiad â'i gleientiaid o ran amledd a hyd. Ar gyfartaledd, gall y rhai a welir yn HMP Altcourse ddisgwyl tri ymweliad cyn cael eu rhyddhau. Ac ar draws y Cynllun drwyddi draw, gall y cyfranogwyr hynny sy'n cynnal cyswllt â'r Cynllun ddisgwyl weld mentor neu weithiwr ar gyfartaledd bum gwaith neu fwy, am gyfanswm o dros wyth awr.

### *3.2.3 Baich achosion*

Mae'r dadansoddiad uchod yn dangos bod cryn amrywiaeth yn y patrymau cyswllt rhwng mentoriaid a chleientiaid o ran amlder, dwysedd a hyd (caiff eu hansawdd eu trafod yn yr isadran nesaf). Am y rheswm hwn (a'r ffaith bod mentoriaid yn gwahaniaethu o ran pellter maen nhw'n byw o'r carcharau ac oddi wrth ganolfannau poblog mawr), dylid trin o'r 'baich achos cyfartalog' fesul mentor gyda gofal, gan ei fod yn sicr yn amrwd ac o bosib yn gamarweiniol ar ei ben ei hun fel mesur o 'faich gwaith'. Ar unrhyw adeg, gallai baich achos mentor niferoedd llai neu fwy o gleientiaid sydd yn parhau yn y carchar, rhai sy'n cael eu gweld yn aml, neu sydd 'allan o gontract'. Fodd bynnag, am ei werth, os byddai rhywun yn cymryd yn ganiataol bod pob un cleient wedi ei gyfeirio yn aros 'ar y llyfrau' am tua pedwar mis (mis yn y carchar a thri mis ar ôl cael ei rhyddhau) byddai'r baich achos cyfartalog' tybiannol fesul mentor yn ardal G4S ar unrhyw bwynt yn 2008 wedi bod tua 25, ac yng Ngogledd Cymru yn naill ai'n 23 neu 31, gan ddibynnu os ydych chi'n cyfrif bod y gweithiwr 'mewngymorth' fel mentor[12].

[12] Wedi ei gyfrifo drwy rannu cyfanswm y cyfeiriadau am y flwyddyn â thri (i adlewyrchu'r cyfnod o 4 mis y mae'r cleient 'ar y llyfrau') ac yna gyda'r nifer o fentoriaid ym mhob ardal (598/3/8 a 281/3/4 neu 281/3/3, yn y tair ardal yn unigol).

Tabl 3.11 Nifer o gysylltiadau fesul achos, fesul darparwr, math o gyswllt a blwyddyn y cyfeirio

| | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008* | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Nacro/CAIS*** | | | | | | |
| ***Ymweliadau carchar*** | | | | | | |
| Rhif cymedrig fesul achos | 1.75 | 2.57 | 2.05 | 2.18 | 2.93 | 2.16 |
| ***Nifer yr achosion*** | 140 | 201 | 217 | 145 | 122 | 825 |
| Lleiafswm | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Uchafswm | 4 | 9 | 6 | 9 | 18 | 18 |
| ***Cyfarfodydd yn y gymuned*** | | | | | | |
| Rhif cymedrig fesul achos | 8.68 | 9.01 | 6.07 | 5.70 | 6.18 | 7.28 |
| ***Nifer yr achosion*** | 89 | 149 | 180 | 106 | 94 | 618 |
| Lleiafswm | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Uchafswm | 34 | 40 | 38 | 42 | 55 | 55 |
| ***Galwadau ffôn*** | | | | | | |
| Rhif cymedrig fesul achos | 3.87 | 4.32 | 2.52 | 2.18 | 2.83 | 3.29 |
| ***Nifer yr achosion*** | 101 | 164 | 146 | 93 | 6 | 510 |
| Lleiafswm | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Uchafswm | 17 | 22 | 11 | 10 | 5 | 22 |
| ***G4S*** | | | | | | |
| ***Ymweliadau carchar*** | | | | | | |
| Rhif cymedrig fesul achos | 2.0 | 1.5 | 1.3 | 1.5 | 1.7 | 1.5 |
| ***Nifer yr achosion*** | 87 | 93 | 138 | 198 | 65 | 581 |
| Lleiafswm | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Uchafswm | 7 | 5 | 6 | 9 | 9 | 9 |
| ***Cyfarfodydd yn y gymunec*** | | | | | | |
| Rhif cymedrig fesul achos | 5.1 | 5.4 | 6.6 | 5.5 | 5.1 | 5.6 |
| ***Nifer yr achosion*** | 81 | 107 | 120 | 239 | 93 | 640 |
| Lleiafswm | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Uchafswm | 17 | 37 | 49 | 51 | 22 | 51 |
| ***Galwadau ffôn*** | | | | | | |
| Rhif cymedrig fesul achos | 6.2 | 7.6 | 8.1 | 8.6 | 10.0 | 8.2 |
| ***Nifer yr achosion*** | 69 | 120 | 126 | 202 | 92 | 609 |
| Lleiafswm | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Uchafswm | 29 | 52 | 43 | 75 | 41 | 75 |

Nodiadau:

*Nacro/CAIS: pob achos wedi'i gwblhau hyd at Rhagfyr 2008. G4S: pob achos wedi'i gwblhau hyd at Gorffennaf 2008.
Achosion lle na chafodd unrhyw gyswllt ei gofnodi yn cael eu hanwybyddu
Dydy cofnod ymweliadau carchar ddim bob amser yn cynnwys cyfweliadau asesu cychwynnol.

### 3.3 Ymglymiad â chleientiaid

Mae eisoes yn eglur o'r isadran flaenorol bod mentoriaid TSS – yn enwedig yn ardal G4S ac yn gynyddol yn ardal Nacro/CAIS – wedi cynnal cyswllt â chleientiaid ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau mewn cyfran gymharol uchel o achosion, yn eu gweld nifer o weithiau dros gyfnod sylweddol o amser. Yn wir, mae'r ffigyrau lefelau cyswllt ôl-ryddhau yn well nag mewn unrhyw gynllun adsefydlu blaenorol arall y mae'r awduron yn ymwybodol ohono. Rydyn ni nawr yn edrych ar y dystiolaeth am ansawdd y cyswllt hwn. Mae hwn yn deillio'n bennaf o gyfweliadau gyda cyfranogwyr ac o ddadansoddiad ffeiliau achos. Mae'r ffocws yn gyntaf ar faterion yn ymwneud â sefydlu perthynas ac ymdrechion i symbylu cleientiaid. Yna, byddwn yn ystyried y cymorth a roddir i gleientiaid i ddod o hyd i wasanaethau.

Fel y nodwyd yn yr adran ar fethodoleg, cafodd 24 o gleientiaid TSS eu cyfweld yn y carchar a 24 ôl-ryddhau (roedd 10 o'r rhai olaf yn ail-gyfweliad gydag aelodau sampl y carchar, roedd y 14 cyfweliad arall gyda throseddwyr nad oedden ni wedi cwrdd â nhw o'r blaen). Rydyn ni'n pwysleisio eto, er y gwnaed pob ymdrech i ddethol cleientiaid ar hap ar gyfer eu cyfweld ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau, roedd yn anochel bod gogwydd cynhenid i'r sampl oherwydd bod y rhai a lwyddon ni i gysylltu â nhw yn fwy tebygol o fod wedi bod yn byw bywyd sefydlog ac i fod wedi ymglymu'n dda â mentoriaid TSS na'r rhai na lwyddon ni i gysylltu â nhw. Adlewyrchir hyn yn y ffaith o'r 24 a gyfwelwyd ganddon ni yn y ddalfa (oedd yn bras gynrychioli cleientiaid TSS cyn eu rhyddhau) dim ond 10 lwyddon ni i'w hail gyfweld ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau. Roedd mwyafrif o'r 14 arall wedi colli cysylltiad gyda'u mentoriaid ac ni lwyddon ni i ddod o hyd iddyn nhw (mewn nifer o achosion roedden nhw eisoes wedi symud a doedd y rhifau'r ffonau symudol a roddwyd i ni ddim bellach yn gweithredu). Yn achos, cyfweliadau ôl-ryddhau, felly, rydyn ni'n trafod yn bennaf, gleientiaid oedd yn 'llwyddiannau' cymharol yn hytrach na chyfranogwyr TSS drwyddi draw.

Ar ôl dweud hynny, nid oedd y cyfweliadau ôl-ryddhau wedi'u cynnal gyda phobl oedd wedi'u 'dewis yn arbennig' neu wedi'u dethol oherwydd eu bod yn 'hawdd gweithio gyda nhw'. Roedd nifer o'r rhai a gyfwelwyd yn byw bywyd a ddisgrifir yn aml yn 'fywyd' caotig, anhrefnus'; roedd ganddyn nhw gofnod droseddol hirfaith, â phroblemau personol a chymdeithasol mawr ac yn coleddu barn sinigaidd am 'y system' ac asiantaethau eraill oedd, yn eu tyb nhw, wedi'u siomi. Roedd y ffaith bod y rhai a gyfwelwyd bron yn unfryd eu barn am TSS a'i fentoriaid yn ein rhyfeddu ac, yn ein barn ni, yn cynnig tystiolaeth gref am ansawdd gwaith mentoriaid pan fyddan nhw'n llwyddo i gynnal cyswllt â'i cleientiaid.

Roedd pob troseddwr a gyfwelwyd, cyn eu rhyddhau ac ar ôl eu rhyddhau, yn bositif am TSS ac am y cymorth roedden nhw wedi'i dderbyn neu ei gynnig. I'r rhai a fu yn y carchar ar ddedfryd o dymor byr yn y gorffennol ac heb dderbyn cymorth bryd hynny, roedd yn syrpreis pleserus a chafwyd nifer o sylwadau am y gwahaniaeth mawr rhwng y profiad hwn o garchar a'u profiad blaenorol lle, i raddau helaeth, anwybyddwyd eu problem o gamddefnyddio sylweddau. Er enghraifft, mynegodd un ei ddadrithiad gyda gwasanaethau ar adeg dedfryd flaenorol o garchar fel a ganlyn:

> *Nid dyma'r proffesiynoldeb y byddwn i'n ei ddisgwyl beth bynnag. Ro'n i mor siomedig yn y system. Hollol siomedig â'r system ac ro'n i'n gwybod nad dim*

*ond fi oedd e, roedd llawer o bobl i mewn fanna. Ac ro'n i'n tueddol i deimlo'n flin drostyn nhw oherwydd eu bod... chi'n gwybod. Dim ond newydd ailddechrau yfed o'n i ac roedden nhw wedi bod wrthi ac maen nhw'n mynd i mewn i fanna mewn yffach o stad ac yn cael eu gadael mewn cell.. Chi'n gwybod, felly don i ddim yn 'impressed' o gwbl.*

[Dyn 1]

Oherwydd hyn a phrofiadau gwael o ran cael cynnig cymorth gan asiantaethau eraill, roedd y rhai a gyfwelwyd yn dweud eu bod yn sinigaidd ar y cychwyn am yr hyn y byddai'r prosiect yn ei gyflenwi mewn gwirionedd. Er i hyn gael ei oresgyn unwaith iddyn nhw ddechrau gweithio gyda TSS, mae'n amlygu'r her y gallai'r prosiect ei wynebu wrth geisio ymglymu rhai troseddwyr:

Cyfwelydd: *Cyn i chi ymuno â'r Cynllun, beth roeddech chi'n meddwl y byddai'r Cynllun yn ei gynnig?*

Ymatebwr: *Wel a bod yn onest, ro'n i'n meddwl mai lol oedd e i gyd. Rhy dda i fod yn wir mewn gwirionedd. Roedden nhw'n cynnig help gyda phopeth ac yna fe wnes i feddwl 'Na dydy hynny ddim y wir. All neb gynnig yr holl help yna am ddim.'*

[Dyn 10]

*Barn negyddol sydd gen i am y gwasanaeth prawf a phethau fel yna, oherwydd i mi yn bersonol, dydyn nhw erioed wedi gwneud dim byd gwerth chweil i fi. Ond dwi'n meddwl bod A----- yn mynd allan o'i ffordd i chi ac yn wir, wir yn fy helpu ond don i ddim yn meddwl y byddai o ddefnydd i mi ar y dechrau.*

[Merch 2]

### *3.3.1 Ansawdd y Berthynas*

Pan holwyd pa beth roedden nhw'n ei werthfawrogi yng gwaith TSS, un o'r atebion mwyaf cyffredin – yn enwedig ymhlith y rhai oedd eisoes wedi cael eu rhyddhau a hefyd hyd yn oed mewn rhai achosion ymhlith y rhai oedd yn y ddalfa o hyd – oedd sôn am ansawdd eu perthynas gyda'u mentor. Cyfeiriwyd yn aml at emosiynau ac at gymorth emosiynol ac roedd ymadroddion megis 'Mae e/hi yno i mi' 'ymddiried' a 'theimladau' yn rhai cyffredin. Er enghraifft:

*Mae'n mynd allan o'i ffordd, os gall e, i'ch helpu. Os oes angen help arnoch chi gyda'r gwasanaeth prawf, os ydych angen help gyda'r swyddfa dôl, os ydych angen help gyda gwaith, fe yw'r dyn i siarad ag e, yn hytrach na mod i'n rhedeg o gwmpas i bob man. Felly, fe yw'r un y gallaf ei ffonio a gofyn iddo i ddod i ngweld ac fe wnawn ni siarad ac fe wna i roi gwybod iddo sut rwy'n teimlo a beth dw i am ei wneud a bydd e yno i fy helpu. Dyna pam dw i am frysio adref achos bod gen i lawer i'w wneud, felly…*

*C Ac oes unrhyw gymorth arbennig y mae wedi'i roi i chi hyd yn hyn?*

*Mae B----wedi fy nysgu i, mae wedi dweud lawer gwaith wrtha i 'Mae ffyrdd gwell na mynd allan ac yfed.' Mae'n dweud wrtha i beth fyddai'n digwydd pan fydd rhywun yn dioddef o'r hwyliau oriog 'ma, 'Beth wyt ti am ei wneud?' Dw i'n ei ffonio a daw i ngweld i, a dweud ' Fe wnawn ni siarad am hyn a sortio pethau allan.' A dw i eisiau mynd nôl i weithio ar fy liwt fy hun unwaith eto, felly mae'n mynd i fod yno i mi a fyddwn i ddim yn cael hyn ar y tu allan gyda help fel'na..*

[D6]

*Pan fyddwch yn siarad â **rhywun yr ydych yn ei nabod a'i drystio** sydd tu allan i'r cylch anfad, gallwch drafod eich pryderon gyda rhywun arall gan wybod nad aiff o ddim ymhellach, felly dyna'r prif beth am y cyfarfod.*

[D1]

*Mae fel cefnogaeth ond dyw e? **Cefnogaeth foesol**, siarad â chi am bethau arbennig. Ac mae'n rhoi mwy o obaith i chi pan gewch eich rhyddhau o'r carchar.*

[D5]

*Y tro hwn, bydd cysylltiad gen i a dwi'n mynd i ailgychwyn o'r newydd, felly dw i'n edych ymlaen **i gael rhywun yno**.*

[D17]

Soniwyd yn aml pa mor hawdd yw hi i gael gafael ar y mentoriaid, ac yn arbennig am eu parodrwydd i dderbyn galwadau ffôn am help ar unrhyw adeg, yn ogystal â bod mentoriaid (yn ddigynsail i lawer) yn ffonio cleientiaid 'tu allan i oriau' (megis dros y penwythnos) i ofyn a ydyn nhw'n iawn. Yr agwedd hon yn nhyb cleientiaid, sef bod y mentoriaid nid yn unig yn gwneud eu gwaith ond hefyd yn malio a phryderu am unigolion – oedd y gwahaniaeth rhwng mentoriaid a swyddogion a gweithwyr y mwyafrif o asiantaethau eraill.

*Nawr, chwarae teg i fy ngweithiwr TSS, **mae hi ar ben arall y ffôn dros yr holl** benwythnos, felly, os oes unrhywbeth yn fy mhoeni, byddwn i'n gallu ei ffonio ar unrhyw adeg. Ac mae'n dangos **ei bod yn malio, nid swydd yn unig yw'r gwaith iddi hi**, a dwi'n teimlo mod i'n gallu siarad â hi yn fwy na gyda fy ymgynghorydd cyffuriau. A bod yn onest, does dim ffydd gen i yn fy ymgynghorydd cyffuriau, oherwydd ei fod yn rhoi gwybodaeth na ddylwn i gaelei glywed am bobl eraill. Tra bod fy ngweithwraig TSS yn dweud dim am beth bynnag a ddweda i wrthi, oni bai ei fod yn niweidiol i fy iechyd. Gwn pan fydd hi'n dweud cyfrinachol mae'n golygu cyfrinachol. Felly, **dwi'n ymddiried yn llwyr ynddi.** Mae wedi fy helpu i ddod ymlaen lawer iawn yn ystod y misoedd diwetha. Pan wnes i gwrdd â hi gyntaf, ro'n i wedi cyrraedd y gwaelod, ro'n i newydd ddod allan o'r carchar, roedd gen i blentyn adref a phopeth, a phartner, a phopeth yn mynd o'i le.*

[M1]

*Mae wedi bod yn wych. Allwn i ddim bod wedi gofyn am fwy. Mae'n 'briliant' ac ydw, dwi wedi gwerthfawrogi popeth mae wedi gwneud drosta i, mae wedi ymestyn ata i ac ro'n i'n falch o dderbyn ei help. **Ond i ffonio fi ar y penwythnos, 'fydd fy ffôn ar agor ar dy gyfer',** mae'n neis i wybod **mai nid dim ond swydd ydy e iddyn nhw** a'i fod yn talu biliau, chi'n gwybod Sut*

*galla i ddweud? Mae **ychydig o emosiwn yn y bobl hyn,** maen nhw yn malio, nid dim ond swydd ydi iddyn nhw.*

[D12]

*Roedd hi, chi'n gwbod, yn dod; chi'n gwbod ac yn gwneud ymdrech. Chi'n gwbod, mae hi'n fy ffonio a phethau fel 'na a gwneud yn siŵr bod pethau'n iawn. Fel unwaith pan oedd fy sgript gen, oedd e gen i y tro hwn ar y Dydd Iau neu'r Dydd Gwener, yna ar y Dydd Llun mae'n fy ffonio i a gofyn sut mae pethau'n mynd. **Fy ffonio i'n ddirybudd** a gofyn sut dw i'n ymdopi ac a ydy popeth yn iawn? Mae cael rhywun fel 'na yn gwneud cymaint o wahaniaeth. Dych chi'n gweld doedd dim byd fel 'na pan ddes i allan o'r carchar y tro diwethaf.*

*C Felly, rydych chi'n cael y cymorth ychwanegol 'na sy'n eich helpu i symud yn eich blaen?*

*A Ydw, dw i'n meddwl. Mae jyst cael rhywun ----- jyst cael rhywun yna. Chi'n gwybod os yw'n rhywbeth dw i ddim yn gallu ymdopi ag e, dw i'n ffonio.... ffonio C---- a bydd hi'n fy helpu.*

[D13]

Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, bod un o reolwyr y prosiect yn ystyried rhai agweddau o'r uchod i fod yn arferion drwg, sy'n adlewyrchu'r angen am fwy o waith ar 'ffiniau'. Mae hi'n cyfarwyddo mentoriaid i ddiffodd eu ffonau yn ystod y penwythnos ac am 17.00 o'r gloch yn ystod yr wythnos, gan bwysleisio bod galwad ffôn tu allan o oriau'n eu hymrwymo i weithredu gan fod 'canlyniadau i gymryd yr alwad tu allan i oriau ac yna peidio â gwneud dim byd amdano yn fwy na chymryd yr alwad yn y lle cyntaf'. Dadleuodd y gellid cwrdd ag unrhyw angen i gysylltu â'r Cynllun drwy'r llinell ffôn Allan o Oriau a weithredir gan Reolwr TSS 'yn ôl system a weithredir ac a sicrhawyd yn briodol'.

### *3.3.2 Ysgogiad, hunan-barch a hunangymorth*

Mae perthynas y gellir ymddiried ynddi, agweddau a ganfyddir yn rhai gofalgar ac hygyrchedd parod mentoriaid a ddisgrifiwyd uchod yn amlwg yn agweddau positif o TSS ac yn amlygu eu hun yn glir yn nifer o'r cyfweliadau. Fodd bynnag, mae cwestiynau'n codi am y darpar berygl o gleientiaid yn datblygu gorddibyniaeth ar fentoriaid naill ai o ran bod yn 'ddibyniaeth emosiynol' y byddai'r cleientiaid yn ei chael hi'n anodd gollwng gafael efallai neu o ran disgwyl i'r mentor ddatrys holl broblemau ymarferol y cleientiaid drostyn nhw yn hytrach na'u 'helpu i helpu eu hunain'. Trafodwyd hyn gyda'r ddau gydlynydd oedd yn rheoli a goruchwylio mentoriaid a chael eu bod yn ymwybodol o'r peryglon hyn, yn eu cynnwys yn amlwg yn yr hyfforddiant a roddir a'u trafod yn aml mewn sesiynau gorchwylio. Rhoddwyd pwyslais arbennig ar 'roi grym' i'r troseddwyr newid eu bywydau eu hunain yn hytrach na'u 'gor-gysgodi'. Yn rhan G4S o'r Cynllun hefyd roedd yn arfer safonol i gynnal 'cyfarfod cau' penodol lle byddai'r mentor yn ei gwneud hi'n glir i'r cleient bod y berthynas rhyngddyn nhw wedi dod i ben, ond ar yr un pryd cyfleu'r neges na fyddai TSS yn eu gadael yn ddiymgeledd a phetaen nhw angen help neu gyngor ar frys dylen nhw gysylltu â'r Cynllun.

Roedd llawer o'r rhai a gyfwelwyd yn deall bod mentoriaid yno i gynorthwyo troseddwyr gynnal eu hysgogiad a rhoi grym iddyn nhw ddelio â'u problemau eu hunain. Er enghraifft:

> *Cleient: Weithiau mae rhaid dweud wrth lawer o bobl, chi'n gwybod, pobl sy'n mynd a dod i'r carchar a'u bod yn meddwl mai dyna'n bywyd ni, mae ein bywyd wedi'i bennu allan ond mae TSS yn dangos* ***nad yw'ch bywyd wedi'i fapio allan i chi. Gallwch wneud eich map eich hun*** *wrth fynd yn eich blaen i fywyd gwell, chi'n gwybod*
>
> *Holwr: Felly mae'n rhoi grym i chi, yn rhoi cymhelliad i chi?*
>
> *Cleient: Ydy, yr ysgogiad i symud o'ch hen fywyd a chreu bywyd normal.*
>
> [D3]
>
> *Mae'n cynnig y cynorthwyon hyn i mi a* ***beth galla i ei wneud i sortio fy hun allan,*** *gwthio fi ymlaen yn lle edrych yn ôl o hyd. Wedi helpu lot, dwi erioed wedi cael help gyda hynna o'r blaen, chi'n gwybod be dwi'n feddwl, y math yna o help - efallai achos dw i erioed wedi chwilio amdano a do'n i ddim yn gwybod bod cymaint o help i gael allan fanno.*
>
> [D4]
>
> *Holwr: Beth mae'n ei olygu i gael rhywun fel yna?*
>
> *Cleient: Ffantastig, dwi'n teimlo'n well yn fy hunan a dwi'n gwybod mod i eisiau...* ***Dw i'n benderfynol o lwyddo'r tro 'ma****. Ac mae 'da fi chwe neu saith wythnos ar ôl. Ac mae'n dod i ngweld eto mewn wythnos neu ddwy, felly dw i'n benderfynol o sticio ati y tro 'ma dim ond achos yr help dw i wedi cael ganddyn nhw... achos dydyn nhw ddim am adael i fi ddelio â lot o broblemau dw i ddim efallai'n gallu delio â nhw ar fy mhen fy hun....* ***Maen nhw yno i'n helpu ni. Nid i wneud popeth****, dim ond i ddod â ni i ryw le neu siarad* â *rhai pobl, neu egluro popeth sydd angen ei wybod arnon ni. Felly, mae'n mynd i fod yno i ni ac mae hynna'n beth da beth maen nhw'n ei wneud. A dwi'n teimlo'n hapusach nawr am fynd adref oherwydd B---, mae e wedi bod yn dda iawn*
>
> [D6]

Elfen allweddol yn y broses o gymell a rhoi grym yw codi hunan-barch a chred cleientiaid bod ganddyn nhw'r gallu i 'newid eu bywydau eu hun'. Roedd nifer o'r rhai a gyfwelwyd yn cydnabod hyn hefyd, rhai oedd yn dechrau gweld mwy o botensial ynddyn nhw eu hunain na wnaeth eu profiadau negyddol eu harwain nhw i gredu:

> Holwr: Allwch chi geisio meddwl am y peth pwysicaf mae e *wedi'i wneud drosoch chi?*
>
> *Cleient: Dw i'n credu ei fod wedi gwneud i fi sylweddoli mod i'n unigolyn ac nid pecyn o drwbl, nid dim ond cyn-garcharor. Dw i'n credu mod i'n sylweddoli* ***bod gen i botensial.*** *Dw i'n credu ei fod wedi fy helpu i ganfod bod gen i botensial a mod i'n gallu gwneud pethau positif.*

[D16]

> *Wel, dw i'n credu mai'r prif amcan yw eich adfer chi mewn gwirionedd a'ch cadw rhag dychwelyd i'r carchar. Dangos i chi bob bywyd arall allan fanno, un gwahanol i'r un yr ydych wedi bod yn ei fyw. Achos dyna'r oll mae TSS yn ei bregethu...bod bywyd gwahanol i mi allan fanna.* ***Dydw i ddim yn ddiwerth, chi'n gwbod be dwi'n feddwl..***

[D3]

Mae'r holl sylwadau uchod yn ffitio'n dda iawn gyda'r ddamcaniaeth a'r ymchwil cyfredol ynglŷn ag ymatal rhag troseddu. Mae ymchwilwyr fel Maruna (2000), Farrall (2002) a McNeill (2005) yn nodi mai ffactorau allweddol ymatal llwyddiannus yw'r cymorth a roddir i droseddwyr i gynnal yr ysgogiad a chred troseddwyr yn eu gallu eu hunain i newid (gweler hefyd Maruna & Immarigeon 2004; Farrall & Calverley 2005).

Mae'n werth nodi, fodd bynnag, er bod y cyfweliadau gyda chleientiaid wedi cynhyrchu mwy o lawer o enghreifftiau o fod yn ymwybodol o'r angen iddyn nhw 'helpu eu hunain' nag o'r posibilrwydd o fod yn or-ddibynnol ar fentoriaid i 'wneud popeth drostyn nhw', *fe* ddatgelodd dadansoddiad o'r ffeiliau achos bedwar neu bum achos lle cafodd y mentoriaid, ym marn yr ymchwilwyr, eu defnyddio i ryw raddau gan y cleient i weithredu fel 'tacsi' i fynd at asiantaethau ac i ddelio â'u holl broblemau ymarferol drostyn nhw. Yn wir, mewn un achos, sylweddolodd y mentor hyn tua diwedd cyfnod yr oruchwyliaeth a, gyda gweithiwr o asiantaeth arall, wynebodd y cleient am hyn.

### *3.3.3 Help ymarferol a chyswllt gydag asiantaethau gwasanaethu*

Yn ogystal â chymell a rhoi cefnogaeth emosiynol, un o brif dasgau mentor yw helpu carcharorion a chyn-garcharorion i ddod o hyd i wasanaethau.

Yn Nhabl 3.11 a 3.12, gellir cael rhyw synnwyr o raddfa'r anghenion sydd angen delio â nhw, wedi'u seilio ar wahanol gofnodion dwy ardal TSS. Gan fod y systemau cadw cofnodion a'r categorïau a ddefnyddir yn wahanol, ni ellir cymharu'r ddwy ardal yn uniongyrchol. Mae gan Nacro/CAIS gofnodion cyfrifiadurol o anghenion a aseswyd yn dyddio nôl i gychwyniad y Cynllun. Mae ffigyrau G4S-TSS yn seiliedig ar gofnodion SSOM a ddefnyddir, fel y disgrifiwyd eisoes, i fesur problemau cleientiaid cyn ac ar ôl eu hymglymiad â TSS ond wedi cael eu cofnodi'n electronig am gyfnod cymharol fyr. Mae'r rhai yn y ddau dabl yn dangos eu statws 'cyn' fel eu haseswyd gan fentoriaid, ar gyfer y cleientiaid hynny y caewyd eu hachosion neu gwblhawyd eu hachosion yn 2008.

Gwelir o Dabl 3.11 bod gan gyfran sylweddol o gleientiaid anghenion o ran llety, hyfforddiant/cyflogaeth neu driniaeth cyffuriau/alcohol sef yr anghenion allweddol a ddaeth i'r golwg bron ymhob astudiaeth o garcharorion tymor byr (gweler, er enghraifft, Clancy et al 2006; Maguire 2007). Fodd bynnag, mae ystod eang o broblemau gan nifer sylweddol o droseddwyr, gan gynnwys materion hawlio budd-daliadau.

Mae Tabl 3.12 yn rhoi gwybodaeth fwy manwl am statws tai. Mae cryn dipyn o ddata ar goll yng nghofnodion Nacro/CAIS ar y pwnc hwn, ond mae'n eglur yn 2008 bod o leiaf 23% o gleientiaid yn dychwelyd i Ogledd Cymru yn cael eu dosbarthu mewn asesiadau cychwynnol, o fod heb gyfeiriad sefydlog (NFA) ar adeg eu rhyddhau.. Yn ardal G4S, dosbarthwyd bron i 40% heb gyfeiriad sefydlog neu'n disgwyl eu bod yn symud i ddim ond llety dros dro.

Tabl 3.11 Anghenion cleientiaid a gyfeiriwyd at TSS 2008

***Nacro Cymru/CAI***

| ***Problemau /anghen*** | Nifer | % |
|---|---|---|
| Llety | 157 | 56 |
| Cyflogaeth | 144 | 51 |
| Mynediad i driniaeth | 110 | 39 |
| Mentora | 103 | 37 |
| Cwnsela | 69 | 25 |
| Budd-daliadau | 55 | 20 |
| Addysg | 34 | 12 |
| Hyfforddiant | 31 | 11 |
| Problemau ariannol | 25 | 9 |
| Cludiant | 21 | 7 |
| Gwaith teuluol | 15 | 5 |
| Cyfanswm Nifer | 281 | |

**G4S**

| | | |
|---|---|---|
| Alcohol | Camddefnydd dyddiol/goryfed mewn pyliau – ymddygiad annerbyniol | 59% |
| Cyffuriau | Dosbarth A/B – caotig / chwistrellu | 53% |
| Addysg, Hyfforddiant Cyflogaeth | Di-waith/sgiliau trefnu gwael | 52% |
| Tai | Heb gyfeiriad sefydlog/llety annibynadwy dros dro | 39% |
| | Cyfanswm Nifer | 374 |

Nodiadau: Aml-ymatebion yn bosibl, o ganlyniad dydy'r colofnau ddim yn adio i 100%
Nacro/CAIS: yn seiliedig ar gofnodion cyfrifiadurol o asesiadau rhwng Ionawr a Rhagfyr 2008.
G4S: yn seiliedig ar ddata SSOM (gweler y testun) ar 374 o achosion a gaewyd rhwng Ionawr a Gorffennaf 2008.

Tabl 3.12 Statws tai cleientiaid a gyfeiriwyd at TSS (yn yr asesiad cychwynnol), 2008

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Digartref | 66 | 23 |
| Dros dro | 14 | 5 |
| Eiddo ar rent | 33 | 12 |
| Byw gyda'r teulu | 47 | 17 |
| Eiddo ei hun | 6 | 2 |
| Heb gofnodi | 115 | 41 |
| Cyfanswm Nifer | 281 | 100 |

Ffynhonnell: cofnodion cyfrifiadurol o asesiadau gan Nacro/CAIS, o Ionawr i Ragfyr , 2008.

**G4S**

| | **Ion-Gorff 2008** |
|---|---|
| Heb gyfeiriad sefydlog/Llety dros dro annibynadwy | 39% |
| Teulu/ffrind – dros dro (perthynas weddol gefnogol) | 21% |
| Gwely a Brecwast – llety brys yn unig | <1% |
| Y Cyngor yn derbyn cyfrifoldeb lletya (+Gwely a Brecwast neu dros dro da) | 1% |
| Cynllun Llety lle ceir Cefnogaeth (arhosiad hir) | 2% |
| Cyngor/cymdeithasau tai/rhentu'n breifat neu gartref teuluol (parhaol) | 38% |
| Cyfanswm Nifer | 374 |

.
Ffynhonnell: data SSOM (gweler y testun) a grëwyd gan G4S ar 374 o achosion a gaewyd rhwng Ionawr a Gorffennaf, 2008.
Aml-ymatebion yn bosibl, o ganlyniad dydy'r colofnau ddim yn adio i 100%.

Wrth ymateb i'r anghenion uchod, prif nod y mentor fel arfer yw cael asiantaeth briodol i dderbyn y cleient, asiantaeth sydd â'r grym, yr adnoddau a'r sgiliau gwasanaeth i helpu i ddatrys y broblem dan sylw neu o leiaf ei lleddfu a'i gwella. Gellir cyflawni hyn mewn nifer o ffyrdd, yn amrywio o gysylltu â'r asiantaeth a gwneud yr holl drefniadau ar ran y cleient (ac mewn rhai achosion eu cludo nhw yn y car i'w hapwyntiadau), i roi gwybodaeth am y gwasanaeth i'r cleient a'i berswadio/ei pherswadio i wneud y trefniadau ei hun.

Roedd hi'n glir o'n cyfweliadau gyda throseddwyr bod angen help gyda hyn. Dywedodd nifer ohonyn nhw nad oedden nhw'n gwybod ble i fynd na sut i gael hyd i wasanaethau, nad oedd hyder ganddyn nhw i fynd at asiantaethau ar eu pen eu hun neu bod tuedd iddyn nhw gael eu 'gwthio i dderbyn unrhywbeth' – roedd

asiantaethau'n cymryd mentoriaid yn gweithredu ar eu rhan fwy o ddifrif ac yn fwy tebygol o gaelllwyddiant. Ymhlith y sylwadau a gafwyd oedd:

> *Gall cysylltu ag asiantaethau fod yn eithaf anodd weithiau achos nid dyma sut dwi'n byw fel arfer o ddydd i ddydd a dwi ddim wedi mynd drwy fy arddegau a fy ugeiniau, dwi'n dri deg nawr, felly dwi heb fod yn chwilio am waith, na chael cymwysterau. Ym, felly mae ychydig yn ... Fyddwn i ddim yn dweud ei fod yn beth newydd i mi ond … yn yn newydd i bod pwrpas...*
>
> *…Do, dwi wedi cael fy nghyflogi yn y gorffennol ond* ***fyddwn i ddim yn gwybod sut i gysylltu ag asiantaethau...Ym, fyddwn i ddim hyd yn oed yn gwybod pa asiantaethau i gysylltu â nhw****. Fyddwn i ddim yn gwybod sut i gyrraedd... ble i ddechrau. Felly os gwneith hi cyn lleied â hynny drosta i, mae'n fwy na wnaeth neb arall drosta i.*
>
> [D17]
>
> *Y diwrnod wnaethon nhw sortio'r sgript allan, daeth C--- lan ac roedd hi'n benderfynol mod i'n mynd i'w gael y diwrnod hwnnw a felly roedd pethau. Arhosodd gyda fi ... ro'n i'n drysu achos ro'n i'n mynd draw yna ac roedd un person yn dweud un peth a pherson arall yn dweud rhywbeth arall* ***ac roedd hi'n fy nghludo o gwmpas yn y car am hanner y diwrnod.*** *Ron i'n colli arnaf fi fy hun, ro'n i'n mynd yn nyts. Mi arhosodd hi'n dawel a sortio fe i gyd mas...*
>
> *…Fe wnes i ddweud wrthi hi beth oedd yn digwydd ac fe rhoiodd fi .... rhoiodd fi mewn ... DIP oedd e unwaith eto, rhoiodd fi mewn cysylltiad â nhw ond roedd hi'n dod gyda fi.* ***Roedd hi'n gal amdanai, yn mynd â fi yna, helpu fi ac*** *mi gafodd hi fy sgript nôl yn gloi…*
>
> *…Helpodd hi fi gyda'r 'Social' a phetha felna, helpu sortio'r budd-daliadau, gwneud galwadau ffôn drosta i.* ***Mae'n gofyn y cwestiynau dwi ddim yn meddwl amdanyn nhw, chi'n gwybod?*** *Fel pan dyn ni'n mynd i weld pobl ... fel y DIP, bydd hi'n gofyn iddyn nhw.*
>
> [D2]

Yn benodol, o ran camddefnyddio sylweddau, rhoddodd nifer o'r rhai a holwyd enghreifftiau o sut wnaeth TSS nid yn unig eu helpu i gael mynediad i wasanaethau, ond - yn bwysig – eu helpu i wynebu'r ffaith fod ganddyn nhw broblem, eu perswadio ei bod er eu lles nhw i chwilio am help ac wedi gweithio i gynnal eu hysgogiad i wneud hynny. Er enghraifft, soniodd un am sut lwyddodd y mentor i sylweddoli'r rhesymau dros ei oryfed a'r difrod roedd yn ei wneud i'w iechyd:

> *Pan es i mewn ro'n i..hynny ydi, rydw i'n alcoholig, chi'n gwbod, yn wirioneddol alcoholig a ro'n i ..... jyst cyn i mi fynd i mewn, ro'n i'n agos i farw. Mae pancreatitis 'da fi. Ac ro'n i ar ...Roedd fy nhad newydd farw ac ro'n i ar drothwy hunan-ddinistr ac yn cael fy hun mewn trwbl. A deodd pethau ddim yn dda iawn...Fy agwedd i oedd jyst aros fel ro'n i. Gwneud fy amser, dod allan ac yna meddwi eto. Ac yna dechreuais gael cyfarfodydd gyda D---* ***ac roedd e'n fy helpu i feddwl pam ro'n i'n yfed a pha niwed roedd e'n ei***

> ***wneud i fi.*** *Ac yna ... yna es i ffwrdd a chael llyfrau drwy'r llyfrgell. Fe es i ar gwrs ymwybyddiaeth alcohol. Dysgodd lawer i mi am y niwed mae'n ei wneud i chi.*
>
> [D2]

Dwedodd un arall na fyddai, heb y mentor, fyth wedi delio â'i broblemau gyda chyffuriau:

> *Holwr: Beth fyddech chi wedi'i wneud am eich problemau tasech chi ddim wedi ymuno â TSS?*
>
> *Cleient: Wn i ddim.* ***Byddwn i wedi'u cadw i mi fy hun****. Byddwn i jyst, chi'n gwybod..... a bod yn onest, wn i ddim. Fyddwn i ddim wedi gallu siarad â'r gwasanaeth prawf,* ***byddwn i nol ar y cyffuriau a byddwn i wedi bod yn osgoi'r profion ro'n nhw'n gwneud.***
>
> ***Dw i ddim yn credu y byddwn i wedi para chwe mis heb yr help ro'n i'n ei gael*** *a bod yn onest achos cyn '06 byddwn i wedi dod mas a'r diwrnod hwnnw byddwn i wedi mynd yn syth ar y cyffuriau. Chi'n gwybod, pan o'n i'n dod mas y 'treat' oedd cymryd cyffuriau. Ond y tro hwn des i allan a'r 'treat' oedd mynd am bryd o fwyd gyda mam a fy ewythr a phethau felly.*
>
> [D3]

Adlewyrchir graddau'r cymorth a ddarperir gan fentoriaid drwy gyfeiriadau at asiantaethau eraill i ryw raddau yn Nhabl 3.13 a 3.14, sy'n dangos (yn ôl cofnodion y Cynllun) nifer yr atgyfeiriadau dros gyfnodau penodol o amser. Mae ystyr y term 'cyfeiriad' neu 'atgyfeiriad' weithiau'n eitha amwys ond roedd hi'n amlwg o'n dadansoddiad o'r ffeiliau achos ei fod, yn y rhan fwyaf o achosion (yn nwy gangen TSS) yn golygu llawer mwy na rhoi rhif ffôn i'r cleient i ffonio. Fel y trafodir yn nes ymlaen, yr arfer mwyaf cyffredin oedd bod mentoriaid yn ffonio cysylltiadau (yn aml, rhai roedden nhw eisoes yn eu nabod) yn yr asiantaethau gwasanaeth a gwneud apwyntiadau ar gyfer eu cleientiaid – mewn nifer o achosion, eu casglu a mynd gyda nhw i'r apwyntiad.

Nid pwrpas y tablau hyn (sy'n seiliedig ar wahanol fathau o gofnodion) yw amlygu'r gwahaniaethau rhwng dwy 'gangen' TSS, ond yn hytrach roi blas ar yr ystod o wasanaethau y mae'r ddwy 'gangen' yn eu defnyddio. Mae Tabl 3.13 yn seiliedig ar 69 o achosion a gwblhawyd yng Ngogledd Cymru yn 2008 lle cyfeiriwyd cleientiaid cyn ac/neu ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau. Tynnwyd ffigyrau Tabl 3.14 o adroddiadau chwarterol Cynllun G4S i'r Bwrdd Prosiect, felly ni wyddom faint o achosion y maen nhw'n cyfeirio atyn nhw. Efallai mai nodwedd amlycaf y ddau dabl yw ystod y cyfeiriadau a wnaed. Fel y gellid disgwyl (o'r anghenion a amlinellwyd eisoes) y cyfeirio mwyaf cyffredin yn y ddwy ardal oedd i asiantaethau yn delio â chamddefnyddio sylweddau, tai a chyflogaeth ond hefyd cysylltwyd ag asiantaethau eraill, yn eu plith asiantaethau'n delio â rheoli dicter, hyfforddi sgiliau, cyngor ar fudd-daliadau a iechyd cyffredinol.

Tabl 3.13 Cyfeiriadau i asiantaethau allanol, Ionawr-Hydref, 2008 (Nacro Cymru/CAIS)

| ***Asiantaeth allanol*** | **2008** |
|---|---|
| CDAT | 28 |
| Shelter | 28 |
| Progress to Work | 25 |
| Working Links | 17 |
| Cwnsela CAIS | 16 |
| NACRO | 16 |
| Sgiliau Sylfaenol NACRO | 10 |
| DIP | 9 |
| CAIS | 4 |
| Cwrs CALMS | 2 |
| Tai NACRO | 2 |
| ILM | 2 |
| Tîm Lleihau Niwed | 2 |
| Prosiect Doorstep CAIS | 1 |
| ComMIT yn y Gymuned | 1 |
| Cwnsela | 1 |
| Cyngor Wrecsam - Tai | 1 |
| CAIS ComMIT | 1 |
| CAIS Move On | 1 |
| Adran dai y Cyngor | 1 |
| Doorstop | 1 |
| Gwobr Dug Caeredin2 | 1 |
| Greenbank | 1 |
| Iechyd Meddyliol | 1 |
| The Elms | 1 |
| Rheoli Dicter | 1 |
| Dyfodol | 1 |
| Cyngor Sir Gwynedd | 1 |
| Move On | 1 |
| NACRO ILM | 1 |
| Cyngor Sir Môn | 1 |
| Cyngor ar fudd-daliadau | 1 |
| Canolfan Wirfoddoli Sir Fflint | 1 |
| Meddyg Teulu (GIG) | 1 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 1 |
| Mentora SOVA | 1 |
| Iechyd Amgylcheddol | 1 |
| Cyfanswm nifer yr atgyfeiriadau i asiantaethau allanol | 185 |

Nodiadau: Cyfeiriadau'n seiliedig ar 69 o unigolion a gyfeiriwyd at asiantaethau allanol

Tabl 3.14 Cyfeiriadau at asiantaethau allanol, Ionawr –Rhagfyr, 2008 (G4S)

| | | |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Prawf/DRRs/DTTOs/YOT | Profiannaeth | 354 |
| Syrjyris / Ysbytai / Gwasanaethau Iechyd/Cymdeithasol | Materion Meddygol/Iechyd a Lles | 150 |
| P2W h.y. via Turning Point, TEDS, Casnewydd P2W | Cyflogaeth ayb. | 139 |
| Swyddfa Byd Gwaith/Gwasanaethau Cyflogaeth/addysg | Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth | 130 |
| Gwahanol Swyddfeydd Budd-daliadau | Budd-daliadau | 90 |
| Gwasanaethau'r Heddlu/PPO ac Asiantaethau Tagio | Materion Plismona / Materion Tagio | 86 |
| Llysoedd ynadon / Cyfreithwyr | Cyfiawnder Troseddol | 78 |
| The Wallich | Materion tai, Tenantiaeth a Chymorth | 70 |
| Mannau Gwely a Brecwast/hosteli ayb. | Materion Llety | 62 |
| CJIT Powys | Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau | 48 |
| Tai Pen-y-bont ar Ogwr (gan gynnwys Cymoedd i'r Arfordir/Valleys 2 Coast) | Materion Tai | 45 |
| WGCADA (Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd/PortTalbot) | Asiantaeth Cyffuriau | 37 |
| CJIT Abertawe | Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau | 36 |
| Asiantaeth Gosod Tai Preifat | Materion Tai | 33 |
| Tai Caerdydd | Materion Tai | 30 |
| Tai Rhondda | Materion Tai | 29 |
| Prosiect Vesta, Pen-y-bont ar Ogwr, The Wallich | Tai lle ceir Cymorth | 29 |
| Ymddiriedolaeth Shaw | Cyflogaeth ayb | 28 |
| Working Links | Cyflogaeth ayb | 28 |
| Shelter Cymru | Materion Tai | 26 |
| Tai Abertawe/Castell-nedd | Materion Tai | 24 |
| TEDS (gan gynnwys Rheoli Dicter) | Asiantaeth Cyffuriau | 23 |
| SOLAS | Tai lle ceir Cymorth | 23 |
| Tai Pontypwl/Blaenau/Cwmbrân/Torfaen | Materion Tai | 21 |
| CJIT Gwent/Kaleidoscope | Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau | 20 |
| OGWR Dash | Asiantaeth Cyffuriau | 19 |
| CJIT Pen-y-bont ar Ogwr/Castell-nedd Port Talbot | Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau | 18 |
| RISMS, Llwynypia | Asiantaeth Cyffuriau | 18 |
| Mental Health Matters, MIND etc | Meddygol | 18 |
| YMCA, Caerdydd, Abertawe ayb. | Gwasanaethau Llety | 17 |
| CAU (Caerdydd)/CDAT | Gwasanaethau Cyffuriau | 17 |
| Valley of Hope | Materion Tai | 17 |
| WWSMS | Asiantaeth Cyffuriau | 16 |
| Tai Ceredigion | Materion Tai | 16 |
| CJIT Caerfyrddin | Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau | 15 |
| Banciau/swyddfeydd post/cyngor ar ddyledion ayb | Materion ariannol (cyfrifon banc ayb) | 15 |
| In2Change | Tai lle ceir Cymorth | 15 |
| CJIT Llanelli | Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau | 14 |

| | | |
|---|---|---|
| Ty Trothwy | Materion Tai | 14 |
| CJIT RhCT/Merthyr Tudful | Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau | 13 |
| Tai Caerffili (Ystrad Fach) | Materion Tai | 13 |
| Tai Casnewydd | Materion Tai | 13 |
| DrugAid | Asiantaeth Cyffuriau | 12 |
| Prosiect Women's Turnaround | Prosiect Menywod | 12 |
| Ty Gobaith | Materion Tai | 10 |
| Gwasanaethau nwy/trydan h.y. Scottish Power | Materion Cymorth Tenantiaeth | 10 |
| Tai Merthyr Tudful | Materion Tai | 9 |
| CJIT Ceredigion | Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau | 8 |
| Tai Powys | Materion Tai | 8 |
| Safehaven | Materion Tai | 8 |
| CJIT Caerdydd a'r Fro | Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau | 7 |

| | | |
|---|---|---|
| Tŷ Hartshorn | Materion Tai | 7 |
| Tai Llanelli | Materion Tai | 7 |
| Gwahanol fyrddau bond | Materion Tai | 7 |
| GSSMS | Asiantaeth Cyffuriau | 6 |
| Tŷ Furnace | Materion Tai | 6 |
| Tŷ Tresillian | Materion Tai | 6 |
| NA/AA Abertawe | Narcotics Anon/Alcoholics Anon | 6 |
| Cyswllt Carchardai (Prison Link) Cymru | Tai lle ceir Cymorth | 6 |
| Y Lleng Brydeinig Frenhinol | Materion Cymorth Tenantiaeth | 6 |
| Gwasanaethau Hamdden | Gweithgareddau Ffitrwydd | 5 |
| Tŷ Croeso/Tŷ Newydd | Materion Tai | 5 |
| GAP, Inroads | Asiantaeth Cyffuriau | 8 |
| Hamdden (y gampfa ayb) | Iechyd / Ffitrwydd | 4 |
| Tai Dyfed Powys | Tai | 4 |
| Tŷ Dyfrig | Materion Tai | 4 |
| Newlink | Hyfforddiant/gwaith gwirfoddol | 4 |
| Cymdeithas Gofal Ceredigion | Cymorth amrywiol | 4 |
| Swyddfa Cyngor ar Bopeth | Materion cymorth amrywiol | 4 |
| Prosiect Scarehaven / Prosiect yr Arfordir | Gweithgareddau | 3 |
| CJIT Hwlffordd – Penfro | Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau | 3 |
| FUSHION | Asiantaeth Cyffuriau | 3 |
| CDAT/RAP Pen-y-bont ar Ogwr | Gwasanaethau Cyffuriau | 3 |
| CDAT Abertawe | Gwasanaethau Cyffuriau | 3 |
| MIDAS Construction | Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth | 3 |
| Tai Bargoed | Materion Tai | 3 |
| Tŷ Brynawel | Materion Tai | 3 |
| Gwasanaethau crefyddol | Gwasanaethau crefyddol | 3 |
| Prosiect yr Ifanc Sengl Digartref | Tai lle ceir Cymorth | 3 |
| ADREF, Rhy dda i'w wastraffu | Dodrefnu llety | 3 |
| Compass | Asiantaeth Cyffuriau | 2 |
| Gyrfa yn y Fyddin | Cyflogaeth ayb | 2 |

| | | |
|---|---|---|
| Tai'r Bari | Materion Tai | 2 |
| Tai Charter | Materion Tai | 2 |
| Tŷ Dyffryn | Materion Tai | 2 |
| Tŷ Cantref | Materion Tai | 2 |
| Tai Cymru a'r Gorllewin(Wales & West) | Materion Tai | 2 |
| Tai Ystrad | Materion Tai | 2 |
| Gyrfa Cymru | Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth | 1 |
| Cyflogwr | Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth | 1 |
| Manpower | Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth | 1 |
| Prince's Trust | Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth/Gweithgareddau ayb | 1 |
| EEPIP | Prosiect teuluoedd / plant | 1 |
| Caring Hands | Digartrefedd a materion eraill | 1 |
| Tai Mynwy | Materion Tai | 1 |
| Oakhouse | Materion Tai | 1 |
| Tai Penfro | Materion Tai | 1 |
| Hostel Riverside | Materion Tai | 1 |
| Llyfrgell | Gwybodaeth | 1 |
| Byddin yr Iachawdwriaeth | Materion cymorth amrywiol | 1 |
| DVLA | Trwyddedau gyrru ayb. | 1 |
| Cymorth i Ferched | Prosiect menywod | 1 |
| **Cyfanswm** nifer y cyfeiriadau at asiantaethau allanol | | 2153 |

### 3.4 Perthynas a chysylltiadau â Charchardai, Y Gwasanaeth Prawf a DIP

Yn yr adran hon, rydyn ni'n ystyried y berthynas waith rhwng TSS ac asiantaethau cyfiawnder troseddol statudol pwysig a phartneriaethau cyffuriau yng Nghymru. Yn eu tro, fe fyddwn yn trafod carchardai, y gwasanaeth prawf a'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau (DIP).

*3.4.1 Perthynas waith gyda charchardai*

Un o'r materion yr oedd staff TSS a mentoriaid yn eu codi'n aml oedd yr angen parhaus i ddatblygu, cynnal ac adnewyddu perthynas dda gyda charchardai. Yn wir, ar wahân i'r ddau sefydliad yr oedd ganddyn nhw berthynas agos iawn gyda nhw ((HMP Parc, yr oedd swyddfeydd G4S TSS wedi'u lleoli tu allan iddo, ac HMP Altcourse lle roedd gweithiwr mewngymorth CAIS wedi'i leoli) – ac, i raddau llai, HMP Styal lle roedd mentor Nacro wedi sefydlu patrwm o ymweliadau rheolaidd – ystyriwyd mai anawsterau i ddatblygu a chynnal cyfathrebu systematig ac arferion gwaith oedd y rhwystr rhag cael rhagor o gyfeiriadau. Yn Ne Cymru, awgrymwyd byddai treulio mwy o amser yn adeiladau perthynas wyneb yn wyneb personol gyda staff yng Ngharchardai Abertawe a Chaerdydd, yn arbennig, yn talu ar ei ganfed:

> *Y bobl sy'n cael eu hatgyfeirio aton ni – dw i wir yn credu tasen nhw'n gweld y person nid ddim ond clywed llais, byddai hynny'n helpu'r Cynllun – helpu TSS fel cynllun oherwydd yr oll maen nhw'n ei glywed ydy rhywun ar y ffôn a darllen ychydig o daflenni. Os oes ganddyn nhw berson y maen nhw'n gallu*

*cysylltu ag e/hi ac yn gallu meddwl, 'O byddai hwnnw/honna'n gwneud mentor da ... Rydych chi'n adeiladu perthynas. Rydyn ni'n gwneud hyn gyda phob asiantaeth ar y tu allan: y DIP, CJIT, STIR. Mae pob un o'r prosiectau eraill, Progress to Work, yn nabod ein hwynebau ni ac rydyn ni'n eu nabod nhw. Rydyn ni'n gwneud pwynt i wneud hynny felly dw i'n meddwl bod hynny'n syniad da gyda charchardai hefyd – ond dwi ddim yn sicr iawn sut byddai hynny'n gweithio.*

[Mentor 7]

Cymharodd yr un mentor eu perthynas wresog ac anffurfiol gyda staff Parc gyda'r sefyllfa mewn man arall lle nad oedden nhw'n nabod fawr neb o'r swyddogion wrth eu henwau:

*Yn amlwg, mae gennym swyddfa wedi'i lleoli tu allan i Parc. Ond am y carchardai eraill – dw i'n sicr y byddai croeso i ni ymweld â nhw a dweud 'hylo' a chyflwyno'n hunan a phicio i mewn am baned o goffi - ond yn gyffredinol i ddim un o'r lleill, yn llythrennol yr unig ffordd i gael mynediad yw trwy gyfreithwyr.*

[Mentor 7]

Sylw mentor arall:

*Dw i'n credu bod angen i ni fod yna yn rheolaidd fel bod angen i'r carcharorion ein gweld – nid dim ond y CARAT. Mae angen i'r carcharorion ein gweld ... maen nhw'n dueddol i ystyried timoedd CARAT fel y ffigwr awdurdodol nid TSS. Mae angen i ni ein hunain fod i mewn yna (carchardai eraill) yn dweud wrth bobl am yr hyn y gallwn ei gynnig, chi'n gwybod be dw i'n ei feddwl? Rhaid bod math o ... rhaid eu bod yn cynnal gweithdai - ffeiriau maen nhw'n eu galw nhw.*

[Mentor 2]

Awgrymwyd y gallai fod o help i osod targedau ar gyfer y carchardai eu hunain – fel eu bod yn gorfod bod yn fwy gweithredol wrth gyfeirio at TSS er mwyn parhau i gynyddu momentwm y prosiect:

*…i wneud pobl eraill yn atebol. Mae'r gwasanaeth hwn yn bodoli, a dydy hi ddim yn iawn os nad yw pobl yn gwneud defnydd o arf asesu effeithiol wrth gyfeirio pobl. Mae'n ymwneud â defnyddio gwasanaeth da iawn fel y gallwn ei gynnal er mwyn iddo barhau ac y bydd rhywun am ein comisiynu a'n hariannu ni eto.*

[Mentor 6]

Gwnaed y sefyllfa yn ardal Nacro/CAIS yn fwy anodd fyth oherwydd nad oedd carchar yng Ngogledd Cymru[13] – er fel y trafodir hyn yn nes ymlaen, sefydlwyd cysylltiadau agos o fewn HMP Altcourse, nepell dros y ffin â Lloegr. Dangoswyd bod carcharorion wedi'u dosbarthu ar draws ystod eang o garchardai yn Lloegr ac nad oedd gan TSS yr adnoddau i ofalu amdanyn nhw'n effeithiol:

[13] 5 Chwefror, 2009, cyhoeddodd Y Weinyddiaeth Cyfiawnder mai'r safle ar gyfer carchar newydd Cymru oedd Caernarfon, Gogledd Cymru.

*Allan nhw ddim gofalu am bob carchar y mae defnyddwyr ein gwasanaeth yn mynd iddyn nhw, ac yn sicr ddim yn gallu gwneud ymweliadau cyn i'r carcharorion gael eu rhyddhau os ydy rhywun yn Wiltshire neu ble bynnag. Ac oherwydd ... does dim carchardai lleol ganddon ni, felly mae ein carcharorion yn mynd ar draws y DU. A niferoedd bychain ydy hyn ... [os] oes deg o bobl ganddon ni, mae'n werth mynd lawr. Ond ar gyfer un person, mae'n anodd iawn gwneud hynny.*

[Aelod o Staff TSS]

Ar y llaw arall, roedd y farn gyffredinol am TSS, a ddaeth yn amlwg o'n cyfweliadau gyda staff yn gweithio yn y carchardai y mae gan y Cynllun gysylltiad rheolaidd â nhw, yn bositif iawn. Gwelwyd bod TSS wedi cynyddu eu gallu i weithio gyda charcharorion tymor byr. Yn wir, aeth aelod o dîm adsefydlu'r carchar yn Altcourse mor bell â dweud bod TSS nawr yn darparu ar gyfer 'carcharorion o Gymru', roedd ei dîm wedi gallu ymgymryd â gwaith mwy dwys gyda charcharorion heb ddod o Gymru (testun dadl yw a ydy hyn yn ganlyniad dymunol). Mantais arall a gofnodwyd oedd nad oedd rhaid i'r tîm adsefydlu'r carchar nawr wneud 'galwadau oer' i asiantaethau yng Nghymru nad oedd ganddyn nhw nemor ddim/dim cysylltiad â nhw yn flaenorol – roedd staff TSS yn aml yn gwneud hyn.

*Cyn TSS, prin oedd y cymorth allan yn y gymuned. Roedd hi'n anodd iawn cael mynediad i gymorth. Nawr, mae'r ffaith bod TSS yn y maes ac yn dod i mewn i'r carchar wedi tynnu baich mawr oddi ar ysgwyddau'r tîm adsefydlu o ran cynnig cymorth i'r grŵp hwn o garcharorion.*

Cyfaddefodd cynrychiolydd CARAT mewn carchar arall bod yr unig wybodaeth oedd ganddi am effaith ôl-ryddhau TSS wedi dod o sgwrs gyda chleientiaid TSS oedd wedi dychwelyd i'r carchar, ond dwedodd bod hyd yn oed yr unigolion hyn (y gellir tybio nad oedd eu profiad o TSS yn llwyddiannus) yn bositif iawn am y cymorth roedden nhw wedi'i dderbyn. Ar ben hynny, eglurodd gweithiwr CARAT sut roedd bodolaeth TSS yn golygu y gall mentrau y mae CARAT yn eu sefydlu ar gyfer carcharorion tymor byr, ond yn methu â'u cwblhau oherwydd prinder amser, gael eu parhau yn y gymuned gan weithwyr TSS.

Yn olaf, ar yr ochr negyddol, mater arbennig sy'n achosi problemau yn aml i'r mentoriaid oedd dyfarnu yn ddirybudd Drwydded Diweddu Cyfnod Carchar (ECL), gan caniatáu i garcharorion gael eu rhyddhau hyd at 18 diwrnod yn gynt na'r disgwyl. Roedd hyn yn cael effaith negyddol, nid yn unig ar eu gallu i gwrdd â chleientiaid yn y carchar, ond hefyd ar eu cyfleoedd ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau. Roedd rhai ohonyn nhw'n meddwl y gallai'r diffyg paratoi ar gyfer y rhyddhau gynyddu eu siawns i aildroseddu:

*Weithiau, rydyn ni'n cael yr atgyfeiriad, yn enwedig gyda'r ECL ac maen nhw allan yr wythnos nesaf ... dydy hi ddim yn bosibl gynnwys dau ymweliad â wedyn. Os felly, rhaid dweud, "Reit, fe wna i gwrdd â chi'r wythnos y byddwch chi allan.."*

[Mentor 3]

*Mae ECL, yn fy marn i, yn beth hurt. Dydy'r carcharorion ddim yn cael eglurhad am yr hyn sy'n digwydd. Mae'n nhw'n meddwl 'Deunaw diwrnod, dw*

*i'n cael fy rhyddhau'n gynnar, fedra i ddim aros!' A'r hyn dydyn nhw ddim yn sylweddoli yw eu bod yn cyrraedd adref, eu rhieni wedi cael llond bol arnyn nhw o fewn ... achos dydyn nhw ddim yn gyfarwydd â nhw'n defnyddio. Maen nhw'n cael eu cicio allan ac maen nhw'n ddigartref ac maen nhw ar y stryd. Dydyn nhw ddim yn gallu cael eu ailgartrefu gan fod ganddyn nhw gyfeiriad rhyddhau ac yna mae'r bechgyn yn aildroseddu er mwyn dychwelyd i'r carchar, i ddod allan.*

[Mentor 8]

*Y peth ydy ---- dydy'r ECL yma ddim yn gweithio. Tua phythefnos yn ôl, roedd dyn sy'n gwneud gwaith yn y maes rhyddhau yn mynd nôl i ddweud wrth y carcharorion i fod yn ofalus ac i feddwl am ECL ... Felly fe wnaethon ni awgrymu bod y bechgyn sy'n gwneud cais am ECL yn sicrhau bod ganddyn nhw gyfeiriad sefydlog pan fydden nhw'n dod allan ac wedyn, bydden nhw'n iawn. Oherwydd, os nad oes ganddyn nhw, ydyn nhw'n deall pan ân nhw at y cyngor, maen nhw'n mynd i gael eu gwrthod ... rhaid egluro hynny wrthyn nhw...mae angen system... mae rhaid iddyn nhw ddeall sut mae pethau'n gweithio pan fyddan nhw'n dod allan.*

[Mentor 4]

*Yn annhebyg i HDC, lle mae ganddyn nhw gyfeiriad a gymeradwywyd, gydag ECL gallen nhw rhoi unrhyw gyfeiriad a chael dod allan. Gallai fod yn gyfeiriad unrhyw un. Gallai fod yn dŷ 'crac' a does dim yn cael ei checio. Felly, os ydych chi wedi paratoi rhywbeth ar eu cyfer pan ddôn nhw allan, gallen nhw golli pob apwyntiad a wnaed cyn iddyn nhw gael eu rhyddhau achos dydych chi ddim yn cael cyfle i ddweud wrthyn nhw gan fod yr wythnosau olaf yn adeg hollbwysig i sefydlu pethau. A weithiau, dydyn nhw ddim yn gwybod tan y bore hwnnw eu bod yn cael eu rhyddhau, felly fydden nhw ddim wedi gallu rhoi gwybod i ni.*

[gweithiwr CARAT]

Cefnogodd un carcharor a gyfwelwyd gennym y farn uchod, a oedd yn difaru bod ECL wedi golygu nad ymunodd â TSS yn ystod dedfryd flaenorol. Yn ddiweddarach, sylweddololodd pa ddarpar gymorth roedd e wedi'i golli:

*Os ydych yn cael y drwydded i fynd allan ddeunaw diwrnod yn gynnar, maen nhw'n eich colli chi weithiau...pan es i mewn llynedd ac o'n i'n mynd i gael cymorth a ches i fy rhyddhau ddeunaw diwrnod yn gynnar, achos newydd ddod allan oedd y rheol. Unwaith ro'n i ar fy mhen fy hun, ces i lythyr ganddyn nhw, dau lythyr mewn gwirionedd yn awgrymu i mi gysylltu â nhw i gael sgwrs a gweld sut ro'n i'n ymddwyn. Ond wnes i ddim cysylltu â nhw. Syrthiais nôl i gymryd cyffuriau, troseddu ac ro'n i'n difaru wedyn nad oeddwn wedi cymryd y cymorth.*

[D7]

*3.4.1.1 Gweithiwr mewngymorth y carchar*

Fel yr amlygwyd droeon mewn ymchwil blaenorol (gweler er enghraifft, Clancy et al. 2006; Maguire 2007), un o'r pethau allweddol i sicrhau cyswllt gwirfoddol llwyddiannus ôl-ryddhau gyda mentor yw sefydlu perthynas cyn i'r troseddwr adael y carchar. Mae staff TSS a chynrychiolwyr asiantaethau allanol fel ei gilydd yn ymwybodol iawn o hyn, ac fe'i nodwyd yn un o gryfderau nodedig y Cynllun sef bod mentoriaid yn ymweld â chleientiaid cymaint o weithiau â phosib tra roedden yn y carchar. Er enghraifft:

> *Y peth da am TSS yn dod i mewn i weld y bechgyn ydy ei fod yn rhoi cyfle iddyn nhw weld rhywun, i roi wyneb i'r enw yn hytrach na chael apwyntiad neu amser penodol i alw heibio. Gan eu bod [y mentoriaid] yn eistedd i lawr gyda nhw [y carcharorion] am tua hanner awr, mae perthynas yn cael ei sefydlu. Maen nhw'n nabod y person. Dw i'n meddwl mai dyna'r peth gorau amdano. A gwn, o'r adborth rydyn ni'n ei dderbyn gan garcharorion, ei bod yn wir bwysig cael rhywun yno iddyn nhw ar y dechrau pan fyddan nhw'n dod allan.*
>
> [Cynrychiolydd Asiantaeth]

> *Dw i'n teimlo os nad ydych wedi gwneud ymweliad [â'r carchar] mae'n anodd sefydlu perthynas pan fyddan nhw'n dod allan gyntaf achos rydych chi'n mynd i'w tŷ neu eu hamgylchedd a dydyn nhw ddim wir yn eich nabod. Tra, yn y carchar, mae'n haws sefydlu perthynas ac wedyn maen nhw'n gwybod pwy ydych chi pan fyddwch yn cnocio ar eu drws.*
>
> [Mentor 5]

Elfen ychwanegol yng ngwaith TSS Nacro/CAIS – ond elfen na wnaeth rwystro mentoriaid rhag ymweld – oedd penodi gweithiwr mewngymorth llawn amser yn HMP Altcourse. Er i nifer o gwestiynau godi a oedd angen i'r swydd hon fod yn un llawn amser (gweler isod) doedd neb a gyfwelwyd yn amau bod manteision sylweddol i gael gweithiwr mewngymorth, gan gynnwys darparu ffynhonnell hygyrch o gymorth i garcharorion rhwng ymweliadau mentoriaid. Fel y dwedodd y gweithiwr mewngymorth ei hun:

> *Mae gweithiwr mewngymorth ... yno bob dydd ... gan, wrth gwrs, bydd problemau'n codi rhwng ymweliadau mentor ... ond mae'r carcharorion yn gwybod yn union lle dw i'n gweithio, felly gallan nhw ddod i ngweld i rhwng y mentoriaid cymunedol. Felly, mae'n bwysig mod i yma'n llawn amser.*

Yr un mor bwysig, mae cael swydd wedi'i lleoli tu mewn i'r carchar yn golygu bod y gweithiwr mewngymorth yn cael gweld y carcharorion yn haws ac amlach ac yn gallu defnyddio hyn i gynorthwyo'r cleientiaid a'r mentoriaid:

> *Rhyddid i symud o gwmpas y carchar. ... dydyn nhw ddim yn teimlo eu bod yn dibynnu ar y staff drwy'r amser, ... mae hynna'n helpu gyda chyfrinachedd – does dim swyddog yn eistedd gyda chi.*
>
> [Mentor]

Roedd hefyd yn galluogi'r tîm i ymateb o fewn yr amser prin iawn y maen nhw'n ei gael gyda'r carcharorion:

*Dw i'n gweld yn ddyddiol bod y gwaith y maen nhw'n ei wneud yn cynorthwyo set anodd iawn o garcharorion. Mae carcharorion er enghraifft yn dod i mewn ar ddedfryd o dair wythnos ... mae 'da chi rhywbeth fel 10 diwrnod , efallai 12 diwrnod i weithio gyda'r troseddwyr hynny. Dyna pryd rydyn ni'n dibynnu'n drwm ar TSS i ymglymu y diwrnod ar ôl iddyn nhw ddod mewn, os oes angen. Eu rhoi mewn cysylltiad â gwasanaethau ar y tu allan achos nhw yw'r ddolen gyswllt.*

[Aelod o staff carchar]

Mae'r swydd hon hefyd yn darparu cyswllt mwy rheolaidd rhwng gweithwyr cymorth a leolir yn y carchar (e.e. staff CARAT a staff adsefydlu) a mentoriaid TSS yn y gymuned – gyda staff TSS yn y gymuned mewn sefyllfa dda i godi ymwybyddiaeth staff a leolir yn y carchar o'r gwasanaethau sydd ar gael yn y gymuned. Yn wir, ystyriwyd y ffaith bod y gweithiwr mewngymorth a'r tîm adsefydlu wedi'u lleoli yn yr un lle yn holl bwysig i gyflenwi TSS yn effeithiol:

*Rhaid ei gael. Dw i ddim yn credu y gall weithio mewn unrhyw ffordd arall a bod yn onest. Baswn i'n argymell bod angen iddyn nhw (gweithwyr 'mewngymorth') fod mor agos â phosibl i weithwyr cynghori/adsefydlu tai..*

[Aelod o staff carchar]

Daeth prif amheuon am y swydd hon gan rai a deimlai bod prinder mentoriaid cymunedol gan Nacro/CAIS. Roedd un a holwyd o'r Cynllun yn dadlau byddai mentor ychwanegol yn gwneud defnydd mwy effeithiol o'r adnoddau, ond y farn fwy cyffredin oedd mai swydd rhan amser ddylai hi fod a'i chyfuno gyda gwaith yn y gymuned a/neu mewn carchardai eraill.

*3.4.2 Perthynas gyda'r Gwasanaeth Prawf*

Roedd cynrychiolwyr y gwasanaeth prawf yng ngogledd Cymru a chanolbarth/de Cymru a holwyd yn cyfaddef nad oedd y berthynas strategol rhyngddyn nhw a TSS mor gadarn ag y dylai fod, er honnwyd bod gwelliannau positif yn cael eu gwneud. Nodwyd hefyd bod perthynas waith agos iawn wedi'i sefydlu yn lleol mewn rhai mannau. Sylw un rheolwr prawf yng Ngogledd Cymru oedd:

*Dydy TSS a darparwyr gwasanaeth TSS ddim wedi ceisio ymglymu eu hunain yn weithredol i hyrwyddo'r gwasanaeth o fewn y Gwasanaeth Prawf. Hwyrach bod gweithiwr unigol wedi sefydlu perthynas bersonol gydag unigolion o blith swyddogion y gwasanaeth prawf, drwy ddigwydd iddyn nhw ddod at ei gilydd. Yn or-syml, gallech ddweud nad yw'r darparwyr wedi gwerthu'r gwasanaeth mewn unrhyw ffordd i'r swyddogion prawf.*

*…O ran swyddogion cyffredin y gwasanaeth prawf, dw i ddim yn credu ein bod yn gwybod bod y gwasanaeth yn bodoli!. Efallai mod i'n gwybod, ond mater arall yn hollol ydi a oedd unrhywun arall yn gwybod. A dim ond tasech chi wedi mynychu cyfarfodydd strategol DAWN fyddech chi'n gwybod am ei fodolaeth. Tu allan i'r amgylchfyd hwnnw mwy na thebyg fyddech chi ddim yn gwybod am ei fodolaeth.*

*…Mae ariannu'r ail gyfnod wedi golygu bod arferion unigol da wedi'u sefydlu gyda pherthynas dda rhwng gweithwyr. A weithiau, mewn gwirionedd, dyna'r unig ddull gallwch chi ddatblygu gwasanaeth beth bynnag, waeth beth ddywed y rheolwyr, dydy gweithwyr o anghenraid, ddim yn ei wneud! Felly, weithiau dyna'r ffordd orau.*

Y canfyddiad cychwynnol yw efallai nad yw'r gwasanaeth prawf yn gweithio gyda'r rhai a ryddhawyd o ddedfryd carchar o lai na 12 mis, felly prin bod angen dull di-dor o fynd ati. Fel y dwedodd yr un rheolwr, mae, fodd bynnag, orgyffwrdd rhwng y ddau grŵp cleient:

*Mae gennym nifer sy'n mynd i'r carchar ac yna ddim yn dychwelyd aton ni. Ond dw  ddim yn meddwl bod gynnon ni lwybr gofal di-dor sy'n delio â'r mater hwnnw. Ac mae yna dadl dda, mewn gwirionedd, y dylid cymeradwyo eich math chi o waith, i'r darparwr a ninnau, ac y dylen ni roi llawer mwy o ystyriaeth iddo, a gofyn a ellid cael proses lle byddai'r Gwasanaeth Prawf yn hysbysu TSS am ganran o'u grŵp cleient sydd, yn sydyn, wedi torri amodau, wedi'u hadalw a'u dychwelyd i'r carchar, a allai fanteisio o wasanaeth TSS o ran cael eu rhyddhau i'r gymuned a pheidio dychwelyd at y Gwasanaeth Prawf?*

Mewn gwirionedd, mae hyn yn digwydd yn amlach nag mae'r ymatebydd uchod efallai'n sylweddoli - fel y gwelir yn Atodiad Tabl 1, mae tua un o bob chwe pherson a gyfeirir yng Ngogledd Cymru wedi cael eu carcharu am dorri ryw amod neu'i gilydd.

Gwnaed un pwynt olaf gan un o ymatebwyr o'r gwasanaeth prawf – sef y gellid osgoi'r niwed a achosir gan ddedfrydau o gyfnod byr yn y carchar dwy rhoi terfyn arnyn nhw – yn hytrach na darparu cymorth i geisio galluogi cyn-garcharorion i setlo nôl yn y gymuned:

*Nid TSS yw'r broblem. Nid Profiannaeth yw'r broblem. Y broblem yw dedfrydau carchar byr-dymor. Does dim angen gwasanaeth TSS arnon ni – nid oherwydd nad oes angen gwasanaeth TSS ond oherwydd does dim angen i bobl fynd i garchar am gyfnod aflonyddgar o chwe wythnos, tri mis, pedwar mis. Does neb ar eu hennill. Mae'n gostus, mae'n aneffeithiol ac nid yw'n cyflawni dim.*

### *3.4.3 Perthynas gyda DIP a gwasanaethau cyffuriau ac alcohol eraill*

Gall troseddwyr â phroblemau camddefnyddio sylweddau gael mynediad i gymorth a thriniaeth gan wahanol asiantaethau gwirfoddol a statudol. Mae rhai o'r asiantaethau hyn yn darparu gwasanaethau sy'n gorgyffwrdd â rhai o'r gwasanaethau y mae TSS yn eu cyflenwi. Yn bwysicach, yn ogystal â'i gwasanaeth craidd i ddarparu triniaeth mae Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau (DIP) yn cynnig cwnsela a cymorth – gan gynnwys cymorth mentora – i ddefnyddwyr cyffuriau tu allan i'r carchar.

Dangosodd cyfweliadau gyda staff TSS bod cyflwyno DIP yn Ebrill 2006 wedi creu 'tensiynau cychwynnol' a 'phryderon'. Ymhlith y pryderon roedd dau brif fater: y gorgyffwrdd potensial mewn grŵp cleient (h.y. troseddwyr oedd yn camddefnyddio cyffuriau) a'r posibilrwydd o ddyblygu'r gwasanaethau a gynigiwyd (h.y. gwasanaethau mentora). Disgrifiodd y ddau reolwr eu pryder cychwynnol am sefydlu DIP:

> *Roedd yn achos pryder pan ddaeth DIP i Gymru, pa effaith fyddai'n ei gael ar TSS achos mae manyleb gwasanaeth DIP yn cynnwys mentora. Ac felly, doedd dim rhyfedd ein bod ni'n meddwl, ac efallai Llywodraeth Cynulliad Cymru'n meddwl, ble roedd TSS yn ffitio i mewn.*
>
> [Rheolwr 1]

> *Ac yna, wrth gwrs, daeth DIP, gan greu tensiynau ar y cychwyn achos roedd achosion cyffuriau yn mynd i DIP, ond gall TSS helpu gydag achosion o gamddefnyddio pob sylwedd. Ac mae cyffuriau a alcohol yn mynd i DIP hefyd.*
>
> [Rheolwr 2]

Ond ni pharodd y pryderon hyn yn hir. Cytunodd y ddau reolwr prosiect i '*bethau ddod yn eglur'* bod '*lle i ni gyd'*. Yn wir, sefydlwyd perthynas waith agos a gwresog mewn rhai achosion gyda dealltwriaeth glir o ba achosion y byddai'r ddau grŵp yn delio â nhw. Siaradodd un rheolwr yn benodol am 'niche' ar gyfer TSS i ddarparu cymorth mentora ar gyfer cleientiaid ag 'unrhyw' fath o broblem camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys alcohol. Byddai DIP ar y llaw arall, yn benodol yn targedu defnyddwyr cyffuriau Dosbarth A sydd angen sgript:

> *Nawr yng Nghymru, pwrpas DIP yw bod yn rhaglen mynediad cyflym 14 wythnos*[14] *gyda mynediad cyflym i bresgripsiynau lle bo'n briodol. Mae ar gyfer unrhyw un a ddaliwyd yn system cyfiawnder troseddol, felly, fel mae'n digwydd, byddai hynny'n cynnwys carcharorion. Nawr yn y bôn, mae DIP ar gyfer cyffuriau Dosbarth A, defnyddwyr trwm. Dim alcohol. Dydy Dip ddim yn delio ag alcohol ar ei ben ei hun, ac nid alcohol yw'r dewis sylfaenol o gyffur.*
>
> [Rheolwr 1]

Mae TSS G4S yn derbyn atgyfeiriadau ar gyfer cleientiaid gydag phroblem camddefnyddio unrhyw sylwedd, gan gynnwys cyffuriau Dosbarth A. Fodd bynnag mae'n ymddangos bod cleientiaid sydd angen meddyginiaeth neu'sgript' yn cael eu hystyried fel cyfrifoldeb DIP.

> *Mae DIP yn debyg i ni ond bod nhw'n delio â phresgripsiynau.*
>
> [Mentor 7]

> *Ydyn, rydyn ni'n gweithio gyda phobl â phroblemau cyffuriau ond os ydyn nhw'n mynd ar feddyginiaeth, fel arfer maen nhw'n symud at DIP neu rywbeth ar hyd y llinellau hynny.*
>
> [Mentor 5]

---

[14] Mewn gwirionedd, mae hyd y rhaglen dan drafodaeth yn y gwahanol ardaloedd daearyddol

Fel arfer cyfeirir defnyddwyr cyffuriau Dosbarth A, sydd angen sgript ac sydd wedi llithro drwy rwyd DIP ac yn gorffen fel cleientiaid TSS, at DIP am driniaeth. Bydd mentoriaid TSS yna'n cydweithio gyda DIP yn ystod cyfnod 'trosglwyddo' o bedair wythnos:

> *Os yw'n dod allan gyda TSS, ac rydyn ni'n teimlo bod angen mwy o gymorth arno fe nag y gallwn ni ei gynnig, megis sgript, gallwn ei gyfeirio at DIP, cydweithio gyda DIP a'r cyfranogwr am bedair wythnos er mwyn trosglwyddo'n briodol. Os ydyn nhw'n dod allan gyda DIP ar eu hunion, yna byddan nhw'n mynd gyda DIP.*
>
> [Mentor 6]

Mae'r sefyllfa ychydig yn wahanol yn y gogledd, lle bu TSS yn gweithio'n agos gyda DIP (Nacro oedd yn cyflenwi'r ddau hyd at fis Mawrth 2009) i ddatblygu 'llwybrau pendant' yn eu gwahanol wasanaethau. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod cleientiaid gyda phroblem cyffuriau Dosbarth A yn cael eu sianelu drwy'r DIP tra bod cleientiaid gyda phroblemau alcohol a phroblemau cyffuriau Dosbarth B neu C yn cael eu sianelu i TSS. Dwedodd cynrychiolydd o asiantaeth allanol yng Ngogledd Cymru bod cyflwyno DIP wedi gostwng ystod y categorïau troseddol y byddai TSS yn delio â nhw:

> *.. mae wedi newid ychydig mewn gwirionedd achos os ydyn nhw yn y carchar am fwy na 12 mis, allwn ni ddim eu rhoi yn TSS bellach, na chwaith os oes problemau cyffuriau Dosbarth A ganddyn nhw. Rydyn ni'n dal i'w defnyddio ond yn bennaf nawr am ddedfrydau o dan 12 mis ac ar gyfer unrhyw un sydd â phroblem alcohol neu ganabis.*
>
> [Cynrychiolydd Asiantaeth]

Ar y llaw arall, ystyriai rhai fod sefydlu DIP yn darparu ffiniau cliriach a mwy defnyddiol ar gyfer TSS, gan ei wneud yn fwy pendant ei gyfeiriad a'i atal rhag taenu ei adnoddau'n rhy denau. Roedd wedi cymryd amser i ddatblygu a gweithredu prosesau gweithio mwy effeithiol ond roedd gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud:

> *Un o'r pethau a wnaethon ni [TSS] gyda'n hail gynnig oedd ceisio ... gwneud llwybrau cyfeirio'n fwy effeithio ... Yn Altcourse, yn fuan ar ôl cael yr ail gontract cafwyd ad-drefnu mewnol sylweddol. Datblygon ni lwybr integredig lle mae timoedd CARAT yn cael yr unigolion hynny â phroblemau cyffuriau neu broblemau yn gysylltiedig â chyffuriau ac yn eu cyfeirio at y DIP ac yna bydden nhw'n cyfeirio'r rhai addas ar gyfer TSS o'r man cyswllt sengl. Byddai'r rhai â phroblemau alcohol yn cael eu cyfeirio'n uniongyrchol at TSS drwy ein gweithiwr mewngymorth yn y carchar.*
>
> [Rheolwr Contract]

Er hyn, soniwyd am y broblem bod rhai o aelodau staff asiantaethau allanol a staff carchardai yn dal yn ddryslyd ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng DIP a TSS. Yn wir, roedd un rheolwr yn poeni y gallai hyn gyfyngu ar lwybrau cyfeirio o'r carchar ac oherwydd hynny, efallai nad oedd atgyfeiriadau'n cael eu gwneud:

> *Yn y bôn, hoffwn i gael rhagor o atgyfeiriadau o'r carchardai a bod onest.. Gwn nad ni yw'r bobl broffesiynol yn yr asiantaethau triniaeth, ond oes pobl i*

*mewn yn fanna ar 'crac', canabis, amffetaminau, tabledi, mae sawl un ohonyn nhw ddim yn gymwys ar gyfer DIP, felly, ble maen nhw?*

[Rheolwr 1]

Er y nodwyd pryderon am y gorgyffwrdd posibl mewn gwasanaethau, roedd hi'n glir bod gwahaniaethau sylweddol rhwng DIP a TSS o ran dulliau cyflenwi. Tra bod DIP yn darparu dull strwythuredig yn bennaf, yn seiliedig ar fynychu apwyntiadau sydd wedi'u trefnu ymlaen llaw, mae dull TSS yn seiliedig yn bennaf ar 'estyn allan', lle mae mentoriaid yn rhoi cymorth mentora yn uniongyrchol i'r cleientiaid o fewn y gymuned. Yn y TSS G4S, defnyddiwyd y term ''estyn allan yn llwyr' yn gyson i ddisgrifio model eu harfer a'i gymharu â DIP. Eglurodd rheolwr y gwahaniaeth:

*Yn sicr, ar gyfer TSS a De Cymru a Gwent a Dyfed Powys rydyn ni [TSS] yn gweithio'n llwyr ar wasanaeth teithiol ... mae'n dod yn glir bod y galwadau ar y DIP, lle mae rhaid iddyn nhw fod ychydig mwy strwythuredig achos bod rhaid iddyn nhw geisio cyflenwi gwaith grŵp ... bydd rhaid iddyn nhw ymwneud mwy â 'Dewisiadau Anodd', … a bydd hynny'n rhoi gwedd hollol newydd ar bethau. Does ganddyn nhw ... fydd ganddyn nhw ddim amser i fynd allan a gwneud yr holl bethau eraill hynny a dydyn nhw ddim yn gwneud. Ac yn rhannol, y ffordd mae gweithwyr DIP yn gweithredu ... ydy rhoi ... anfon llythyr apwyntiad. Felly, os yw person yn y carchar, byddan nhw'n anfon llythyr yn nodi bod ganddyn nhw apwyntiad ar ddiwrnod arbennig. Wel, dw i'n gwybod, hanner yr amser os nad ewch chi â pherson yn y lle cyntaf, y tebyg yw na fyddan nhw'n mynd. Ac mae ganddyn nhw lawer o DWM/DNA (dim wedi mynychu/did not attend) yn y DIP.*

*Mae'r ffaith nad yw gweithwyr DIP bob amser yn gallu darparu'r lefel angenrheidiol o gymorth i gleientiaid wedi arwain rhaglenni DIP i gomisiynu TSS i lenwi'r 'bylchau' yn narpariaeth y gwasanaeth. Felly, mewn rhai ardaloedd mae TSS a DIP yn cydweithio'n agos i gynorthwyo cleientiaid â phroblemau difrifol gyda chyffuriau.*

*Mae rhai DIP wedi'n hariannu ni. Ariannu TSS er mwyn i ni allu cydweithio â nhw.*

[Mentor 6]

Cadarnhawyd y berthynas agos rhwng TSS a DIP gan y ffaith eu bod, mewn rhai ardaloedd yn cael eu cyflenwi gan yr un sefydliad. Gan G4S mae'r contract am gyflenwi TSS yn Ne Cymru, Gwent a Dyfed Powys a hefyd am gyflenwi'r TSS yng Ne Orllewin Cymru (Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr, a Castell-nedd/Port Talbot). Yn yr un modd, hyd fis Mawrth 2009, gan CAIS, mewn partneriaeth â Nacro yr oedd y contract i gyflenwi TSS a DIP yng Ngogledd Cymru. Mewn rhai achosion, roedd staff TSS a DIP yn gweithio yn yr un swyddfeydd. Amlygodd cynrychiolydd o un o'r asiantaethau allanol pa mor ddefnyddiol oedd y bartneriaeth agos hon.

*Dw i'n credu mai'r cryfder arall yw mai'r un darparwr yw TSS a DIP. Felly, mae fel petai nhw'n weithwyr Nacroa dydy hi ddim yn gwneud llawer o wahaniaeth ai TSS neu DIP yw e, gweithiwr Nacro yw ac mae hynny'n iawn, mae'n gwneud y cysylltiad gymaint â hynny'n haws.*

[Cynrychiolydd Asiantaeth]

Mae agosatrwydd y berthynas rhwng DIP a TSS wedi codi cwestiynau diddorol am y rheswm pam na ddatblygwyd 'un gwasanaeth generig'. Dywedodd cynrychiolydd o un asiantaeth allanol:

> *Basen i'n wyliadwrus iawn, iawn am hyn, a dwi wedi cyfeirio eisoes at hyn mwy na thebyg. Ond dw i ddim yn deall pam bod gynnon ni wasanaeth DIP a TSS ar wahân*

Awgrymodd un o reolwyr TSS mai'r rheswm pam bod y ddau wedi parhau ar wahân yw oherwydd:

> *… mae'n hyrwyddo dull cytbwys o fynd ati ochr yn ochr â DIP ar gyfer problemau alcohol yn bennaf.*
>
> *… Mae'n ymddangos eu bod wedi gweld a chydnabod yr hyn mae pobl gyffredin fel fi wedi bod yn ei ddweud ers talwm bod alcohol yn broblem fwy o lawer mewn cymunedau na chyffuriau.*

*3.4.3.1 Perthynas ag asiantaethau cyffuriau ac alcohol eraill*

Yn ychwanegol at raglen DIP, mae TSS yn gweithio ochr yn ochr ag ystod o asiantaethau cyffuriau ac alcohol eraill. Mae'r berthynas rhwng TSS a'r asiantaethau eraill hyn yn ymddangos yn gyffredinol eithaf positif. Er enghraifft, dwedodd cynrychiolydd Gwasanaeth Cymunedol ar Gyffuriau ac Alcohol bod cyflwyno protocolau o gydrannu gwybodaeth a chyfarfodydd tair ffordd wedi gwella ac atgyfnerthu gweithio mewn partneriaeth gyda TSS yn sylweddol:

> *Yn fy marn i, maen nhw llawer mwy gweledol nawr. Maen nhw'n gweithio gyda nifer ehangach o asiantaethau a dw i'n meddwl bod llai o broblemau ynglŷn â rhannu gwybodaeth ... rydyn ni wedi cytuno y gallwn ni ei drafod gydag asiantaethau eraill ac mae hynny wedi helpu llawer, dw i'n meddwl. Felly, mae'n atgyfnerthu'r cydweithio. Ac mae'n rhwystro'r dyblygu'r gwaith hefyd oherwydd rydyn ni i gyd yn gwneud cyfarfodydd tair ffordd gyda phobl, bron fel cyfarfod cyd-asiantaeth yn cynnwys yr holl asiantaethau.*

Cafwyd sylwadau mwy negyddol. Teimlai un mentor, er enghraifft, bod rhai asiantaethau'n ystyried bod TSS mewn cystadleuaeth â nhw yn hytrach na chydweithio ochr yn ochr â nhw.

> *Rhai o'r asiantaethau cyffuriau er enghraifft, dw i'n meddwl eu bod yn ein hystyried ni fel bygythiad a dydyn ni ddi. … Felly, dwi'n gwybod bod angen chwalu'r rhwystrau hynny a dydy hynny ddim o anghenraid yn rhywbeth i TSS, mae'n rhywbeth rhaid i asiantaethau eraill ei ystyried, ein bod ni yna i ... . rydyn ni'n fwy na hapus i weithio gydag unrhywun.*
>
> [Mentor 2]

Nodwyd natur gystadleuol rhai o'r asiantaethau arbenigol gan un o oruchwylwyr TSS. Mynegodd bryder nad oedd yr asiantaethau hyn bob amser yn cydnabod cyfraniad y gallai TSS ei wneud i'w gwasanaeth:

*Dw i'n teimlo bod llawer o asiantaethau [triniaeth] allan fanna'n hoffi cadw rhai eu hunain. Unwaith i ni gyfeirio pobl atyn nhw, 'nhw piau nhw' ac maen nhw'n teimlo eich bod yn sathru ar eu cyrn – dydyn ni ddim wth gwrs achos nid dyna pam rydyn ni yna. Rydyn ni yna i'w helpu nhw hefyd. Os ydyn nhw [y cleientiaid] yn sefydlu perthynas gyda'r mentor, gall y mentor bob amser sicrhau bod y cleient yn cael yr apwyntiad.*

[Goruchwylydd 1]

Mae'r canfyddiad bod TSS yn fygythiad yn hytrach na phartner yn awgrymu nad yw rhai asiantaethau'n llawn werthfawrogi amcanion TSS. Gallai'r diffyg dealltwriaeth hwn fod yn broblem oherwydd gallai rwystro troseddwyr â phroblemau camddefnyddio cyffuriau rhag cael mynediad i'r cymorth y mae hawl iddyn nhw eu gael. Teimlai cynrychiolydd o asiantaeth cyffuriau ac alcohol bod diffyg dealltwriaeth yn broblem arbennig i sefydliadau sy'n gweithio tu allan i'r system cyfiawnder troseddol.

*Gwn petaech yn gofyn i gadeirydd rhyng-SMAT (timau Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau) neu gydlynydd SMAT faint maen nhw'n ei wybod am TSS, fydden nhw ddim yn gwybod amdanyn nhw ... ac eithrio'r garfan Cyfiawnder Troseddol efallai. Os ydych yn siarad â thîm wedi'i ymglymu â Chyfiawnder Troseddol, efallai y bydden nhw'n gwybod am TSS a beth maen nhw'n ei wneud a sut maen nhw'n cysylltu. Ond os ydych chi'n siarad â thîm tu allan i faes Cyfiawnder Troseddol, dw i ddim yn siŵr faint fydden nhw'n ei wybod am TSS.*

[Cynrychiolydd asiantaeth]

#### *3.4.3.2 Mynediad i driniaeth am gamddefnyddio sylweddau*

Mae cael mynediad prydlon i sgript yn aml yn allweddol i atal cleient rhag dychwelyd i gamddefnyddio sylweddau a throseddu. Fodd bynnag, riportiodd nifer o fentoriaid broblemau i gael mynediad amserol i driniaeth camddefnyddio sylweddau ar gyfer eu cleientiaid. Mynegodd un mentor wir rwystredigaeth gyda DIP ar ôl cyfeirio cleient atyn nhw am fynediad 'cyflym' i bresgripsiwn.

*Fe wnes i ei gyfeirio fe [cleient TSS] at DIP, gweithio gydag e am bedair wythnos cyfnod y trosglwyddo, ac roedden nhw'n addo sgript iddo, 'Ie fe gewch chi un mewn pythefnos'. Chwe wythnos yn ddiweddarach a doedd dim sgript 'da fe eto. Mae'n gweithio llawn amser, mae e'n talu am ei heroin o'i gyflog ... Ron i mor flin ... Roedden nhw fod i'w drefnu fe.*

[Mentor 5]

Roedd y mentor yn cydnabod anawsterau cael gafael ar sgript oherwydd mai dim ond meddygon penodol sydd â thrwydded i ysgrifennu sgriptiau. Hyd yn oed ymhlith y rhai sydd â thrwydded, riportiodd y mentor eu bod yn gyndyn i 'sgriptio' ar eu pen eu hunain. Mae rhannu'r cyfrifoldeb yn golygu 'os aiff rhywbeth o'i le, dyw'r bai ddim yn syrthio ar un meddyg'. Wedi'r cyfan, mae 'sgriptio methadone a subutex yn gêm beryglus'.

Pwysleisiodd mentor arall bwysigrwydd bod yn realistig wrth gyfeirio cleientiaid i gael triniaeth. Eglurodd ei bod yn bwysig i fod yn realistig am y rhestrau aros a pheidio â 'rhoi gobeithion ffug' i gleientiaid':

> *Y realiti yw, bod y rhestrau aros lawer yn hirach nag y mae pobl yn ei feddwl ... os nad ydyn nhw'n addas ar gyfer DIP, achos dydy rhai ddim yn addas, maen nhw'n mynd at CDAT (y Tîm Alcohol a Chyffuriau Cymunedol) a fanno mae rhestrau aros o bum neu chwe mis. Mae llawer o bobl yn cael eu dadrithio gyda hynny, sy'n ddealladwy.*
>
> [Mentor 3]

### 3.5 Perthynas gydag asiantaethau gwasanaeth eraill

Rydyn ni nawr yn troi'n sylw oddi wrth gamddefnyddio sylweddau i ddarparu gwasanaeth mewn meysydd eraill megis tai a chyflogaeth. Yn adran 3.3.3, ystyriwyd cysylltiad TSS gydag asiantaethau perthnasol o safbwynt y cleientiaid. Yma, rydyn ni'n cymryd golwg mwy strategol ar berthynas y Cynllun gydag asiantaethau partner, yn seiliedig yn bennaf ar ein cyfweliadau gyda chynrychiolwyr o ystod o ddarparwyr gwasanaeth.

Roedd cynrychiolwyr asiantaethau a gyfwelwyd yn eithriadol o bositif am wybodaeth a sgiliau mentoriaid TSS ac am gyfraniad TSS i adsefydlu carcharorion tymor byr. Nodwyd yn arbennig gallu staff a mentoriaid TSS i ymgysylltu â chleientiaid 'anodd', eu dealltwriaeth fanwl o seilwaith cymhleth cymorth cymunedol a'u perthynas waith dda gydag ystod eang o asiantaethau y mae angen i gleientiaid gael mynediad iddyn nhw, eu gallu i rannu gwybodaeth gyda gweithwyr yn y carchardai tra bod yn annibynnol o'r system carchardai. Roedd hi'n ymddangos bod ffydd ym marn mentoriaid ac yn aml roedd hyn yn arwain at gleientiaid yn cael llwybr cyflym i wasanaethau a thrwy hynny sicrhau 'dilyniant yn y gofal'.

Un o'r dulliau y sonnir amdano amlaf lle mae gwaith asiantaethau eraill wedi elwa'n ymarferol o ymglymiad TSS oedd rôl mentoriaid yn perswadio a helpu troseddwyr i ymgysylltu ag ymyriadau yn y dyddiau hollbwysig cynnar ar ôl gadael y carchar. Er enghraifft, sylw cynrychiolydd sefydliad hyfforddiant swyddi ar gyfer pobl ifanc:

> *Dw i'n credu'n bendant ein bod wedi cymryd mwy o ran ar gyfnod cynharach, yn hytrach nag iddyn nhw ddod o hyd i ni o ganlyniad i ryngweithio gyda swyddogion prawf neu troseddu'r ifanc. Maen nhw [TSS] wedi'u cyfeirio'n uniongyrchol aton ni ar gyfnod cynharach a gallwn ni eu helpu yn hytrach nag iddyn nhw fethu y funud y dôn nhw allan drwy ddrws y carchar.* ***Achos maen nhw ar eu gwannaf, mwyaf agored i niwed yn ystod y deg diwrnod cyntaf ar ôl iddyn gael eu rhyddhau.*** *… Dydyn ni ddim yn hoffi gwneud gwaith dwys gyda nhw yn ystod y dyddiau cynnar achos bod TSS yn gwneud hynny. Ond efallai eu bod yn dod â nhw ar y diwrnod cyntaf i'w cyflwyno nhw fel eu bod yn gwybod lle rydyn ni, lle rydyn ni wedi'n lleoli ac mewn argyfwng, y gallan nhw ddod aton ni.* ***Ac i ddechrau sefydlu'r berthynas honno, byddan nhw'n dod gyda nhw ac aros gyda nhw drwy'r diwrnod cyntaf****.*

Yn yr un modd, dwedodd cynrychiolydd un o'r prif sefydliadau sy'n cynnig gwasanaeth cyflogaeth i gyn-droseddwyr, er bod 20% a gyfeiriwyd yn 'gyfeirio oer' yn ymgysylltu â'r gwasanaeth, bod tua 80% yn ymgysylltu os oedd mentor yn dod gyda'r darpar gleient i'r cyfarfod cyntaf. Dwedodd mai nid dim ond 'gwasanaeth tacsi' ydyw – i'r gwrthwyneb, roedd llawer o waith symbylol yn cael ei wneud yn aml yn y car wrth fynd a dod, tra, ar nifer o achlysuron roedd y mentor yn mynychu'r cyfweliadau cyntaf gyda staff yr asiantaeth gyflogi.

Hefyd, roedd yntau a staff asiantaethau eraill o blaid mentoriaid yn parhau i ddarparu cymorth ysgogol dros yr wythnosau cynnar tra bod y cleient yn mynychu'r gwaith camu-i-mewn. Yn yr un modd, dwedodd cynrychiolwyr adrannau tai awdurdodau lleol a cymdeithasau tai – er eu bod, mewn rhai achosion, yn eithaf sinigaidd am y tebygrwydd bod gyn-droseddwyr am ymatal rhag aildroseddu a chadw eu tenantiaeth – eu bod yn gwerthfawrogi cymorth parhaus TSS i gyn-droseddwyr yn eu tenantiaethau a hefyd yn nodi bod gallu mentoriaid i gadw mewn cysylltiad agos â'r cleientiaid yn ei gwneud hi'n haws i'r asiantaethau gael gwybod am unrhyw anhawster fyddai'r cleientiaid yn ei gael.

Fodd bynnag, doedd y berthynas gydag awdurdodau tai ddim bob amser yn un esmwyth. Dywedwyd bod agweddau tuag at gyn-droseddwyr yn amrywio'n ddirfawr, ac er cydnabod y pwysau a grëir gan brinder tai cymdeithasol a chydnabod ymdrechion rhai swyddogion tai unigol i'w helpu, roedd rhai mentoriaid yn eithaf rhwystredig gyda'r ymateb roedden nhw'n ei gael:

> *Mae'r Swyddogion Tai yno, ond dydy'r cyfleusterau i letya pobl ddim yno.*
>
> [Mentor 3]

> *Mae [TSS] wedi dysgu nifer o wersi o ran y rhwystredigaethau rydyn ni'n eu hwynebu. … os ydych chi'n gyn-droseddwr neu os oes gennych broblem camddefnyddio sylweddau, nid chi fydd ar ben y rhestr o'i gymharu â phâr bach neis sydd angen tŷ ... er mwyn sicrhau cydraddoldeb mynediad, mae rhaid i chi ddarparu adnoddau ychwanegol ffafriol ar gyfer rhai grwpiau o gleientiaid agored i niwed.*
>
> [Mentor 5]

Cytunodd y mwyafrif o fentoriaid y dylen nhw fabwysiadu safiad gwrthwynebus os oes angen herio penderfyniadau anffafriol Awdurdod Lleol ar ddigartrefedd. Yn wir, datganodd cynrychiolydd un o'r prif elusennau tai yn bendant bod eu gwaith eu hunain o wrthwynebu wedi elwa o gael cymorth TSS yn hyn o beth. Un maes y dywedwyd bod TSS wedi helpu gydag eiriolaeth oedd gyda'r cynllun cymharol newydd, ECL (Trwydded Diweddu Cyfnod Carchar) a ddisgrifiwyd yn adran 3.4.1 uchod. Nodwyd gan weithiwr tai bod rhai awdurdodau lleol yn defnyddio hyn i osgoi eu cyfrifoldebau i letya cyn-droseddwyr digartref, ond bod mentoriaid TSS wedi helpu i herio'r arfer hwn.

Ar hyn o bryd, maen nhw'n dod allan 18 diwrnod yn gynnar ar ddiwedd y drwydded i'w dal ac mae rhai awdurdodau lleol yn ceisio dweud nad ydyn nhw'n ddigartref dim ond wedi'u rhyddhau o gystodaeth gyfreithiol. Felly, maen nhw'n gwrthod derbyn cais digartrefedd ar ddyddiad y rhyddhau swyddogol ar ôl y 18 diwrnod o letya gyda theulu neu ffrindiau...

*… Felly, heb weithwyr TSS neu'r cydweithio gyda DIP yn ogystal, fydden ni ddim wedi llwyddo i gael yr achos i'r Uchel Lys lle cawson ni orchymyn i orfodi'r awdurdodau lleol i letya'n syth oherwydd mwy na thebyg, byddai'r cleient wedi mynd i uned pobl ddigartref, wedi'i hysbysu nad oedd unrhyw ddyletswydd arnyn nhw ac anghofio amdano. …*

*…Felly, gyda chymorth gweithiwr TSS, dwi wedi dweud wrtho eisoes efallai bod problem, felly maen nhw'n sylweddoli ein bod wrth gefn os oes problem, yna, yn amlwg gallwn ni wneud y gwaith cyfreithiol angenrheidiol gan fod y cyn-garcharor yn cael cymorth drwy'r holl broses. Felly, helpodd [Mentor X] ni gydag achos gyda B--- a bu rhaid iddo gymryd datganiad tyst am statws digartrefedd y cyn-garcharor. Felly, maen nhw wedi gwneud gwaith gwych er mwyn i ni symud pethau yn eu blaen. ym.*

[Gweithiwr tai cyswllt carchar]

Yn olaf, er gwaethaf sylwadau eithriadol o bositif staff asiantaethau eraill am TSS, canfuwyd nifer o feysydd y gellid eu gwella o ran cysylltiadau'r Cynllun ag asiantaethau eraill a/neu ei integreiddio gyda systemau ehangach. Yn benodol:

- Amlygwyd bod yr angen i wella cysylltiadau rhwng TSS a'r Gwasanaeth Prawf yn arbennig o bwysig: ystyriwyd bod y rhain yn anghyson eu hansawdd ac yn rhy ddibynnol ar berthynas unigolion â'i gilydd (er y nodwyd bod Clinig Carchar Gogledd Cymru yn fforwm defnyddiol i sicrhau cysylltiadau mwy systematig).

- Er i berthynas waith gadarn gael ei sefydlu gyda rhai asiantaethau allanol a rhwng unigolion, teimlwyd bod angen i'r rhain gael eu cynnwys yn fwy systematig fel na fyddai'r cysylltiadau hyn yn cael eu colli petai staff yn symud ymlaen.

- Y gobaith oedd y byddai datblygu cysylltiadau cadarnach rhwng asiantaethau'n arwain at ffocws mwy ataliol o fewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau

- Maes arall a nodwyd a fyddai'n elwa o gysylltiadau gwell oedd y defnydd o godi troseddwyr o borth y carchar ar ddiwrnod eu rhyddhau. Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y gellid trefnu hyn mewn dull mwy cost-effeithiol a mwy cydlynus ar draws TSS, DIP, y gwasanaeth prawf a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

- Cafwyd bod angen cyffredinol i ledaenu mwy o wybodaeth am TSS ac am ei waith o fewn a thu allan i'r system cyfiawnder troseddol. .

Dadl nifer o'r hai a gyfwelwyd oedd mai'r dull mwyaf effeithiol o ddatblygu perthynas waith agosach gydag asiantaethau eraill, rhai statudol a gwirfoddol, fyddai, yn ôl un mentor, i'w 'wneud yn strategol' yn hytrach na dibynnu ar fentoriaid unigol i sefydlu cysylltiadau cydamserol ar draws Cymru:

*Dw i'n meddwl y gallen ni wneud mwy fel Cynllun. Dwi'n credu petai gynnon ni fwy ... dwi'n tri meddwl sut i'w fynegi. Mae rhaid i bobl fod yn fwy ymwybodol o bwy ydyn ni ond dim ond cymaint a chymaint gallwn ni ei wneud. Mae wyth mentor 'da ni ac rydyn ni gyd yn rhwydweithio'n unigol yn yr ardaloedd rydyn ni'n delio â nhw ac rydyn ni'n ceisio gwneud ein gorau a dw i'n amau bod mentoriaid eraill yn dweud wrthoch chi eu bod yn mynd i mewn i wahanol asiantaethau a chyflwyno'u hunain. Ond dwi'n meddwl bod rhwydweithio yn rhywbeth mawr iawn, iawn wrth gael pobl i'n nabod a hoffwn i allu cynnig mwy i'r cyfranogwyr yn ogystal.*

[Mentor 4]

I'r un perwyl, awgrymodd cynrychiolydd asiantaeth allanol ar gyffuriau ac alcohol y byddai mabwysiadu dull mwy strategol o fynd ati'n help i sicrhau cysondeb ar draws yr ardaloedd y mae TSS yn cael ei gyflenwi:

*Sicrhau bod yna gyd-ddarparu a'i fod yn gyson ar draws y chwe sir, fel bod y gwasanaeth yn debyg yn y chwe sir a'u bod wedi'u cysylltu â'r un math o sefydliadau ar draws y chwe sir. ... Mae rhai ardaloedd wedi ymgysylltu'n well gyda TSS nag eraill ond ydyn nhw? Ond weithiau daw defnyddwyr gwasanaeth allan i Wrecsam, weithiau i Gonwy/Sir Ddinbych, chi'n gwybod ... Ac mae rhaid i'r gwasanaethau hynny fod ar gael ble bynnag maen nhw'n penderfynu mynd ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau. Felly, efallai dylid meddwl amdano fel gwasanaeth Gogledd Cymru yn hytrach na gwasanaeth unigol un ardal.*

[Cynrychiolydd Asiantaeth]

## 3.6 Hyfforddi a Goruchwylio Mentoriaid

### *3.6.1 Hyfforddi*

Disgrifiodd pob mentor a gyfwelwyd ar gyfer y gwerthusiad eu bod wedi derbyn hyfforddiant eang ei ystod[15]. Roedd yr hyfforddiant cychwynnol ar hyfforddiant parhaus a ddarparwyd, yn gyffredinol, yn bur debyg yn nwy gangen TSS. Deliwyd ag ystod eang o bynciau, gan gynnwys technegau symbylol (soniodd rhai bod cwrs dau ddiwrnod, 'Motivating Offenders to Change' a nodwyd yn y gwerthusiad gwreiddiol fel un oedd wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol), iechyd a diogelwch a thechnegau hunan amddiffyn (encilio/*breakaway*); Cymorth Cyntaf, ymwybyddiaeth o gyffuriau, ymsefydlu mewn carchar, hyfforddiant ar amrywiaeth a hyfforddiant ar effaith carchariad ar y teuluoedd.

Yn gyffredinol, roedden nhw'n hapus gyda'u hyfforddiant cychwynnol, er bod un mentor wedi awgrymu y byddai cael rhaglen mwy systematig o gyflwyniad i asiantaethau lleol eraill yn ystod y cyfnod cynnar hwn wedi bod yn fanteisiol.

*Byddwn i wedi hoffi cael efallai llyfr apwyntiadau'r swyddfa i fy nghyflwyno i'r ardal, fy nghyflwyno i'r gwasanaeth prawf, fy nghyflwyno i'r heddlu.*

[15] Cyfwelwyd y tri mentor oedd yn gweithio i TSS Nacro a saith o'r wyth mentor yn gweithio i TSS G4S yn ystod cyfnod yr astudiaeth. Roedd yr wythfed mentor ar gyfnod mamolaeth ac felly ddim ar gael i'w chyfweld.

[Mentor 4]

Nododd rhai mentoriaid hefyd y bydden nhw'n croesawu hyfforddiant manwl pellach ar rai materion penodol. Ymhlith y rhain oedd yr angen am hyfforddiant ar:

- faterion iechyd meddwl i'w helpu i gael gwell dealltwriaeth o gyflyrau megis iselder, pryder a salwch meddwl megis sgitsoffrenia;
- y newyddion diweddaraf am bolisïau newydd neu ganllawiau arfer;
- mwy o gyrsiau ar ymwybyddiaeth o gyffuriau i sicrhau bod ganddyn nhw ddealltwriaeth dda o driniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau, yn enwedig o ran presgreibio moddion amgen;
- mwy o hyfforddiant mewn meysydd megis cwnsela a rheoli dicter .

Awgrymodd eraill ymglymu Ymgynghorwyr Grŵp Cymheiriaid yn yr hyfforddiant symbylol – i gael cipolwg ar brofiadau a safbwyntiau cleientiaid.

*3.6.2 Goruchwylio Mentoriaid, cymorth a rheoli risg*

Drwyddi draw roedd mentoriaid yn bositif iawn am y modd roedd y Cynllun yn cael ei reoli a sut roedden nhw'n cael eu cynorthwyo. Adlewyrchir hyn yn y gyfradd isel iawn o drosiant staff, nifer o'r mentoriaid wedi bod gyda'r Cynllun ers y dechrau. Er gwaethaf y pellter rhwng rhai mentoriaid a staff eraill TSS – yn enwedig yng Ngogledd Cymru a Dyfed Powys - roedd hyder yn eu plith ei bod yn hawdd cael cymorth ar unrhyw adeg, nid dim ond yn ystod y ddarpariaeth a amserlennwyd neu mewn sesiynau ymgynghorwyr grŵp cymheiriaid:

> *Nid goruchwylio wyneb yn wyneb o angenrheidrwydd yw e, ond gwn tasai gen i broblem - a weithiau dw i'n meddwl 'O ydw i'n gwneud pethau'n iawn lan fan hyn? – bydden nhw'n gwybod amdano. Maen nhw'n dda iawn, iawn , lawr fanna. Taswn i ddim yn hapus lan fan hyn bydden nhw'n ei synhwyro yn fy ngwaith papur neu gen i. Yna, bydden nhw'n gofyn pam a beth. Weithiau dw i'n teimlo mod i ar fy mhen fy hun, yn gwneud pethau ar fy mhen fy hun. Ond po fwyaf dw i'n mynd lawr i Dde Cymru, dwi'n teimlo fel rhan o dîm lawr fanna. A dwi'n teimlo fel rhan o dîm i fyny fama hefyd oherwydd mod i'n gwybod taswn i angen cymorth, byddai rhywun yn dod i fyny yn syth.*
>
> [Mentor 1]

Teimlai mentoriaid eu bod yn gallu trafod unrhyw broblem gyda'u rheolwyr ac yn hyderus y bydden nhw'n delio â'r broblem dan sylw:

*Dw i'n meddwl mai'r ffordd mae'n gweithio yw, os oes problem 'da chi, rydyn ni gyd yn agored gyda'n gilydd neu gyda'r rheolwyr. Felly os ydyn ni eisiau trafod unrhyw farn, rydyn ni'n eu trafod a delir gyda nhw. Does dim byd sylfaenol na hir-hoedlog sydd yn mynd i fod yn broblem achos ein bod yn eu datrys beth bynnag.*

[Mentor 3]

Teimlwyd bod angen cymorth yn enwedig os oedd mentor yn wynebu sefyllfa lle roedden nhw'n teimlo bod eu diogelwch personol mewn perygl:

> *Mae bob amser yn dda cael rhywun ar ben arall y ffôn.... os ydych mewn trafferth. A dw i'n teimlo bod gen i rywun ymhob ardal dwi'n delio â nhw; rhywun o asiantaeth arall efallai. Felly, galla i godi'r ffôn ar unrhyw adeg.*
>
> [Mentor 1]

Roedd rheolwyr y Cynllun yn llwyr ymwybodol o faterion risg, ac yn rhoi cryn dipyn o ymdrech i sicrhau bod gwiriadau priodol yn digwydd a bod gan TSS wybodaeth ddigonol am y troseddwyr cyn iddyn nhw gael eu rhyddhau. Er enghraifft, mae tîm G4S yn rheolaidd yn cwblhau Ffurflenni Diogelu'r Cyhoedd gyda gwybodaeth wedi'i chywain o OASys a CRAMS a, lle bo'n bosibl, o systemau gwybodaeth y carchar ar droseddwyr (haws cael mynediad yn HMP Parc nag yn unman arall). Roedd hyn yn rhoi darlun o'r perygl o aildroseddu ac o ymddygiad a allai achosi problemau i'r staff. Roedd mentor yn llofnodi asesiadau risg a'u rhoi yn y ffeiliau achos. Lle bo'n briodol, ceisiodd y tîm gael gwybodaeth ychwanegol (gan gynnwys cudd-wybodaeth) a chwblhau matrics risg oedd yn cynnwys canllawiau a mesurau diogelwch ychwanegol ar gyfer mentora megis gweithredu 'adnodd wrth gefn' neu 'drefniant bod rhywun yn ffonio'n ysbeidiol o'r swyddfa'. Yn achos Troseddwyr Cyson â Blaenoriaeth (PPO) byddai rheolwr TSS yn eistedd ar y Bwrdd PPO perthnasol lle mae gwybodaeth am risg yn rhan annatod o'r cynllun rheoli achos. Nid oedd Nacro/CAIS yn cael yr un fantais â TSS G4S yn Parc o allu cael gweld cronfeydd data'r carchar yn uniongyrchol a bod y cyfeirwyr yn darparu gwybodaeth am risg – a disgrifiwyd y sefyllfa hon gan un o'r rheolwyr fel 'weithiau bob sut', ond roedd y rhan fwyaf o atgyfeiriadau o Altcourse yn dod gyda asesiad risg ac fel arfer, gallai'r gweithiwr mewngymorth ddarparu gwybodaeth, os nad oedd dim ar gael. Cafwyd cymorth pellach gydag asesiad risg gan staff y Gwasanaeth Prawf, tra bod y mentoriaid yn gwneud eu hasesiad eu hunain mewn cyfweliadau cychwynnol gyda charcharorion Yn fwy cyffredinol, yn niffyg gwybodaeth am risg, fel arfer byddai'r rheolwr yn ffonio'r cyfeiriwr neu gysylltiadau eraill. Mae'n ymddangos bod hwn yn faes lle byddai'n fanteisiol cael dull mwy 'strategol' o ddelio â phartneriaethau, lle gellid efallai perswadio carchardai i gyflenwi gwybodaeth risg yn rheolaidd yn hytrach na bod rhaid i staff TSS 'fynd i chwilota amdano'.

Yn olaf, mae gweithredu PalBase wedi darparu adnodd rheoli risg arall, lle gall rheolwyr anodi lefel risg yn electronig fel rhybudd i fentoriaid a gweithwyr eraill sydd wedi'u hawdurdodi i gael mynediad i'r system.

### 3.7 Cadw Cofnod

Yn yr adran hon, rydyn ni'n adolygu'r systemau a'r arferion o gadw cofnod a ddefnyddir gan ddwy ardal TSS. Gellir rhannu'r cofnodion a gedwir yn ddau brif fath: y rhai a gedwir at bwrpas gweinyddu neu ystadegol, a ffeiliau achos yn cofnodi gwaith gyda throseddwyr unigol. Rydyn ni'n trafod bob un yn ei dro. Rydyn ni hefyd yn rhoi sylwadau ar PalBase, y bas data newydd sydd newydd gael ei fabwysiadu gan G4S a Nacro/CAIS ac eisoes mae newidiadau sylweddol yn arferion cadw cofnod yn y ddwy ardal i'w gweld.

*3.7.1 Cofnodion gweinyddol ac ystadegol: manylion am gleientiaid a data cysylltu â nhw*

Mae gofyn i G4S a Nacro/CAIS ddarparu adroddiadau ystadegol chwarterol ar gyfer bwrdd y prosiect sy'n monitro cyflenwad gwasanaethau TSS gan ddau gontractwr. Er mwyn darparu'r data hwn, cadwodd y ddau gofnodion electronig o gleientiaid sydd wedi ymuno â'r Cynllun, gan ddefnyddio taenlenni yn cynnwys manylion sylfaenol o ffynhonnell pob atgyfeiriad, dyddiadau agor a chau'r achos, enw a rhifau ffôn cleientiaid, ei brif anghenion/ ei phrif anghenion gwasanaeth ac yn y blaen. Gosodwyd targed ar y nifer o gyfeiriadau i'w cyflenwi ar gyfer y ddau gontractwr ac mae'r data yn dilyn hynny yn caniatáu i'r Bwrdd fonitro'u cynnydd i gyflawni'r targedau hyn.

Yn ychwanegol, mae'r ddau yn casglu set o ddata 'cysylltu' i adrodd yn ôl am y niferoedd, mathau a hyd cysylltiadau rhwng mentoriaid a chleientiaid yn y carchar a thu allan i'r carchar: defnyddir y rhain fel dangosyddion sylfaenol ar gyfer perfformiad y gall y Cynllun eu defnyddio i weld a yw'r Cynllun yn cynnal lefel resymol o weithgaredd gyda'i chleientiaid.

Er mwyn cynhyrchu'r ffigyrau hyn, gofynnir i fentoriaid gadw log o bob cyswllt maen nhw'n ei gael gyda phob cleient. Mae hyn yn cynnwys pob cyfarfod, pob neges destun a phob galwad ffôn (wedi eu hateb, eu colli neu eu gwrthod). Mewn rhai achosion, gellir cysylltu â mwy na hanner cant neu yn hyd yn oed cant. Yn TSS Canolbarth/De Cymru (er bod y sefyllfa'n newid), mae'r system safonol wedi golygu defnyddio ffurflenni papur wedi'u llenwi a'u cyflwyno'n wythnosol gan y mentoriaid – un ffurflen ar gyfer pobl cleient, crynodeb o'r manylion wedi'i roi ar daenlen cyswllt Excel gan gynorthwyydd gweinyddol TSS a'r daflen wedyn yn cael ei hychwanegu at ffeil achos y cleient (a drafodir yn nes ymlaen). Fodd bynnag, mae gan pob mentor G4S liniadur yr un y maen nhw'n rhoi cofnodion arnyn nhw a all wedyn gael eu trosglwyddo'n electronig ar fas data canolog ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Yn y Gogledd, mae mentoriaid Nacro yn casglu log wythnosol o bob cyswllt gyda chleientiaid, gan ddefnyddio taflen gyswllt gyfansawdd. Dydy'r daflen hon ddim yn benodol i gleient unigol ond yn hytrach y cysylltiadau a wnaed gyda chleientiaid dros gwrs yr wythnos. Ysgrifennir y wybodaeth mewn llawysgrifen ar y daflen (i mewn i dabl lle mae pob rhes yn cynrychioli cyswllt) ac yn cynnwys llythrennau cyntaf enwau cleientiaid, dyddiad y cyswllt, hyd y cyswllt a rhif cod yn dangos y math o gyswllt (e.e. ymweliad, ffôn, llythyr).
Ar ôl cwblhau hyn, anfonir y taflenni neu eu ffacsio i swyddfeydd CAIS ym Mae Colwyn, lle mae'r data yn cael eu rhoi mewn bas data 'Access' gan staff gweinyddol a'u cronni i ddarparu data monitro ar gyfer y bwrdd. Mae'n ymddangos bod amwysterau yn y modd y mae'r data hwn yn cael ei gofnodi a allai gyfrannu at ychydig o orliwio ar y ffigyrau cyswllt yn y tablau a gyflwynwyd yn gynharach yn yr adran hon: er enghraifft gallai'r 'cyngor a'r cyfarwyddyd' cyfnewidiol – sy'n cael ei gynnwys yn nifer yr ymweliadau cymunedol – fod yn cynnwys, mewn rhai achosion, gyngor gan weithwyr eraill yn hytrach na'r mentor.

Yn fwy cyffredinol, pwrpas gweinyddol sydd i'r cofnodion cyswllt hyn – ni all unrhywun (heb gryn dipyn o ddadansoddi cyfrifiadurol sydd yn cymryd llawer o amser) ddiddwytho dim byd arbennig o ddefnyddiol ohonyn nhw am faint, natur neu

ansawdd y gwaith a ymgymerwyd gydag unigolyn. Ar adeg ein hastudiaeth (er bod y sefyllfa wedi newid ers gweithredu PalBase), os oedd rhywun eisiau defnyddio cofnodion TSS i gael darlun mwy cyflawn o'r hyn mae mentoriaid yn ei wneud gyda chleientiaid, dim ond drwy ddadansoddi ffeiliau achos unigolion y gellid cael gwybod am hyn, fel y trafodir yn yr isadran nesaf.

### *3.7.2 Ffeiliau Achos*

Ers sefydlu TSS gyntaf yn 2004, crëwyd cofnodion achos o gleientiaid unigol a'u storio mewn ffeiliau papur – er bod y rhain yn rhannol wedi eu disodli gan adnodd cofnod achos ar PalBase (gweler isod) Fodd bynnag, drwy oes TSS, mae G4S a Nacro/CAIS wedi mabwysiadu arferion hollol gwahanol o ran cofnodion achos.

Mae'r ffeiliau achos a gedwir gan G4S wedi darparu cofnod naratif manwl, parhaus o anghenion cyfnewidiol cleientiaid a'u hymglymiad gyda mentoriaid TSS ac asiantaethau eraill. Mae mentoriaid yn rheolaidd yn cofnodi gwybodaeth am gefndir cleient, ei hanes o droseddu a'r risg o aildroseddu ac unrhyw gyfeiriadau at asiantaethau allanol ynghyd â nodiadau manwl iawn o bob cysylltiad ac ymdrech i gysylltu (gan gynnwys negeseuon testun a galwadau ffôn a gollwyd) rhwng cleient a mentor ac adroddiadau o sgyrsiau, digwyddiadau diweddar, cynlluniau, y cynnydd mewn triniaeth neu gaffael gwasanaethau ac yn y blaen. Mae natur gynhwysfawr y ffeiliau hyn yn golygu eu bod yn ffeiliau trwchus yn aml gentimedrau o drwch. Caiff y ffeiliau eu storio'n ganolog a diogel yn swyddfeydd TSS ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Gwnaeth y ffeiliau achos y mae staff G4S yn eu cynnal argraff fawr ar yr ymchwilwyr, yn debyg iawn mewn nifer o achosion i rai mae'r swyddogion prawf yn eu cynnal. Fodd bynnag, roedd pris i'w dalu, gan fod rhai o'r mentoriaid nad oedd yn ysgrifenwyr cyflym a huawdl yn ei chael hi'n anodd cofnodi ac yn cymryd amser i gofnodi. Er enghraifft:

> *Ar y foment, mae'n teimlo fel.... oherwydd y cynnydd yn fy maich gwaith a mod i'n treulio amser o ansawdd gyda fy nghyfranogwyr ac maen nhw'n gwneud yn dda .... wel, dwi'n teimlo na alla i... dwi ddim eisiau treulio llai o amser dwi'n ei roi iddyn nhw, achos eu bod nhw'n gwneud yn dda. Dw i'n ei chael i'n anodd mod i'n tynnu fy ngliniadur allan am hanner awr wedi chwech gyda'r nos i wneud fy ngwaith papur. 'Ai ein bai ni yw hyn? Ai'r ffaith nad ydyn ni'n rheoli'n hamser neu'n rhoi gormod o amser i'n cleientiaid?'*
>
> [Mentor 4]

Roedd y rheolwr TSS perthnasol yn ddiweddar wedi cael gwybod am hyn ac wedi cynllunio cyfarfod i geisio delio â hyn drwy strategaethau rheoli a chynghori ar sut i gadw adroddiadau'n gryno a'u ffocysu. Y gobaith hefyd oedd y byddai mentoriaid, ar ôl dod yn gyfarwydd â PalBase yn cael ei fod yn gostwng eu baich gweinyddol.

Cafwyd bod y sefyllfa yn y Gogledd yn wahanol iawn. Yno, er bod ffeiliau achos yn cynnwys manylion sylfaenol am gleientiaid ac am eu hanghenion a gafodd eu hasesu ar y cychwyn, dydy mentoriaid ddim (tan yn ddiweddar iawn –gweler isod) wedi cadw cofnod naratif am eu cyswllt â chleientiaid. Felly, o ddarllen y ffeiliau, prin iawn yw'r wybodaeth a geir am gynnwys ac ansawdd cyfarfodydd unigol a'r amser

a'r ymdrech a olygodd i'r mentoriaid wrth eu cynorthwyo (er, fel y soniwyd uchod, cynhyrchwyd ffigyrau cyffredinol ar amser cyswllt). Does dim chwaith, storfa ganolog ar gyfer ffeiliau papur yn y gogledd. Yn hytrach, mae mentoriaid yn storio ffeiliau eu cleientiaid yn eu swyddfa leol, yn mynd â nhw efo nhw i rywle arall (e.e. i gyfarfodydd goruchwylio) pan fo'u hangen.

Y rhesymau y mae mentoriaid Nacro yn eu rhoi am y diffyg manylion manwl yn y ffeiliau achos oedd pryderon am 'gyfrinachedd' a'r ffaith y gallai cleientiaid weld ei ffeiliau eu hunain pe dymunen nhw, ac felly ei bod yn annoeth cofnodi gormod o wybodaeth bersonol neu farn agored amdanyn nhw yn y ffeiliau achos. Fodd bynnag, dwedodd uwch reolwr bod hyn yn deillio o ryw fath o gamddealltwriaeth. Pan ofynnwyd i'r mentoriaid sut gallen nhw gynnal dilyniant yn eu gwaith gyda chleientiaid os nad oedd ganddyn nhw gofnod manwl o gyfarfodydd blaenorol, trafodaethau, cynlluniau, dargyfeiriadau ac yn y blaen, yr ymateb cyffredinol a gafwyd oedd eu bod yn gallu adalw a bod digon o fanylion ar eu cof. Ceir sylw pellach ar hyn yn adran 4.2.5 a 6.2.3 isod.

### *3.7.3 PalBase*

Fel y nodwyd uchod, mae'r ddau set o arferion yn cael eu newid oherwydd bod PalBase yn cael ei fabwysiadu, a dylai hyn ganiatáu i'r Cynllun reoli ei wahanol ofynion data – gan gynnwys cadw cofnodion naratif o achosion – ar un system. Pecyn meddalwedd pwrpasol yw PalBase a ddyluniwyd a'i ddatblygu gan Paloma Systems LTD. Fe'i disgrifir fel '"system sythweledol, system fonitro a rheoli achosion - hawdd i'w defnyddio ar gyfer sefydliadau/asiantaethau yn delio ag adsefydlu troseddwyr cysylltiedig â chyffuriau ac atgyfeiriadau at driniaeth" (www.paloma.co.uk). Nod PalBase yw gwella gweithio aml-asiantaethol drwy gyfuno holl haenau o weithgaredd a symleiddio'r broses driniaeth.

Eglurodd un o'r mentoriaid mai DIP ddefnyddiodd y system yn wreiddiol, a'i bod yn system sy'n gweithredu ar y we y gellir cael mynediad iddi unrhywle ac ar unrhyw adeg.

> *Mae DIP yn defnyddio PalBase, mae TSS erbyn hyn wedi prynu i mewn iddo ac rydyn ni'n ei ddefnyddio hefyd. Mae'n gweithredu ar y we fel y gallwn gael mynediad iddo pryd bynnag, dim ond chwilio am gleient a gallwch roi eich holl nodiadau achos arno, mae fel dyddiadur a ... Bydd e'n dda iawn unwaith caiff ei sefydlu …*
>
> [Mentor 1]

Yn Hydref 2008, dechreuodd y Cynllun drosglwyddo'i ffeiliau achos i system PalBase, a'i weithredu'n llawn yn Ionawr 2009.. Gall pob mentor TSS nawr roi manylion pob cyswllt, atgyfeiriad ayb yn uniongyrchol ar system soffistigedig. O gofio mai dim ond yn ddiweddar digwyddodd hyn, mae'n rhy gynnar i'r tîm gwerthuso wneud sylw ar weithrediad y system newydd. Fodd bynnag, yn ddi-os mae ganddi'r potensial i fod yn arf rheoli defnyddiol iawn. Bydd yn caniatáu i reolwyr adolygu ffeiliau a bydd y gwaith o arsylwi gwaith monitro yn hawdd heb orfod defnyddio ffeiliau papur beichus ac afrosgo a – cyhyd ag y cofnodir yn amserol – gael gwybod am rhyw ddatblygiadau pwysig.

Yn gyffredinol roedd y mentoriaid yn bositif am PalBase, er ar yr adeg y cawson nhw eu cyfweld, roedden nhw'n dal i ymgodymu â'r hyn oedd yn ymddangos yn drawsnewid mawr. Er enghraifft, dwedodd un:

> *Mae'n system dda iawn. Dw i'n meddwl ei fod yn syniad mor dda achos roedden ni'n defnyddio taflenni cyswllt. Dim ond ddiweddar rydyn ni wedi defnyddio cyfrifiadur, cyn hynny roedden ni eu hysgrifennu nhw, felly mae'n newid eithaf mawr.*
>
> [Mentor 8]

Roedd un arall yn frwd iawn dros briodweddau rhannu gwybodaeth y system, yn caniatáu i fentoriaid eraill yn ogystal â goruchwylwyr wybod am yr hyn oedd yn mynd ymlaen:

> *System electroneg fydd hi pan fydd popeth wedi cysylltu – ie, gallwn weld nodiadau achos ein gilydd.... Felly gall T—[goruchwylydd] edrych ar fy nodiadau i. Erbyn diwedd heddiw byddan nhw wedi cael eu diweddaru neu efallai erbyn Dydd Llun byddan nhw'n bendant wedi'u diweddaru a gall hi eu gweld.... bydd hi'n gallu eu gweld ar fanna.*
>
> [Mentor 1]

Mantais arall a nodwyd oedd y gallai PalBase fod o help i sicrhau bod cleientiaid yn parhau i dderbyn cymorth hyd yn oed pan fydd eu mentor dynodedig ar wyliau blynyddol.

> *Rydyn ni ar PalBase nawr hefyd, felly mae'n bwysig bod pobl arall yn gweld. Es i ar wyliau, mae'n hollbwysig bod rhywun yn gallu mynd i mewn i'r ffeil a chael cefndir y bobl ddiweddara, sut berson yw e ... Mae'n newydd i mi ... Dw i wedi rhoi rhai arno. Dw i'n meddwl ei fod yn wych. Mae'r syniad yn wych.... cawson ni liniaduron yn ddiweddar felly mae'n haws achos gallwn ni e-bostio'r rhain i mewn wedyn …*
>
> [Mentor 3]

Yn yr un modd, disgrifiodd mentor arall sut roedd PalBase yn galluogi i gydweithwyr gamu i mewn os yw mentor yn digwydd mynd yn sâl neu'n gadael y Cynllun.

> *Felly, os bydd unrhyw un yn sâl neu'n gadael, gallwn ni fynd i mewn i'r ffeil a gweld yr hyn sydd wedi'i wneud eisoes a'r hyn sydd angen ei wneud, os oes apwyntiadau yn y dyfodol.*
>
> [Mentor 7]

O safbwynt eu baich gwaith eu hunain, ystyriwyd mai prif fantais system gyfrifiadurol oedd, o'i defnyddio'n gywir, gallai leihau'r amser a dreulir gan fentoriaid yn cadw cofnod. Pwysleisiwyd hyn yn arbennig gan fentoriaid yn gweithio i G4S sydd wedi derbyn gliniaduron diwifr wedi'u hamgryptio ac yn gallu cael mynediad i PalBase o unrhywle. Er enghraifft, eglurodd un mentor, gyda dyfodiad PalBase doedd dim angen iddi bellach fynd i mewn i swyddfa TSS mor aml ag roedd hi arfer â mynd.

*Ron i arfer mynd lawer mwy aml ond wrth i'r baich gwaith gynyddu, does dim amser 'da chi a gyda PalBase, does dim angen i mi fynd lawr yna gymaint.*

[Mentor 8]

Doedd gan fentoriaid Nacro/CAIS ddim gliniaduron (yn rhannol oherwydd cânt eu hystyried yn risg posibl i ddiogelwch) ond roedden nhw'n gallu cael mynediad i PalBase o unrhyw swyddfa partner yng Ngogledd Cymru.

Ar adeg ein gwaith maes, roedd y system yn dal yn newydd ac hyd hynny ddim yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial. Dangosodd dadansoddiad cychwynnol o sampl bychan o ffeiliau PalBase fod rhai o'r mentoriaid yn glynu gyda'u hen arferion ac heb addasu'n llawn i'r dull newydd o weithio. Felly, roedd cofnodion cyswllt gyda throseddwyr a wnaed gan TSS Nacro/CAIS yn bennaf yn dal yn fyr iawn, prin yn ymestyn i fwy nag un neu ddwy linell o destun am bob cyswllt. I'r gwrthwyneb, roedd rhai o ffeiliau PalBase a gadwyd gan G4S yn ymddangos mor gynhwysfawr fanwl (efallai'n ddianghenraid) ag oedden nhw yn yr hen system. Serch hynny, unwaith y daw'r mentoriaid yn gyfarwydd â defnyddio PalBase ac y daw'n rhan annatod o'r gwaith, bydd yn creu cofnodion data cynhwysfawr a chyfredol a fydd yn cynorthwyo i oruchwylio achosion, goruchwylio mentoriaid ac i reoli data. Yr un mor bwysig, bydd yn caniatáu i'r Bwrdd, ymchwilwyr neu bobl allanol gael darlun cliriach a chyfoethocach o waith TSS na fu'n bosibl yn y gorffennol.

## 4 Arferion da ac awgrymiadau sut i wella

Mae'r adran hon yn amlygu nifer o feysydd lle gwelwyd arferion arbennig o dda a nodwyd gan y rhai a gyfwelwyd neu gennym â rhai a nodwyd gan y bobl a gyfwelwyd lle gellid gwneud gwelliannau. Soniwyd am rai o'r pwyntiau hyn eisoes, ond fe'u hailadroddir yma i'w tanlinellu. Fe'i trafodir yn gryno o dan y penawdau canlynol:

Enghreifftiau o arferion da:

- gwaith 'mewngymorth'
- darparu i gasglu carcharorion tu allan i byrth y carchar
- rôl 'ymestyn allan pendant' y mentor
- rhwydweithio lleol
- cynorthwyo ymglymiad troseddwyr â'r gwasanaethau cymorth
- ymgynghorwyr grŵp cymheiriaid.
- y ffocws ar alcohol

Gwelliannau a awgrymir

- ehangu'r gallu
- rhwystro darpar gleientiaid rhag 'llithro drwy'r rhwyd'
- comisiynu a chontractau
- datblygu dull mwy strategol o ddelio â phartneriaeth
- cadw cofnodion

### 4.1 Enghreifftiau o arferion da

#### *4.1.1 Gwaith mewngymorth*

Mae'r ymchwil ar adsefydlu yn awgrymu'n gryf bod sefydlu perthynas â throseddwyr tra yn y carchar yn ffactor bwysig o weithio'n effeithiol gyda throseddwyr ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r mentor neu'r gweithiwr adeiladu ymddiriedaeth, rhoi hwb i ysgogiad troseddwyr a hwyluso datblygiad cynlluniau cadarn ar gyfer eu rhyddhau a gwneud apwyntiadau gydag asiantaethau gwasanaeth perthnasol. Nodwyd hyn gan reolwyr TSS ac yn y ddwy gangen o'r Cynllun, roedd hi'n arfer cyffredin i fentoriaid ymweld â charcharorion dwy neu dair gwaith cyn iddyn nhw gael eu rhyddhau. Yn wir, mae mentoriaid Nacro/CAIS yn ymweld yn rheolaidd â 'syrjeri' carchardai yn Altcourse a Styal ar rota pan fydden nhw cwrdd â chleientiaid newydd a gweld pob un oedd eisoes wedi cofrestru'n gyfranogwyr. Tuedd mentoriaid G4S y mae eu cleientiaid yn dod o nifer ehangach o sefydliadau oedd ymweld yn fwy ysbeidiol yn ôl yr hyn oedd yn ffitio i mewn i'w hamserlen, ond serch hynny'n ystyried bod hyn yn agwedd bwysig o'u gwaith.

Fel trafodwyd yn adran 3.7, yn ogystal â'r mentoriaid, roedd Nacro/CAIS ers dechrau 2008 wedi buddsoddi cyfran o'u grant TSS mewn 'gweithiwr mewngymorth' yn HMP Altcourse. Roedd hyn yn amlwg wedi talu ar ei ganfed o ran bod nifer yr atgyfeiriadau oedd wedi cynyddu'n sylweddol o'r sefydliad hwnnw. Helpodd y

gweithiwr hefyd i gynnal cwrs symbylol, gweithredu fel dolen gyswllt rhwng TSS a thîm CARAT a ffynonellau cyfeirio eraill a gallu helpu i gael gwybodaeth am garcharorion yn enwedig o ran risg.

Yn fyr, yn amlwg, mae gwaith mewngymorth gan y mentoriaid (sydd hefyd yn gweld carcharorion ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau) a gweithwyr a leolir mewn carchar (sydd ddim) yn werthfawr i'r gwaith o adsefydlu troseddwyr ac yn haeddu gael ei amlygu fel arfer dda. Fodd bynnag, mae amheuon o hyd a yw'n gost effeithiol i leoli gweithiwr mewngymorth llawn amser mewn un carchar yn unig yn hytrach na delio â nifer o sefydliadau'n rhan amser.

*4.1.2 Darparu i gasglu carcharorion tu allan i byrth y carcharh*

Nododd llawer o'r rhai a gyfwelwyd bod casglu o'r pyrth yn ddull effeithiol o weithio. Mae'n darparu cymorth ymarferol ar ei union i gleientiaid carchar sydd eisoes yn bodoli, dull sy'n rhoi cyfle i fentoriaid sefydlu perthynas bositif – ac ar yr un pryd lleihau temtasiwn y cleient i gamddefnyddio sylweddau wrth iddyn nhw ymadae â charchar:

> *Dw i'n credu bod cynnig gwasanaeth casglu o'r pyrth yn arfer dda iawn. Dw i'n meddwl bod y daith awr a hanner o Lerpwl i Ogledd Cymru yn gyfle da iawn yn gyntaf oll i'r mentor a'r cleient sefydlu rhyw fath o berthynas broffesiynol a hefyd yn amser pwysig iawn i sefydlu rhyw fath o ymglymiad ar ran y cleient.*
> [Aelod o Staff TSS]

Yn aml, mae'r mentor yn gallu mynd â'r cleient yn syth i Uned Pobl Ddigartref i'w helpu drefnu llety – neu i fynychu unrhyw apwyntiad arall sydd wedi'i drefnu ar eu cyfer.

> *Dwi'n gwybod fod gweithwyr TSS yn casglu rhai o'r carchar ... wrth y pyrth, felly rydyn ni'n hyderus bod nhw'n cyrraedd eu hapwyntiadau ... Dyna lle mae gweithwyr TSS yn dod i'r blaen oherwydd ... os don nhw at y pyrth, mi fydd y troseddwr yna ganddyn nhw, ac fe ga'n nhw fynd â nhw am eu hapwyntiadau tai, canolfan byd gwaith a chyffuriau ... felly fyddan nhw (y troseddwyr} ddim yn cael eu temtio gan yr arian rhyddhau sydd yn eu poced, a bod yna dafarn, siopau diod na gwerthwyr cyffuriau. Mae'r demtasiwn yna'n cael ei dileu.*
> [Cynrychiolydd Asiantaeth]

Fodd bynnag, mae'r agwedd hon o TSS yn hanfodol bwysig nid dim ond oherwydd cludo'r cleient yn bersonol i'w apwyntiad – ond hefyd oherwydd y cymorth eiriolaeth mae'r mentor yn ei ddarparu – yn enwedig gyda swyddogion digartrefedd:

*Pan fyddan nhw'n mynd gyda nhw i'r adran dai ar ddiwrnod y rhyddhau i weld y swyddog digartrefedd, mae hynny'n dda oherwydd efallai bod llawer o'r bechgyn wedi cael trafferth yn y gorffennol gydag awdurdod a dydyn nhw ddim yn gwrando ar yr hyn sy'n cael ei ddweud wrthyn nhw ac mae'n nhw'n colli eu tymer a'r funud maen nhw'n ei cholli hi maen nhw allan drwy'r drws achos does dim rhaid eu lletya os ydyn nhw'n dangos unrhyw fath o ymddygiad ymosodol. Ond bydd person arall yno, (1) bydd y swyddog digartrefedd ... ac mae hyn yn swnio'n ofnadwy ... efallai'n fwy proffesiynol am na all ddweud beth a fynno a hefyd (2) mae 'da nhw rhywun i siarad ar eu rhan.*

[Cynrychiolydd Asiantaeth]

Cyfeiriwyd at yr unig sylw beirniadol a gafwyd am gasglu o'r pyrth yn adran 3.4 uchod h.y. gellid trefnu'r gwasanaeth hwn mewn modd mwy cost effeithiol a chydlynol ar draws TSS, DIP, y gwasanaeth prawf a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

*4.1.3 'Ymestyn allan pendant'*

Roedd staff TSS a chynrychiolwyr asiantaethau allanol yn cydnabod gwerth y berthynas gref, positif gall mentoriaid sefydlu gyda'r unigolion y maen nhw'n gweithio gyda nhw:

*Dw i'n meddwl ei bod yn dda bod ganddyn nhw gefnogaeth pan maen nhw'n dod allan achos os nad oes swyddog prawf 'da nhw does unman 'da nhw i fynd na neb i droi atyn nhw am gymorth. Felly, mae'n neis iddyn nhw gael y berthynas un-i-un , i fod wedi cwrdd â rhywun sydd am eu helpu ac a fydd yn gwrando arnyn nhw. Achos yn gyffredinol, does dim syniad 'da nhw o'r gwasanaethau neu ba help sydd ar gael na'r hyn sydd ganddyn nhw hawl iddo fe.*

[Cynrychiolydd Asiantaeth]

Nodwyd bod ansawdd y cysylltiadau a wneir yn un o'r ffactorau allweddol am effeithiolrwydd TSS – darparu cymorth ymarferol a ffynhonnell y gellir ymddiried ynddi am gyngor:

*… rhywun y gallan nhw droi ato a bod yn agored gyda hi/fe. Achos does dim pwynt os ydych chi'n siarad â nhw a does dim ffydd 'da nhw ynddoch chi. Yn fy marn i, mae'n dibynnu ar y berthynas. Achos os gallwch chi gyd-dynnu â rhywun ... fe wnân nhw wrando arnoch chi a pharchu'r hyn rydych yn ceisio'i wneud.*

[Mentor 1]

Fel y pwysleisiodd nifer o'r rhai a gyfwelwyd – gan gynnwys cleientiaid a mentoriaid eu hunain – dull 'pendant' mentoriaid o fynd ati oedd yn gwneud i gymorth TSS sefyll allan o'i gymharu â'r hyn a geir gan asiantaethau eraill:

*Fe wnawn ni fynd ar ôl cyfranogwyr. Fe wnawn ni eu tracio, achos bydd asiantaethau eraill yn eu ffonio, 'O wel, allwn ni ddim cael gafael ynddyn nhw,*

*bydd rhaid iddyn nhw gysylltu â ni'. Ond bydd TSS yn ffonio a byddan nhw'n ffonio a byddan nhw'n ymweld â'r tŷ maen nhw wedi mynd iddo, i'r cyfeiriad maen nhw'n wedi'i roi yn llythrennol, nes iddyn nhw gael gafael ynddyn nhw. Dw i'n meddwl ei fod yn gwneud cymaint o wahaniaeth i fedru mynd i'w cartreif.*

[Mentor 7]

*Gan ein bod ni allan yn [yn y gymuned], rydyn ni'n fwy effeithiol. Rydyn ni allan yn y maes, rydyn ni allan fanno gyda'r cyfranogwyr. Rydyn ni'n cydgerdded â nhw.*

[Mentor 2]

*Y peth da amdanon ni ydy ein bod ni allan yno a thrwy'r gymuned mewn gwirionedd. Dwi'n credu'n bendant mai'r ffaith ein bod allan yno drwy'r amser yw'r rheswm allweddol ein bod mor effeithiol. Ni sy'n mynd at y cyfranogwr. Maen nhw'n nabod ni, rydyn ni allan ar y strydoedd, bobman, does unman i guddio. Ac yn llythrennol, rydyn ni wedi chwilio cyn hyn am bobl yn y llwyni oherwydd ein bod yn gwybod mai yno byddan nhw.*

[Rheolwr 2]

Roedd llawer o'r cleientiaid yn dehongli'r ymestyn allan pendant hwn yn arwydd bod eu mentor yn gofalu am eu lles:

*Dw i'n gwerthfawrogi'r cysylltiad, dw i'n meddwl, oherwydd, fel dwedais i, maen nhw'n cysylltu â chi. I mi'n bersonol, mae'n gwneud i chi feddwl bod rhywun yno i chi i siarad ag e, a rhywun yn gefn i chi - i'ch helpu. Weithiau, mae wedi dod lan, a dydyn ni ddim wedi siarad am ddim byd yn benodol, ond mae fel cael rhywun tu allan i'ch tŷ, rhywun i siarad ag e. Rhywun na fyddai'n eich beirniadu, chi'n gwybod.*

[Cleient 2 TSS]

*Chware teg i fy ngweithwraig TSS, mae'n cadw'r ffôn ar agor i fi drwy'r penwythnos, felly, os oedd rhywbeth yn fy mhoeni gallwn i ei ffonio hi unrhyw adeg. Ac mae'n dangos bod gofal yno, nid swydd yn unig yw e iddi hi a dw i'n teimlo mod i'n gallu siarad â hi mwy nag â fy nghwnselydd cyffuriau nag unrhyw un arall.*

Mae argaeledd cyson cymorth gydag unigolyn sy'n wybyddus ac y mae'r cleient yn llwyr ymddiried ynddo/ynddi yn nodwedd unigryw o TSS:

*Mae cael cymorth, cael rhywun a fydd yno, yn beth mawr i rywun sy'n dod allan o'r carchar yn enwedig i berson heb gefnogaeth, heb deulu, neb ar gael. Mae fel cael rhywun maen nhw'n ei nabod, ac mae cael eu rhif ffôn fel bod nhw'n gallu eu ffonio ar unrhyw adeg yn rhywbeth amhrisiadwy yn fy marn i.*

[Cynrychiolydd Asiantaeth]

*Gan fod ganddyn nhw eu rhifau ffôn symudol, does dim o'r ffonio un man cyswllt unigol a siarad â rhywun sy'n ffiltro gwybodaeth Pan fyddan nhw'n ffonio'r swyddfa, TSS ydy e. Os ydyn nhw'n ffonio'r mentor, mae'n uniongyrchol i'r mentor.*

[Rheolwr 2]

*4.1.4 Rhwydweithio lleol*

Gwerthfawrogwyd gwaith mentoriaid TSS nid dim ond am eu gallu i gwrdd â chleientiaid yn y carchar a chychwyn sefydlu perthynas, ond hefyd oherwydd y rhwydweithio sylweddol roedden nhw wedi'i wneud gyda'r asiantaethau perthnasol yn y gymuned – a'u gwybodaeth gynhwysfawr am y systemau cymorth sydd ar gael. Dyma oedd yn eu gwneud yn wahanol i weithwyr CARAT:

> *Gan eu bod nhw [mentoriaid TSS] yn gwybod beth sydd yn y gymuned a gwybod beth sydd ar gael, mae 'da nhw rwydweithio da a chysylltiad â phopeth a does gynnon ni ddim cymaint.... gan eu bod wir allan fanna, maen nhw'n dysgu am yr holl wahanol gynlluniau sy'n mynd ymlaen. Maen nhw wir yn siarad â'r bobl sy'n cymryd rhan.  Os ydyn ni'n ansicr o rywbeth, fe godwn ni'r ffôn a gofyn iddyn nhw ydyn nhw wedi clywed rhywbeth ac fel arfer mae gynnyn nhw wybodaeth dda.*
>
> [Cynrychiolydd Asiantaeth]

Dywedwyd hefyd i gysylltiadau da a chynhyrchiol gael eu sefydlu rhwng TSS ac asiantaethau eraill – cysylltiadau nad oedd prin yn cynnwys unrhyw elfen o 'gystadlu am gleientiaid' ond yn hytrach yn chwilio am ffyrdd o ddatblygu dulliau integredig o gyflenwi cymorth:

> *Does dim awgrym o hunanoldeb yn eu hagwedd a cheisio hawlio mai 'Defnyddwyr ein gwasanaeth ni ydyn nhw a chewch chi ddim gweithio gyda nhw!'  Dwi'n meddwl bod hynny'n arfer dda iawn, am ddull integredig o weithio. Ac mae hynny'n dod ar lefel strategol hefyd eu bod yn gweithio mewn dull integredig gyda gwasanaethau eraill.*
>
> [Cynrychiolydd Asiantaeth]

Nodwyd mai mantais arall o'r rhwydweithio agos hwn oedd cyfraniad cryf i godi a chynnal ymwybyddiaeth ymhlith asiantaethau eraill, rhai statudol a gwirfoddol fel ei gilydd, o'r cymorth arbennig sydd ei angen ar garcharor tymor byr, grŵp sydd wedi'i anwybyddu yn gyffredinol.

> *Dw i o'r farn ei fod wedi codi ymwybyddiaeth o wasanaethau i garcharorion tymor byr. Dw i ddim yn siŵr a oedd unrhywbeth yn digwydd ym maes carcharorion tymor byr cyn TSS.*
>
> [Cynrychiolydd Asiantaeth]

Nodir bod mentoriaid hefyd yn elwa o gynnyrch rhwydweithiau ei gilydd – yn cael rhwydwaith o wybodaeth leol fanwl ar draws y meysydd maen nhw'n gweithio ynddyn nhw:

> *Rydyn ni gyd yn gweithio mewn ardaloedd gwahanol, felly os oes gen i rhywun lawr mewn ardal wahanol lle nad ydw i'n gyfarwydd â hi na chwaith yn gyfarwydd â'r bobl y galla i fynd atyn nhw, dim ond codi'r ffôn ar rywun arall sydd ei angen a dweud. "Wel rydych chi wedi gweithio'n ddwys yn y maes hwn. Allwch chi roi cyngor i mi, plîs?" ac i'r gwrthwyneb. Felly mae popeth yn cael ei rannu.*
>
> [Mentor 3]

*4.1.5 Cymorth 'trosiannol': gwella ymglymiad troseddwyr gyda gwasanaethau*

Yn ogystal â gwybodaeth fanwl ei staff o asiantaethau gwasanaeth lleol, a rhwydweithio gyda nhw, dywedwyd bod TSS yn ychwanegu gwerth sylweddol at waith asiantaethau o'r math drwy weithredu fel 'pont' iddyn nhw yn ystod y dyddiau a'r wythnosau cyntaf hollbwysig ar ôl i garcharor gael ei ryddhau o'r carchar. Y 'cymorth trosiannol' hwn, pan fydd y mentor yn symbylu ac yn helpu troseddwyr i ymglymu â gwasanaethau i gwrdd â'u hanghenion, yr oedd nifer o gynrychiolwyr asiantaethau yn ystyried yn brif gyfraniad y Cynllun i adsefydlu carcharorion tymor byr. Rhoddodd rhai enghreifftiau penodol o sut wnaeth parodrwydd mentoriaid i drefnu apwyntiadau ac yna mynd gyda cyn-garcharorion i'w cyfarfodydd cyntaf gydag asiantaeth newydd (gan gynnwys bod yn bresennol mewn trafodaethau gyda gweithwyr allweddol) gynyddu nifer y darpar gleientiaid oedd yn defnyddio gwasanaethau, cleientiaid a fyddai'n annhebygol o ymglymu ar eu pen eu hunain.. Fel y nodwyd yn gynharach, amcangyfrifodd un bod 20% o gyn-garcharorion wedi ymglymu o ganlyniad i atgyfeirio 'oer', tra bod 80% o'r rhai aeth gyda gweithwyr TSS wedi ymgysylltu â gwasanaethau eu hasiantaeth. Yn fwy cyffredinol, dadl cynrychiolydd arall oedd:

> *Y peth da am TSS yw eu bod yn cael mwy o bobl i mewn i wasanaeth oherwydd eu bod yn gweithio gyda throseddwyr yn y carchar am lai na 12 mis. Dw i'n credu y byddai rhai ar dymor byr yn syrthio ar fin y ffordd petai na ddim byd tebyg i TSS, neu fydden nhw ddim yn gwybod am y TSS a'r cymorth y maen nhw'n ei gael. Dw i'n meddwl y bydden nhw'n dychwelyd i'w hen ffyrdd, fel yn yr hen ddyddiau pan nad oedd nemor ddim cymorth a'i fod yn anodd i'w gael.*
>
> [Cynrychiolydd Asiantaeth]

Cofnodwyd hefyd fod effaith TSS yn hyn o beth wedi cynyddu ers i'r cynllun ddechrau wrth iddo ddatblygu cysylltiadau cryfach gydag asiantaethau eraill ac ymsefydlu fwy yn y seilwaith cymorth lleol:

> *[Effaith] cynyddol bositif ... Fodd bynnag, dim ond oherwydd ei fod yn gynyddol wedi ceisio gweithio gyda sefydliadau megis Shelter a sefydliadau eraill mae wedi gallu gwneud hynny. Mewn geiriau eraill ... integreiddio i mewn i berthynas lle mae'n delio â rhywfaint o agenda ddwys digartrefedd wrth i garcharorion gael eu rhyddhau.*
>
> [Cynrychiolydd Asiantaeth]

*4.1.6 Ymgynghorwyr grŵp cymheiriaid*

Ystyriwyd bod y system 'ymgynghorwyr grŵp cymheiriaid' (PGA) a weithredir gan TSS-G4S – lle mae 'graddedigion' llwyddiannus y Cynllun yn mynychu cyfarfodydd misol, yn cymryd rhan yn y broses o sefydlu mentoriaid newydd, cwrdd â chleientiaid newydd a darparu cyngor cyffredinol - yn elfen bwysig o waith y Cynllun yn symbolaidd ac o ran ei werth ymarferol gan nifer o'r rhai a gyfwelwyd. Ar un llaw, roedd yn helpu 'graddedigion' y Cynllun i ddal cysylltiad a theimlo eu bod yn gwneud cyfraniad i'r gwaith, ac y gallai eu helpu gyda'u cynnydd eu hunain oddi wrth gyffuriau a throseddu. Ar y llaw arall, ystyriwyd ei fod yn werthfawr i gleientiaid

newydd gwrdd â pobl a fu yn yr un sefyllfa â nhw ond eu bod wedi 'llwyddo i newid eu bywydau'. Yn ogystal, dywedwyd gan reolwyr TSS G4S bod PGAau yn darparu mewnwelediad ar gyfer y Cynllun o'r anawsterau y mae cleientiaid yn eu profi ac felly'n gall darparu cyngor i fentoriaid a chleientiaid newydd yn seiliedig ar brofiad personol.

*4.1.7 Ffocws y Cynllun ar alcohol*

Cododd nifer o gyfranwyr i'r gwerthusiad y mater bod TSS wedi darparu un o'r prif wasanaethau (os nad yr unig un) ar gyfer troseddwyr sy'n camddefnyddio cyffuriau. Gan fod gwaith CARAT yn canolbwyntio yn unig ar gamddefnyddio cyffuriau a DIP yn canolbwyntio'n bennaf ar gyffuriau Dosbarth A, mae'n ymddangos bod realiti'r cysylltiad rhwng alcohol a throseddu wedi'i esgeuluso'n llwyr, ei 'anghofio' gan y mwyafrif o ffurfwyr polisi:

> *Mae'r ffaith eich bod chi [y Cynllun] wedi'ch ariannu i ddelio ag achosion alcohol yn unig ....yn wir bositif oherwydd bod alcohol yn fater o bwys i'n cleientiaid ac yn un nad yw'r gwasanaeth carchardai'n ddim mewn gwirionedd yn ei ariannu. Felly, dw i'n meddwl ei fod yn wir bositif bod arian yn bodoli i ddelio â phobl gyda phroblemau camddefnyddio alcohol. Dw i'n credu mai ni yw un o'r ychydig garchardai yn y wlad sy'n darparu unrhywbeth o gwbl ar gyfer alcohol, felly mae'n rywbeth gwir bositif.*
>
> [Cynrychiolydd Asiantaeth]

> *Yr hyn mae'r TSS yn cynnig iddyn nhw – oherwydd rydyn ni'n gallu gweithio gyda chleientiaid â phroblemau alcohol – ydy bod bwlch yn y farchnad o fewn y carchar ac yn y gymuned ar gyfer cynnig gwasanaethau i bobl gyda phroblemau'n gysylltiedig ag alcohol. Ac felly, dwi'n meddwl mai dyna lle mae TSS yn eithaf cryf.*
>
> [Aelod o staff TSS]

> *Mae wedi tanlinellu'r broblem honno fod nifer uchel o droseddwyr yn y carchar sydd â phroblemau alcohol wedi syrthio drwy'r rhwyd. Ac mae hynny oherwydd nad yw'n cael ei hystyried cymaint o broblem â chyffuriau – does dim ond rhaid i chi ofyn i unrhyw blismon sy'n gweithio yng nghanol dinas ar benwythnosau faint o broblem yw alcohol. Ac ar ben hynny, y risg i iechyd. Yn bersonol, dwi'n meddwl bod gormod o bwyslais yn cael ei roi ar gyffuriau.*
>
> [Cynrychiolydd Asiantaeth]

### 4.2 Gwelliannau a awgrymir

Gofynnwyd i gyfweleion o bob math pa welliannau hoffen nhw ei weld i TSS. Prin oedd yr awgrymiadau a gafwyd, yn enwedig gan gleientiaid oedd yn ymddangos yn weddol fodlon gyda'r gwasanaeth roedden nhw wedi'i dderbyn. Roedd y rhan fwyaf o awgrymiadau a wnaed (yn bennaf gan staff TSS neu gan staff asiantaethau partner) yn gysylltiedig ag un o'r pedwar pwnc: ehangu'r gwasanaeth, dulliau o atal darpar gleientiaid rhag 'llithro drwy'r rhwyd', problemau comisiynu a chontractau ac awydd gweld partneriaethau mwy strategol. Ychwanegwn at broblem a nodwyd gan fwyafrif aelodau'r tîm ymchwil fel maes i'w wella, sef cadw cofnod.

### *4.2.1 Ymestyn ystod a gallu*

Yr awgrymiadau mwyaf cyffredin a gafwyd am ymestyn ystod a gallu'r Cynllun oedd; yn bennaf ei ymestyn i gynnwys troseddwyr ifanc, cynyddu'r amser y gallai cleientiaid gymryd rhan neu gynyddu faint o gymorth y gallai'r mentoriaid ei ddarparu ar gyfer unigolion:

> *Hoffwn i fod wedi gweld mwy ohono fe, ond wedyn eglurodd nad fi yw'r unig berson mae'n gweld.*
>
> [Cleient 7 TSS]

> *Gallen nhw gael rhagor o weithwyr efallai fel y gallen ni dreulio mwy o amser gyda'n gilydd ... Mwy o fentoriaid fel y gallen ni'r cleientiaid dreulio mwy o amser gyda'n mentoriaid achos maen nhw'n brysur iawn. ... Dw i ddim yn meddwl bod tri mis yn ddigon a bod yn ones ... pan mae'ch tri mis yn dod i ben ... efallai nad ydych chi wedi gorffen rhai pethau y byddech chi wedi hoffi eu gorffen, chi'n gwybod, gyda'ch mentor ... ac mae'n amser symud ymlaen ... Felly dw i'n credu y dylai fod yn chwe mis.*
>
> [Cleient 5 TSS]

Roedd staff CARAT hefyd yn cefnogi'r syniad o gynyddu adnoddau TSS ac felly, pryd bynnag byddai mentor yn brysur, byddai un arall ar gael yn y gymuned i ddarparu cymorth i gleientiaid eraill. Codwyd mater yr angen i ddarparu cymorth mwy dwys i gleientiaid hefyd gan fentoriaid. Y teimlad oedd y byddai rhagor o staff yn golygu y gellid neilltuo rhagor o amser i sefydli llwybrau atgyfeirio:

> *Tasai gynnon ni fwy o fentoriaid, byddai mwy o amser o ansawdd gyda'r person hwnnw i'w symud i ffwrdd o bopeth ... Ac mae mwy o amser gynnoch chi wedyn i geisio rheoli amser. Rydych chi'n ceisio gwneud gwaith yn ogystal â mentora. Felly, dw i'n credu tasai rhagor o fentoriaid gynnon ni, gallai rhywun fod yn mentora tra byddai'r lleill yn casglu gwaith.*
>
> [Mentor 4]

Er bod mentoriaid yn derbyn galwadau ffôn eu cleientiaid ddydd a nos, awgrymodd un ohonyn nhw y dylid cyflwyno patrwm o shifftiau i strwythuro eu gwaith. Byddai hyn yn sicrhau y gellid cael mynediad i fentor yn ystod rhan fwyaf o oriau'r dydd[16].

> *Mae'r bobl hyn yn anhrefnus tu hwnt a bydd rhai o'r bechgyn yn fy ffonio i am chwarter wedi pump ar ôl i ni orffen gwaith – "Ti'n ffansi gwrdd nawr? Dw i'n isel iawn." A dw i'n credu y gellid gwella'r gwasanaeth lle ... byddai rhywun arall yn gweithio shifft o ddau tan ddeg ... Felly, dw i'n meddwl dylai fod patrwm o shifftiau gan fod patrwm shifft i bob dibyniaeth ... Dydy eu hanghenion nhw ddim yn peidio oherwydd ein bod ni'n gorffen am bump o'r gloch. Dydyn nhw ddim yn gorffen am bump o'r gloch, felly, pam dylen ni?*
>
> [Mentor 4]

[16] Yng Nghanolbarth/De Cymry, mae cyflwyno llinell ffôn tu allan i oriau wedi helpu rywfaint i gwrdd â'r angen hwn.

Teimlai rhai a gyfwelwyd bod cyfyngu amser cymorth TSS i dri mis yn rhy fyr a byddai'n fwy priodol ei benderfynu ar angen pob cleient:

> *Efallai tan i fi gael gwaith neu rywbeth felly, nes i mi fod ar fy nhraed yn iawn ... yn bersonol dwi'n meddwl bod ychydig o fisoedd yn rhy fyr, dw i'n meddwl y dylai fod yn wahanol i wahanol bobl yn dibynnu ar eu hanghenion.*
>
> [Cleient 2 TSS]

Mynegodd rhai o'r mentoriaid bryder am effaith y cyfyngiad amser ar gleientiaid. Roedden nhw'n teimlo nad oedd tri mis yn ddigonol i helpu cleientiaid gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau ers amser hir newid eu dull o fyw.

> *Ydych chi'n disgwyl i berson sydd wedi bod ar heroin ers pymtheg mlynedd roi'r gorau iddo neu roi'r gorau i'r 'routine' y mae wedi'i ddilyn ers pymtheg mlynedd mewn tri mis? ... Dw i'n ei gael yn broses frysiog a gallwch chi ddim brysio pobl fel hyn achos mae'n nhw'n sicr o gael ail bwl.*
>
> [Mentor 4]

> *… rydych chi'n gofyn i rywun newid popeth mewn tri mis, dydy hynny ddim yn realistig nac ydy? ... Byddwn i'n newid mewn chwech. Achos mae'n cynnal rhywbeth. Rydych chi'n cael rhywun oddi ar y cyffuriau mewn tri mis: eu cael nhw'n i sefydlogi a phopeth, dyna'r rhan hawdd. Y rhan anoddaf yw aros felly.*
>
> [Mentor 6]

Ond soniodd un mentor, fodd bynnag, am fanteision cyfyngu'r amser i dri mis. Teimlai'r mentor hwn bod darparu cymorth di-ben-draw yn gwneud y cleientiaid yn fwy dibynnol ar eu mentoriaid:

> *Dw i'n credu bod tri mis yn gyfnod da neu fel arall byddan nhw'n dod i ddibynnu arnoch chi cymaint na fyddan nhw byth yn sefyll ar eu traed eu hunain – felly dw i'n meddwl bod tri mis yn iawn.*
>
> [Mentor 7]

Nodwyd hefyd mai cynllun cymorth trosiannol yw TSS - h.y. ei gyfraniad allweddol yw pontio'r bwlch rhwng y cyfnod mae'r cleient yn gadael y carchar a'i ymglymiad gyda gwasanaethau yn y gymuned. Ystyriwyd bod y cyfnod o dri mis tua yn briodol i gyflawni hyn.

Er cydnabod bod y gwasanaeth prawf yn darparu cymorth i garcharorion sydd wedi bod yn y carchar ar ddedfrydau tymor hir, y farn gyffredinol oedd nad oedd y cymorth hwn yn ddigon dwys. Roedd rhai mentoriaid am ymestyn TSS i ddarparu mentora ar gyfer troseddwyr ar ddedfrydau hirach. Fodd bynnag, ystyriwyd bod y cynnydd yn y risg i ddiogelwch mentoriaid yn ffactor bwysig ac roedd angen cydbwyso hyn â'r darpar fantais i'r grŵp estynedig o gleientiaid:

> *Hoffwn i petai'r cyfyngiad dan ddeuddeg mis ddim yna - dydy'r Gwasanaeth Prawf ddim yn gwneud yr hyn rydyn ni'n ei wneud. Dydyn nhw ddim yn eu casglu tu allan i'r pyrth a mynd â nhw i'r adran Tai. Mae pobl yn dal i ddod allan yn ddigartref ar ôl dwy flynedd yn y carchar. A galla i gofio pobl yn dweud, 'O ie, ond byddai eich holl risg yn newid,' Sut gall e? Gallen ni fod yn*

*mentora rhywun sydd wedi bod ar ddedfryd o ddau fis, ond efallai wedi bod yn y carchar am chwe mlynedd ar ddedfryd flaenorol.*

[Mentor 7]

*Dw i'n meddwl y gallai'r gwasanaeth fod ychydig yn ehangach, gallen ni fod yn gwneud fwy o les ... Dw i ddim yn gwybod ble i dynnu'r llinell o ran materion diogelwch, achos efallai bod rhywun sydd wedi'i garcharu am bum i saith mlynedd yno oherwydd trosedd erchyll neu beryglus, felly byddai rhaid pwyso a mesur.*

[Mentor 2]

Yn olaf, gwnaed un neu ddau awgrym am ymestyn sgôp TSS o ran ystod ei weithgareddau. Er enghraifft, awgrymodd rhai y gallai'r Cynllun ddarparu gweithgareddau wedi'u strwythuro ar gyfer cleientiaid sydd heb ddim byd arall i'w wneud. Roedd mentoriaid a chleientiaid fel ei gilydd yn cydnabod y cysylltiad rhwng diflastod (boredom) a chamddefnyddio sylweddau:

*Gallai fod nifer o bethau, 'chi'n gw'bod ... yn arbennig pan fydd pobl yn dod oddi ar gyffuriau a 'ballu – sy' ddim yn gweithio – dwi'n meddwl dyla' 'na fod r'wbath grŵp i chi fynd allan am y diwrnod neu ... r'wbath tebyg, gweithgaredd neu gyrsiau byr neu r'wbath fel'na ... Achos y peth mwya'i mi ydi diflastod, achos mod i ddim yn gweithio ... Rh'wbath i wneud efo'r amser, neu weithgareddau.*

[Cleient 3 TSS]

*Yr unig beth sydd isio ydi gweithgareddau i gadw pobl rhag diflasu. Diflastod ydi'r peth mwya i bawb ... I rai, nid cymryd cyffuriau ydi'r unig beth, ma' isio ca'l y pres i brynu'r cyffuriau, yr holl beth, mae'n nhw'n rhedeg rownd yn ddiddiwedd. Sy'n mynd a'u holl ddyddiau ...*
*Unwaith daw hynny i ben, maen nhw isio troi 'n ôl at gyffuriau achos sdim arall i'w wneud. Dyna'n wir y rhan anodd ... un peth gall DIP ein curo ni arno ydi gallan nhw gynnig tocynnau i'r gampfa. Ac mae cymaint yn deud wrthon ni, 'Allwch chi ga'l ticad "gym" i mi?' a does gynnon ni ddim arian i hynny. Anffodus iawn! Fyddai hynny'n grêt. Achos pan fyddan nhw yn y carchar, dyna un peth gallan nhw ganolbwyntio arno fo, y gampfa, unrhyw adeg o'r wythnos, ac maen nhw'n teimlo'n dda wrth fynd. Wedyn maen nhw'n dod allan ac yn methu fforddio aelodaeth mewn 'gym'.*

[Mentor 4]

*Dwi'n g'wbod bod ni'n cynnig cymorth ysgogol ond gan mai amser ac arian cyfyngedig sydd ganddon ni i bethau ... hoffwn i allu droi atyn nhw a deud 'Mae 'na gêm beldroed. Awn ni â chi yno.' Ond nid dyna ran o fy ngwaith i … Maen nhw'n mynd yn 'bôrd' ac yn sgil y diflastod daw'r defnydd o gyffuriau. A dyna'r unig broblem. Dwi'n eu ffonio a holi,""Be' ti'n 'neud heddiw? Sut hwyl wyt ti'n gael arni?" ... "Dwi'n 'bôrd. Dwisio rw'bath i 'neud. Dw isio gwaith. Dw isio cychwyn mynd i'r 'gym'. Gin i isio hobi. Ymarfer corff." Yn amlwg, mi allai helpu, fel gwyddoch chi, mi allai helpu ond diwedd y gân ydi bydd hyn yn eu harwain 'nôl i gymryd cyffuriau, sy'n eu harwain i droseddu eto. Ddim ym mhob achos, wrth reswm, ond dyna fy mhrofiad i, ond dyna dwi'n weld yn aml. Hoffwn i tasa 'na r'wbath gallen ni wneud i rwystro nhw fod yn 'bôrd'.*

[Mentor 7]

Gwnaed un awgrym hefyd y gallai TSS gyflenwi rhaglenni gwirfoddol yn y gymuned a fyddai'n helpu unigolion i ddelio gyda rhai o'u hanghenion wrth gamddefnyddio sylweddau a'r troseddau yn ei sgil:

> *Mae bwlch mawr o ran rhaglenni heb eu hachredu yr ydyn ni'n ystyried sy'n her ac yn gyfle. Y broblem fyddai rheoli dicter, efallai felly, bod raid i ni allu helpu'r unigolyn hwnnw ymdopi â hynny er mwyn atal iddo ddigwydd eto. A lot o bethau eraill hefyd.*
>
> [Mentor 8]

Fodd bynnag, roedd eraill yn ystyried y math hwn o awgrym yn afrealistig, oherwydd prinder adnoddau. Fel dwedodd yn o'r rheolwyr:

> *…A all TSS ehangu ei weithgareddau? Ddim gyda thri mentor yn unig yn gweithio'n y gymuned ac un yn gweithio'n y carchar. Felly, oni bai ein bod yn gollwng rhywbeth, rydyn ni eisoes yn ei wneud neu ydyn ni'n ehangu'r gweithlu.*

*4.2.2 Atal cleientiaid 'rhag llithro drwy'r rhwyd'*

Soniodd nifer o'r rhai a gyfwelwyd am yr angen am ragor o gyhoeddusrwydd am fodolaeth TSS a'r ystod o gymorth mae'n ei gynnig. Disgrifiodd nifer o gleientiaid, er enghraifft, mai dim ond gan gyd-garcharorion cawson nhw wybod am TSS – a sut roedden nhwythau wedi hynny, yn dechrau annog carcharorion eraill i ddefnyddio'r gwasanaeth.

> *Oherwydd mai dim yno ar 'remand' roeddwn i, chlywes i ddim byd amdano. A dw i ddim yn nabod neb arall chwaith oedd yn gwybod amdano a bod yn onest. Dwi'n meddwl taw dim ond gyda phobl sydd wedi'u dedfrydu maen nhw'n siarad, ddim y bobl ar 'remand', achos dydyn nhw ddim yn gwybod pa mor hir bydd eu dedfryd. Wel roedd un neu ddwy ferch yn yr un fan â fi a chlywes i ddim byd amdano nes i mi ddod allan.*
>
> [Cleient 1 TSS]

> *Yn y carchardai merched.... yn enwedig os ydych chi ar 'remand', dydych chi ddim yn clywed amdano. Clywodd fy mhartner amdano achos roedd yng Ngharchar Parc, wnaeth e ddim cael gwybod amdano yng Ngharchar Abertawe. Ond dw i'n meddwl dylai hyn gael ei hysbysebu fwy.*
>
> [Cleient 3 TSS]

Nodwyd bod darpar gleientiaid eraill yn rhai naill ai'n 'llithro dwy'r rhwyd' neu rai oedd tu allan i'r grŵp targed cyfredol ond a fyddai, serch hynny'n elwa o help TSS:

> *Mae 'na bobl dwi'n ymwybodol ohonyn nhw sy'n llithro dwy'r rhwyd. Nhw ydy'r carcharorion sy'n dod i mewn ar 'remand' ac yna'n derbyn dedfryd o dan 12 mis o garchar. Oherwydd, er mod i'n mynd i siarad â phob un sy'n dod i mewn wedi derbyn dedfryd o dan 12 mis, ni welir y rhai ar 'remand' sydd wedyn yn derbyn dedfryd o dan 12 mis o garchar. Felly, dw i'n meddwl efallai*

*bod pobl yn llithro drwy'r rhwyd. A hefyd pobl heb broblemau alcohol neu gyffuriau a hefyd y rhai efallai sydd ddim yn cydnabod bod ganddyn nhw broblem alcohol neu gyffuriau*

[Aelod o staff TSS]

Er bod peth gwaith wedi cychwyn gyda charcharorion ar 'remand', dydy hyn ddim yn cael ei ddatblygu'n weithredol: yn rhannol oherwydd y rhwystrau ymarferol ac yn rhannol oherwydd bod y targedau'n cael eu cyflawni yn gyfredol a doedd dim digon o adnoddau i ehangu darpariaeth y gwasanaeth.

Yn fwy cyffredinol, roedd rheolwyr TSS yn cydnabod bod anghydbwysedd mawr rhwng atgyfeiriadau o HMP Parc ac Altcourse a rhai o garchardai eraill. Yn amlwg, byddai llawer o garcharorion o Gymru mewn carchardai eraill yn elwa o wasanaethau TSS, ond prin yw'r cyfleoedd i gael mynediad iddyn nhw: mae hyn yn codi'r cwestiwn am gydraddoldeb a thegwch y driniaeth. Fodd bynnag, ar yr un pryd, (a) mae terfyn ar y nifer o achosion gall y Cynllun ddelio â nhw a (b) er bod ymdrechion sylweddol wedi'u gwneud (yng Ngharchardai De Cymru yn arbennig) i ehangu ystod y ffynonellau cyfeirio, mae angen llawer o amser ac adnoddau i wneud hyn.

*4.2.3 Comisiynu a chontractau*

Set arall o faterion a nodwyd gan y rhai a gyfwelwyd oedd materion ynglŷn â chomisiynu TSS. O gofio pa mor debyg yw nodau TSS a DIP – un cwestiwn ddaeth i'r amlwg oedd pam na chomisiynwyd ar y cyd. Dywedwyd bod proses gomisiynu gyfredol DIP, yn digwydd flwyddyn ar ôl proses TSS, wedi achosi rhwyg dros dro yn y cydweithio rhwng TSS a DIP:

*Unwaith bydd ail-gomisiynu DIP wedi ei gwblhau, dwi'n credu y bydd e'n caniatáu i ni symud ymlaen gyda'r asiantaethau eto. Achos bod DIP yn ail-gomisynu ar y foment ac wedyn mi all yr holl asiantaethau symud ymlaen unwaith eto, a rydan ni gyd yn aros am y darparwyr newydd ... a dwi'n credu bydd hynny'n caniatáu i'r holl brosesau symud ymlaen, achos fe fydd ganddoch chi ddarparwr fydd yno am dair blynedd, ac fe allan nhw ddechrau cydweithio'n fwy trefnus ac mi allai clinigau carchar DIP fod yn fannau ffocws i symud pethau 'mlaen. Fydd hyn yn caniatáu rhywfaint o ddatblygiad.*

[Rheolwr TSS]

Fodd bynnag, yr oedd yna beth croeso i'r broses gomisiynu ar wahân gan fod ofn y byddai comisiynu di-dor yn darostwng y TSS.

*Dw i ddim yn deall pam bod 'da ni wasanaeth TSS a DIP. Ond fe fyddwn i'n ofnus o weld nifer fach o gleientiaid sy'n ddefnyddwyr trwm ar gyffuriau fyddai'n gallu meddiannu holl drefn gomisiynu ddi-dor.*

[Cynrychiolydd Asiantaeth]

Roedd comisiynu TSS am gyfnod penodol o dair blynedd yn achos gofid i rai o reolwyr a staff TSS. Teimlid y byddai trefn cyfnod penodol yn cael effaith negyddol ar

forâl y staff. Wrth i ddiwedd y contract nesáu, teimlid y byddid yn colli momentwm wrth i staff chwilio am swyddi eraill:

> *Mae ariannu am dair blynedd yn anodd ... achos dydyn nhw ddim yn gwybod fydd o'n parhau, byddwch yn colli staff ar y flwyddyn olaf, wrth iddyn nhw symud ymlaen ... ac fe fyddwch yn colli momentwm yn y chwe mis olaf wrth geisio ail-lenwi ... dwi'n credu dylen nhw ar ddiwedd yr ail flwyddyn fod yn gwneud penderfyniad a ydyn nhw am ariannu ar ôl blwyddyn tri, ac nid ar derfyn y drydedd.*
>
> [Aelod o staff TSS]

> *Yr hyn sydd hefyd yn digwydd efo TSS ydi er eich bod wedi cael contract dechreuol am dair blynedd, unwaith byddwn ni'n nesáu at hynny, yna bydd yn cael ei ymestyn am ychydig ac ymestyn eto. Mae hynny'n gwneud y gwaith yn anodd gan fod rhaid i chi gadw staff. Morâl y staff a chadw pobl ... ceisio cadw'ch pobl – a rheiny'n rhai da hefyd.*
>
> [Rheolwr Prosiect]

> *Mae o'n wastad yng nghefn eich meddwl mai dim ond tair blynedd o gyllid sydd ar gael. Felly, yn yr isymwybod, rydach chi'n dyfalu beth sydd ... am ddigwydd. Mae'n anodd peidio meddwl y gwaethaf a'ch gwneud yn ansefydlog ambell dro, a tasai'r cyfan yn cael ei setlo, unwaith ac am byth, bod y cyllid ar gael, dwi'n credu gallech chi ganolbwyntio ar ... y gwaith sydd o'ch blaen, yn hytrach na gofidio am yr hyn allai fod yn digwydd ymhen rhai blynyddoedd i'r cyllid...*
>
> *… Felly, petai'r cyllid yn fwy parhaol, dwi'n credu byddai hynny'n dileu llawer o'r tensiwn neu stres i mi, gan mod i'n poeni beth ddigwyddith ymhen dwy flynedd, ble bydda i ac a fydda i'n dal i weithio fel rhan o'r TSS? A fydd yna ... mae'n creu ansicrwydd mawr, yn enwedig efo'r hyn sy'n digwydd yn economaidd ar y funud, mae'n gryn boen.*
>
> [TSS staff member]

Hefyd, nododd ymatebwyr effaith ariannol negyddol cynnal contractau tymor byr. Amlygodd un aelod o’r staff y ffaith bod arian yn cael ei golli ar gychwyn prosiect ac ar ei ddiwedd pan fuddsoddir mewn hyfforddiant a sefydlu ac ar ddiwedd y contract pan fydd ‘ôl-lenwi bylchau’ yn digwydd:

> *Maen nhw’n colli llawer o arian, oherwydd..... yn ystod y tri neu bedwar mis cyntaf, rydych chi’n buddsoddi mewn hyfforddiant a sefydlu ac, ar y diwedd, rydych chi’n ôl-lenwi, felly, rydych chi’n colli rhan o’r prosiect drwy’r amser. Ac rydych chi’n rhoi sefydliad newydd i mewn am y tri neu’r chwe mis cyntaf, eu sefydlu a dyna beth maen nhw’n ei wneud yn gyson. Felly, maen nhw’n colli rhan o’u cyllid bob tro maen nhw’n gwneud hynny. Byddai buddsoddiad tymor hirach yn well, dw i’n meddwl. Bydden nhw’n cael gwell gwerth am arian hefyd.*
>
> [Aelod o staff TSS]

Dadleuwyd y byddai cyflwyno contractau tymor hirach, mwy parhaol yn fodd o ddarparu diogelwch swydd ar gyfer staff. Byddai hefyd yn darparu cyfle i reolwyr TSS i wneud cynlluniau tymor hir i wella effeithiolrwydd a chyflenwad:

> *Mae'n anodd iawn cychwyn cynllunio ar gyfer y tymor hir a gwella hir-dymor pan nad yw'r cyllido'n sicr. Mae'n anodd dweud, "dyma lle hoffen ni fod ymhen pum, deng mlynedd" pan nad yw'r cyllid wedi'i warantu am fwy na dwy flynedd. Felly, dw i'n credu ei bod hi'n anodd cynllunio ar gyfer y dyfodol i wella pethau pan fo ansicrwydd ynghylch cyllid.*
>
> [Aelod o Staff TSS]

*4.2.4 Datblygu dulliau mwy strategol o ddelio â phartneriaeth*

Trafodwyd y ddau faes olaf lle awgrymwyd gwelliannau, yn fanwl yn gynharach yn yr adroddiad, felly dim ond fyr y cân nhw eu crybwyll yma. Yn gyntaf, fel y trafodwyd yn adran 3.4 a 3.5, nododd nifer o'r rhai a gyfwelwyd er bod gan reolwyr a mentoriaid berthynas ardderchog gyda staff mewn nifer o asiantaethau eraill fel unigolion neu yn lleol, byddai'r Cynllun yn elwa o sefydlu cysylltiadau mwy strategol, wedi'u cefnogi gan gytundebau neu brotocolau ffurfiol ar lefel ehangach - yng ngeiriau cynrychiolydd gwasanaeth camddefnyddio sylweddau, 'cael ei ystyried yn wasanaeth ar gyfer Gogledd Cymru yn hytrach na gwasanaeth maes unigol'. Wrth gwrs, gallai fod wedi dweud 'Cymru gyfan'.

Yn y cyd-destun hwn, soniwyd yn benodol am y tri phrif gorff statudol a ystyriwyd yn fudd-ddeiliaid allweddol TSS – gwasanaeth y carchardai, y gwasanaeth prawf, a'r DIP. Manteision ei 'wneud yn strategol' oedd y byddai'n fwy cydlynol o safbwynt y cleient, yn gallu defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon (e.e. sefydlu system ar y cyd i 'gasglu o'r pyrth'), yn lledaenu rhagor o wybodaeth am TSS a chael system gyfeirio mwy sefydlog a threfnus. Maes arall lle gallai TSS fanteisio o gael cytundebau strategol, mwy ffurfiol gyda charchardai a'r gwasanaeth prawf (efallai mewn ymgynghoriad â NOMS Cymru) fyddai o ran asesiad risg. Fel y nodwyd yn adran 3.6, rhaid i reolwyr TSS yn aml 'fynd ar ôl' y wybodaeth am risg, yn hytrach na bod wybodaeth yn cael ei rhoi'n systematig reolaidd gan y rhai sy'n atgyfeirio. Er y gallai hyn fod yn anodd ei drafod gan y byddai'n golygu gwaith ychwanegol i'r rhai sy'n atgyfeirio, mae'n faes pwysig i'r rhai sy'n gweithio gyda throseddwyr mewn sefyllfa lle mae'r posibilrwydd eu bod yn agored i niwed a gallai system mwy ffurfiol brofi'n fwy cost effeithiol yn y pen draw na'r broses o 'fynd ar ôl' ad hoc sydd ei hangen yn gyfredol mewn llawer o achosion.

*4.2.5 Cadw cofnodion*

Yn olaf, fel y trafodwyd yn adran 3.7, roedd y gwendidau mawr yn systemau cadw cofnod TSS, yn fwyaf pwysig ym maes Nacro/CAIS lle nad oedd mentoriaid yn cadw nodiadau achos yn systematig ac amheuon yn codi am gywirdeb rhai o'r cofnodion ar y prif fas data oherwydd bod darpar gorgyffwrdd gyda gwaith gan staff heb fod yn staff TSS yn ei gwneud hi'n anodd i'r tîm ymchwil (neu fwrdd y prosiect) i gael darlun clir drwy gofnodion y Cynllun o weithgareddau'r mentoriaid. Yn ogystal â phryderon am atebolrwydd petai rhywbeth yn mynd o'i le, roedd diffyg nodiadau-achos priodol yn ei gwneud hi'n anodd i'r goruchwylwyr gadw golwg fanwl ar weithgareddau mentora ac/neu i eraill ailafael mewn achos petai'r mentor yn sâl.

Yn fwy cyffredinol, roedd diffyg ffocws ar 'ganlyniadau' drwyddi daw yng nghofnodion TSS. Gellid bod yn rhoi mwy o sylw i gofnodi cynnydd cleientiaid o ran tai neu gyflogaeth, eu cysylltiad â thriniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau ac yn y blaen. Eto, cafodd yr ymchwilwyr hi'n eitha anodd i gael darlun cywir a chynhwysfawr o hyn o gofnodion TSS yn y ddau faes: nid dim ond bod echdynnu gwybodaeth fel hyn yn dasg gymhleth ac yn cymryd amser gan fod y cofnodion cyfrifiadurol yn drwsgl ac yn seiliedig ar gronfeydd data anghydnaws ac ar wahân, ond hefyd, roedd llawer o'r data ar goll. Y ffynhonnell wybodaeth gyfoethocaf a'r orau ar gyfer canlyniadau (yn ogystal â gwybodaeth am weithgareddau gyda chleientiaid) oedd ffeiliau achos papur G4S, ond roedd angen llawer o waith i echdynnu gwybodaeth o'r rhain.

Ar adeg y gwaith maes, roedd arwyddion bod rhai o'r problemau uchod yn cael eu datrys, er ei bod hi'n rhy gynnar i ddweud faint o welliant tymor hir fyddai'n digwydd. Yn gyntaf, roedd G4S wedi cyflwyno 'SSOM', offeryn ar gyfer asesu cynnydd (neu'r pellter a deithiwyd gan) unigolion. Teimlai'r ymchwilwyr fod hwn yn offeryn addawol ond bod angen gwaith sylweddol i'w wneud yn fwy dibynadwy (gweler adran 5.4 isod). Yn fwy pwysig, roedd dwy gainc y Cynllun wedi dechrau defnyddio PalBase sydd (i ryw raddau fel CRAMS yn y gwasanaeth prawf) yn cyfuno swyddogaethau cadw cofnodion sylfaenol gyda nodiadau achos parhaus mentoriaid. O'i ddefnyddio'n gywir ac amserol, dylai fod yn haws i echdynnu gwybodaeth rheoli sylfaenol a data ar gyfer adroddiadau chwarterol, a gall hefyd olygu y gellid adeiladu darlun cliriach a chywirach o weithgareddau mentoriaid a chanlyniadau eu gwaith, gan hwyluso goruchwylio gan reolwyr prosiect ac unrhyw ddarpar werthusiad o waith y Cynllun. Y gobaith yw, y bydd mentoriaid yn fuan wedi'u llwyr cymhwyso i ddefnyddio'r system hon a bydd ansawdd cadw cofnodion y Cynllun yn gwella'n sylweddol drwyddi draw.

## 5 Effaith a chanlyniadau

*Gwn o brofiad fod tîm gwych o bobl 'da ni ac maen nhw'n gweithio'n galed iawn ac yn gwneud gwir wahaniaeth i bobl nid yn unig o ran pethau meintiol ond hefyd y sylwadau ansoddol gan bobl dri mis yn ddiweddarach. A hefyd dydi'r gwir ganlyniadau ddim yn cael eu riportio yn TSS o ran yr unigolion sydd yn TSS efallai wedi bod drwy system 'Dawn' neu drwy system DIP wedi cael swydd a thŷ naw mis neu ddeuddeg mis yn ddiweddarach. Wel, sut gallwch chi gael tystiolaeth i gysylltu effaith un ar y llall? Allwch chi ddim, yn ddilys gysylltu'r canlyniadau a ragwelir gydag unrhyw beth arall. Oherwydd bod cymaint o ffactorau eraill. Ond ar ôl tri mis gyda TSS ac wedyn mynd at eraill, mae'n anodd gallu dweud bod TSS wedi cyfrannu llawer, neu ychydig.*

*[Rheolwr TSS]*

*Sut ydych chi'n mesur llwyddiant gydag unigolion? Ydyn nhw'n dal i yfed neu ddefnyddio? Ydyn nhw'n yfed yn ddiogel? Ydyn nhw wedi peidio â bod yn boen i gymdeithas? Heb fod nôl yn y carchar? Yn dal heb droseddu? Mae gen i lawer sy'n dal ar gyffuriau ond mewn dull gwahanol. Maen nhw'n gwerthu'r Big Issue yn hytrach na lladrata. Dydyn nhw ddim yn aildroseddu a dydyn nhw ddim wedi mynd nôl i'r carchar. Ai, llwyddiant yw hynny? Mae gen i bobl sy'n yfed nawr ac yn y man ond ddim yn goryfed mewn pyliau na mynd i drafferth gyda'r heddlu. Ac yna, mae rhai gen i sydd ddim mor llwyddiannus.*

*[Mentor 6]*

Mae'r sylwadau uchod yn crynhoi llawer o'r problemau wrth geisio dangos effeithiolrwydd TSS a mesur ei effaith neu 'ganlyniadau'. Er mai 'canlyniad terfynol' a nod y Cynllun yw gostwng aildroseddu, mae'n or-optimistig, yn ddiau, i ddisgwyl i gysylltiad gwirfoddol â mentoriaid am gyfnod byr o amser gael effaith glir yn syth ar gyfraddau aildroseddu pobl sydd, mewn llawer achos wedi'u niweidio'n ddifrifol gan broblemau personol a chymdeithasol ac wedi bod yn troseddu dros lawer o flynyddoedd. Mentora TSS yw cam cyntaf siwrnai a allai fod yn faith iawn drwy ymyriadau nifer o asiantaethau eraill – ac ar ben hynny, siwrnai a allai olygu llawer o rwystrau a methiannau, yn unol â'r hyn mae Burnett yn ei ddweud (2004) bod ymatal rhag troseddu yn broses 'igam ogam' hirfaith. Am y rheswm hwn, rydyn ni'n pwysleisio na ddylid ystyried bod y data ar aildroseddu a gyflwynir yn yr adran hon yn 'dystiolaeth' bendant bod TSS yn 'gweithio' ai peidio.

Sut, felly, dylid asesu effaith TSS? Awgrymwn mai'r hyn sydd ei angen yw amrywiaeth o ddangosyddion, yn feintiol ac ansoddol sydd, gyda'i gilydd yn dechrau creu darlun cronnus o'r hyn a gyflawnwyd. Deilliodd nifer o fesurau meintiol o gofnodion y Cynllun, gan gynnwys rhai roedd rheolwyr wedi'u dyfeisio eu hunain, i ddangos y newid mewn cleientiaid: yn arbennig, asesiad y staff o'r 'pellter a deithiwyd' gan gleientiaid. Yn aml, ystyrir bod data ansoddol yn darparu mesur llai dilys o berfformiad na data ystadegol, ond mewn gweithgareddau cymhleth ac anodd megis mentora troseddwyr mynych gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau, rydyn ni'n ei ystyried yn ddimensiwn pwysig iawn. Er enghraifft, o ddarllen y ffeiliau achos yn fanwl, trawyd ni gan y ffaith bod nifer o achosion wedi gorffen gydag ailgollfarnu (fel arfer mân gollfarnau) a heb 'ganlyniadau' mesuradwy amlwg o ran, er enghraifft, y cleientiaid yn rhoi gorau i alcohol neu'n cael gwaith neu lety parhaol,

ond eto i gyd, roedd cynnydd amlwg wedi'i wneud o ran eu helpu i ddeall gwraidd eu problemau ac i ddechrau chwilio am help ac ymglymu â'r gwasanaethau perthnasol. Yn wir, mewn rhai achosion (yn enwedig y rhai'n ymwneud â phroblemau iechyd meddwl, iselder, hunan-niweidio ac yn y blaen), roedd hi'n amlwg bod llawer wedi'i gyflawni drwy gadw cleientiaid agored iawn i niwed 'i arnofio' am ychydig o fisoedd. Yn aml, ni adlewyrchir cynnydd neu sefydlogrwydd o'r fath – er efallai dros dro – ym mesur meintiol canlyniadau, ond gallai fod yn gwneud cyfraniad pwysig i broses tymor hirach o wella bywyd pobl, gan gynnwys ymatal rhag troseddu.

Mae'n bwysig nodi, na fu cyflwyno mesuriadau effaith a drafodir isod, yn gyffredinol ar y ffurf y cadwyd cofnodion TSS – o leiaf tan i PalBase gael ei gyflwyno yn ddiweddar, system sydd heb gael amser i ymsefydlu eto – yn fodd i gynhyrchu mesuriadau cywir ac ystyrlon o effeithiolrwydd. Roedd angen ailfformatio a dadansoddi llawer o gofnodion y Cynllun a archwiliwyd gennym er mwyn cynhyrchu'r tablau yn yr adroddiad hwn ac ni wnaethon nhw gofnodi canlyniadau'n gyson ac roedd llawer o'r data ar goll. Nodwyd y problemau gyda data coll yn yr adroddiad interim ar TSS (Clancy yn 2005), yn enwedig yng Ngogledd Cymru lle gallen nhw fod wedi cyfrannu at y darlun lle roedd cainc Nacro/CAIS y Cynllun yn ymddangos ei bod yn perfformio'n waeth mewn nifer o ffyrdd nag oedd yn wir.

Rydyn ni'n cyflwyno data'n ymwneud ag effaith a chanlyniadau o dan chwe phennawd: parhad y gwasanaeth tu allan i'r carchar; ansawdd yr ymglymiad ôl-ryddhau; pontio i wasanaethau eraill; 'y pellter a deithiwyd'; aildroseddu; a thystiolaeth feintiol.

### 5.1 Parhad y gwasanaeth tu allan i'r carchar

Un o'r elfennau pwysicaf wrth adsefydlu carcharorion yn effeithiol yw cynnal cysylltiad ystyrlon â nhw ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau. Wrth werthuso dau gyfnod y 'Probation Pathfinders' (Lewis et al 2003; Clancy et al. 2006), un o'r prif ddangosyddion effeithiolrwydd a ddefnyddiwyd oedd yr un ar gyfer 'parhad y gwasanaeth', a ddiffiniwyd fel cysylltiad wyneb yn wyneb ar ôl y diwrnod cyntaf iddyn nhw gael eu rhyddhau. Er y cydnabuwyd bod cwrdd â throseddwyr wrth y pyrth (fel arfer wedi'i gyfuno â mynd gyda nhw i asiantaethau tai neu fudd-daliadau er enghraifft) yn ymyriad gwerthfawr ynddo'i hun, teimlwyd, os na ellid dilyn hyn gyda chyfarfodydd ar achlysuron eraill, y byddai'r tebygrwydd o effeithio'n sylweddol ar adsefydlu carcharorion gryn dipyn yn is. Cafwyd bod lefelau parhad y gwasanaeth a fesurir fel hyn yn amrywio'n ddirfawr, wedi'u dylanwadu gan ddaearyddiaeth dalgylchoedd y gwahanol garchardai. Yn yr astudiaeth Pathfinders cychwynnol, roedden nhw'n amrywio rhwng 16% a 47% [17] (Lewis et al. 2003), gyda chyfradd gyffredinol ar draws y saith carchar o 29%. Yn yr ail Pathfinders oedd yn cynnwys tri charchar yn unig (oedd yn cyfuno mentora a chyflenwi ôl-ryddhau y rhaglen wybyddol-ysgogol 'FOR A Change'), y gyfradd gyffredinol oedd 22% ond unwaith eto roedd amrywiaeth mawr rhwng y sefydliadau, un cynllun yn cyflawni 41%, un 15% a thrydydd dim ond 6% (Clancy et al. 2006).

[17] Cyflawnwyd y 47% drwy gynllun mewn carchar i ferched. Y raddfa orau a gyflawnwyd o garchar i ddynion oedd 42%.

Fel y dangosir yn Nhabl 5.1, o'i gymharu â'r cynlluniau uchod, perfformiodd TSS yn dda iawn ar fesur tebyg o 'barhad y gwasanaeth'. Mae ffigyrau yn Nhabl 5.1 yn deillio o 'siartiau gadael cyn gorffen' yn adran 3.2 (Ffigwr 3a a 3b). Maen nhw'n dangos i fentoriaid, rhwng 2004 a 2008 weld 39% o'u cleientiaid ddwywaith neu ragor ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau. (Dylid nodi hefyd iddyn nhw weld 56% o'r holl gyfranogwyr o leiaf unwaith ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau ac 18% ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau). O gofio bod cleientiaid TSS (yn enwedig rhai a fentorir gan G4S yn cael eu rhyddhau o nifer o wahanol garchardai – yn wahanol i'r Pathfinders y seiliwyd pob un ar garchar unigol – mae yn gyflawniad nodedig.

Tabl 5.1 Parhad y gwasanaeth tu allan i'r carchar

***% y cyfranogwyr a welwyd wyneb yn wyneb ar ôl eu rhyddhau, 2004-2008***

| | | |
|---|---|---|
| G4S: | | 39% |
| Nacro/CAIS | 39% | |
| TSS drwyddi draw | 39% | |

***Astudiaethau blaenorol: % y cyfranogwyr yn gweld mentor/gweithiwr allweddol ddiwrnod ar ôl eu rhyddhau***

| | |
|---|---|
| Probation Pathfinders 1 | 29% |
| Probation Pathfinders 2 | 22% |

*Ffynhonnell : cofnodion Cynllun G4S a Nacro/CAIS.

### 5.2 Ansawdd ymglymiad ôl-rhyddhau

Yn seiliedig ar ein sampl o 84 o ffeiliau achos [18], yn Nhabl 5.2, rydyn ni'n cyflwyno, hasesiad ein hunain o i ba raddau y mae cleientiaid yn ymddangos yn 'ymglymu' â'u mentoriaid ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau. Mae hyn amlwg yn fesur goddrychol cyffredinol, ond mae'n seiliedig ar ystyriaeth ofalus o'r holl wybodaeth oedd gennym am bob achos. Gellir gweld bod traean o'r holl achosion yn cynnwys ymglymiad parhaol, fel arfer yn golygu cyfarfodydd a thrafodaethau cyson, ynghyd â pharodrwydd parhaus cleientiaid i geisio 'gweithio ar' eu problemau. Yn gyffredinol, mae hyn yn unol â'r canfyddiadau uchod o ran y gyfran o achosion yn cynnwys dau neu ragor o gyfarfodydd wyneb yn wyneb ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau.

Tabl 5.2 Ansawdd yr ymglymiad â mentoriaid ôl-ryddhau

| | |
|---|---|
| Ymglymiad cryf drwyddi draw | 33% |
| Amrywiol/Cyfyngedig | 29% |
| Minimal/dim | 38% |
| | ----- |
| | 100% (N=84) |

Ffynhonnell: Sampl o 84 ffeiliau achos..

[18] Fel y nodwyd yn gynharach, doedd y ffeiliau achos ddim yn cynnwys hanes llawn cyfarfodydd gyda chleientiaid ac ategwyd at y dadansoddiad drwy siarad dwy pob achos yn unigol gyda'r mentoriaid.

### 5.3 'Pontio' i wasanaethau eraill

Fel y pwysleisiwyd nifer o weithiau drwy'r adroddiad, un o rolau allweddol TSS oedd gweithredu fel 'pont' ar gyfer carcharorion i amrywiaeth o wasanaethau i'w cynorthwyo i gwrdd â'u hanghenion yn ystod yr ychydig ddyddiau a'r wythnosau hanfodol bwysig cyntaf. Ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau. Trydydd dangosydd y gellir ei ddefnyddio i asesu effeithiolrwydd TSS yw felly i ba raddau mae mentoriaid yn cyfeirio'u cleientiaid at asiantaethau perthnasol ac – yn bwysicach – pa mor aml y mae'r rhai a gyfeiriwyd yn mynychu ac yn ymglymu â'r asiantaethau hyn, o ganlyniad. Cedwir cofnodion safonol gan TSS i roi darlun da o'r niferoedd cyffredinol ac ystod y cyfeiriadau a wneir, ond mae'n anos penderfynu canlyniad yr atgyfeiriadau hyn.

Fel y trafodwyd yn adran 3.3.3, cofnodwyd bod mentoriaid G4S wedi gwneud 2,153 o wahanol atgyfeiriadau i asiantaethau eraill yn 2008, ar gyfartaledd, 3.6 cyfeiriad am bob cleient. Mae cofnodion Nacro/CAIS yn dangos bod 185 o atgyfeiriadau allanol wedi'u gwneud dros ddeg mis cyntaf 2008, cyfartaledd o lai nag un am bob cleient os cynhwysir pob cyfranogwr a gyfeiriwyd i'r Cynllun (fel yn amcangyfrif TSS uchod). Fodd bynnag, mae'r cofnodion yn cyfeirio at 169 o gleientiaid yn unig: dydy hi ddim yn glir a gyfeiriwyd ar ran y 150 arall a gafodd eu cyfeirio yn ogystal yn ystod y cyfnod hwn, neu nad oedden nhw wedi cael eu cynnwys yn y cofnodion (hyn sydd fwyaf tebygol).

Mae'r wybodaeth ar i ba raddau y gwnaeth cleientiaid fynychu'r apwyntiadau a wnaed ar eu cyfer (neu ganddyn nhw ar gyngor eu mentoriaid), ac i ba raddau y gwnaethon nhw 'ymgysylltu' â'r asiantaethau pan oedden nhw'n mynychu, eto dim ond ar gael yn ffeiliau achos unigol. Wedi'i seilio ar ein dadansoddiad o sampl o 84 o ffeiliau achos, mae'n glir yn yr achosion hynny (tua thraean o'r cyfanswm) lle roedd mentoriaid yn dal i weld cleientiaid wyneb yn wyneb am rai wythnosau ar ôl eu rhyddhau, bod mwyafrif llethol yr apwyntiadau a wnaed yn cael eu cadw gan y cleient – yn bennaf oherwydd bod y mentoriaid wedi mynd â nhw yno. Patrwm cyffredin, yn arbennig yn TSS Canolbarth/De Cymru oedd i'r mentor wneud yr apwyntiad, ffonio'r cleient i'w atgoffa diwrnod cyn yr apwyntiad, ac yna eu casglu yn y car a'u gyrru nhw i'r apwyntiad.

Mae Tabl 5.3 yn dangos ein asesiad bras o i ba raddau roedd cleientiaid TSS yn y sampl sy'n ymglymu ag asiantaethau yr atgyfeiriwyd nhw atyn nhw.

Tabl 5.3 Lefelau gwaith a aseswyd/ymglymiad ag asiantaethau eraill

| | |
|---|---|
| Lefel uchel o waith/ymglymiad | 39% |
| Peth ymglymiad | 14% |
| Lleiafswm/dim | 47% |
| | ----- |
| | 100% (N=84) |

Ffynhonnell: Sampl o 84 o ffeiliau achos.

Er bod y sampl o ffeiliau achos yn gymharol fychan, mae'n darparu tystiolaeth fynegol gref bod y Cynllun yn perfformio'n eithriadol o dda o ran lefel yr ymglymiad rhwng cleientiaid, mentoriaid ac asiantaethau eraill. Mae canlyniadau ein

cyfweliadau gyda throseddwyr, mentoriaid a chynrychiolwyr asiantaethau eraill yn cefnogi'r casgliad hwn. Yn ôl y dystiolaeth a drafodwyd yn adran 3, roedd cytundeb cyffredinol bod TSS yn perfformio ei rôl 'pontio' sylfaenol o helpu troseddwyr i gael mynediad ac ymglymu â gwasanaethau'n dda iawn; un o'r sylwadau mwyaf dadlennol oedd un gan gynrychiolydd asiantaeth a honnai mai 20% neu lai o atgyfeiriadau 'oer' o gyn-garcharorion oedd wedi ymgysylltu â'r gwasanaeth roedd ei asiantaeth yn ei gynnig, tra roedd cyfradd ymglymiad atgyfeiriadau o TSS - oedd, fel arfer yn cynnwys mentor yn cludo'r cleient i'w apwyntiad cyntaf neu'r ail – yn nes at 80%.

Arwydd pellach o effeithiolrwydd y Cynllun yn y rôl hon yw'r canfyddiad o ddadansoddiad y ffeil achos bod 13 o'r 84 achos a archwiliwyd wedi'u trosglwyddo ar ddiwedd y cyfnod mentora i weithiwr allweddol asiantaeth arall - er enghraifft, gweithiwr 'cymorth symudol' ar gyfer tai neu weithiwr Asiantaeth Gyffuriau – oedd yn gallu cymryd drosodd rôl y mentor a rhoi cymorth (mewn rhai achosion, byddai'r trosglwyddo hwn yn digwydd yn gynnar ac mewn achosion eraill byddai'n digwydd ar ddiwedd y cyfnod tri mis o fentora). Mewn achosion eraill – yn enwedig yn Ne Cymru, Gwent a Dyfed Powys – chwaraeodd TSS rôl pontio yn ystod cyfnod cynnar y goruchwylio ôl rhyddhau Troseddwyr Cyson a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth (PPOs) lle roedden nhw'n cydweithio'n agos gyda thimoedd PPO, gan cynllunio'r 'ymadawiad' wrth drosglwyddo'u cyfrifoldebau.

Yn olaf, roedd hi'n eglur bod gan fentoriaid mewn rhai ardaloedd ddull gwahanol o 'bontio'. Dyma lle fyddai cyn-garcharorion yn profi agweddau negyddol neu wahaniaethol asiantaethau statudol (adrannau tai ac asiantaethau budd-daliadau yn cael eu crybwyll nifer o weithiau), ac o ganlyniad, roedd mentoriaid yn chwarae rhan eiriolwyr ar eu rhan. Er bod rheolwyr TSS yn awyddus i bwysleisio bod ymdrechion llwyddiannus wedi cael eu gwneud i ymgysylltu'n bositif â darparwyr tai yn arbennig, roedd eiriolaeth yn wasanaeth pwysig i gleientiaid mewn meysydd lle bu trafodaethau'n ofer.

### 5.4 'Y pellter a deithiwyd'

Ar wahân i ddata ailgollfarnu, efallai mai'r dangosyddion procsi gorau o'r effaith ar aildroseddu yw mesur canlyniadau ym meysydd 'anghenion criminogenig', megis tai, cyflogaeth neu gamddefnyddio sylweddau. Fel y trafodwyd eisoes, ers Ionawr, 2008, mae G4S wedi defnyddio system SSOM (Mesur Canlyniad Gwasanaethau Cymorth) i fesur cynnydd cleientiaid yn y meysydd dan sylw. Mae hyn yn caniatáu i fesurau gael eu llunio ar y 'pellter a deithiwyd' gan gleientiaid i ddelio â'u problemau drwy gymharu eu sgoriau ar ddechrau a diwedd eu hymwneud â TSS. Mae Tablau 5.4 i 5.7 yn dangos canlyniadau SSOM ar gyfer cynnydd cleientiaid o ran llety, cyffuriau a chamddefnyddio alcohol.

Mae'r SSOM yn dal i gael ei ddatblygu ac mae gwendidau yn rhai o'i fesurau o ran categorïau sy'n ddryslyd ac yn gorgyffwrdd (megis cyfuno defnyddwyr 'caotig' a'r rhai sy'n 'chwistrellu' cyffuriau) yn ogystal â dibynnu i ryw raddau ar adroddiadau'r troseddwyr eu hunain (sydd efallai'n cael eu temtio i or-ddweud er mwyn cael help gan TSS) neu ar ddyfarniadau goddrychol y staff (sy'n awyddus i nodi cynnydd), felly, rhaid bod yn wyliadwrus wrth drafod y canlyniadau. Serch hynny, mae'n glir o'r

tablau bod nifer sylweddol o gleientiaid wedi gwneud cynnydd ymhob un o'r meysydd uchod, yn fwyaf amlwg o ran gwelliant yn eu llety (fel mae dadansoddiad o’r ffeiliau achos a’r cyfweliadau gyda chleientiaid yn cadarnhau, yn bennaf o ganlyniad i fentoriaid yn helpu cleientiaid i ddelio â chynghorau lleol) ac o ran gwneud cysylltiadau newydd gydag asiantaethau sy’n arbenigo mewn delio ag alcohol a chyffuriau. Yn ogystal â’r ffigyrau a dangosir, ceir tystiolaeth debyg am gynnydd o ran anghenion hyfforddiant a chyflogaeth, yn arbennig cynnydd o 3% i 23% yn y gyfran sydd yn gysylltiedig ag asiantaethau megis P2W (Progress to Work).

Tabl 5.4 ‘Y pellter a deithiwyd’ o ran anghenion llety

| **Disgrifiad o’r llety** | **Sgôr ar y cychwyn** | **Sgôr ar y diwedd** |
|---|---|---|
| | % o gleientiaid | % o gleientiaid |
| Dim cyfeiriad sefydlog/llety annibynadwy dros dro | 39% | 20% |
| Teulu/ ffrind - dros dro (perthynas gweddol gefnogol) | 21% | 18% |
| Cyngor yn derbyn cyfrifoldeb lletya (Gwely a Brecwast/llety dros dro) | 1% | 7% |
| Cynllun llety â chymorth (arhosiad hir) | 2% | 5% |
| Cyngor/cymdeithas dai/rhentu preifat neu gartref y teulu (parhaol) | 38% | 50% |
| | 100% | 100% |

Tabl 5.5 ‘Y pellter a deithiwyd’ o ran camddefnyddio cyffuriau

| **Disgrifiad o’r cyffuriau** | **Sgôr ar y cychwyn** | **Sgôr ar y diwedd** |
|---|---|---|
| Dosbarth A/B - caotig / chwistrellu ayb. | 53% | 35% |
| Dosbarth A/B - ymwybodol o’r risg | 15% | 15% |
| Dosbarth C | 8% | 9% |
| Gydag asiantaeth arbenigol/meddyginiaeth cyfnewid/llwyrymwrthod | 21% | 41% |
| | 100% | 100% |

Tabl 5.6 ‘Y pellter a deithiwyd’ o ran camddefnyddio alcohol

| **Disgrifiad o’r camddefnydd o alcohol** | **Sgôr ar y cychwyn** | **Sgôr ar y diwedd** |
|---|---|---|
| Camddefnyddio dyddiol/goryfed ar byliau - ymddygiad annerbyniol | 59% | 35% |
| Dyddiol/,mewn pyliau –ymwybodol o’r risg -rheoledig | 5% | 9% |
| Yfed ar brydiau - diogel | 16% | 27% |
| Yn gysylltiedig ag asiantaeth arbenigol/llwyrymwrthod | 20% | 28% |
| | 100% | 100% |

Sylwer: Yn Nhablau 5.4 i 5.6 N= 374 o gyfranogwyr a ymadawodd â TSS –G4S yn 2008.

Daw un arwydd olaf o’r canlyniadau o ran anghenion criminogenig o’n sampl o 84 o achosion achos. Ymhob achos, fe farnon ni a oedd ymglymiad cleient â TSS wedi amlygu cynnydd canfyddadwy o ran cyflawni’r angen dan sylw. Mae Tabl 5.7 yn rhoi’r canlyniadau sydd, yn gyffredinol, yn cefnogi’r canlyniadau a ddeilliodd o ddadansoddiad SSOM, er yn dangos effaith ychydig is ei ddylanwad o ran camddefnyddio sylweddau.

Tabl 5.7 Canran y ffeiliau achos â thystiolaeth o gynnydd o ran cyflawni anghenion
*Maes angen:*

| | |
|---|---|
| Llety | 29% |
| Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth | 27% |
| Camddefnyddio sylweddau | 15% |

Ffynhonnell: Sampl o 84 o ffeiliau achos.

### 5.5 Aildroseddu

Gan mai nod canolog TSS yw gostwng lefel aildroseddu, efallai mai’r dangosydd pwysicaf ar gyfer effeithiolrwydd yw cyfradd aildroseddu cyfranogwyr TSS. Fodd bynnag, rhaid ei drin yn ofalus. Mae cyfraddau aildroseddu yn ddangosyddion amrwd iawn o’r newid yn ymddygiad troseddwyr, gan mai dim ond procsi ydyn nhw am ail- droseddu (gan nad yw pob troseddwr yn cael ei ddal ac mae cyfraddau datgeliad yn amrywio’n ddirfawr rhwng y gwahanol fathau o droseddau) ond hefyd dydyn nhw ddim yn gwahaniaethu rhwng pobl sy’n aildroseddu unwaith a’r rhai sy’n aildroseddu'n fynych na chwaith rhwng mân droseddau a throseddau difrifol. Yn fwy pwysig, er mwyn darganfod a yw ymyriad penodol (TSS) wedi gwneud gwahaniaeth i gyfradd aildroseddu grŵp penodol o droseddwyr, mae angen cael rhyw syniad o’r hyn fyddai’r sefyllfa petai ‘na *ddim* ymyriad wedi digwydd: mewn geiriau eraill cyfradd ail-gollfarnu *ddisgwyliedig* y grŵp. Hefyd, er mwyn bod yn hyderus yn nilysrwydd y canlyniad, mae angen cymharu cyfraddau disgwyliedig a’r gwir gyfraddau gyda rhai grŵp tebyg o droseddwyr sydd *heb* gael yr ymyriad.

Fel yr eglurwyd yn adran 1.2.4 yr astudiaeth gyfredol, penderfynon ni ar gyfraddau ail-gollfarnu disgwyliedig (yn seiliedig ar OGRS3) a gwir gyfraddau ail-gollfarnu

cyfranogwyr o ddynion yn TSS G4S oedd yn 21 oed a throsodd ac wedi gadael y carchar yn 2004-06 yn ogystal â rhai'r grŵp cymharu a ddewiswyd ar hap o blith troseddwyr o ddynion gyda phroblemau cyffuriau sylweddol oedd wedi bod yn y carchar ar ddedfrydau byr yn HMP Parc yn 2005-06 ond heb gymryd rhan yn TSS. Cafodd sgoriau OGRS3 eu cywain ar ein rhan o Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu. Ar ôl anwybyddu nifer gymharol fechan o rai nad oedd yn paru a'r dyblygiadau, roedd gennym grŵp ymyriad o 339 o gyfranogwyr TSS a grŵp cymharu o 154 o garcharorion HMP Parc - a'r rhain a ddefnyddir y dadansoddiad canlynol.

Dydy'r fethodoleg hon ddim mor ddibynadwy â hap dreial wedi'i reoli, lle byddai troseddwyr yn cael eu rhoi yn y grwpiau ymyriad a chymharu ar hap, gan ei bod yn bosibl bod gwahaniaethau cudd rhwng ein dau grŵp (na fesurwyd gan OGRS3, sy'n dibynnu'n unig ar ffactorau statig) sy'n effeithio ar y tebygrwydd y byddan nhw'n aildroseddu, yn enwedig, o gofio bod cymryd rhan yng Nghynllun TSS yn wirfoddol, mae'n bosibl bod y grŵp ymyriad wedi'u hysgogi fwy i ymatal rhag aildroseddu na'r grŵp ymyriad, ac felly byddai ei aelodau yn llai tebygol o aildroseddu o'r cychwyn. Does dim posibl i ni wybod hyn, er, fel y soniwyd eisoes, tawelir ein meddyliau gan (a) fod cyfradd ail-gollfarnu ddisgwyliedig y ddau grŵp yn debyg iawn, a (b) cymharol brin oedd y rhai a wrthododd gymryd rhan yn y Cynllun ar ôl iddyn nhw glywed amdano, a rhesymau ymarferol oedd dros beidio â chymryd rhan, felly byddai unrhyw effaith ar y detholiad yn eitha dibwys.

Y cymhlethdod olaf yw bod bron pawb yn y grwpiau ymyriad a chymharu yn garcharorion gyda phroblemau sylweddol o gamddefnyddio sylweddau. Gan nad yw OGS3 yn ystyried camddefnyddio sylweddau (ffactor criminogenig cryf) yn ei amcangyfrif o gyfraddau ail-gollfarnu a ragwelir, mae hyn yn golygu y bydd yn tan-ragweld y cyfraddau ar gyfer ein dau grŵp.[19] Cadarnhawyd hyn gan ffigyrau y bu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder mor garedig â'u rhoi i ni, ffigyrau'n seiliedig ar raddfa eang o ddata a gasglwyd yn genedlaethol a ddangosodd bod gwir raddfa dwy flynedd ail-gollfarnu carcharorion o ddynion ar ddedfrydau tymor byr gyda phroblemau sylweddol o gamddefnyddio sylweddau (fel a nodwyd gan OASys) sef tua 82% o'i gymharu â 75.5% a ragwelwyd gan OGRS3.[20] Mae'n ddiddorol nodi bod y ffigwr olaf yn debyg iawn i'r hyn roedd OGRS3 yn ei ragweld ar gyfer ein grwpiau, sy'n awgrymu bod TSS yn delio â throseddwyr nodweddiadol yn y categori hwn ac heb 'ddethol' mewn unrhyw ddull na modd. Arwyddocâd yr uchod i'n hastudiaeth ni o ail-gollfarnu yw bod angen addasu'r cyfraddau ail-gollfarnu a ragwelwyd ar gyfer y grwpiau ymyriad a chymharu at i fyny (o tua 6 phwynt canran) er mwyn adlewyrchu cyfansoddiad anarferol y ddau grŵp o ran camddefnyddio sylweddau.

Roedd prif ganlyniadau'r dadansoddiad o'r ail-gollfarnu fel a ganlyn. Yn gyntaf, fel y gwelir yn Nhabl 5.8, ni chafwyd unrhyw wahaniaeth sylweddol mewn cyfraddau ail-gollfarnu rhwng cyfranogwyr TSS yn gyffredinol a'r grŵp cymharu. Ail-droseddodd y ddau grŵp ar raddfa uwch nag a ragwelwyd gan OGRS3 ond ychydig yn is na'r

[19] Gallai grŵp 'nodweddiadol' o droseddwyr o bob oed, gydag ystod o droseddau a chollfarnau blaenorol a gynrychiolwyd yn ein sampl gynnwys dweder 60% gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau a byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn sgôr cyffredinol OBRS3 ar gyfer y grŵp. Fodd bynnag, byddai grŵp lle mae gan 100% broblemau o'r math (yn wir, wedi'u dethol ar y sail hwnnw) er yn cael sgôr OGRS3 tebyg, yn sicr yn cynhyrchu cyfradd uwch o aildroseddu.

[20] Philip Howard, MoJ, cyfathrebu personol. OASys yw System Asesu Troseddwyr safonol a ddefnyddir gan bob carchar a gwasanaethau prawf i asesu risg pan fo angen.

gyfradd a ragwelwyd ar ôl addasu i ystyried lefel eithriadol y camddefnydd o sylweddau (fel yr eglurwyd uchod).

Tabl 5.8 Gwir gyfradd ail-gollfarnu 2 flynedd a'r cyfraddau ragwelwyd, TSS a'r grŵp cymharu

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cyfradd ragwelwyd gan OGRS3 | Rhagfynegiad wedi'i addasu | Gwir (+/- rhagfynegiad) |
| | | | |
| Holl gyfranogwyr TSS | 74% | 80% | 79% (-1) |
| Grŵp cymharu | 75% | 81% | 77% (-4) |
| | | | |

<u>Nodiadau.</u>
n=339 o gyfranogwyr TSS, 154 grŵp cymharu (i gyd yn oedolion ac yn ddynion a ryddhawyd 2004-6)
Rhagfynegiad cyfradd ail-gollfarnu wedi'i addasu yn seiliedig ar ddata OASys ar garcharorion gyda phroblemau sylweddol o gamddefnyddio sylweddau.

Fodd bynnag, fel y gwelir yn Nhabl 5.8, pan rennir sampl TSS yn is-grwpiau yn ôl faint to gyswllt wyneb yn wyneb roedden nhw wedi'i gael ar ôl eu rhyddhau gyda mentoriaid, mae'n ymddangos yr ail-gollfarnwyd y rhai oedd wedi cael cyswllt o'r fath ar raddfa is na'r rhai nad oedd wedi cael dim cyswllt (76% i'w gymharu â 83%). Ar ben hynny, cafodd un is-grŵp – y rhai hynny oedd wedi cael cyswllt wyneb yn wyneb rhwng dwywaith a chwe gwaith ar ôl eu rhyddhau – eu hail-gollfarnu ar raddfa sylweddol is na'r gweddill (71%), gan gynnwys y rhai oedd wedi cael nifer fawr o gyfarfodydd. Er i hyn gael ei seilio ar nifer gymharol fechan o droseddwyr (89) ac felly ni ellid ei ystyried yn ganfyddiad cadarn, mae'n ddiddorol oherwydd ei fod yn cyd-daro â'r ddadl bod TSS ar ei fwyaf llwyddiannus pan fydd yn gweithredu fel 'pont' dros dro i helpu troseddwyr ar ôl gadael y carchar i gael eu cefn atynt a chael mynediad i wasanaethau yn y gymuned, fel y trafodwyd eisoes yn yr adroddiad. Mewn geiriau eraill – er bod hyn yn ymestyn y dystiolaeth yn rhy bell – efallai mai mater o fod 'rhy ychydig' (a gynrychiolir gan y rhai na welodd eu mentor ar ôl eu rhyddhau neu a welodd nhw unwaith yn unig) 'gormod' (y rhai a welodd eu mentor lawer o weithiau) a 'hollol iawn' (y rhai a welodd eu mentoriaid nifer ddigonol o weithiau i drawsnewid eu bywyd nôl yn y gymuned ond heb ddatblygu'n ddibynnol ar y mentor).

Tabl 5.9 Gwir gyfraddau ail-gollfarnu 2 flynedd a'r cyfraddau ragwelwyd, TSS a'r grŵp cymharu, yn dangos cyfranogwyr TSS fesul nifer o gysylltiadau ôl rhyddhau wyneb yn wyneb.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | OGRS3 a ragwelwyd | Rhagfynegiad wedi'i addasu | Gwir (+/- rhagfynegiad) |
| **Cyfranogwyr TSS** | | | |
| Dim cyswllt ôl rhyddhau | 74% | 80% | 83% (+3) |
| Unrhyw gyswllt ôl rhyddhau | 73% | 79% | 76% (-3) |
| | | | |
| 1 cyswllt ôl rhyddhau | 73% | 79% | 80% (+1) |
| **2-6 cysylltiad ôl ryddhau** | **73%** | **79%** | **71% (-8)** |
| 7+ cysylltiad ôl rhyddhau | 73% | 79% | 80% (+1) |
| | | | |
| **Grŵp cymharu** | 75% | 81% | 77% (-4) |

Nodiadau.
n=139 o gyfranogwyr TSS heb unrhyw gyswllt wyneb yn wyneb ôl rhyddhau a 200 gyda pheth cysylltiad (55 gydag un; 89 gyda 2-6; 56 gyda 7 neu fwy).
Cyfradd ail-gollfarnu wedi'i haddasu yn seiliedig ar ddata OASys cenedlaethol ar garcharorion gyda phroblemau sylweddol o gamddefnyddio sylweddau.

Ar wahân i'r uchod, doedd dim gwahaniaethau sylweddol rhwng dau is-grŵp cyfranogwyr TSS o ran cyfraddau ail-gollfarnu, er bod rhai arwyddion bod y Cynllun yn gymharol fwy llwyddiannus gyda charcharorion hŷn na gyda charcharorion ifancach. Er enghraifft, ar gyfer carcharorion 21-25 mlwydd oed, y gyfradd ailgollfarnu a ragwelwyd (wedi'i addasu) oedd 85% a'r gwir gyfradd oedd 87%. Y ffigyrau cyfwerth ar gyfer rhai dros 25 mlwydd oed oedd 76% a 74% yn ei tro (gweler Tabl 5.10).

Tabl 5.10 Gwir gyfraddau ail-gollfarnu 2 flynedd a'r cyfraddau a ragwelwyd. TSS a'r grŵp cymharu, yn dangos cyfranogwyr TSS fesul grŵp oed.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | OGRS3 a ragwelwyd | Rhagfynegiad wedi'i addasu | Gwir (+/- rhagfynegiad) |
| **Cyfranogwyr TSS** | | | |
| Oed 21-25 | 79% | 85% | 87% ( +2 ) |
| Oed dros 25 | 70% | 76% | 74% ( -2 ) |
| | | | |
| **Grŵp cymharu** | | | |
| Oed 21-25 | 79% | 85% | 85% ( -- ) |
| Oed dros 25 | 73% | 79% | 74% ( -5) |
| | | | |
| | | | |

Nodiadau
n= 131 o gyfranogwyr TSS 21-25 mlwydd oed a 208 dros 25 mlwydd oed (Grŵp cymharu o 48 a 106 yn eu tro).
Cyfradd ail-gollfarnu wedi'i haddasu yn seiliedig ar ddata OASys cenedlaethol ar garcharorion gyda phroblemau sylweddol o gamddefnyddio sylweddau.

I grynhoi, dydy'r canfyddiadau ddim yn awgrymu bod TSS yn cael effaith arwyddocaol ar gyfraddau ail-gollfarnu, ond fel y trafodwyd eisoes, byddai'n syndod petai prosiect cymharol fychan ei raddfa yn gallu cyflawni hyn ar ei ben ei hun ar ôl dim ond un ymyriad byr ym mywydau troseddwyr sydd â chofnod troseddol hir a phroblemau cymdeithasol mawr (o gofio i 'fethu', does ond rhaid i gyn-garcharor droseddu unwaith yn ystod cyfnod o ddwy flynedd). Yn y cyd-destun hwn, yn ein tyb ni, dylid barnu cynlluniau fel TSS ar ystod o dystiolaeth a ydyn nhw'n gwneud cyfraniad defnyddiol i strategaethau tymor hirach ac aml-ganghennog ar gyfer lleihau aildroseddu yn hytrach na disgwyl iddo ddangos effaith glir a syth ar gyfraddau ail-gollfarnu (proses hynod o anodd a llawn rhwystrau a chanlyniad sydd yn aml ddim yn cael ei gyflawni hyd yn oed gan ymyriadau mwy o lawer a mwy costus). Felly, dylid ystyried data ail-gollfarnu fel un dangosydd ymhlith nifer.

Ar ôl dweud hynny, mae'r data ail-gollfarnu *yn* awgrymu (yn adleisio canfyddiadau cynharach) bod cysylltiad wyneb yn wyneb ôl rhyddhau gyda mentoriaid yn elfen hanfodol o'r gwasanaeth ac er mwyn iddo fod yn effeithiol dylai fod digon o gysylltiad (2-6 cyfarfod, yn y rhan fwyaf o achosion yn wythnosol) i hwyluso "pontio'r" troseddwyr o fod yn y ddalfa i fod yn y gymuned ac i hwyluso eu mynediad i wasanaethau. Maen nhw hefyd o leiaf yn codi'r posibilrwydd bod y Cynllun yn gymharol fwy llwyddiannus gyda throseddwyr hŷn nag â throseddwyr ifancach.

## 5.6 Tystiolaeth ansoddol

Yn olaf, mae llawer o dystiolaeth ansoddol ar gael, y mae llawer ohoni wedi cael ei chyflwyno eisoes yn adran 3, tystiolaeth yn ymwneud â phwysigrwydd ac ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan TSS. Un agwedd o hyn yw cydnabyddiaeth fynych bod TSS yn llenwi bwlch difrifol mewn gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli ac y byddai llawn werth y Cynllun yn dod i'r amlwg petai'n diflannu. Mynegwyd hyn gan rai yn gofidio byddai 'rhwyd diogelwch' hanfodol yn diflannu petai TSS yn peidio â bodoli – yn arbennig i'r rhai sydd ddim yn defnyddio cyffuriau Dosbarth A:

> *Mewn gwirionedd, mae'n ofid bod DIP yn bodoli, a TSS yn diflannu, achos does dim TSS mewn ardaloedd eraill. Does dim TSS yn Swydd Caer ac mae'r bobl ar canabis, y bobl ifanc ar ganabis ac alcohol yn syrthio ar fin y ffordd achos does dim gwasanaeth ... dim ond y tîm cyffuriau cymunedol a does fawr y gallan nhw ei wneud i bobl ar ganabis. Cymorth mae pobl ei angen ... cymorth ymarferol.*
>
> [Cynrychiolydd Asiantaeth]

Roedd eraill yn cydnabod byddai diflaniad TSS yn cael sgil effaith ar eu gwasanaeth eu hunain:

*C Petai TSS yn diflannu, sut byddai'n effeithio ar waith prosiectau CARAT?*

*A Dw i'n meddwl y byddai'n effeithio arnon ni achos fyddai'r bobl hynny ddim yn dod i mewn, y gweithwyr cyswllt yn y carchar i roi gwybod iddyn nhw beth sydd allan fanna a beth sydd ar gael. Ie, gallen ni yn hawdd gael rhestr o bethau, ond mae pethau bach eraill yn digwydd. Er hwyrach mai dim ond am ddeg wythnos maen nhw'n rhedeg neu bod pethau wedi eu hen sefydlu, neu rai sydd heb fod yno am byth, ac y bydden ni'n eu colli. Tasai TSS ddim ganddyn nhw dw i'n meddwl byddai rhaid iddyn nhw edrych ar dimoedd DIP, rhaglen ymyriadau cyffuriau, wedi'r cwbl mae cyffuriau dosbarth B a C yn gyffuriau ac mae problem fawr gyda nhw, felly byddai rhaid iddyn nhw ystyried y dull mae'n cael ei redeg.*

[Gweithiwr CARAT]

Yn fwy cyffredinol, fel y trafodwyd yn fanwl yn adran 3, mynegodd cyfranogwyr TSS a gyfwelwyd farn bositif iawn gan deimlo bod ei effaith yn llesol, yn arbennig o ran darparu cymorth emosiynol a'u helpu i'w hysgogi i newid eu hamgylchiadau.

## 6 Crynodeb a chasgliadau

Caiff prif ganfyddiadau'r gwerthusiad eu crynhoi isod o dan dri phennawd: cyffredinol, materion ymwneud â'r broses a chanlyniadau. Rydyn ni wedyn yn gorffen yr adroddiad drwy godi rhai cwestiynau am ddyfodol TSS.

### 6.1 Cyffredinol

1. Dros gyfnod o bum mlynedd mae TSS wedi datblygu model effeithiol iawn ar gyfer mentora 'tu allan i'r carchar' ar gyfer carcharorion tymor byr gyda phroblemau o gamddefnyddio sylweddau. Erbyn hyn mae ei reolwyr, a mwyafrif o'i fentoriaid yn brofiadol iawn yn y dasg heriol hon ac, yn sicr, y Cynllun drwyddi draw yw'r un mwyaf, yr un sydd wedi'i sefydlu hiraf a'r mwyaf llwyddiannus o'i fath yn y DU.

2. Roedd yr adborth a gafwyd ar TSS gan amrywiaeth o fudd-ddeiliaid allanol – troseddwyr, rheolwyr a staff carchardai a gwasanaeth prawf a chynrychiolwyr asiantaethau gwasanaeth – yn hynod o bositif am ansawdd ei waith. Ystyriwyd bod y Cynllun yn adeiladu ymddiriedaeth a pherthynas gefnogol gyda'i gleientiaid, yn llenwi'r bylchau pwysig yn y gwasanaeth i gyn-garcharorion (megis darparu cymorth i'r rhai â phroblemau alcohol), a chyflawni rôl 'pontio' arwyddocaol dwy gynorthwyo ac annog troseddwyr i ymgysylltu ag asiantaethau eraill.

3. Efallai mai cyfraniad pwysicaf TSS i'r gwaith o adsefydlu carcharorion yw eu helpu i 'bontio' yn ystod y dyddiau a'r wythnosau hollbwysig cyntaf ar ôl iddyn nhw ddod allan o'r carchar o sefyllfa sydd, i lawer, yn ansefydlog iawn o ran anghenion sylfaenol megis tai, cyflogaeth, adnoddau ariannol i gyrraedd sefyllfa lle gallan nhw ymglymu'n ystyrlon ag asiantaethau a all eu helpu i wella'r anghenion hyn ac felly cynyddu eu siawns o sicrhau ffordd o fyw mwy sefydlog a symud oddi wrth droseddu a chamddefnyddio sylweddau. Roedd pwysigrwydd yr ymglymu cynnar hwn gyda throseddwyr yn thema gyson yn ystod y cyfweliadau a gynhaliwyd. Er enghraifft, dwedodd un o reolwyr TSS:

> *O ran patrymau ymyriad, un elfen oedd "blaen lwytho'r" ymyriadau, fel ein bod yn sicrhau bod y bobl oedd angen eu gweld yn fynych yn cael eu gweld yn aml iawn yn ystod yr wythnosau cyntaf ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau. Oherwydd, mae'n amlwg, os yw pobl yn dweud wrthoch chi ... eu bod yn fwy tebygol o aildroseddu yn ystod y tair wythnos gyntaf, dyna lle dylid canolbwyntio'r ymdrech ynte?*
>
> *…Yn llawer rhy aml, yr hyn sy'n digwydd yw bod pobl yn gorffen ar restrau aros, heb gael eu gweld am chwe wythnos neu bythefnos neu beth bynnag. Os na wnawn ni gwrdd â nhw o fewn deuddydd, ac nid pythefnos, rydyn ni wedi'u colli nhw.*

Mae rheoli'r 'pontio' hwn yn llwyddiannus yn golygu cael staff a mentoriaid sydd ar yr un llaw â'r gallu i ymglymu â throseddwyr, eu hysgogi ac ennill eu hymddiriedaeth; ac ar y llaw arall yn meddu ar wybodaeth dda am, a pherthynas agos gyda charchardai, y gwasanaeth prawf, DIPau ac asiantaethau statudol a gwirfoddol eraill.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod ein hymchwil yn dangos bod y Cynllun wedi perfformio'n gyson dda yn y ddwy agwedd hon.

4. Yn gyffredinol, mae astudiaethau blaenorol o brosiectau ar waith 'drwy'r pyrth' gyda charcharorion tymor byr wedi cael bod cyfraddau a hyd y cysylltiad ôl rhyddhau yn eithaf isel, gan fod cyswllt o'r fath yn wirfoddol ac bod cleientiaid, sy'n 'byw bywyd caotig, anhrefnus' yn aml, yn colli diddordeb a pheidio â chadw apwyntiadau. Mae TSS wedi llwyddo nid yn unig i sicrhau cyfraddau cyswllt ôl rhyddhau hynod o uchel (yn gweld 39% o gleientiaid wyneb yn wyneb ddwywaith neu ragor yn y gymuned) ond hefyd mae ei fentoriaid yn parhau i weithio'n eithaf dwys gyda chyfran sylweddol o gleientiaid am gyfnodau hyd at dri mis.

5. Nodwyd nifer o feysydd lle gellid gwella, yn arbennig, ymdriniaeth o'r carcharorion tymor byr o Gymru ar draws gwahanol sefydliadau, systemau ac arferion cadw cofnodion a pherthynas strategol gydag asiantaethau eraill. Yn sgil yr ymchwil, cododd nifer o gwestiynau am ddyfodol TSS. Trafodir y rhain yn fwy manwl isod.

## 6.2 Materion yn ymwneud â'r broses

### *6.2.1 Targedu*

Roedd yn amlwg o ddadansoddi nodweddion y cleientiaid bod TSS yn targedu y mathau o droseddwyr yr oedd wedi ei sefydlu i'w cynorthwyo: roedden nhw i gyd bron â phroblemau sylweddol o gamddefnyddio sylweddau, ac – yn unol â pholisi Llywodraeth Cynulliad Cymru – roedd y Cynllun yn delio â chyfran sylweddol o'r rhai â phroblemau alcohol (bron hanner o'r holl gleientiaid). Carcharorion ar ddedfrydau o lai na 12 mis (y prif boblogaeth darged) oedd y mwyafrif ohonyn nhw, er bod hefyd nifer fechan o atgyfeiriadau o garcharorion ar 'remand', troseddwyr ar ddedfryd o wasanaeth cymunedol ac enghreifftiau ysbeidiol o garcharorion ar ddedfrydau o fwy na 12 mis (fel arfer ar gais swyddog prawf). Fel y gellir disgwyl iddo wneud, mae TSS yn derbyn nifer sylweddol o garcharorion ifanc (tua un ran o bump o bob atgyfeiriad) ac, erbyn hyn, mae'n gweithio gyda mwy o ferched o garcharorion nag yn y gorffennol. Yn 2008, cyflawnodd y Cynllun ei darged yn gyfforddus o ran nifer o atgyfeiriadau yn ogystal â chyrraedd targedau (ac eithrio un oedd yn hynod agos) ar gyfer carcharorion yn dychwelyd i ardaloedd arbennig o Gymru.

### *6.2.2 Maint y maes*

Er bod y Cynllun yn targedu'r 'mathau priodol' o garcharorion, doedd dim cyfleoedd cyfartal i bawb oedd yn gymwys, i gael mynediad i TSS. Roedd y rhai oedd yn cael eu cadw yn HMP Parc ac Altcourse, ac yr oedd gan y Cynllun a'i fentoriaid gysylltiad agos a mynych gyda nhw, yn fwy tebygol o lawer o ddod i glywed am y cynllun a/neu ddod yn gyfranogwyr na'r rhai mewn carchardai eraill. Gwnaed peth cynnydd yn hyn o beth yn 2008 – gyda chynnydd, yn y De mewn atgyfeiriadau o Gaerdydd ac Abertawe ac, yn y Gogledd, mwy o ferched o Styal - ond mae'r ffaith bod 85% o atgyfeiriadau Nacro/CAIS a 57% o atgyfeiriadau G4S yn dal i ddod o HMP Altcourse a Parc, yn y drefn yna, yn dangos bod ffordd bell i fynd eto i ddatrys y broblem hon.

Ni ddylid bychanu'r anawsterau o wneud hyn, gan fod ymwybyddiaeth staff carchardai a charcharorion o gynlluniau fel TSS (sydd, megis un o blith lliaws o asiantaethau mewn llawer ardal o'r wlad yn cynnig ryw fath o wasanaethau i garcharorion) yn dueddol o bylu oni bai bod cytundebau cadarn gyda llywodraethwyr carchardai ac ymweliadau cyson gan fentoriaid neu weithwyr mewngymorth yn ei hatgyfnerthu. Mae hyn yn codi cwestiynau am ba mor dda caiff y Cynllun ei egluro a'i 'farchnata' ymhlith y rhai a all ddarparu atgyfeiriadau (gan gynnwys hunangyfeirio). Dywedir i nifer o garcharorion 'lithro drwy'r rhwyd' oherwydd camddealltwriaeth am natur y Cynllun: er enghraifft, ansicrwydd ymhlith staff carchar am y gwahaniaeth rhwng DIP a TSS o ran pa fathau o broblemau camddefnyddio sylweddau roedd y ddau'n delio â nhw.

Canfuwyd problem bellach o ran 'maint y maes' sef niferoedd isel o droseddwyr lleiafrifoedd ethnig oedd yn cael eu hatgyfeirio gan garchardai (neu hunangyfeirio) i TSS. Nodwyd hyn yn yr adroddiad interim yn 2000 a, chyn belled a gwelwn ni o gofnodion y Cynllun, ni fu cynnydd arwyddocaol ers hynny. Cafwyd canfyddiad tebyg o Probation Resettlement Pathfinders (Lewis et al. 2003), sy'n dangos nad yw'n broblem unigryw i TSS ond yn fater o bryder y dylid ei harchwilio ymhellach.

*6.2.3 Cadw cofnodion*

Cafwyd nifer o wendidau yn systemau ac arferion cadw cofnodion y Cynllun, er y gallai'r rhan fwyaf gael eu datrys o ddefnyddio PalBase oedd yn cael ei gyflwyno ar adeg ein gwaith maes. Y gwendid pennaf oedd diffyg nodiadau achos manwl yn TSS Nacro/CAIS. Hyd yn ddiweddar, doedd mentoriaid ddim yn cadw cofnodion ffurfiol o gyfarfodydd gyda chleientiaid tu hwnt i nodi faint o amser y deliwyd gyda nhw. Doedd yr hyn a elwid yn 'ffeiliau achos' ddim ond yn cynnwys manylion sylfaenol am y cleient a'r asesiad cychwynnol. Er ei bod yn amlwg fod gan y mentoriaid gof da o'r hyn a drafodwyd rhyngddyn nhw a'r cleientiaid a'r gweithredu oedd ei angen, roedd diffyg nodiadau achos (a) yn ei gwneud hi'n anodd i'r rheolwr prosiect fonitro'n fanwl yr hyn roedd y mentoriaid yn ei wneud a (b) byddai'n ei gwneud hi'n anodd i rywun arall 'ailafael' yn yr achos petai'r mentor yn sâl a (c) byddai wedi achosi problemau petai rhywbeth difrifol wedi mynd o'i le. Ond mae'n ymddangos bod pethau'n gwella ar ôl cyflwyno PalBase (lle cofnodir nodiadau'n electronig), ond roedd hi'n rhy gynnar i farnu a fyddai hyn yn arwain at system gwbl foddhaol ar gyfer cadw cofnodion

Yn fwy cyffredinol, doedd y prif systemau cofnodion cyfrifiadurol a fodolai cyn PalBase ddim yn darparu, yn un o'r ddwy ardal, ddarlun hygyrch a dibynadwy o weithgareddau mentoriaid TSS na chwaith o ganlyniadau'r achosion. Yn achos Nacro/CAIS, er y bu gwelliannau dros amser, roedd hanes o ddiffygion wrth gofnodi adroddiadau ymarfer ac ystadegau (hefyd wedi ei nodi yn yr adroddiad interim) a hyn yn ei dro yn arwain at feirniadaeth gan fwrdd y prosiect nifer o weithiau. Doedd hi ddim yn glir yn union beth oedd gwraidd y broblem, ond mae'n ymddangos i ni ei fod yn debygol o fod yn ymwneud â'r berthynas waith agos rhwng mentoriaid TSS a staff Nacro a CAIS sy'n cynorthwyo troseddwyr o dan nawdd prosiectau eraill ac ni chofnodir manylion hyn ar yr un bas data: gallai fod anghysonderau wrth gofnodi sydd ddim bob amser yn gwahanu'r ddau. Fodd bynnag, dyfaliad ar ein rhan ni yw hyn, beth bynnag fo'r rheswm, roedd y system, fel y cawson ni hi. ymhell o fod yn dryloyw ac roedd yn anodd i rywun o'r tu allan gael darlun clir o unrhyw gofnod gan

Nacro/CAIS o realiti gwaith mentoriaid (sydd cyn belled ag y gallwn ni ddweud o dystiolaeth ein holl ffynonellau eraill yn gydwybodol ac o ansawdd uchel). Yn ardal G4S, er bod cyfoeth o ddata yn y cofnodion ffeiliau papur am gynnydd cleientiaid unigol (e.e. wrth ddelio â phroblemau tai, cyflogaeth camddefnyddio sylweddau), nid oedd yn cael ei gofnodi ar ffurf electronig ac felly'n anodd ei echdynnu a'i grynhoi. Roedd cyflwyno system SSOM yn caniatáu ychydig o gynnydd ond roedd yn dal ar gyfnod arbrofol ac yn cynnwys swm sylweddol o ddata coll, felly ni ellid ei ystyried yn ddangosydd cadarn.

Yn gyffredinol, daeth yr ymchwilwyr i'r casgliad y dylid meddwl eto am ddulliau o fesur cynnydd cleientiaid TSS yn rheolaidd a chyson ar draws y Cynllun. Rydyn ni'n hyderus o'n dadansoddiad o'r ffeiliau achos a'n cyfweliadau gyda mentoriaid a throseddwyr bod llawer o waith effeithiol yn cael ei wneud, ond doedd hi ddim yn hawdd dangos hyn mewn modd clir a dibynadwy o'r systemau oedd yn bodoli ar adeg ein hastudiaeth (y gwahaniaeth rhwng dwy ardal TSS er bod digon o ddata cyfoethog a chywir yng nghofnodion G4S, ond roedd yn gymhleth ac yn cymryd amser i'w echdynnu, tra bod diffygion yng nghofnodion Nacro/CAIS o ran cyflawnrwydd a dibynadwyedd). Ar adeg pan mae cyllid yn dynn, mae'n ymarferol i allu arddangos effeithiolrwydd i bobl o'r tu allan mewn modd cadarn. Bydd cyflwyno PalBase yn gyfle gwych i gyflawni ar draws y Cynllun, a derbyn bod y data'n cael ei gofnodi'r gywir, yn gyson a chynhwysfawr a bod galluoedd dadansoddiadol y system yn cael eu defnyddio i'w llawn potensial.

### *6.2.4 Hyfforddi mentoriaid, goruchwylio a rheoli risg*

Cafwyd bod sefydlu a hyfforddiant parhaus mentoriaid yn eang ei ystod ac yn gyffredinol briodol. Awgrymwyd y canlynol gan y rhai a gyfwelwyd – gan un neu ddau unigolyn ymhob achos – am sut y gelid gwella'r hyfforddiant:

- gellid cyflwyno mentoriaid i fwy o asiantaethau lleol eraill ac ymweld â mwy o asiantaethau lleol eraill yn gynnar yn eu cyflogaeth i'w helpu i ddeall yn well pa wasanaethau sydd ar gael a chychwyn sefydlu perthynas gyda gweithwyr;
- byddai mwy o hyfforddiant yn ddefnyddiol ar faterion iechyd meddwl i wella dealltwriaeth mentoriaid o gyflwr meddwl eu cleientiaid megis iselder, pryder a salwch meddyliol megis sgitsoffrenia;
- derbyn y newyddion diweddaraf am bolisïau neu ganllawiau newydd;
- byddai'n ddefnyddio cael rhagor o gyrsiau ar ymwybyddiaeth o gyffuriau, i sicrhau bod ganddyn nhw ddealltwriaeth dda o driniaeth camddefnyddio sylweddau, yn enwedig o ran presgreibio meddyginiaethau cyfnewid;
- byddai rhagor o hyfforddiant cwnsela a rheoli dicter o werth:
- gellid cynnwys Ymgynghorwyr Grŵp Cymheiriaid mewn hyfforddiant symbylol a fyddai'n helpu mentoriaid ddeall safbwynt y cleient yn well.
- ran goruchwylio, teimlad cyffredinol y mentoriaid oedd eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rôl, ac er gwaethaf y pellter rhwng rhai mentoriaid a rheolwyr y prosiect, roedd pawb yn hyderus bod cymorth yn hawdd ei gael pan fo angen.

Yn olaf, rhoddodd rheolwyr y Cynllun flaenoriaeth uchel i ddiogelu mentoriaid ac mae gweithdrefnau cynhwysfawr ar gyfer asesu a rheoli risg yn bodoli, gan gynnwys

mesurau diogelwch ychwanegol lle barnwyd bod eu hangen, yn arbennig mewn gwaith achos gyda Throseddwyr Cyson a Throseddwyr ac Eraill â Blaenoriaeth Uchel. Fodd bynnag, cafwyd rhai problemau wrth geisio sicrhau gwybodaeth risg gan garchardai yn atgyfeirio cleientiaid oedd yn golygu llawer o waith 'chwilota' i reolwyr a staff. Yn ddelfrydol, gellid dod i gytundeb strategol gyda charchardai (efallai gyda help NOMS Cymru) lle byddai gwybodaeth o'r fath yn cael ei rhoi yn rheolaidd.

### 6.3 Perthynas gydag asiantaethau eraill ac atgyfeiriadau atyn nhw

Roedd hi'n glir o nifer o ffynonellau bod TSS wedi datblygu perthynas waith ardderchog gydag ystod eang o asiantaethau – ac wedi ennill eu hymddiriedaeth a'u parch – ac wedi dod yn rhan annatod o strwythurau lleol. Mentoriaid sy'n gwneud nifer fawr o atgyfeiriadau i'r asiantaethau hyn, ac mewn nifer o achosion yn parhau i gydymgynghori'n agos gyda'r staff perthnasol am gynnydd eu cleient. Mae hyn yn wir am waith gyda chynlluniau Troseddwyr Cyson a Throseddwyr ac Eraill â Blaenoriaeth Uchel (yr oedd TSS G4S wedi cydweithio arnyn nhw'n fynych), yn ogystal â gydag asiantaethau gwasanaeth mewn meysydd megis tai a chyflogaeth. Yng Ngogledd Cymru, mae cysylltiadau agos TSS gyda DAWN - sefydliad ambarél yn goruchwylio nifer o brosiectau trydydd sector – yn arbennig o werthfawr yn hyn o beth.

O ran y berthynas gyda'r tair asiantaeth statudol allweddol y mae gan TSS gytundeb â nhw – y carchardai, y gwasanaeth prawf a DIP – mae'r darlun ychydig fwy cymhleth, ond ar y cyfan datblygwyd cysylltiadau da dros amser. Fel y nodwyd eisoes, roedd y berthynas gyda charchardai yn ardderchog o ran Parc ac Altcourse, ac ar brydiau yn dda iawn gyda sefydliadau eraill, er bod rhaid 'gweithio' i sicrhau'r cysylltiad er mwyn cynnal llif rhesymol o atgyfeiriadau: roedd y cydweithio gyda thimoedd CARAT (oedd yn amrywio'n ddirfawr o garchar i garchar) yn arbennig o bwysig yn hyn o beth. Roedd y berthynas gyda'r gwasanaeth Prawf yn anghyson, gan nad yw troseddwyr tymor byr dros 21 oed yn derbyn goruchwyliaeth statudol ar ôl cael eu rhyddhau o garchar a'r duedd yw iddyn nhw barhau rywfaint oddi ar ar 'radar' y gwasanaeth prawf. Fodd bynnag, cafwyd nifer o enghreifftiau o gydweithredu rhagorol rhwng mentoriaid a swyddogion prawf unigol, yn enwedig yn achosion Troseddwyr Cyson a Throseddwyr ac Eraill â Blaenoriaeth Uchel ac mewn achosion o bobl ifanc, lle rhannwyd gwybodaeth a chynorthwyodd y mentor drwy yrru cleientiaid i apwyntiadau gyda'r gwasanaeth prawf ac eraill. O ran DIPau, dywedwyd bod peth dryswch a hyd yn oed cystadleuaeth pan ymddangosodd y rhain gyntaf ynglŷn â pha garcharorion dylid eu cyfeirio i ba sefydliad, ond yn fuan datryswyd y broblem a chafwyd cydweithrediad a chytundeb oherwydd sylweddolwyd bod eu gwasanaethau yn ategu ei gilydd a bod llawer mwy o angen nag oedd y naill na'r llall yn gallu delio ag e ar eu pen eu hunain. Roedd gwahaniaethau rhwng G4S a Nacro/CAIS yn y meini prawf a ddefnyddiwyd i ddosrannu achosion rhwng DIP a TSS ond, ar wahân i beth dryswch yn hyn o beth ymhlith rhai o staff y carchardai, roedd y trefniadau'n gweithio'n dda'n y ddwy ardal. Yn wir, yng Ngogledd Cymru (o leiaf tan fis Mawrth 2009) cyflenwyd DIP a TSS gan yr un darparwr gwasanaeth ac roedd gweithwyr y ddau gynllun yn rhannu'r un swyddfeydd, felly roedd hi'n hawdd sefydlu cyswllt effeithiol gyda'i gilydd a gydag asiantaethau cyffuriau o fewn y carchar.

Yn gyffredinol felly, cafwyd nifer o enghreifftiau gwych o weithio mewn partneriaeth a chysylltiadau da rhwng mentoriaid unigol ac aelodau unigol o staff asiantaethau eraill. Y prif faes ar gyfer gwella a amlygwyd gan y rhai a holwyd oedd sefydlu perthynas strategol yn benodol gydag asiantaethau statudol. Gallai hyn gynnwys cytundebau mwy ffurfiol – er enghraifft, gyda charchardai i gytuno ar weithdrefnau atgyfeirio mwy cadarn a mwy cynaladwy – er mwyn sicrhau nad yw gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth yn dibynnu'n ormodol ar berthynas wresog rhwng unigolion.

*6.3.1 Enghreifftiau o arferion da ac awgrymu gwelliannau*

Yn adran 4 tynnwyd sylw at agweddau penodol o waith TSS (y trafodwyd rhan ohono mewn adrannau blaenorol) a nododd y rhai a gyfwelwyd a/neu'r ymchwilwyr oedd yn enghreifftiau clir o arferion da. Sef:

- Gwaith mewngymorth
- Darparu dull o'u casglu tu allan i'r pyrth
- 'Allgymorth pendant'
- Rhwydweithio lleol
- Gwella ymglymiad troseddwyr gyda gwasanaethau cymorth
- Ymglymiad Ymgynghorwyr Grŵp Cymheiriaid
- Ffocws y Cynllun ar alcohol

Nodwyd hefyd bod awgrymiadau ar gyfer gwella wedi'u gwneud yn y meysydd canlynol, y byddwn yn eu crybwyll yn ein sylwadau cloi (adran 6.4)

- Ehangu ystod a gallu, gan gynnwys mwy o gyfleoedd cyfartal i garcharorion o Gymru yn yr holl garchardai i gael mynediad i wasanaethau TSS
- Osgoi darpar gleientiaid rhag 'llithro drwy'r rhwyd'
- Comisiynu a chontractau
- Datblygu dull mwy strategol o ddelio â phartneriaeth
- Cadw cofnodion

## 6.4 Canlyniadau

Fel y nodwyd yn adran 5, mae'n anodd iawn llunio canfyddiadau cadarn ar ganlyniad gwaith TSS, yn rhannol oherwydd y diffyg cyfredol o ddata cynhwysfawr a dibynadwy yng nghofnodion y Cynllun, ond yn fwy sylfaenol oherwydd mai dim ond elfen yw mewnbwn TSS o'r hyn lle gallai fod amrywiaeth eang o ymyriadau, mewn rhai achosion, gan asiantaethau eraill. Yn wir, mae rôl TSS yn un 'trosiannol' yn ôl ei ddiffiniad – h.y. ei brif gyfraniad yw gweithredu fel 'pont' i ymyriadau mwy sylweddol. Ni ellir disgwyl i gysylltiad o ychydig o wythnosau gyda mentor 'newid' bywydau niferoedd o bobl sydd wedi bod yn troseddu ers blynyddoedd ac sydd, mewn llawer o achosion, â phroblemau cymdeithasol a phersonol wedi gwreiddio'n ddwfn yn ogystal â'u bod wedi'u niweidio oherwydd eu camddefnydd hir o sylweddau. Nid dweud bod cyfraniad TSS yn ddibwys mo hynny: i'r gwrthwyneb, gallai cymorth mentoriaid fod yn hollbwysig yn y cyfnod cynnar ôl rhyddhau (cytunwyd mai dyma'r

cyfnod lle maen nhw'n fwyaf agored i lithro nôl i fywyd o droseddu) i gynnal ysgogiad bregus cyn-garcharorion i newid ac i ymglymu o ddifrif gydag ymyriadau adsefydlu. Fodd bynnag, efallai nad yw ei effeithiau ddim mor weledol nac am gael eu gwerthfawrogi tan flynyddoedd yn ddiweddarach. Fel y dangoswyd mewn astudiaethau yn seiliedig ar gyfweliadau o gyn-droseddwyr gan y Maruna (2000), Farrall (2002) a Burnett (2003), mae ymatal rhag troseddu yn aml yn broses 'igam ogam', wedi'i nodweddu gan newid yn yr ysgogiad a mynych lithriadau, a dim ond wrth edrych yn ôl y deallir y cyfraniad wnaed gan un asiantaeth neu unigolyn. Efallai mai o'r safbwynt hwn y mae deall cyfraniad TSS i leihau troseddu fel dolen gyswllt hanfodol mewn cadwyn hir. Felly, er ei bod yn werth caffael a dadansoddi data ail-gollfarnu (tasg y mae dylunwyr a goruchwylwyr prosiectau llawer mwy na TSS wedi'i hosgoi), mae'n bwysig peidio â rhoi gormod o bwys ar y data hynny ac i chwilio am ddangosyddion effaith eraill sy'n adlewyrchu'r rôl a ddisgrifiwyd. Gallai'r rhain gynnwys tystiolaeth o ysgogiad parhaus, cynnydd tuag at fyw bywyd mwy sefydlog, lleihau'r camddefnydd o sylweddau, ac yn y blaen.

Cyflwynwyd gwahanol ffurfiau o ddata 'effaith' yn Adran 5 a cheir crynodeb isod.

*6.4.1 Parhad y gwasanaeth tu allan i'r carchar*

Fel yn y Probation Pathfinders (Lewis et al 2003; Clancy et al. 2006), defnyddiwyd mesur 'parhad gwasanaeth – a ddiffiniwyd yno fel 'cysylltiad wyneb yn wyneb tu hwnt i'r diwrnod cyntaf ar ôl eu rhyddhau' ac yma fel 'cwrdd â chyfranogwyr ddwy neu dair gwaith wyneb yn wyneb ar ôl rhyddhau' – fel dangosydd sylfaenol a oedd mentoriaid wedi llwyddo yn ystod y cam cychwynnol hollbwysig o ymglymu troseddwyr yn ddigonol i'w perswadio i gwrdd â nhw'n wirfoddol ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau (mae'r ddau ddiffiniad yn eithrio 'casglu wrth y pyrth' gan mai ond angen caniatâd goddefol ar ran y carcharor sydd raid ei gael). Mae dadansoddiad o gofnodion y Cynllun yn dangos rhwng 2004 a 2008 bod mentoriaid TSS wedi cyflawni cyfradd parhad gwasanaeth o 39%. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chanfyddiadau'r Pathfinder lle cafwyd cyfartaledd o 29% a 22% dros y cyfnod cyntaf a'r ail yn eu tro. O gofio bod cleientiaid TSS yn cael eu rhyddhau o garchardai gwahanol – mewn cyferbyniad â Pathfinders lle seiliwyd y ddau ar garchar unigol – mae hyn yn amlwg yn gyflawniad nodedig (mae hefyd yn werth nodi i 56% o'r holl gleientiaid gael eu gweld o leiaf unwaith – mewn nifer o achosion drwy gwrdd â nhw tu allan i byrth y carchar).

*6.4.2 Ansawdd yr ymglymiad ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau*

Lluniwyd mesur mwy goddrychol i geisio asesu ansawdd 'ymglymiad' ôl rhyddhau cleientiaid gyda'u mentoriaid. Dangosodd dadansoddiad o sampl o 84 o ffeiliau achos (a atodwyd yng Ngogledd Cymru drwy holi mentoriaid yn fanwl) bod traean o'r holl achosion wedi ymglymu'n barhaus, fel arfer y cleientiaid yn cael cyfarfodydd a thrafodaethau cyson, ynghyd â'u parodrwydd i geisio 'gweithio ar' eu problemau. Mewn 29% pellach o achosion aseswyd bod ansawdd yr ymglymiad yn 'gyfyngedig neu'n gyfnewidiol'.

*6.4.3 'Pontio i wasanaethau eraill: cyfeiriadau a 'gwerth ychwanegol'*

Mae rhai o gofnodion y Cynllun yn dangos, ar gyfartaledd, bod mentoriaid G4S wedi cyfeirio'u cleientiaid i bedair asiantaeth arall a mentoriaid Nacro/CAIS i ychydig o dan dair. Yn seiliedig ar ein dadansoddiad o'r ffeiliau achos, daethon ni i'r casgliad bod y mwyafrif o'r atgyfeiriadau hyn wedi arwain at ymglymiad gyda'r asiantaeth a bod bron i 40% o gleientiaid TSS wedi gorffen gyda lefel uchel o ymglymiad gydag o leiaf un asiantaeth. Mae hyn yn awgrymu bod y Cynllun yn cael llwyddiant sylweddol yn ei rôl allweddol o 'bontio' ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau fel y disgrifiwyd uchod. Ategir y casgliad hwn gan ddata o'r cyfweliadau a gynhaliwyd, data sy'n cynnwys nifer o ddatganiadau, gan gynrychiolwyr asiantaethau eraill, am effeithiau positif cael mentoriaid yn dod gyda cleientiaid i'w cyfarfodydd cyntaf. Ategir hefyd gan ganfyddiad o ddadansoddi o ffeiliau achos bod 13 o'r 84 o achosion a archwiliwyd wedi arwain at ryw ffurf ar 'drosglwyddo' ar ddiwedd y cyfnod mentora i weithiwr allweddol mewn asiantaeth arall – er enghraifft, gweithiwr 'cymorth symudol' ar gyfer lletya, neu weithiwr cymorth mewn asiantaeth cyffuriau yn y sector gwirfoddol – a allodd gymryd drosodd, i ryw raddau, rôl y mentor i gynorthwyo'r cleient.

*6.4.4 'Y pellter a deithiwyd' - SSOM a ffeiliau achos*

Ar wahân i ddata ail-gollfarnu, efallai mai'r dangosyddion gorau o'r effaith ar aildroseddu yw mesur canlyniadau mewn meysydd o 'angen criminogenig', megis tai, cyflogaeth neu gamddefnyddio sylweddau. Yn anffodus, (er bod y sefyllfa'n debygol o wella unwaith y bydd PalBase wedi'i sefydlu), doedd cofnodion cyfrifiadurol y Cynllun ddim yn arbennig o ddefnyddiol o ran hyn. Y rheswm am hyn oedd (a) doedd y systemau ddim wedi'u sefydlu o gofnodi'n ofalus nac i ganiatáu echdynnu data canlyniadau o'r math hwn a (b) oedd data coll yn broblem gyffredin (wrth gwrs, mae'n anochel bod peth data'n cael ei golli megis colli cysylltiad gyda chleient, y mentor efallai ddim yn gwybod y canlyniad, ond hyd yn oed o ystyried hynny, roedd y cofnodion yn gyffredinol wael yn y maes hwn). Fodd bynnag, mae G4S, ers Ionawr 2008 wedi defnyddio system 'SSOM' (Mesur Canlyniadau Gwasanaethau Cymorth) i fesur 'y pellter a deithiwyd' gan gleientiaid i ddelio â phroblemau ac anghenion fel hyn, cymharu eu sgoriau ar ddechrau ac ar ddiwedd eu hymglymiad gyda TSS. Fel y nodwyd yn adran 5.4 uchod, mae datblygiad yr offeryn yn dal ar y gweill ac mae ganddo rhai gwendidau, felly mae'n rhaid bod yn wyliadwrus wrth drin y canlyniadau. Serch hynny, mae'n dangos bod nifer sylweddol o gleientiaid wedi gwneud cynnydd o ran gwella'u llety, cysylltu o'r newydd gydag asiantaethau arbenigol ar gyfer cyffuriau ac alcohol a chwrdd ag anghenion hyfforddi a chyflogaeth, yn arbennig cynnydd o 3% i 23% yn y gyfran oedd yn gysylltiedig ag asiantaeth megis Progress to Work. Mae ein dadansoddiad o'r sampl o 84 o ffeiliau achos yn ategu'r canfyddiadau hyn: cafwyd tystiolaeth o gynnydd i gwrdd â'u hanghenion llety mewn 29% o achosion, anghenion addysgol/hyfforddiant/cyflogaeth mewn 27% o achosion ac anghenion camddefnyddio sylweddau mewn 15% o achosion (y ffigwr olaf hwn, fodd bynnag, yn sylweddol is na'r hyn y mae SSOM yn ei awgrymu).

*6.4.5 Aildroseddu*

Fel y disgrifiwyd yn adran 5.5, ymgymerwyd ag astudiaeth fechan ac o angenrheidrwydd eithaf amrwd o ail-gollfarnu, yn seiliedig ar ddata TSS G4S ar droseddwyr oedd yn oedolion o ddynion a ymunodd â'r Cynllun ac a adawodd y carchar rhwng 2004-06, yn cymharu eu cyfraddau ail-gollfarnu (fel y'u cofnodwyd ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu) â rhai sampl o droseddwyr tebyg oedd yng ngharchar Parc dros yr un cyfnod ond na ymunodd â'r cynllun. Hefyd, amcangyfrifwyd cyfraddau ail-gollfarnu a ragwelwyd ar gyfer y ddau grŵp ac amrywiol is-grwpiau, gan ddefnyddio offeryn OGRS3. Dydy'r canlyniadau ddim yn awgrymu bod cymryd rhan yn TSS *ynddo'i hun* yn gysylltiedig â gostyngiad yng nghyfraddau ail-gollfarnu, ond fe welson ni wahaniaeth rhwng cyfraddau ail-gollfarnu troseddwyr a gwrddodd â'u mentoriaid ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau (ac yn arbennig y rhai a gwrddodd wyneb yn wyneb rhwng dwy a chwe gwaith) a'r rhai na wnaeth hynny. Ni chafwyd gwahaniaethau mawr rhwng cyfraddau troseddu *a ragwelwyd* ar gyfer y grwpiau hyn , ond er bod 83% o'r rhai na welodd eu mentor ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau wedi'i hail-gollfarnu, roedd hyn yn wir am 71% yn unig o'r rhai a welodd eu mentor 2-6 gwaith. Roedd ychydig o arwyddion y gallai'r Cynllun gyflawni gwell ganlyniadau gyda charcharorion hŷn na gyda charcharorion iau.

*6.4.6 Tystiolaeth ansoddol arall*

Yn olaf, cafodd yr ymchwil swm sylweddol o dystiolaeth ansoddol arall am bwysigrwydd ac ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan TSS. Cydnabuwyd bod TSS yn llenwi bwlch difrifol mewn gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli, a byddai gwerth llawn y Cynllun yn dod i'r amlwg petai'n diflannu. Dywedwyd gan amryw o bobl petai TSS yn peidio â bod, byddai 'rhwyd diogelwch' ar gyfer cyn-garcharorion yn diflannu (yn enwedig ar gyfer rhai â phroblemau alcohol neu broblemau gyda chamddefnyddio cyffuriau dosbarth B neu C), byddai mwy o straen yn cael ei roi ar asiantaethau eraill, a byddai ffynhonnell uchel ei hansawdd o gymorth emosiynol ac ysgogol ar gyfer troseddwyr yn cael ei cholli.

## 6.5 Sylwadau wrth gloi: cwestiynau ar gyfer y dyfodol

Rydyn ni'n gorffen yr adroddiad hwn gyda syniadau, sylwadau a chwestiynau ar ddarpar ddatblygiad TSS, yn codi naill ai o'n harsylwadau o'i arferion neu o awgrymiadau a wnaed gan y rhai a gyfwelwyd gennym am ddulliau o wella'r gwasanaeth. Roedd rhai o'r rhain yn codi cwestiynau am amcanion y Cynllun, tra bod eraill yn ymwneud â materion ymarfer.

*6.5.1 Cyfeiriadau a maint y maes: pa mor denau dylid taenu'r cymorth?*

Er gwaethaf llwyddiant TSS yn cwrdd â thargedau 2008 ar gyfer atgyfeirio, roedd cyfanswm nifer y cyfranogwyr yn bennaf yn cynnwys troseddwyr o ddau garchar – Parc ac Altcourse. Mae hyn yn codi cwestiynau am degwch a chyfleoedd cyfartal ymhlith carcharorion o Gymru i gael mynediad i wasanaethau mentora.

Mae angen cyfarwyddyd strategol gan y Bwrdd i ddelio â'r mater hwn. Os penderfynir bod angen mwy o ymdrech i ehangu'r mynediad, rhaid sefydlu trefniadau pendant ar gyfer hyn – dim ond dros dro mae dosbarthu taflenni neu wneud ymweliadau ysbeidiol i annog staff i wneud rhagor o atgyfeiriadau wedi profi'n effeithiol. Mae'n glir mai'r dull mwyaf effeithiol o gynyddu atgyfeiriadau o sefydliadau penodol yw sicrhau bod aelod o staff TSS yn ymweld â charchar yn rheolaidd a chyson a bod yr ymweliadau hyn yn cyd-daro mor agos â phosibl gyda threfn ddyddiol y carchar, megis prosesau sefydlu neu ffeiriau adsefydlu. Bydd hyn yn help i sefydlu TSS ym meddwl staff carchar a hyrwyddo trosglwyddo gwybodaeth yn rheolaidd amdano i garcharorion cymwys. Y pen draw wrth gwrs yw penodi gweithiwr mewngymorth arbenigol fel sydd yn Altcourse, lle mae'n ymddangos ei fod wedi cael effaith sylweddol ar y nifer o atgyfeiriadau o'r sefydliadau. Fodd bynnag, fel y nodir yn yr adroddiad, wrth gyflogi'r gweithiwr hwn mae'n golygu bod chwarter o gyllid mentora Nacro/CAIS wedi'i wario ar roi hwb i gynyddu atgyfeiriadau o un carchar. Os ystyrir y dylai carcharorion o Gymru mewn carchardai eraill elwa yn yr un modd, y strategaeth fwyaf amlwg fyddai i'r swydd hon gynnwys darpariaeth o waith mewngymorth rheolaidd rhan amser mewn dau neu dri sefydliad yn ychwanegol i Altcourse (gallai'r rhain gynnwys sefydliadau sy'n dal carcharorion sy'n dychwelyd i Ganolbarth neu Dde Cymru yn ogystal â Gogledd Cymru, o ddatblygu cydweithrediad agosach a chytundebau ariannol priodol rhwng dwy gainc y Cynllun). Dull arall o fynd ati fyddai gwneud trefniadau ffurfiol i bob mentor ymweld â charchar arbennig yn rheolaidd (e.e. bob pythefnos) yn benodol i weithio ochr yn ochr â staff i recriwtio cyfranogwyr newydd: mae hyn wedi gweithio'n dda yn Styal, lle mae un o fentoriaid Nacro yn ymweld bob tair wythnos a chymryd rhan yn gyson yn y prosesau sefydlu. Gellid cyplysu trefniadau fel hyn â thargedau atgyfeiriadau blynyddol y cytunwyd arnyn nhw gyda charchardai unigol.

Wrth gwrs, anfantais y math hwn o ddull yw y byddai angen mwy o waith a mwy o deithio er mwyn recriwtio nifer cyffelyb o gyfranogwyr. Rhan yw hyn o broblem ehangach sy'n wynebu sefydliadau megis TSS sydd â llawer mwy o ddarpar gleientiaid nag sydd yna o allu i'w cynorthwyo: pa mor denau dylid taenu'r cymorth? A ddylen nhw dderbyn y rhai sydd wedi'u lleoli fwyaf cyfleus (ac wedi'u clystyru ar eu dwysaf) a defnyddio'u hadnoddau'n bennaf i fentora'r grŵp hwn? Neu a ddylen nhw geisio cyrraedd poblogaeth ehangach a mwy gwasgaredig a gwario mwy o ymdrech ac adnoddau ar wneud y broses recriwtio'n fwy teg?

Agwedd arall o'r un broblem yw hyd a dwyster y gwaith mae mentoriaid yn ymgymryd ag e gydag unigolion. Er nad oedd y gwahaniaethau yn amlwg nac yn ddramatig, nododd yr ymchwilwyr bod tuedd i G4S a Nacro/CAIS fabwysiadu strategaethau gwahanol o ran hyn. Roedd tuedd i G4S weithio mewn modd oedd yn cynnig tua'r un faint o sylw i bob cleient, drwy drefnu cyfarfodydd wythnosol a chau achosion ar ôl cyfnod o dri mis (oni bai bod amgylchiadau eithriadol). I'r gwrthwyneb, roedd tuedd i fentoriaid Nacro gael eu harwain gan angen ('needs led' – ymadrodd a glywyd yn eithaf aml), ac roedd yn ymddangos bod mwy o amrywiaeth rhwng achosion o ran yr amser a roddwyd iddyn nhw. Gwelwyd rhai cleientiaid yn aml iawn ac ni chaewyd rhai achosion am nifer o fisoedd. Hefyd, er bod mentoriaid yn 'mynd ar ôl' cleientiaid petaen nhw'n colli apwyntiad (yn aml drwy weithdrefnau oedd wedi datblygu'n rhai safonol bron, galwadau ffôn ac yna anfon tri llythyr ac ymweliad oer cyn penderfynu nad oedd y cleient yn barod i ymglymu) byddai mentoriaid Nacro yn

llai tebygol o wneud hyn, yn canolbwyntio'u hymdrechion ar y rhai oedd yn gadarn eu hymglymiad.

Yn gyffredinol, gellid dadlau bod meddylfryd ac arferion tîm Nacro/CAIS yn eithaf nodweddiadol (sydd ddim yn syndod) o'r hyn a gafwyd yn y sector gwirfoddol, tra bod rhai'r G4S yn agosach at y sector statudol. Er enghraifft, roedd gweithwyr Nacro yn ymddangos yn llai pryderus am gyrraedd nifer fawr o ddarpar gleientiaid neu am gynnal cofnodion gofalus ar bob achos, ond yn fwy parod i fynd tu allan i'r canllawiau, yn fwy cyfforddus i weithio'n fwy dwys gyda llai o unigolion ac yn y blaen. Yn wir, roedd un a gyfwelwyd yn dadlau ei bod yn afresymegol mewn system 'needs led' i gyfyngu'r cymorth i uchafswm o dri mis. Ond, roedd tîm G4S, oedd (efallai'n adlewyrchu cefndir cyfiawnder troseddol mwyafrif o'i reolwyr) yn ymddangos yn ffocysu'n fwy ymwybodol ar faterion yn ymwneud ag aildroseddu ac ar raddfa'r angen am wasanaethau adsefydlu, yn rhoi mwy o bwyslais ar 'ledaenu'r rhwyd' ac annog mynediad i wasanaethau TSS mor eang â phosibl – hyd y oed y gallai hyn olygu 'dogni' faint o sylw y gellir ei roi i unigolyn. Rydyn ni'n pwysleisio bod hyn yn cyffredinoli safbwyntiau di-dor yn hytrach na dulliau sylfaenol o fynd ati, ond yn teimlo ei fod yn wir. Rydyn ni hefyd yn pwysleisio nad ydyn ni'n ystyried bod un dull yn 'well' na'r llall. Fodd bynnag, os – fel y casglon ni – ydy TSS yn cynrychioli adnodd gwerthfawr ac effeithiol iawn ar gyfer cyn-garcharorion, mae'n bwysig ystyried cwestiynau strategol am y cydbwysedd rhwng ehangu mynediad a chynnig cymorth dwys i gynnal ysgogiad troseddwyr i newid.

*6.5.2 Ehangu neu 'brif ffrydio' TSS?*

Yn ogystal â chyrraedd mwy o'r grŵp targed cyfredol – carcharorion tymor byr gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau – roedd rhai a gyfwelwyd yn dadlau bod angen ehangu gwasanaethau TSS i gategorïau eraill o droseddwyr, yn bennaf y rhai ar remand neu ar wasanaeth cymunedol. Nodwyd hefyd y byddai llawer o gleientiaid yn elwa o weithgareddau mwy strwythuredig i'w cadw'n brysur yn y gymuned nes iddyn nhw gael swydd, ac y gallai darparu gweithgareddau o'r math fod yn nod hirdymor y Cynllun. Wrth gwrs, mae cynyddu gallu'r Cynllun yn dibynnu ar gynnydd sylweddol yn y cyllid i gyflogi rhagor o fentoriaid a /neu weithwyr mewngymorth ac efallai agor mwy o swyddfeydd lleol. Er mwyn i hyn ddigwydd, (er y byddai'n annhebygol yn y sefyllfa ariannol sydd ohoni'n bresennol, er yn bosibl yn y dyfodol), byddai rhaid i statws TSS newid o fod yn 'brosiect' cymharol fach i rywbeth yn debycach i wasanaeth prif ffrwd a byddai rhaid ystyried sut byddai ei weithgareddau'n ffitio i mewn yn strategol i nifer o asiantaethau pwysig megis y gwasanaeth prawf a'r DIP. Gallai hyn hefyd olygu cydgomisiynu gwasanaethau TSS gydag asiantaethau eraill, y DIP yn enghraifft.

Roedd mwyafrif o'r rhai a gyfwelwyd yn eithaf gwyliadwrus wrth drafod y symud i'r cyfeiriad hwn. Er eu bod yn awyddus i sefydlu TSS ar sail ariannol sicrach ac ehangu ei weithgareddau, roedden nhw'n ofni y byddai'r Cynllun yn colli ei gymeriad unigryw a chael ei 'lethu' gan sefydliadau mwy gydag agendau a blaenoriaethau gwahanol, mae'n ymddangos mai'r farn gyffredinol yw y dylai unrhyw ehangu ar TSS fod yn araf, a'r flaenoriaeth gyntaf fyddai atgyfnerthu'r ariannu cyfredol ac ehangu contractau am gyfnodau hirach na'r cyfnod presennol o dair blynedd, gan osgoi problemau o ansicrwydd ac efallai colli staff wrth nesáu at ddiwedd cyfnod pob

contract – yn ddelfrydol gyda chyllid ychwanegol i gynyddu nifer y mentoriaid ac i ehangu gwaith 'mewngymorth'. Hefyd ystyriwyd bod dechrau sefydlu dulliau mwy strategol o ddelio â phartneriaethau gydag asiantaethau eraill, gyda threfniadau cydweithredol wedi'u cefnogi gan brotocolau a chytundebau ffurfiol yn hytrach na dibynnu'n ormodol ar gysylltiadau unigol, yn gam cychwynnol. Gallen nhw hefyd gynnwys cydgysylltu gweithgareddau a chyfuno adnoddau: er enghraifft, un awgrym oedd cydlynu casglu carcharorion o'r pyrth ar draws TSS, DIP, y gwasanaeth prawf a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, rhannu gwasanaeth bws-mini efallai.

Yn y tymor hirach, rhaid ystyried y ffynonellau ariannu mwyaf priodol ar gyfer TSS ac yn arbennig rhannu cyfrifoldeb rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a NOMS y mae TSS yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r ddau ohonyn nhw.

### *6.5.3 Athroniaeth, nodau ac arferion mentora*

Mae mwyafrif o dystiolaeth ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol ar fentora wedi ffocysu ar ei ddefnydd gyda phobl ifanc, yn bennaf mewn sefyllfaoedd addysgol a, hyd yma, prin ydy'r dystiolaeth am ei effaith ar oedolion neu yng nghyd-destun cyfiawnder troseddol[21]. Mewn adolygiad cyflym o dystiolaeth, dim ond dwy astudiaeth berthnasol ddaeth Joliffe a Farrington (2007a) o hyd iddyn nhw yn y DU – er, fel y cydsyniwyd yn ddiweddarach, anwybyddwyd Clancy et al. 2006, sydd, o bosib yr astudiaeth fwyaf cynhwysfawr Prydeinig o fentora carcharorion tymor byr sy'n oedolion. O'u harchwiliad o 18 o astudiaethau Americanaidd yn bennaf, daethon nhw i'r casgliad bod 'Mentora yn ymyriad addawol ond heb ei brofi hyd yn hyn': yn gyffredinol, roedd y canlyniadau'n awgrymu ei fod yn gostwng aildroseddu rhwng 4% ac 11 %, ond roedd angen ymchwil ar raddfa fwy a mwy cadarn cyn gwneud datganiadau cadarnach. Mae'r un awduron wedi nodi mai nod mentora yw gostwng aildroseddu a 'chynyddu canlyniadau bywyd positif' (Joliffe a Farrington 2007b), sy'n awgrymu – fel yr ydyn ni wedi ymresymu uchod – nad cyfraddau ail-gollfarnu tymor byr ddylai fod yr unig ganlyniad y dylid barnu ei effaith arnyn nhw.

Mae hyn yn codi cwestiynau ehangach am athroniaeth, nodau ac arferion mentora a'i ddarpar gyfaniad i'r system cyfiawnder troseddol yn Lloegr a Chymru. Er y crybwyllwyd droeon mewn dogfennau strategol ei fod yn weithgaredd addawol iawn ar gyfer y dyfodol (yn wir, 'Gwirfoddolwyr, Mentoriaid a Threfn Lywodraethol' oedd un o'r pum 'maes allweddol' a nodwyd yn nogfen NOMS yn 2005, Communities and Civil Renewal Strategy, Together We Can Reduce Offending), er, hyd yn hyn cyfyngwyd ei ddefnydd yn bennaf i brosiectau bach a byr hoedlog mewn carchardai unigol a dim ond ychydig ohonyn nhw sydd wedi cael eu gwerthuso. Mae'r rhain wedi amrywio o ran athroniaeth a dulliau o weithio, yn defnyddio mentoriaid naill ai'n cael eu talu neu ddim yn cael eu talu, cyfarfodydd estyn allan neu mewn swyddfa, cyfnodau byr neu gyfnodau hir o gymorth, ffocysu ar wahanol raddfeydd o gymorth ymarferol, ysgogi neu fod yn gyfaill, 'paru' troseddwyr gyda mentoriaid ai peidio, cysylltiad agos neu bell gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol ac yn y blaen[22].

[21] Yr astudiaeth fwyaf cynhwysfawr o fentora troseddwyr ifanc yw Tarling *et al* (2004) prosiectau arbrofol Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn ôl Rhaglen Gostwng Troseddu.

[22] Ymhlith yr amrywiaeth o enghreifftiau mae CARD (Cau Drws Troi/Closing a Revolving Door), sy'n defnyddio gwirfoddolwyr fel mentoriaid wedi'u 'paru'n' unigol gyda charcharorion tymor byr yn HMP

Datblygiad perthnasol pellach yw 'Cylchoedd Cymorth' ('Circles of Support'), a ddefnyddir yn bennaf gyda throseddwyr rhyw, lle mae grŵp o wirfoddolwyr yn ffurfio cylch procsi o gydnabod i gynnig rhyw fath o rhyngweithio cymunedol a chymorth i droseddwyr sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol yn ogystal ag i fonitro eu hymddygiad. (Kemshall 2008).

Os yw mentora i sefydlu i hun yn sicrach fel un o ddulliau ymyriad ar gyfer troseddwyr, bydd angen nid yn unig fwy o ymchwil i ddangos ei effeithiolrwydd – o gofio amrywiaeth ei nodau, arferion a lefel a mathau o hyfforddiant a gafwyd yn y gwahanol brosiectau – ond hefyd rhaid rhoi mwy o ystyriaeth i ddamcaniaethau sylfaenol mentora ac i gwestiynau ymarferol sut orau i'w drefnu a'i gyflenwi. Ar hyn o bryd, prin yw'r enghreifftiau o gynlluniau mentora yn sôn am 'fodel newid' na'i weithredu: mewn geiriau eraill, darparu model penodol o sut a pham mae newid (pa fath bynnag) yn debygol o ddigwydd, ac i adlewyrchu hyn mewn cyfarwyddyd i'w gweithwyr (amlygir y pwynt hwn hefyd gan Newburn a Shiner (2006) yng nghyd-destun mentora troseddwyr ifanc). Mae hyn yn effeithio ar gwestiynau ymarferol , megis i ba raddau dylid mynd i'r cyfeiriad o drafod ymddygiad troseddol gyda chleientiaid o'i gyferbynnu â darparu 'lles' yn unig; neu pa fath o gydbwysedd dylid ei geisio rhwng 'gwneud popeth dros y cleient' neu eu helpu i 'helpu eu hunain'. Byddai sicrhau mwy o eglurder yn gyfle i TSS – fel un o'r sefydliadau mwyaf a'r un sydd wedi'i sefydlu hiraf yn ymwneud â mentora oedolion o droseddwyr - i rannu ei wybodaeth a'i brofiad yn ehangach a thrwy hynny, chwarae rôl fwy gweithredol i helpu i ddiffinio arferion da a datblygu'r maes. Roedd yn amlwg o'n trafodaethau gyda rheolwyr a mentoriaid eu bod wedi datblygu eu modelau ymhlyg, os nad echblyg, eu hunain o newid drwy brofiad yn ogystal â thrwy ddamcaniaethu. Mae'r holl sylwadau canlynol yn cynnwys tybiaethau am sut a pham ddylai mentora 'weithio' – ac mewn rhai achosion, pam fod ganddo'r potensial i weithio'n well na mathau eraill o ymyriadau (megis rhai gan 'weithwyr cymorth'). Thema gyffredin yn y sylwadau yw normaleiddio, rhoi grym, ysgogiad ac adeiladu cysylltiadau personol sy'n ysbrydoli'n ddigonol i droseddwyr ymddiried yn y mentor. Byddai mynegi'r nodau hyn yn fwy systematig yn gyfraniad pwysig i ddyfodol mentora wrth adsefydlu carcharorion.

> *[Mae'n ymwneud â]… chael pobl yn ôl i fyw bywyd normal. Mae ysgogiad yn rhan fawr o waith TSS. Bod yno i rywun. Y cyswllt coll rhwng y carchar a'r byd mawr brawychus tu allan achos dyna ydy e iddyn nhw. Rhwyd diogelwch yw'r carchar iddyn nhw ac mae cerdded allan drwy'r pyrth a gwybod bod mentor yn aros amdanoch chi i fynd â chi i'r adran dai, i fynd â chi i'ch Gwely a Brecwast, i gael eich budd-daliadau i chi, i'ch cael i mewn i asiantaethau ac yna cwrdd a chael paned o goffi a sgwrs, cael y person normal hwnnw i siarad ag e. Dw i'n meddwl bod hynny'n rhan fawr o TSS.*
>
> [Rheolwr TSS]

---

Exeter sy'n cynnig cymorth iddyn nhw tu allan i'r carchar (http://www.eci.org.uk/card/card_purpose.htm); prosiect 'Connect', partneriaeth rhanbarthol a ariennir o Gronfa Gymdeithasol Ewrop a'i sefydlu yn 2004 rhwng pedwar Bwrdd Prawf a Gwasanaeth Carchardai Gorllewin Canolbarth Lloegr a ddefnyddiodd wirfoddolwyr lleol o fentoriaid i gynorthwyo a chynnal ysgogiad cyn-droseddwyr fel rhan o'r ymdrechion i wella'u cyflogadwyedd a pha mor hawdd fyddai canfod cartref iddyn nhw (h.y. eu gwneud yn ddeniadol i gyflogwyr a landlordiaid); a phrosiect peilot bach yn Hartlepool yn cynnig mentora i droseddwyr ar ddedfrydau cymunedol  (Booth 2005).

*Bod yno ar gyfer rhywun. Nid dweud wrth rywun beth i'w wneud ond rhoi cyfeiriad iddyn nhw ddilyn. Mae'n ymwneud â'r gallu i'w hysgogi i fynd i'r cyfeiriad y gallan nhw fynd. Efallai nad yw'n gyfeiriad penodol ond mae ganddyn nhw ddewisiadau. Os nad yw un yn gweithio, yna cychwyn eto. Eu helpu i helpu eu hunain i gyflawni'r pethau maen nhw'n dymuno'u cyflawni ond ddim yn meddwl y gallan nhw. Dangos iddyn nhw ei bod hi'n bosibl eu cyflawni. Mae'n anodd. Dw i ddim yn nawddogi neb. Bydda i'n dweud ei bod hi'n anodd – rydych chi'n gofyn i rywun newid ei holl ffordd o fyw, ei ymddygiad, ei ffordd o feddwl, popeth..* [Mentor 3]

*Efallai mai'r peth pwysicaf a ddysgais pan o'n i'n weithiwr cymorth roeddech chi'n cyflawni tasg, a dyna i gyd, ond fel mentor rydych chi'n dod i mewn, cael paned a sgwrsio â phobl, dod i'w nabod. Dod i wybod beth sy'n eu symbylu a bod yno os ydych nhw'n cael diwrnod gwael. Ond y gwahaniaeth mawr gyda mentora yw eich bod yn cael y rhyddid hwnnw i siarad a sgwrsio gyda phobl am eu problemau, nid bob amser yn broblemau ynglŷn â budd-daliadau'n uniongyrchol ond materion efallai'n ymwneud â hyfforddiant, rhywbeth personol ac er nad ydych yn arbenigwr, gallwch o leiaf fod yn glust a gwrando.* [Mentor 2]

*Gostwng aildroseddu ond ei gadw'n real. Achos bod gostwng aildroseddu yn nod uchelgeisiol iawn iawn. Felly, gostwng aildroseddu ond hefyd ystyried y ffactorau sydd y mynd gydag e. Er enghraifft, creu cymunedau gwell, diogelach a gostwng troseddau a marwolaethau'n gysylltiedig â chyffuriau drwy geisio cadw pobl yn iach. Dydy e ddim yn gweithio i bawb y tro cyntaf a dw i'n meddwl bod hynny'n anodd i'r darparwr yn ogystal ag i'r comisiynydd ac i'r person sydd wedi aildroseddu. Ond dyfal donc yw hi a dal ati.*
[Rheolwr TSS]

*Mae'n rhoi grym i bobl wneud pethau drostyn nhw eu hunain, a dw i'n egluro hynny o'r cychwyn cyntaf. 'Does gen i ddim ffon hud, nid fi yw'r marchog dewr sy'n mynd i'ch hachub chi. Dw i'n mynd 'ch helpu chi a cherdded gyda chi er mwyn i chi achub eich bywyd eich hun. Dw i ddim am ddweud wrthoch chi beth i'w wneud, ond fe wna i'ch cynghori chi ac yna mae i fyny i chi gymryd y cyngor ai peidio'. Mae'n ymwneud â phobl yn dod allan a thyfu.*
[Mentor 6]

*Mae'n rhoi grym iddyn nhw feddwl a thrwy'r gwasanaeth rydyn ni'n ei ddarparu yn eu galluogi i ddechrau gwneud gwell penderfyniadau. Fydd e ddim yn gweithio bob tro ond mae hyd yn oed un penderfyniad gwell yn well na dim oedd o'r blaen.*
[Rheolwr TSS]

Rydyn ni'n gorffen gyda dau sylw gan fentoriaid sy'n dweud llawer am realiti eu gwaith. Mae'r cyntaf yn ein hatgoffa o raddfa'r her a phwysigrwydd osgoi creu disgwyliadau eithafol o'r hyn y gellid ei gyflawni yn y tymor byr:

*Oherwydd nid dim ond gofyn i rywun ydych chi i beidio â chymryd cyffuriau ac i beidio ag yfed. Rydych chi'n gofyn i rywun newid eu bywydau'n gyfan gwbl.*

*Mae hynny'n ofyn mawr i unrhywun. Rydych chi'n gofyn iddyn nhw newid eu ffrindiau – a weithiau eu teulu, newid eu hymddygiad, newid eu ffordd o feddwl, newid y ffordd maen nhw'n ymddwyn. Ac mae'n anodd, mae angen dewrder i rywun ddod allan o'r carchar a newid eu bywyd. Mae'n golygu gwroldeb.*

Mae'r ail yn adlewyrchu'r ymdrech sydd ei angen gan fentoriaid i helpu troseddwyr gymryd un cam ar y llwybr hir tuag at ymatal rhag troseddu, ac eto ar yr un pryd y gwahaniaeth gall wneud i'r cleient a'r boddhad y gall y gwaith ei roi i'r mentor:

*Es i i'r adran dai ddoe am hanner awr wedi naw ac erbyn hanner awr wedi un ro'n i wedi gorffen yno. Ond petawn i ddim yn eistedd gyda'r person fydden nhw ddim yna achos rydych chi'n siarad am rywun sydd newydd ddod allan o'r carchar a'r peth cyntaf maen nhw'n dymuno'i wneud yw yfed a chymryd cyffuriau, dydyn nhw ddim yn mynd i aros yno. Ond rydych chi'n sicrhau llety i rywun ar ei ddiwedd ac mae hynny'n rhoi boddhad i chi. Rydych chi'n gwybod pan ewch chi adref i'ch gwely bod ganddyn nhw wely hefyd. Nid cysgu ar stepen drws.*

## LLYFRYDDIAETH


Booth, M. (2005) *Offender Mentoring Pilot Project: Evaluation Report*. Hartlepool New Deal for Communities Evaluation Team. www.ndc.org.uk/documents/EvaluationoftheOffenderMentoringPilotProject.doc

Burnett, R. (2004) 'To reoffend or not to reoffend? The ambivalence of convicted property offenders' in S. Maruna and R. Immarigeon (eds) *After Crime and Punishment: Pathways to Offender Reintegration*. Cullompton, Devon: Willan.

Clancy, A., Lane, J. and Maguire, M. (2005) *Moving Forward with Mentoring: An Evaluation of the Transitional Support Scheme in Wales*. Online report. Cardiff: Welsh Assembly Government.

Clancy, A., Hudson, K., Maguire, M., Peake, R., Raynor, P., Vanstone, M. and Kynch, J. (2006) *Getting Out and Staying Out: Results of the Prisoner Resettlement Pathfinders*. Bristol: Policy Press.

Farrall, S. (2002) *Rethinking What Works with Offenders*. Cullompton, Devon: Willan.

Farrall, S. and Calverley, A. (2005) *Understanding Desistance from Crime: New Theoretical Directions in Resettlement and Rehabilitation.*. Milton Keynes: Open University Press.

Frude, N., Honess, T. and Maguire, M (1994) *CRIME-PICS II Manual*. Caerdydd/Cardiff: Michael and Associates.

HM Inspectorates of Prison and Probation (2001) *Through the Prison Gate: A Joint Thematic Review.* Llundain: Y Swyddfa Gartref / Home Office.

Halliday, J. (2001) *Making Punishments Work*. London: Home Office.

HM Prison Service (2009) 'Prison population and accommodation briefing for 27th June 2008' oddi ar y we 26.02.09 [accessed via the World Wide Web on 26th February 2009]: http://www.hmprisonservice.gov.uk/assets/documents/10003BD527062008_web_report.doc

Howard, P., Francis, B., Soothill, K. and Humphreys, L. (2009) *OGRS3: The Revised Offender Group Reconviction Scale*. Research Summary 7/9. Llundain: Ministry of Justice. http://www.justice.gov.uk/oasys-research-summary-07-09.pdf

Hudson, K., Maguire, M. and Raynor, P. (2007) 'Through the Prison Gate: Resettlement, Offender Management and the Birth of the 'Seamless Sentence' in Jewkes, Y. *Handbook of Prisons*. Devon: Willan.

Jolliffe, D. & Farrington, D. (2007a). *A Rapid Evidence Assessment of the Impact of Mentoring on Re-offending*. Ar-lein: Swyddfa Gartref/Home Office Online Report 11/07. http://www.homeoffice.gov.uk/rds/pdfs07/rdsolr1107.pdf

Jolliffe, D. and Farrington, D (2007b) 'Does Mentoring Reduce Reoffending? Evidence from a Systematic Review' *Paper presented at the annual meeting of the American Society of Criminology*, Atlanta, Georgia, Tach 14, 2007.

Kemshall, H. (2008) *Understanding the Management of High Risk Offenders*. Maidenhead: Open University Press.

Lewis, S., Maguire, M., Raynor, P., Vanstone, M., Vennard, J. (2007) 'What Works in Resettlement? Findings from Seven Pathfinders for Short-term Prisoners in England and Wales' *Criminology and Criminal Justice,* Vol 7 (1), 33-53.

Maguire, M. and Raynor, P. (2006) 'How the resettlement of prisoners promotes desistance from crime: or does it?' *Criminology and Criminal Justice,* Vol 6 (1), 17-36.

Maguire, M. (2007) 'The Resettlement of Ex-Prisoners' in Gelsthorpe L. and Morgan, R. *Handbook of Probation Studies*. Devon: Willan.

Maguire, M., Raynor, P., Vanstone, M. and Kynch, J. (2000) 'Voluntary After-Care and the Probation Service: a case of diminishing responsibility', *Howard Journal of Criminal Justice* 39, 234-248.

McNeill, F. (2005) 'Towards a Desistance Paradigm for Probation Practice' *Criminal Justice* Special Issue.

Maruna, S. (2000) *Making Good*. Washington: American Psychological Association.

Maruna, S. and Immarigeon, R. (eds 2004) *After Crime and Punishment: Pathways to Offender Reintegration*. Cullompton, Devon: Willan.

Nacro (2000) *The Forgotten Majority: The Resettlement of Short-Term Prisoners*. Llundain (Nacro): National Association for the Care and Resettlement of Offenders.

Newburn, T. and Shiner, M. (2006) 'Young people, mentoring and social exclusion' *Youth Justice*, 6, 1, 23-41.

Social Exclusion Unit (2002) *Reducing Re-offending by Ex-Prisoners.* Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog/Office of the Deputy Prime Minister.

Tarling, R., Davison, T. and Clarke, R. (2004) *The National Evaluation of the Youth Justice Board's Mentoring Projects*. Institute of Social Research, Prifysgol Surrey. http://www.crimereduction.homeoffice.gov.uk/workingoffenders/workingoffenders54.htm

**ATODIAD A. TABL 1**

**Natur prif drosedd y cleientiaid a gyfeiriwyd at Nacro Cymru/CAIS TSS, Ionawr i Hydref, 2008**

| **Math o brif drosedd** | **%** |
|---|---|
| Ymosodiad/ABH/GBH/clwyfo | 20% |
| Torri gorchymyn/profiannaeth/trwydded | 17% |
| Byrgleriaeth | 9% |
| Dwyn ceir | 2% |
| Difrod Troseddol | 3% |
| Trosedd yrru | 6% |
| Trosedd gyffuriau | 6% |
| Twyll | 0% |
| Trafod nwyddau wedi'u lladrata | 1% |
| Arall | 2% |
| Trefn Gyhoeddus | 6% |
| Trosedd rywiol | 1% |
| Lladrata | 16% |
| Ymddygiad bygythiol | 1% |
| Trosedd arfau | 4% |
| Heb eu cofnodi | 5% |
| Cyfanswm Nifer | 233 |

Sylwer: Efallai nad yw'r colofnau'n crynhoi i 100% oherwydd talgrynnu.

## ATODIAD B ASTUDIAETHAU ACHOS

**Astudiaeth achos Mark**

Roedd Mark, dyn yn ei bedwar degau cynnar, yn y carchar ar ei ail ddedfryd o yfed a gyrru pan ymunodd â Chynllun Cymorth Trosiannol Gogledd Cymru (TSS). Gan fod ei gamddefnydd o alcohol wedi'i arwain at ddau gyfnod yn y carchar "o fewn dau fis" a Mark yn teimlo na allai ei fywyd suddo ymhellach, penderfynodd bod angen iddo wneud rhywbeth am ei broblem. Ar ôl gweld taflen TSS ar hysbysfwrdd, gofynnodd Mark i swyddog ei adain a allai wneud ymholiadau am y Cynllun ar ei ran. Yn ddiweddarach yr un diwrnod, daeth gweithiwr mewngymorth y carchar i'w weld ar yr adain ac egluro'r Cynllun iddo. Er i gyfarfod cyntaf Mark gyda'r gweithiwr mewngymorth roi syniad cyffredinol iddo o'r hyn roedd y Cynllun yn ei gynnig, roedd wedi "synnu" ar lefel a natur y cymorth ac aeth ymlaen i'w dderbyn cyn iddo gael ei ryddhau. "Maen nhw wedi gwneud llawer mwy na'r disgwyl a bod yn onest". Yn gyntaf, defnyddiodd y gweithiwr mewngymorth becyn meddalwedd COMMIT i helpu Mark ddelio gyda'i gamddefnydd o alcohol. "Aeth drwy resymau dros ac yn erbyn yfed gyda fi ac roedd hynny'n syndod mawr achos don i ddim yn ystyried pa mor wael o'n i cyn dod i mewn yma. Roedd e wir yn agoriad llygad". Yn ail, cwrddodd y mentor â Mark ar ddau achlysur ar wahân. Fel y dywedodd: "Dwedais wrthi hi beth oedd ei angen arna i a ddwedodd hi wrtha i sut oedd mynd o'i chwmpas hi. Er mai dieithryn oedd hi, ron i'n teimlo'n gyfforddus yn siarad â hi ... ac roedd hi fel 'tae hi'n hoffi gwrando".

Cyn iddo gael ei ryddhau, trefnodd y mentor i Mark fynd i weld y canlynol: ei feddyg y diwrnod ar ôl iddo gael ei ryddhau i gael tabledi 'gwrth-gamddefnyddio' i'w helpu i ddelio â'i broblem o gamddefnyddio alcohol; gweld Tîm Cymorth Alcohol Cymunedol ar yr un diwrnod a'r mentor ei hunan y diwrnod canlynol. Fel mae Mark yn dweud, "Mae'n dod allan i'r tŷ, sydd erioed wedi digwydd o'r blaen gyda CAIS". Hefyd, gan nad oedd Mark yn gallu gyrru (o ganlyniad iddo golli ei drwydded yrru am bedair blynedd oherwydd ei droseddau), dywedodd y mentor y byddai, os oedd angen, yn ei gasglu a mynd ag e i apwyntiadau angenrheidiol – hyn eto'n synnu Mark gan " nad oedd dim byd tebyg wedi digwydd yn y gorffennol". Cafodd Mark ei becyn cymorth teilwredig, oedd yn barod iddo pan ddaeth allan o'r carchar, yn "help". Fel y dywedodd, "Dw i ddim yn credu y gallen nhw [y Cynllun] wneud mwy, a bod yn onest. ... Dw i'n gwybod cyn dod allan y bydd gen i apwyntiad ... Gwn na fydd rhaid i mi aros am help pan fydda i'n dod allan. Gwn ei fod yn aros amdana i".

Yn ystod y misoedd ar ôl iddo gael ei ryddhau, doedd Mark ddim wedi yfed o gwbl: "Dim dropyn", honnai. Y rheswm sylfaenol am hyn oedd bod ei feddyg wedi presgreibio tabledi gwrth-gamddefnyddio. Fel dwedodd Mark: "Maen nhw wedi newid fy mywyd. ... Fedra i ddim yfed. Dw i ddim eisiau yfed. Maen nhw'n dileu a diddymu'r blys am yfed". O ganlyniad uniongyrchol i stopio yfed, mae Mark yn dweud: "Dw i'n teimlo fel person newydd ... Don i erioed yn meddwl y byddai dim byd yn gweithio, a bod yn onest ... ond mae'r tabledi hyn wedi newid popeth. Mae fy merch yn agosach ata i, mae fy ngwraig yn agosach ata i. ... [ac] mae fy mrawd a fi lawer mwy agos na fuon ni erioed". Pan holwyd Mark a fyddai wedi mynd at ei feddyg teulu heb gymorth ei fentor, atebodd Mark: "Fyddwn i ddim wedi cael y tabledi gwrth-gamddefnyddio achos don i ddim yn ymwybodol ohonyn nhw nes i'r mentor sôn amdanyn nhw". A hyd yn oed petai Mark wedi bod yn ymwybodol o'r

tabledi, dywedodd na fyddai'n "gwybod at bwy i droi nac i bwy i ofyn amdanyn nhw". Ar ben hynny, pan aeth at y doctor i gael y tabledi, dywed Mark mai drwy "ymyriad y mentor" ar ei ran y gwnaeth ei feddyg eu rhoi iddo. Pan ofynnwyd iddo a oedd ei fentor wedi gwneud popeth yr oedd wedi gofyn iddi ei wneud pan oedd yn y carchar, ei ateb oedd: "Wrth gwrs. ... Alla i ddim diolch digon iddi. Ers iddo gael ei ryddhau, mae Mark a'i fentor yn siarad ar y ffôn yn gyson. Fel y dywedodd: "eith ddim pythefnos heibio heb ein bod yn siarad neu ... fydd hi'n picio i mewn". Mae'r ffaith bod Mark yn gallu ffonio'r mentor pryd bynnag mae'n teimlo'r angen i wneud hynny'n gysur mawr iddo. "Mae ei rhif ar fy nau ffôn symudol. Os ydw i'n teimlo'n isel... mae hi yna, chi'n gwybod, rhywun i siarad ag e ... a gwybod bod rhywun yno".

**Astudiaeth achos Paul**

Roedd Paul, dyn ifanc, canol ei ddauddegau, yn y carchar ar ddedfryd o fyrgleriaeth pan ymunodd â Chynllun Cymorth Trosiannol Gogledd Cymru (TSS). Swyddog ar ei adain ddwedodd wrth Paul am y Cynllun ac wedyn trosglwyddo'i fanylion i weithiwr. Fel dwedodd Paul: "delion nhw gydag e'n eithaf cyflym. .... felly ron i'n hapus gyda hynny ... Es i draw i weld y gweithiwr mewngymorth a'r mentor yn yr uned adsefydlu a ddwedon nhw eu bod yno i fy helpu gydag unrhyw broblemau oedd gen i". Pan ofynnwyd iddo pam ei fod wedi dewis ymuno â'r Cynllun, dwedodd, "Dw i wedi bod yn y carchar nifer o weithiau a heb gael unrhyw help ... Dw i ddim yn credu i mi dderbyn unrhyw help o'r blaen achos don i ddim eisiau newid, ond rŵan dw i eisiau ... Ac yn y bôn, y tro hwn, cynigiwyd help i mi ac fel gymerais i'r help". Cyn iddo gael ei ryddhau, cwrddodd Paul â'i fentor ddwy waith. Fel y dywed Paul; "Mae'r mentor wedi bod yn help mawr ... Dwedodd wrtha i am y sefyllfa dai yn lleol yn fy ardal ... gwasanaethau eraill ... mod i'n gallu defnyddio CAIS a Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau ... a dwedodd y byddwn yn gallu cwrdd yn rheolaidd i weld sut mae pethau'n mynd". Hefyd, tra roedd yn y ddalfa, defnyddiodd gweithiwr mewngymorth becyn meddalwedd COMMIT i helpu Paul i ddelio â'i gamddefnydd o alcohol. "Diolch i'r gweithiwr mewngymorth, dw i'n ymwybodol o faint dw i'n yfed.

Cyn iddo gael ei ryddhau, bwriad Paul oedd gweld ei fentor ar ddydd ei ryddhau: "Dwi am gwrdd ag e, gan ei fod am ddod i'r adran dai gyda mi i wneud yn siŵr nad oes gen i broblemau gyda'r swyddogion tai … am fy llety dros dro". Pan holwyd e a oedd llety wedi ei drefnu ar gyfer adeg ei ryddhau, meddai Paul. "Mi fydd hynny'n wych iawn … o leia mae gen i rywle allai alw'n gartref ... yn hytrach na fel roeddwn i'n gorfod byw allan ar y stryd neu mewn lle orlawn gyda ffrindiau". Am y problemau eraill wrth ddod allan, meddai Paul, "Dwi ddim yn credu bydd gen i broblemau os gallai gadw cysylltiad gyda [y mentor]".

Ar y diwrnod cafodd Paul ei ryddhau o'r carchar, casglwyd e wrth y pyrth gan y mentor i fynd ag e adref, "rhywbeth oedd yn help mawr" yn ôl Paul. Fel yr eglurodd: "Cyn i fi ddod allan, ro'n i'n meddwl beth oedd yn mynd i ddigwydd i mi? Ydw i'n mynd i drwbl cyn hyd yn oed cyrraedd yr orsaf drenau?" Yn anffodus, ychydig o ddyddiau ar ôl iddo gael ei ryddhau, taflwyd Paul allan o'r hostel roedd wedi cael ei roi gan nad oedd yr hostel yn caniatáu cyffuriau nac alcohol yn yr adeilad. Yng ngeiriau Paul: "pwysau cymheiriaid oedd e, bod o gwmpas pobl unwaith eto, bod nôl ar y tu allan, mynd am un diod, a'r un yn arwain at ddwsin ... ac fe ges i fy nhaflu allan". Er bod y digwyddiad hwn wedi gwneud i Paul feddwl "sut dw i wedi cael fy hun yn yr un twll eto?", trefnodd y mentor iddo aros mewn ail hostel. Fel y dywed

Paul: “Cododd y mentor fi ar fy nhraed a dweud ‘dydy'r byd ddim ar ben eto’ a rhoi cyfle arall i fi”. Ers hynny, mae Paul wedi cadw ei le yn yr hostel am dros ddau fis. Fel mae Paul yn dweud: “Achos yn yr hostel chewch chi ddim yfed ... mae hynny wedi fy helpu i ... dwi’n teimlo llawer iachach nag oeddwn i yn y carchar”. Er bod y mentor yn parhau i helpu Paul i ddelo â’i anghenion llety a’i hyfforddiant a chyflogaeth, pan ofynnwyd iddo beth oedd y peth mwyaf defnyddiol roedd y mentor wedi gwneud, atebodd Paul: “Fy rhoi yn y llety 'ma lle mae cymorth ar gael i fi o ran fy mhroblem yfed”.

Yn ystod y misoedd ers iddo ddod allan o’r carchar, mae Paul wedi parhau i weld ei fentor “ddwy neu dair gwaith yr wythnos” ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Hefyd, fel mae Paul yn disgrifio: “weithiau bydd y mentor hefyd yn fy ffonio i wneud yn siŵr mod i’n iawn ac yn iach ac yn cadw allan o drwbl yn yr hostel”. Pan ofynnwyd iddo roi sylwadau ar ei berthynas gyda’i fentor, atebodd Paul: “Mae jyst yn siarad â fi , wedi bod yn neis efo fi ac wedi bod yn help mawr i fi ... Mae wedi cael fi allan o drwbl. Bydden i ar goll hebddo fe”.

**Astudiaeth achos Sally**

Cyflwynwyd Sally gyntaf i TSS ar ôl iddi gael ei rhyddhau o HMP Eastwood Park. Roedd ei mentor yn ymweld â chyfranogwr arall pan gwrddon nhw. Ar ôl egluro manylion y Cynllun iddi, penderfynodd Sally yr hoffai gymorth mentor.

Roedd wedi’i dedfrydu i 12 mis o Ofyniad Adsefydlu ar gyfer Cyffuriau a gorchymyn goruchwylio 24 mis am gyflenwi cyffuriau Dosbarth A, bwriad i gyflenwi a meddu heroin/'crac cocên'. Mae Sally’n dweud iddi ariannu ei harfer ei hun drwy beidio â thalu rhent, biliau am wasanaethau ayb., yn aml yn gwario hyd at £80 y diwrnod.

Un ffactor a gyfrannodd at Sally’n cymryd cyffuriau oedd y bwlio roedd wedi ei ddioddef yn yr ysgol. Teimlai mai’r unig bobl oedd yn ei derbyn hi oedd yr rhai oedd yn gaeth i gyffuriau a bod hyn wedi ei help gyda’r bwlio. Serch hynny, mae Sally’n dweud bod ei theulu wedi bod yn gefn iddi drwy’r dyddiau mwyaf tywyll. Roedd partner Sally yn edrych ar ôl ei mab teirblwydd tra roedd hi yn carchar ac ni fu erioed mewn gofal.

Pan ymunodd Sally â TSS, roedd angen help arni yn benodol i drefnu talu ei dyledion a’i hysgogi i ddal ati i fynychu ei hapwyntiadau gan gynnwys eu hapwyntiadau gyda DRR gan gynnwys disbensio methadone. Mae Sally wrth ei bodd ei bod nawr yn talu ei dyledion a bod ganddi ei fflat ei hun a char. Ei gobaith

yw chwilio am swydd pan fydd ei mab yn mynd i'r ysgol llawn amser y flwyddyn nesaf a'i huchelgais yw mynd yn gwnsler neu swydd debyg ac mae'n dweud bod yna swydd yn DRR y mae'n gobeithio y caiff ei hystyried ar ei chyfer.

Mae Sally'n disgrifio TSS yn brofiad hollol gadarnhaol ac ni fyddai'n newid dim yn y Cynllun – er yr hoffai fod wedi clywed am TSS pan oedd hi yn y carchar yn ystod ei chyfnod Sefydlu.  Mae'n teimlo ei bod wedi gallu bod yn hollol onest ac agored a dal dim yn ôl.  Ers hynny, mae wedi ysgrifennu at nifer o ffrindiau sydd yn y carchar ar hyn o bryd yn eu cynghori i gysylltu â TSS.

Mae Sally'n dweud, "daliwch ati i wneud y gwaith da a diolch am bob cymorth a ges i.  Dw i wrth fy modd i fod yn rhan o dîm Ymgynghorwyr Grŵp Cymheiriaid achos mae'r cyfarfodydd yn rhoi rhywbeth i mi edych ymlaen ato ac yn gyfle i mi ddefnyddio fy mhrofiad i helpu eraill".

**Astudiaeth achos Barry**

Cyflwynwyd Barry gyntaf i TSS pan fynychodd Ffair Adsefydlu fisol HMP & YOI Parc, tua mis cyn iddo gael ei ryddhau. Eglurodd ei fentor, N--, y gwasanaeth roedd TSS yn ei gynnig a threfnu i gwrdd â Barry ar ôl iddo gael ei ryddhau.

Doedd Barry ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl gan TSS ond sylweddolodd yn fuan bod angen delio â'i broblem llety yn ogystal â'i broblemau gydag alcohol a chyffuriau. Bu Barry yn y carchar dair gwaith am ymddygiad treisgar yn dilyn sesiynau o oryfed. Digwyddodd un o'r rhain tra roedd Barry yn y dref gyda ffrindiau. Ymosododd ar fachgen a merch heb ddim rheswm.

Soniodd Barry am yr adeg wedi iddo gael ei ryddhau o'r carchar ar ôl dedfryd hir, fel y dechreuodd yfed eto, gan yfed bron bob dydd achos doedd ganddo 'ddim byd arall i'w wneud'. Dywedodd ei fod, yn ogystal ag yfed yn drwm, wedi bod drwy gyfnodau o gymryd cyffuriau. Achosodd hyn broblemau gartref, yn enwedig pan ddeuai adref a 'phasio allan'.

Yn ystod eu cyfarfod cyntaf, teimlai N-- ei bod yn bwysig iddi hi a Barry geisio sicrhau llety i roi ychydig o annibyniaeth iddo. Helpodd Barry i gwblhau atgyfeiriad i asiantaeth dai ar gyfer eu prosiect yn nhre'r Barri ac roedd y cais hwn yn llwyddiannus. Awgrymodd N-- hefyd y dylai Barry ymrestru ar gwrs yn y coleg, ac erbyn hyn, mae'n gwneud yn dda ar gwrs gwaith plymwr ac yn gwneud TGAU Mathemateg a Saesneg. Mae'r cwrs gwaith plymwr yn golygu bydd Barry'n blymwr cymwysedig ymhen dwy flynedd a bydd wedyn yn chwilio am waith gyda golwg ar sefydlu ei fusnes ei hun ar ôl ennill profiad.

Mae Barry yn chwaraewr rygbi a pheldroed brwd. Ar ôl gwella o lawdriniaeth ar ei fraich yn ddiweddar, mae'n gobeithio dychwelyd i ymarfer a'i obaith yw chware rygbi i dîm lled-broffesiynol.

Dwedodd Barry fod TSS yn brofiad positif iawn iddo oherwydd y gellid dibynnu ar y bobl oedd yn rhan ohono.